# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 13EG TACHWEDD, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 6 Tachwedd 2025)

## PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

### AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Ioan Thomas
Menna Baines
Huw Rowlands
Edgar Wyn Owen
Elfed Wyn ap Elwyn
Dafydd Meurig
Arwyn Herald Roberts
Meryl Roberts

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Angela Russell
Elwyn Jones
Richard Glyn Roberts
Wendy Cleaver

## Aelodau Lleyg (6)

Elwyn Rhys Parry
Carys Edwards
Hywel Eifion Jones
Peter Barnes
Paul Millar-Mills
Dewi Lewis

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 14

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 9fed o Hydref 2025 fel rhai cywir

**5. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR** 15 - 20

I ystyried yr adroddiad a chynnig sywladau

**6. CYFRIFON TERFYNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025 A'R ARCHWILIAD PERTHNASOL** 21 - 164

Cyflwyno –

- Datganiad o'r Cyfrifon ôl-archwiliad;
- Adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru
- Llythyr Sylwadau (Atodiad 4 ISA260 Archwilio Cymru)

**7. CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR GWE AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL** 165 - 250

Cyflwyno –

- Datganiad o'r Cyfrifon GwE ôl-archwiliad;
- Adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru.
- Llythyr Sylwadau

**8. CYLLIDEB REFENIW 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2025** 251 - 276

I nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau i'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

**9. RHEOLAETH TRYSORLYS 2025/26 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** 277 - 288

I ystyried yr adroddiad fel gwybodaeth

**10. CYFRADDAU CASGLU TRETH CYNGOR** 289 - 295

I dderbyn yr adroddiad, sylwebu ar y cynnwys a chefnogi gweithrediadau sydd mewn lle gan yr adran.

**11. MENTER TWYLL GENEDLAETHOL 2024-25: DIWEDDARIAD** 296 - 307

I nodi'r cynnwys, cynnig sylwadau a derbyn yr adroddiad.

**12. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR** 308 - 310

I ystyried yr adroddiad

**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 9fed o Hydref 2025**

**Presenoldeb:** Cadeirydd: Carys Edwards
Is-gadeirydd: Rhys Parry

**Cynghorwyr:** Menna Baines, Elfed Wyn ap Elwyn, Elwyn Jones, Edgar Wyn Owen, Richard Glyn Roberts, Huw Rowlands, Angela Russell ac Ioan Thomas

Aelodau Lleyg: Dewi Lewis, Peter Barnes a Paul Millar-Mills

Swyddogion: Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Luned Fôn (Rheolwr Archwilio), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), David Lloyd Williams (Cyfrifydd Grŵp), a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd: Cyng. Huw Wyn Jones (Aelod Cabinet Cyllid) ac Yvonne Thomas (Archwilio Cymru)

Eitem 6: Ffion Mai Jones (Uwch Reolwr Gweithredol)

Eitem 8 ac 13: Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)

Eitem 13: Cyng. Nia Jeffreys (Arweinydd y Cyngor)

Rhoddwyd cyfle i'r tri aelod lleyg newydd, Dewi Lewis, Peter Barnes a Paul Millar-Mills, gyflwyno eu hunain i'r Pwyllgor gan rannu gwybodaeth am eu cefndir a'u diddordebau.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Cynghorwyr Dafydd Meurig, Arwyn Herald Roberts, Meryl Roberts ac Eifion Jones. Roedd y Cyng Wendy Cleaver yn cael problemau technegol ac wedi methu ymuno.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Pryder am gostau petai Cyngor Gwynedd yn apelio dyfarniad Cyfarwyddyd Erthygl 4 yr Uchel Lys a sut fydd y Cyngor yn paratoi ymateb / cyfarch y goblygiadau o ddefnyddio arian trethdalwyr i gyfarch y gost.

Mewn ymateb i'r pryder, nododd y Pennaeth Cyllid, er yn fater brys, bod y gwasanaeth angen cyfle i baratoi ymateb ffurfiol. Nododd bod y Cyngor yn ystyried apêl yn erbyn y dyfarniad a bod cost yr apêl yn rhan o'r ystyriaethau hynny. Ategodd y bydd diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y dyfodol agos a bod y risg yma yn un priodol i'r Pwyllgor ei ystyried.

**4. COFNODION**

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 11eg o Fedi 2025 fel rhai cywir.

## 5. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel bod modd i'r Aelodau gael sicrwydd bod eu penderfyniadau yn cael sylw. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y penderfyniad a wnaed gyda bwriad o ddileu'r eitem / penderfyniad pan fydd y weithred wedi cwblhau.

Tynnwyd sylw at y wybodaeth gefndirol am Gronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan oedd wedi ei gynnwys yn dilyn cais gan y Pwyllgor yng nghyfarfod Medi 2025. Nodwyd bod arddull y wybodaeth wedi ei gyflwyno fel mae'n ymddangos yn nogfennau llywodraethu'r pedair elusen ar wefan Comisiwn Elusennau.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn cynnwys yr adroddiad**

Nodyn: Cais i gynnwys yr enw llawn yn hytrach na defnyddio acronym

## 6. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cyllid mewn ymateb i'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Pwrpas y cynllun yw gosod allan y rhagolygon am sefyllfa'r Cyngor dros y tair blynedd ariannol nesaf gan gynnig rhagdybiaethau yn ogystal â chynigion i fynd i'r afael â'r bwlch ariannol mae'r Cyngor yn ei wynebu. Eglurwyd bod y ddogfen yn un byw sydd yn cael ei diweddaru yn gyson fel daw gwybodaeth i law ac i'r rhagolygon neu dybiaethau ariannu cenedlaethol a lleol newid. Bydd unrhyw ddiweddariadau yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid nad yw canfod toriadau ar gyllideb a gwasanaethau'r Cyngor yn broses newydd gan fod toriadau bellach yn cael eu cyflwyno yn flynyddol. Ymfalchïwyd bod y Cyngor wedi llwyddo i gynnal gwasanaethau er lleihad yng nghyllidebau adrannau ond un rhan o'r gwaith yw adnabod y bwlch ariannol sydd dros y tair blynedd nesaf yn £40 miliwn a gwaith bellach yn mynd rhagddo i ymdrechu i lenwi'r bwlch drwy gynllun ffeithiol. Pwysleisiwyd bod y rhagdybiaethau yn seiliedig ar sail gwybodaeth y blynyddoedd diwethaf ac y bydd pwysau i wario llai, edrych ar gynyddu incwm a gweithredu cynlluniau arbedion.

Yng nghyd-destun y setliad, nodwyd bod diffyg eglurder o gyfeiriad y llywodraeth yn golygu fod cynllunio ymlaen llaw yn anodd ar gyfer 2026/27 o ganlyniad i negeseuon cymysg bod ychwanegiad i gyllideb y sector gyhoeddus gan Lywodraeth San Steffan ond daw rhybudd na all Llywodraeth yng Nghaerdydd gynyddu gwariant cyhoeddus o dan yr amgylchiadau economaidd presennol. Cyfeiriwyd hefyd at y posibilrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn gosod 'rollover budget' ar gyfer 2026/27, sef parhau gyda chyllideb eleni gydag ychwanegiad bychan tuag at chwyddiant yn unig. Amcangyfrifwyd y byddai'r ychwanegiad cyfartalog o ddeutu 1.5% i Wynedd o dan y fformiwla dyrannu. Bydd disgwyliad eglurder ar lefel setliad Gwynedd erbyn Tachwedd 2025.

Materion i'w hystyried:

- Bydd chwyddiant tal blynyddol i athrawon yn 4% yn 2026/27 a 3.4% i staff eraill – rhain yn gyflogau sydd yn cael eu cytuno'n genedlaethol ac mae rheidrwydd i ariannu'r cynnydd blynyddol
- Bydd cynnydd mewn ardollau
- Bod cynnydd yn nifer eiddo talu treth, ond dim ffigwr wedi ei gynnwys

- Rhagweld gostyngiad i'r gyfradd pensiwn yn dilyn ailbrisiad. Y gronfa bensiwn mewn sefyllfa iach ac felly cyfle i ostwng cyfraniadau - rhagweld arbediad yma o £3 miliwn.
- Bydd pob Adran i gyflwyno achos busnes ar gyfer arian ychwanegol gyda rhesymeg dros yr angen amdano. Bydd pob bid yn cael ei ddadansoddi mewn manylder gyda'r gronfa ar gyfer hyn wedi ei leihau o £8 miliwn i £5 miliwn.

Er bod amser ymateb i'r sefyllfa yn brin (o dderbyn y setliad i osod cyllideb gytbwys), cadarnhawyd y gobeithir cyflwyno amrywiol opsiynau ar gamau nesaf i'r dyfodol.

Ategodd yr Uwch Swyddog Gweithredol bod canfod arbedion heb effaith bellach yn anodd a gydag ansicrwydd yn y meysydd gofal, anghenion dysgu ychwanegol a digartrefedd, nad oedd angen brysio i wneud toriadau. Adroddwyd y byddai sesiynau briffio yn cael eu trefnu yn rhoi diweddariadau ar y sefyllfa i'r holl aelodau etholedig a lleyg.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut y gall y Cyngor barhau i gyflawni arbedion a chynnal gwasanaethau, nodwyd bod pocedi o arbedion effeithlonrwydd ar gael gan awgrymu er enghraifft, mwy o ddefnydd technoleg (er bod cyfnod o drawsnewid ac addasu'r ffordd o weithio fel arfer yn hirach na chyfnod gwireddu'r arbediad). Ategwyd mai'r her yw bod yn arloesol, gan ddefnyddio dychymyg i weithio yn wahanol, ac er nad yw'r cronfeydd yn llenwi'r bwlch, mae'n prynu amser cyn i gynlluniau ddod i rym; bod rhai o'r cynlluniau angen eu mireinio a'u datblygu gyda gwybodaeth a dealltwriaeth o sut bydd y gwaith yn symud ymlaen.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â geiriad gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, lle disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys cynlluniau ariannol yr awdurdod, **lle'n briodol,** a phwy sydd yn penderfynu yr hyn sy'r briodol, nodwyd mai geiriad y mesur sydd yma ac mai rôl y Pwyllgor yw edrych ar y cynllun ariannol tymor canolig fel gofyn statudol y mesur.

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol:
- Bod arbedion wedi eu cyflawni yn y gorffennol - rhaid ystyried hyn yn risg, er yn parhau yn bosib
- Bod angen ystyried yr awgrym o roll over budget yn risg i'r Cyngor
- Bod angen cydnabod etholiad Mai 2026 fel risg
- Doeth yw cael cronfa wrth gefn ond angen bod yn ofalus o'r defnydd

Mewn ymateb i wybodaeth ynglŷn â pham defnyddio Band D ac os oes bwriad ail-fandio oherwydd gostyngiad mewn prisiau tai, nodwyd mai Deddf Llywodraeth Leol 2012 sydd yn amlinellu defnydd Band D fel sylfaen drethiannol a bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu bandiau treth cyngor er nad oes mwy o fanylder ar gael. Nodwyd nad yw bandiau Cymru wedi eu haddasu ers 2003.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag arian sydd heb ei adnabod a'r posibilrwydd o dderbyn arian ychwanegol, nodwyd bod rhaid, yn gyfreithiol, gosod cyllideb erbyn Mawrth 11eg 2026 ac felly rhaid amlygu ymlaen llaw lle fydd yr arian ychwanegol yma yn cael ei ddefnyddio.

Yng nghyd-destun premiwm treth Cyngor a'r bwriad i'w glustnodi ar gyfer ail fuddsoddi yn y maes tai, gofynnwyd petai dim defnydd yn cael ei wneud ohono a fydd opsiwn i'w gyfeirio at faes arall. Mewn ymateb, nodwyd mai penderfyniad i'r Cyngor Llawn fydd hynny ac er nad yw'n cael ei ystyried ar hyn o bryd, ni ellid ei anwybyddu fel opsiwn i'r dyfodol. Er hynny, bydd unrhyw drafodaeth neu argymhelliad yn un tryloyw.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r gostyngiad pensiwn a pham bod penderfyniad wedi ei wneud i gymryd yr arbediad o £3miliwn mewn un flwyddyn yn hytrach na £1 miliwn dros

dair blynedd, nodwyd mai'r dewis oedd lleihad o 1% bob blwyddyn neu gymryd yr arbediad o £3 miliwn yn llawn. Ystyriwyd mai dyma oedd yr opsiwn orau gyda phosibilrwydd y bydd mwy na £3 miliwn oherwydd nad oedd y ffigyrau terfynol wedi eu rhyddhau.

Mewn ymateb i gwestiwn petai Llywodraeth Cymru yn methu pasio'r gyllideb, nodwyd bod mecanwaith statudol mewn lle i barhau

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gostyngiad arwyddocaol yn ffigyrau poblogaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer setliad 2024/25 ac os mai marwolaethau oedd y rheswm dros hyn, nodwyd nad y newid ym mhoblogaeth Gwynedd ynddo ei hun oedd yn creu effaith, ond y newid i boblogaeth Gwynedd mewn cymhariaeth ac nid ym mhoblogaeth weddill Cymru. Nodwyd mai gostyngiad mewn myfyrwyr ym Mangor oedd un o'r rhesymau a hynny yn cymharu gyda Siroedd eraill gyda cholegau a phrifysgolion eraill yng Nghymru. O ran ffigyrau gostyngiad poblogaeth y Sir, nodwyd bod y wybodaeth ar gael a bod mod ei rannu gyda'r Pwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â defnydd o oddeutu £3.7 miliwn  sydd yn incwm o dreth cynhwysion plastig ac os oes angen ei ddefnyddio ar gyfer isadeiledd gwastraff, nodwyd nad oes rhaid defnyddio'r arian i gyd ar gyfer y gwasanaethau ail-gychu, bod modd defnyddio cyfran o'r arian ar wariant cyffredinol.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn y wybodaeth gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt sefyllfa ariannol y Cyngor**

Nodyn:
Paragraff 2.10 o'r Cynllun. Cais i  rannu gwybodaeth / ffigyrau gostyngiad poblogaeth y Sir

## 7. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion, ystyried penderfyniadau i'r Cabinet (11-11-2025) a sylwebu fel bo angen. Nodwyd bod yr adroddiad yn amlygu'r sefyllfa hyd ddiwedd Awst 2025.

Amlygwyd, yn adroddiad Cyllideb 2025/26 i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2025, adroddwyd fod arbedion gwerth £3.5 miliwn wedi eu proffilio ar gyfer cyllideb 2025/26 sydd yn gyfuniad o werth £100k wedi eu cymeradwyo o'r newydd yn 2025 a £3.4 miliwn oedd wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol.

Adroddwyd, dros y blynyddoedd diwethaf, ac fel sydd wedi ei adrodd i'r Pwyllgor yn gyson, gwelwyd trafferthion gwireddu arbedion mewn rhai meysydd. Tynnwyd sylw at yr arbedion newydd ynghyd a'r arbedion oedd wedi eu cymeradwyo cyn hynny, megis cynlluniau arbedion hanesyddol am y cyfnod o'r flwyddyn ariannol 2015/16 hyd at y flwyddyn ariannol 2025/26 gyda 98% o'r arbedion hanesyddol wedi eu gwireddu sef £33.8 miliwn o'r £34.3 miliwn o arbedion, bellach wedi eu gwireddu. Yng nghyd-destun cynlluniau sydd yn parhau heb eu gwireddu mae'r gwerth yn £627 o filoedd, gyda'r mwyafrif ohonynt yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

Yng nghyd-destun cynlluniau arbedion newydd  gwerth £15.6 miliwn, adroddwyd bod 77% o'r arbedion eisoes wedi eu gwireddu gyda 4% pellach ar drac i gyflawni'n amserol. Er hynny, nodwyd bod risgiau i wireddu'r arbedion yn amlwg mewn rhai meysydd, megis yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

Adroddwyd, yn dilyn adolygiad diweddar gan y Prif Weithredwr o gynlluniau arbedion, daethpwyd i'r canlyniad fod angen:

- dileu un cynllun arbedion yn y maes Cyswllt Cwsmer ar gyfer adolygu oriau agor Siop Gwynedd yn y tair prif swyddfa, sydd werth £25k
- lleihau'r targed incwm o £100k i £20k ar sail dros dro ar gynllun Neuadd Dwyfor gan yr Adran Economi a Chymuned am gyfnod o ddwy flynedd er mwyn rhoi amser i adnabod cyfleoedd i weithredu. Awgrymwyd y bydd yr arbediad yn cael ei ddileu gan ddefnyddio'r ddarpariaeth arbedion a osodwyd o'r neilltu yn y gyllideb gorfforaethol.

Wrth grynhoi'r darlun, adroddwyd bod £46 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu (92% o'r £50 miliwn gofynnol dros y cyfnod) ac fe ragwelir y bydd 1.3% pellach yn cael ei wireddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (er bydd oediad a rhai risgiau i gyflawni'r cynlluniau sydd yn weddill).

Diolchwyd am yr adroddiad

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol:
- Beth yw'r rhesymeg o leihau targed incwm Neuadd Dwyfor?
- Rhaid bod yn wyliadwrus o'r argymhellion yn y maes Gofal - os na ellir gwireddu'r arbedion rhaid diddymu neu ail adolygu.
- Bod adrannau bellach yn crafu am lefydd i dorri ac ymrwymiadau cyfreithiol, statudol, sydd angen eu cyflawni, yn cynyddu
- Bod darparu gwasanaethau a chadw'r balans ariannol yn frwydr parhaus
- Bod y maes Gofal angen mwy o gyllid ac nid gorfod wynebu mwy o arbedion; y galw am wasanaethau a'r galw statudol yn cynyddu.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2025/26 a blynyddoedd blaenorol**

## 8. ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor. Atgoffwyd yr Aelodau bod yr eitem yn un i'w ystyried fel rôl llywodraethu ac nid fel rôl craffu gyda chais i'r Pwyllgor fod yn fodlon bod trefniadau priodol yn ei lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sydd yn codi o archwiliadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.

Nodwyd bod y gwaith o ymateb i'r rhan fwyaf o gynigion gwella yn waith parhaus a bod y Grŵp Llywodraethu sydd yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr yn rhoi sylw i'r cynigion gwella ac i'r cynnydd o'r argymhellion. Ategwyd, i'r cynigion hynny sydd yn derbyn casgliad yn nodi 'wedi ei gwblhau', wedi ei rannu yn ddau er mwyn adlewyrchu os yw'r argymhellion wedi eu gwireddu neu os ydynt yn waith parhaus ar gyfer yr adran. Adroddwyd bod yr adroddiad hefyd yn gryno o gymharu ag adroddiadau blaenorol a hynny oherwydd bod nifer wedi eu cwblhau ac felly wedi eu dileu, a bod cyflwyniad ffurflen ymateb sefydliadol ffurfiol i archwiliadau, sy'n gosod amserlen bendant, wedi hwyluso'r broses. Cyfeiriwyd at gam ychwanegol sydd yn cael ei gyflwyno, lle bydd y broses Herio a Chefnogi Perfformiad yn gwirio bod adrannau yn gweithredu ar yr hyn a argymhellwyd yn yr ymateb sefydliadol.

Tynnwyd sylw at archwiliad 'Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o'r Ysbyty' gan nodi bod y Pwyllgor i dderbyn 'diweddariad pan yn amserol'. Amlygwyd bod y Bwrdd Rhanbarthol wedi derbyn adroddiad cynnydd yn ystod Gwanwyn 2025 ac yn dilyn hynny gofynnodd y Bwrdd am ddiweddariad cynnydd arall 'ymhen deuddeg mis'. Cynigiwyd opsiwn o rannu'r

adroddiad cynnydd gwreiddiol neu oedi hyd Gwanwyn 2026 i dderbyn adroddiad cynnydd mwy diweddar.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad**

Nodyn:
Derbyn adroddiad cynnydd o'r Archwiliad 'Llif allan o'r Ysbyty' , Gwanwyn 2026

**9. DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor 2025/26 hyd 30 Mehefin 2025, yn erbyn Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2025/26 a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn Mawrth 2025. Nodwyd, yn unol â gofynion y strategaeth bod gofyn i'r Rheolwr Buddsoddi adrodd ar ddangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys yn chwarterol.

Adroddwyd bod y cyfnod wedi bod yn un prysur a llewyrchus iawn i weithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor ac ni wnaeth unrhyw sefydliad wnaeth y Cyngor fuddsoddi arian gyda methu â thalu nôl ac mae incwm llog rheolaidd yn cael ei dderbyn

Ar 30 Mehefin 2025, roedd y Cyngor mewn sefyllfa gref iawn gyda buddsoddiadau net a hynny oherwydd y lefel uchel o fuddsoddiadau a chyfalaf gweithredol. Roedd hyn yn cynnwys arian y Gronfa Bensiwn. Nodwyd nad oedd unrhyw symud sylweddol wedi bod yn lefel y benthyciadau yn y 3 mis dan sylw; y Cyngor yn parhau gyda'r strategaeth o ddefnyddio adnoddau mewnol cyn benthyca'n allanol. Adroddwyd er hynny, bod y Cyngor wedi talu'n ôl fenthyciad hanesyddol o £16.2 miliwn ac o ganlyniad yn dod ag arbedion cadarnhaol i'r Cyngor. Yng nghyd-destun gweithgareddau buddsoddi, ategwyd bod y Cyngor yn parhau i fuddsoddi mewn Banciau a Chymdeithasau Adeiladu, Awdurdodau Lleol, Cronfeydd Marchnad Arian, Swyddfa Rheoli Dyledion a Chronfeydd wedi'i pwlio, a rhain yn gyson gyda'r math o fuddsoddiadau sydd wedi ei wneud gan y Cyngor ers nifer o flynyddoedd bellach.

Yng nghyd-destun adroddiad cydymffurfiad a dangosyddion, adroddwyd bod yr holl weithgareddau wedi cydymffurfio'n llawn gyda chod ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor - hynny yn newyddion da, ac yn amlygu rheolaeth gadarn dros yr arian.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i sylw pam yr angen i fenthyca os oes arian digonol yn y reserfau, nodwyd bod y benthyciadau hyn yn rhai hanesyddol ac nad oedd y Cyngor wedi benthyca ers 20 mlynedd. Nodwyd bod cymal cosb y cytundebau benthyg yn golygu eu bod fel arfer yn rhy gostus i'w terfynu'n gynnar, ond bod cyfle wedi codi i ad-dalu benthyciad o £16.2 miliwn yn dilyn ail broffilio a thrafodaethau gydag Arlingclose. Mae'r cyfle i ad-dalu'r benthyciad yma yn gynnar yn un o werth."

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth**

## 10. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddaru'r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod o 12 Mai 2025 hyd 28 Medi 2025. Amlygwyd bod 3 o archwiliadau cynllun gweithredol 2024-25 wedi eu cwblhau a 6 o archwiliadau cynllun gweithredol 2025-26 wedi eu cwblhau ac wedi ei gosod ar lefel sicrwydd uchel; digonol neu gyfyngedig.

Cyfeiriwyd at bob archwiliad yn ei dro.

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

Clybiau brecwast

- aelodau staff (yn ystod yr ymweliadau) heb gwblhau hyfforddiant Tân nac unrhyw un o fodiwlau e-ddysgu mandadol y Cyngor – hyn yn fater sylfaenol
- polisi alergedd, canllawiau mewn perthynas â darparu offer piws i bob plentyn sydd gydag alergedd

Plas Hedd / Plas y Don

- Staff Gofal wedi gorfod gweithio shifftiau yn y gegin er mwyn sicrhau fod preswylwyr yn cael eu bwydo
- Nad oedd modd cadarnhau sawl aelod staff sydd wedi darllen y Polisi Diogelu na wedi cwblhau modiwlau E-ddysgu mandadol - hyn yn fater sylfaenol, er derbyn diffyg adnoddau, oes cysondeb yn yr un cartrefi, oes gwelliant o flwyddyn i flwyddyn? Gall hyfforddiant arbed y risg o ddamweiniau a chostau apêl!
- Bod yr un Cartrefi Gofal yn torri rheoliadau yn gyson – hyn yn bryder mawr

Mewn ymateb i'r sylwadau, nodwyd bod cael gweithwyr maes i gwblhau modiwlau hyfforddiant mandadol yn broblem drwy'r Cyngor a bod y Panel Diogelu a'r Grŵp Gweithredol Diogelu yn ymwybodol o'r broblem ac yn ceisio codi ymwybyddiaeth drwy'r Cyngor i geisio datrys modd o sicrhau bod y gweithwyr yn cael at y wybodaeth. Amlygwyd bod côd QR yn cael i dreialu fel un dull o gael gweithwyr i gwblhau modiwlau ar eu ffonau symudol a bod gwaith yn cael ei wneud i annog hyfforddiant wyneb yn wyneb yn hytrach na chwblhau modiwl ar lein.

Yng nghyd-destun bod staff heb gymhwyster yn gweithio mewn ceginau yn bryder, nodwyd bod recriwtio staff yn parhau yn broblem o fewn y maes gofal ac yn derbyn nad oedd y sefyllfa yn ddelfrydol. Ategwyd bod y Gweithgor Gwella Rheolaethol wedi cynnal archwiliad gyda rheolwyr rhai o'r Cartrefi Gofal a bod gwelliannau wedi eu cynnig. Nodwyd bod yr archwiliadau yn cael eu cynnal mewn cylch tair blynedd a bod tri o'r cartrefi wedi derbyn archwiliad dilynol gyda bwriad yntau cyflwyno adroddiad dilyniant i'r Pwyllgor neu i'r Gweithgor Gwella Rheolaethol drafod materion penodol mewn manylder gyda'r Rheolwyr cyn adrodd i'r Pwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiwn os yw Archwilio Mewnol yn rhannu eu canfyddiadau gydag Arolygaeth Gofal Cymru ac os oes llwybr cyfathrebu clir gyda'r Arolygaeth, nodwyd bod Archwilio Mewnol yn edrych ar adroddiadau'r Arolygaeth i gartrefi i weld os oes camau gweithredu wedi eu cynnwys a thystiolaeth o welliant, ond nad oedd Archwilio Mewnol yn rhannu canlyniadau eu harchwiliadau gyda'r Arolygaeth. Ategwyd bod modd ystyried hyn a chanfod llwybr cyfathrebu clir i rannu canfyddiadau.

Nododd y Cadeirydd bod Rheolwyr y Cartrefi Gofal wedi mynegi yn y Gweithgor Gwella Rheolaethol bod addasiadau mewn telerau gwaith wedi arwain at broblemau staffio a recriwtio. Awgrymwyd y dylid ail edrych ar y telerau hyn gan nad yw'r sefyllfa wedi ei chyfarch yn llawn.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Cefnogi gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol**

Nodyn:
- Creu llwybr cyfathrebu ac ystyried modd o rannu canfyddiadau archwiliadau mewnol mewn Cartrefi Gofal gydag Arolygaeth Gofal Cymru
- Cais i ail ystyried gwell telerau ar gyfer denu mwy o weithwyr i'r maes Gofal

## 11. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2025/26

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26. Cyfeiriwyd at statws y gwaith ynghyd a'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Amlygwyd bod 13.33%, allan o'r 45 archwiliad unigol sydd yn y cynllun diwygiedig, bod 6 wedi ei ryddhau yn derfynol / cwblhau, neu wedi cau.

Tynnwyd sylw at sesiwn hyfforddiant 'Safonau Archwilio Mewnol Byd Eang', (Ionawr 2026) sydd wedi ei drefnu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor fel cyfle iddynt drafod agweddau gwaith a rôl y Pwyllgor.

Diolchwyd am yr adroddiad gan nodi mai tîm bychan iawn oedd yma i gyfarch ystod eang o feysydd.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd yn erbyn Cynllun Archwilio 2025/26**

## 12. RHAGLEN GYFALAF 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2025

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Cyllid yn amlygu rhaglen gyfalaf (sefyllfa diwedd Awst 2025) ynghyd a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor graffu'r wybodaeth a chynnig sylwadau cyn cyflwyno am gymeradwyaeth y Cabinet 11 Tachwedd 2025.
Cyfeiriwyd at ddadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £152.9 miliwn am y 3 blynedd 2025/26 - 2027/28 ynghyd a'r ffynonellau sydd ar gael i ariannu'r cynnydd net sydd oddeutu £47.9 miliwn ers y gyllideb wreiddiol, gyda £36.9 miliwn ohono yn deillio o ail broffilio ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol.
Ategwyd,

- Bod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi £100.7 miliwn yn 2025/26 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £47.4 miliwn (47%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol.
- Bod £12.4 miliwn ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2025/26 i 2026/27 a 2027/28.
- bod y prif gynlluniau sydd wedi llithro ers y gyllideb wreiddiol yn cynnwys £4.5 miliwn Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill), £3.5 miliwn Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro, £1.2 miliwm Darpariaeth Cydariannu Prosiectau Gofal, £1.0 miliwn Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol a £1.0 miliwn Cynlluniau Grantiau ac Eraill Tai

Tynnwyd sylw at restr grantiau ychwanegol mae'r Cyngor wedi llwyddo eu denu ers yr adolygiad diwethaf a oedd yn cynnwys, £2.9 miliwn – Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau, £2.0 miliwn – Grant Ynni Cymru – gan Lywodraeth Cymru tuag at fatris trydanol a gwaith ym Mhlas Ogwen, £1.8 miliwn – Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig – telir swm i Gyngor Gwynedd i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru, £1.4 miliwn – Grant Cyfalaf Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru a £0.8 miliwn – Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Cyfeiriwyd at y wybodaeth am Ddangosyddion Darbodus Cyfalaf y Cyngor gan amlygu, yn unol â'r Côd Darbodus gan CIPFA, bod rhaid adrodd ar y wybodaeth - ategwyd bod y Cyngor wedi cydymffurfio yn llawn gyda pholisi ar fenthyca at ddibenion cyfalaf.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad a chytuno ar yr argymhellion i'r Cabinet eu hystyried**

**13. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL A HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD 2024/25**

Croesawyd y Cyng. Nia Jeffreys ( Arweinydd y Cyngor) a Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd drafft o Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor gan ofyn iddynt gynnig sylwadau ac argymhellion ar gynnwys yr adroddiad. Adroddwyd bod yr Hunanasesiad yn ofyn statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sydd hefyd yn nodi bod angen cynnwys y Pwyllgor yn y broses hunanasesu.

Atgoffwyd yr aelodau bod eu sylwadau a'u hargymhellion ar y materion drafft o gyfarfod mis Mai 2025 wedi eu hymgorffori yn yr Hunanasesiad ac y byddai unrhyw sylwadau pellach yn yr un modd yn cael eu cynnwys gyda disgwyliad i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn eu hystyried.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod cynnydd o 1% yn nifer y boblogaeth o oedran gweithio a chynnydd yn nifer bobl 65 oed a throsodd yn y Sir yn awgrymu goblygiadau mawr i'r gwasanaeth gofal ac iechyd i'r dyfodol. A oes astudiaethau neu ymchwil wedi ei wneud i edrych ar yr effeithiau hyn?
- Bod Cynllun Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 wedi ei gyhoeddi, ond beth yw allbwn y cynllun hwnnw?
- Bod cyfeiriad at gyflwyno Erthygl 4, ond a oes angen ychwanegu sylw at y sefyllfa bresennol?
- Holiadur Lles Staff / Arolwg Staff – angen ceisio cyrraedd at holl weithwyr y Cyngor i gael gwell ymateb.
- Yn wahanol i adroddiadau eraill sydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor, bod yr adroddiad yn un o ddyhead yn hytrach na datganiad o ffaith. Y ddogfen yn hunan-hyrwyddol - angen adlewyrchiad mwy realistig, ffeithiol a defnyddiol ac awgrym i gynnwys esiamplau a thystiolaeth i roi sylwedd i rai brawddegau yn yr adroddiad
- Cynllun Penrhos - angen hyrwyddo datblygiad gwasanaethau gofal ym Mhenrhos ac nid tai yn unig
- Strategaeth Llifogydd - croesawu ystyriaeth i'r brif ffordd A499

Mewn ymateb i'r sylw bod yr adroddiad efallai yn hunan-hyrwyddo a bod angen bod yn fwy 'gonest', nodwyd bod yr adroddiad yn amlygu cryfderau, ond bod gwendidau a risgiau hefyd wedi eu cynnwys. Derbyniwyd yr awgrym i gynnwys enghreifftiau a thystiolaeth i gryfhau rhai elfennau o'r adroddiad. Yng nghyd-destun y cynnydd ym mhoblogaeth hŷn y Sir a gostyngiad yn niferoedd pobl ifanc, nodwyd bod y Prosiect Llechen Lân wedi edrych ar hyn a bod cyfeiriad at y gwaith hwnnw yn yr adroddiad eisoes. Mae'r Prosiect hefyd yn cynnwys cynlluniau er mwyn ceisio ymateb i'r sefyllfa.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pwyllgor ac i'r swyddogion am eu gwaith, sydd yn cynnwys ystod eang o bynciau.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad drafft**

Nodyn:

- I ystyried effaith gostyngiad mewn niferoedd pobl ifanc a chynnydd ym mhoblogaeth hŷn y Sir ar wasanaethau'r Cyngor
- Cyfeirio at waith sydd yn cael ei wneud i gynyddu ymatebion arolwg staff
- Cynnwys esiamplau a thystiolaeth i roi sylwedd i rai brawddegau yn yr adroddiad

## 14. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd blaen raglen o eitemau ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor hyd Medi 2026.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag ystyried ychwanegu eitemau i'r blaen raglen, nodwyd bod y Cadeirydd yn cynnal trafodaethau gyda'r Pennaeth Cyllid i drafod y blaen raglen gan sicrhau nad yw'r eitemau yn gorgyffwrdd ag eitemau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor. Ategwyd bod nifer o'r eitemau yn rhai cylchol a statudol, ond bod lle i ystyried mwy o eitemau os ydynt yn briodol i waith y Pwyllgor.

Gwnaed cynnig i dderbyn diweddariad ar waith polisi eithrio premiwm.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn y rhaglen waith ar gyfer Tachwedd 2025 – Hydref 2026**
- **Cais am ddiweddariad o waith yn Adran Gyllid ar lunio polisi eithriadau i'r premiwm ar y dreth gyngor yn achos busnesau llety hunan ddarpar sy'n methu cyrraedd y trothwy gosod 182 diwrnod.**

Nodyn:
Dileu eitem Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol mis Tachwedd gan ei fod wedi ei drafod Hydref 2025

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 13:20

____________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **13 TACHWEDD 2025** |
| TEITL | **GWEITHREDU PENDERFYNIADAU Y PWYLLGOR** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO DIWEDDARIAD AR WEITHREDU PENDERFYNIADAU BLAENOROL Y PWYLLGOR** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio, fel bod modd i'r aelodau gael sicrwydd fod eu penderfyniadau yn cael sylw.

1.2 Mae hyn yn cyfrannu at roi sicrwydd i'r aelodau fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithredu'n effeithiol.

1.3 Mae'r eitem hon yn gyfle i holl aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y penderfyniadau a wnaed. Lle mae'r gweithrediad wedi ei gwblhau, neu lle nad oedd gweithrediad pellach yn angenrheidiol, mae'r llinell yn cael ei dynnu o'r tabl ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y mater.

## 2. PENDERFYNIADAU ERS SEFYDLU'R CYNGOR NEWYDD (MAI 2022)

**Cyfarfod 5 Medi 2024**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R CYNGOR | Derbyn cynnwys yr adroddiad.<br>Nodyn: Ychwanegu i'r daflen penderfyniad:<br>• Bod angen cynnal sesiwn gwybodaeth ar y maes digartrefedd i aelodau'r Pwyllgor ddeall y maes yn well ac i ddeall y rhesymau pam fod costau yn y maes mor uchel | **Dim sesiwn wedi ei drefnu hyd yma - angen cadarnhau cynnwys y sesiwn er mwyn i swyddogion o'r Adran Tai ac Eiddo baratoi'n addas.** |
| ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL A HUNANASESIAD (drafft) CYNGOR GWYNEDD 2023/24 | Derbyn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a'r Hunanasesiad Drafft 2023/24.<br>Nodyn:<br>1. Angen ystyried trefniadau ymgynghori priodol i'r dyfodol i sicrhau mewnbwn trigolion Gwynedd yn y broses<br>2. Angen cynnwys y Pwyllgor yn gynharach yn y broses – awgrym i gynnal gweithdy gyda'r Aelodau fel bod y Pwyllgor yn cael mewnbwn a gwell cyfle i gynnig argymhellion | **Cyflwynwyd yr adroddiad ym mhwyllgor Hydref 2025. Mae camau dilynol sy'n deillio o'r pwyllgor yma yn y rhan perthnasol o'r adroddiad isod.** |

| | | |
|---|---|---|
| | Prosiectau Gwynedd Yfory<br>• Moderneiddio Adeiladau ac Amgylchedd Dysgu - ychwanegu bod arolygiad RAC wedi ei gynnal<br>• Hyrwyddo Llesiant Plant a Phobl Ifanc - ychwanegu bod cynlluniau / ymgyrchoedd yn eu lle gan yr Adran Addysg i wella presenoldeb disgyblion<br>• Ymestyn Cyfleoedd Chwarae a Chymdeithasu – ychwanegu cefnogaeth ariannol ychwanegol gan y Cyngor i Ganolfannau Byw'n Iach – hyn wedi bod yn benderfyniad positif | |

**Cyfarfod 10 Hydref 2024**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| ARCHWILIO CYMRU: GOFAL BRYS AC ARGYFWNG: 'LLIF ALLAN O'R YSBYTY – RHANBARTH GOGLEDD CYMRU' | • Derbyn cynnwys yr adroddiad<br>• Cyflwyno diweddariad ar yr argymhellion ymhen 12 mis | **Disgwylir diweddariad amserol.** |

**Cyfarfod 16 Ionawr 2025**

| | | |
|---|---|---|
| ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU | • Derbyn yr adroddiad Cenedlaethol a Lleol<br>• Derbyn ymateb y Cyngor i'r argymhellion<br><br>Nodyn:<br>• Yn dilyn derbyn cefnogaeth a chanllawiau CIPFA, Rhaglen Waith yr ymateb i'w chyflwyno i'r Pwyllgor erbyn Mawrth 2026<br>• Adroddiadau Perfformiad fydd yn cael eu cyflwyno i Bwyllgorau Craffu i arddangos bod y gofynion statudol yn cael eu cyfarch | **Disgwylir i'r pwyntiau gweithredu yma gael eu cwblhau yn amserol.**<br><br>**O ran adroddiad CIPFA -**<br>**Mae'r adroddiad drafft wedi cael ei dderbyn gan CIPFA ac yn y broses o gael ei derfynu. Bydd amserlen gweithredu yn cael ei addasu i adlewyrchu hynny.** |

**Cyfarfod 6 Chwefror 2025**

| | | |
|---|---|---|
| ADRODDIAD ARCHWILIAD ARBENNIG – GOFAL CARTREF | • Derbyn a nodi'r cynnydd i ganfyddiadau arolwg Archwilio Mewnol a'r<br>drefniadau Gofal Cartref y Cyngor<br>• Croesawu'r Rhaglen Waith drylwyr sydd mewn lle i wella'r ddarpariaeth<br>• Bod angen diweddariad pellach ymhen 12 mis ar gynnydd a llwyddiant y rhaglen waith | **Disgwylir i'r pwynt gweithredu perthnasol gael ei gwblhau yn amserol.** |

**Cyfarfod 22 Mai 2025**

| | | |
|---|---|---|
| HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD | • Derbyn adroddiad drafft 2024 /25 o HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD<br>Sylwadau:<br>• Cynllun Penrhos - angen pwyslais ar ddatblygiad gwasanaethau gofal ym Mhenrhos ac nid tai yn unig<br>• Strategaeth Llifogydd – ystyriaeth i'r brif ffordd A499<br>• Effeithiau Erthygl 4<br>• Dyfodol Cynllun ARFOR – sicrwydd parhad i'r Cynllun<br>• Trefniadau Diogelu Ysgolion – angen sylw pellach | **Cyflwynwyd yr adroddiad ym mhwyllgor Hydref 2025. Mae camau dilynol sy'n deillio o'r pwyllgor yma yn y rhan perthnasol o'r adroddiad isod.** |

**Cyfarfod 11 Medi 2025**

| | | |
|---|---|---|
| DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2024 / 25 | • Derbyn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (drafft)<br>• Derbyn Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (drafft)<br>• Cymeradwyo'r Datganiad, ac argymell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo<br>Nodyn:<br>• Cywiro sgôr cyfredol Risg Cyllid o 20 i 15 yn yr adroddiad Cymraeg, pwynt 4.2<br>• Bod cyd-destun risg 'diwylliant' yn cyfeirio at egwyddorion sylfaenol Ffordd Gwynedd<br>• Cais am fwy o wybodaeth i sicrhau bod trefniadau mewn lle i wella gwasanaethau<br>• Cais i'r adroddiad Cyfraddau Casglu Treth Cyngor amlygu premiwm tai | **Bydd y sgoriau risg llywodraethu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am ddatblygiadau o fewn yr adrannau.**<br><br>**Mae'r adroddiad ar Gyfraddau Casglu Treth Cyngor ar y blaenraglen i'w gyflwyno I'r Pwyllgor ar 13 Tachwedd.** |

| | | |
|---|---|---|
| ADOLYGIAD O'R CYNLLUN DIRPRWYO | • Derbyn yr adroddiad yn cefnogi diwygiadau arfaethedig i'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion ynglŷn a chaffael gwaredu eiddo ac argymell i'r Cyngor Llawn i gymeradwyo'r newidiadau. | **Yr eitem wedi ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 2 Hydref 2025. Dim gweithrediad pellach.** |

**Cyfarfod 9 Hydref 2025**

| | | |
|---|---|---|
| CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG | • Derbyn y wybodaeth gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt sefyllfa ariannol y Cyngor<br><br>Nodyn: Paragraff 2.10 o'r Cynllun. Cais i rannu gwybodaeth / ffigyrau gostyngiad poblogaeth y Sir | **Mae ffigyrau poblogaeth siroedd a ddefnyddiwyd ar gyfer y setliad yn ymddangos yn yr Atodiad.** |
| TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION | • Derbyn yr adroddiad<br>• Nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2025/26 a blynyddoedd blaenorol | **Dim Gweithrediad Pellach.** |
| ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL | • Derbyn yr adroddiad<br><br>Nodyn: Derbyn adroddiad cynnydd o'r Archwiliad 'Llif allan o'r Ysbyty' , Gwanwyn 2026 | **Disgwylir i'r pwynt yma gael ei weithredu yn amserol.** |
| DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS | • Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth | **Dim Gweithrediad Pellach.** |
| CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL | • Derbyn yr adroddiad<br>• Cefnogi gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol<br><br>Nodyn:<br>Cais i ail ystyried gwell telerau ar gyfer denu mwy o weithwyr i'r maes Gofal<br><br>Creu llwybr cyfathrebu ac ystyried modd o rannu canfyddiadau archwiliadau mewnol mewn Cartrefi Gofal gydag Arolygaeth Gofal Cymru | **Mae telerau gwaith a hyfforddiant gweithwyr gofal yn cael sylw. Mae hwn yn rhan o gynlluniau hirdymor y Cyngor a bydd barn y Pwyllgor yn cael ei gyfleu i'r Adran fel rhan o'r prosiect yma.**<br><br>**Mae cyfathrebu canlyniadau Archwilio Mewnol gyda'r Arolygaeth yn derbyn ystyriaeth fewnol.** |
| CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2025/26 | • Derbyn cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd yn erbyn Cynllun Archwilio 2025/26 | **Dim Gweithrediad Pellach.** |

| | | |
|---|---|---|
| RHAGLEN GYFALAF 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2025 | • Derbyn yr adroddiad a chytuno ar yr argymhellion i'r Cabinet eu hystyried | **Dim Gweithrediad Pellach.** |
| ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL A HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD 2024/25 | • Derbyn yr adroddiad drafft<br><br>Nodyn:<br>• I ystyried effaith gostyngiad mewn niferoedd pobl ifanc a chynnydd ym mhoblogaeth hŷn y Sir ar wasanaethau'r Cyngor<br>• Cyfeirio at waith sydd yn cael ei wneud i gynyddu ymatebion arolwg staff<br>• Cynnwys esiamplau a thystiolaeth i roi sylwedd i rai brawddegau yn yr adroddiad | **Mae sylw wedi ei roi i'r sylwadau o fewn y fersiwn ddrafft o'r Hunanasesiad fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 11 Tachwedd 2025 ac i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei gymeradwyo ar 4 Rhagfyr 2025.** |
| BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR | • Derbyn y rhaglen waith ar gyfer Tachwedd 2025 – Hydref 2026<br>• Cais am ddiweddariad o waith yn Adran Gyllid ar lunio polisi eithriadau i'r premiwm ar y dreth gyngor yn achos busnesau llety hunan ddarpar sy'n methu cyrraedd y trothwy gosod 182 diwrnod.<br><br>Nodyn: Dileu eitem Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol mis Tachwedd gan ei fod wedi ei drafod Hydref 2025 | **Mae adroddiad Polisi Lleihau Treth Cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 11 Tachwedd 2025.** |

**3. ARGYMHELLIAD**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried cynnwys y tablau uchod a chynnig unrhyw sylwadau.

**Atodiad: Poblogaeth Siroedd a ddefnyddiwyd ar gyfer y Setliad**

| Awdurdod Unedol | Poblogaeth, bob oed 2021-22 | Poblogaeth, bob oed 2022-23 | Poblogaeth, bob oed 2023-24 | Poblogaeth, bob oed 2024-25 | Poblogaeth, bob oed 2025-26 | Poblogaeth, bob oed 2021-22 | Poblogaeth, bob oed 2022-23 | Poblogaeth, bob oed 2023-24 | Poblogaeth, bob oed 2024-25 | Poblogaeth, bob oed 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 69,879 | 69,864 | 69,358 | 69,049 | 69,291 | 2.21% | 2.20% | 2.21% | 2.20% | 2.19% |
| **Gwynedd** | **124,936** | **125,220** | **121,468** | **117,591** | **119,173** | **3.95%** | **3.95%** | **3.86%** | **3.75%** | **3.77%** |
| Conwy | 118,001 | 118,320 | 116,683 | 114,290 | 114,410 | 3.73% | 3.73% | 3.71% | 3.65% | 3.62% |
| Sir Ddinbych | 95,836 | 96,021 | 96,007 | 96,558 | 97,156 | 3.03% | 3.03% | 3.05% | 3.08% | 3.07% |
| Sir y Fflint | 156,862 | 157,264 | 156,296 | 155,319 | 155,812 | 4.96% | 4.96% | 4.97% | 4.96% | 4.92% |
| Wrecsam | 136,642 | 136,535 | 135,767 | 135,394 | 136,149 | 4.32% | 4.31% | 4.32% | 4.32% | 4.30% |
| Powys | 132,475 | 132,538 | 132,885 | 133,891 | 134,439 | 4.19% | 4.18% | 4.23% | 4.28% | 4.25% |
| Ceredigion | 71,491 | 71,151 | 71,188 | 71,610 | 73,050 | 2.26% | 2.24% | 2.26% | 2.29% | 2.31% |
| Sir Benfro | 125,989 | 126,301 | 124,973 | 124,367 | 125,006 | 3.98% | 3.98% | 3.98% | 3.97% | 3.95% |
| Sir Gaerfyrddin | 189,021 | 189,525 | 188,958 | 189,117 | 190,083 | 5.98% | 5.98% | 6.01% | 6.04% | 6.01% |
| Abertawe | 248,586 | 249,275 | 244,252 | 241,282 | 246,742 | 7.86% | 7.86% | 7.77% | 7.70% | 7.80% |
| Castell-nedd Port Talbot | 144,003 | 144,447 | 143,592 | 142,158 | 142,898 | 4.55% | 4.56% | 4.57% | 4.54% | 4.52% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 147,165 | 147,892 | 147,031 | 146,136 | 146,743 | 4.65% | 4.66% | 4.68% | 4.67% | 4.64% |
| Bro Morgannwg | 134,749 | 135,617 | 134,192 | 133,492 | 134,733 | 4.26% | 4.28% | 4.27% | 4.26% | 4.26% |
| Rhondda Cynon Taf | 242,158 | 242,784 | 240,528 | 239,018 | 241,178 | 7.66% | 7.66% | 7.65% | 7.63% | 7.62% |
| Merthyr Tudful | 60,751 | 60,919 | 59,963 | 58,883 | 58,593 | 1.92% | 1.92% | 1.91% | 1.88% | 1.85% |
| Caerffili | 181,846 | 182,060 | 179,096 | 176,130 | 176,437 | 5.75% | 5.74% | 5.70% | 5.62% | 5.58% |
| Blaenau Gwent | 69,583 | 69,548 | 68,204 | 67,014 | 67,356 | 2.20% | 2.19% | 2.17% | 2.14% | 2.13% |
| Torfaen | 93,856 | 94,111 | 93,314 | 92,860 | 93,419 | 2.97% | 2.97% | 2.97% | 2.97% | 2.95% |
| Sir Fynwy | 95,134 | 95,489 | 94,393 | 93,886 | 94,572 | 3.01% | 3.01% | 3.00% | 3.00% | 2.99% |
| Casnewydd | 156,972 | 158,154 | 159,446 | 161,506 | 163,628 | 4.96% | 4.99% | 5.07% | 5.16% | 5.17% |
| Caerdydd | 367,190 | 368,090 | 365,711 | 372,089 | 383,536 | 11.61% | 11.61% | 11.63% | 11.88% | 12.12% |
| Cymru | 3,163,125 | 3,171,125 | 3,143,305 | 3,131,640 | 3,164,404 | 100.00% | 100.00% | 100.00% | 100.00% | 100.00% |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| DYDDIAD | **13 Tachwedd 2025** |
| TEITL | **Cyfrifon Terfynol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 a'r Archwiliad perthnasol** |
| PWRPAS | **Cyflwyno –**<br>• **Datganiad o'r Cyfrifon ôl-archwiliad;**<br>• **Adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru;**<br>• **Llythyr Sylwadau (Atodiad 4).** |
| ARGYMHELLIAD | **Ystyried a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr sylwadau a'r datganiad o gyfrifoldebau am y datganiadau o'r cyfrifon** |
| AWDUR | **Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid** |

---

## 1. CYFRIFON 2024/25

Llwyddodd y Cyngor i gwblhau'r Datganiad o'r Cyfrifon ar gyfer 2024/25 a'i ryddhau i Archwilio Cymru ar 30 Mehefin 2025. Cyflwynwyd y Datganiad o Gyfrifon 2024/25 (amodol ar archwiliad) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 11 Medi 2025, pryd bu craffu priodol.

Mae'r cyfrifon terfynol yn dilyn archwiliad yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 13 Tachwedd 2025.

## 2. ARCHWILIAD GAN ARCHWILIO CYMRU AR RAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Nodwyd yng nghyfarfod Medi fod y cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, a chyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar eu prif ddarganfyddiadau.

## 3. DATGANIADAU ARIANNOL ÔL-ARCHWILIAD AM 2024/25

Cyflwynir yma y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2024/25. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 2 o adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru.

## 4. ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried a chymeradwyo'r –**

- Adroddiad 'ISA260' gan Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd
- Datganiad o'r Cyfrifon 2024/25 (ôl-archwiliad)

## 5. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ymofyn i'r person sy'n llywyddu'r cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth, yn electronig. (Atodiad 4 i adroddiad Archwilio Cymru) wedi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r uchod.

## 6. TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD PENODEDIG

Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Adrian Crompton) yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y person sy'n llywyddu'r cyfarfod a'r Pennaeth Cyllid.

# Cyngor Gwynedd

# DATGANIAD O'R CYFRIFON 2024/25

Adran Cyllid
www.gwynedd.llyw.cymru

## MYNEGAI


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad Naratif | 2 – 7 |
| Datganiad Cyfrifoldebau | 8 |
| Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu | 9 |
| Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 10 |
| Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau | 11 |
| Y Fantolen | 12 |
| Datganiad Llif Arian | 13 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 14 – 87 |
| Atodiad A – Y Gronfa Degwm | 88 |
| Atodiad B – Cronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan | 89 |
| Atodiad C – Datganiad Llywodraethu Blynyddol | 90 – 101 |
| Adroddiad yr Archwilydd | 102 – 104 |
| Geirfa | 105 – 106 |

# ADRODDIAD NARATIF

**Rhagarweiniad**

Mae cyfrifon Cyngor Gwynedd am 2024/25 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 9 i 87.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** - Er nad yw'n ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau (grantiau llywodraeth, treth cyngor a threthi busnes) gan awdurdodau lleol o'i gymharu â'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio neu eu hennill gan awdurdodau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.

- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Hwn yw prif gyfrif refeniw'r Cyngor. Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dangosir y sefyllfa trethiant yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyngor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae sefyllfa trethiant yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

- **Y Fantolen** - Sydd yn datgan sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2025.

- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyngor yn ystod 2024/25 at ddibenion refeniw a chyfalaf.

- **Cyfrifon Cronfa'r Degwm a Chronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan.**

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol a chefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisïau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

**Gweledigaeth a Blaenoriaethau Cyngor Gwynedd**

Mae gweledigaeth a blaenoriaethau Cyngor Gwynedd wedi eu cynnwys yng Nghynllun Cyngor Gwynedd ar gyfer y cyfnod 2023 – 2028. Pwrpas y Cynllun yw gosod gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a diwedd Mawrth 2028. Mae'r Cynllun yn dangos pam ein bod yn canolbwyntio ein hegni a'n hadnoddau mewn rhai meysydd.

Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith maes blaenoriaeth:

- Gwynedd Yfory - Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc,
- Gwynedd Lewyrchus - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng,
- Gwynedd Glyd - Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau,
- Gwynedd Ofalgar - Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau,
- Gwynedd Gymraeg - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned,
- Gwynedd Werdd - Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd,
- Gwynedd Effeithlon - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r broses o lunio Cynllun Cyngor Gwynedd ar gyfer 2023-28 rydym hefyd wedi adolygu ein hamcanion llesiant.

Mae Cynllun Cyngor Gwynedd 2023 – 2028 ar gael yn Cynllun-y-Cyngor-2023-28.pdf (llyw.cymru)

Bu i'r Cyngor Llawn gymeradwyo adolygiad o Gynllun Cyngor Gwynedd ar gyfer 2024/25, yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2024. Bwriad yr adolygiad oedd asesu cyraeddiadau'r cynlluniau ar ôl blwyddyn o weithredu yn ogystal â sicrhau fod y

cynlluniau yn parhau'n flaenoriaeth i'r Cyngor. Mae copi o'r adolygiad ar gael yn Adolygiad-i-Gynllun-Cyngor-Gwynedd-2023-28.pdf

**Strategaeth Ariannol**

Mae Strategaeth Ariannol y Cyngor a Chyllideb 2024/25 a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2024 yn gosod y sylfaen ar gyfer cyflawni'r meysydd blaenoriaeth, wrth geisio dygymod hefyd gyda'r cynnydd parhaus yn y galw am ein gwasanaethau. Yn anorfod, mae'r Strategaeth Ariannol yn ddibynnol ar y meysydd blaenoriaeth. Mae'r strategaeth ar gael yn:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholisïau/Cyllid/Strategaeth-ariannol.aspx

Yn 2024/25 gwelwyd cynnydd mewn grant Cyngor Gwynedd gan Lywodraeth Cymru o 2.3%, sy'n cyfateb i gynnydd gwerth £5.1m mewn ariannu allanol. Fodd bynnag, rhagwelwyd byddai angen cynyddu gwariant y Cyngor o £22.7m er mwyn "sefyll yn llonydd" a hynny oherwydd y galw am wasanaethau yn ogystal â phwysau chwyddiant yn parhau'n uchel. Ac felly, roedd rhaid cyflwyno arbedion a thoriadau newydd a chodi lefel y Dreth Cyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys.

Wrth osod y gyllideb, rydym wedi ceisio cadw effaith yr arbedion ar drigolion Gwynedd i'r lleiafswm posib. Felly, bydd y sefyllfa ariannol yn parhau i osod cryn her i ni wrth gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Byddwn felly yn parhau efo'r gwaith o sicrhau ein bod yn gwireddu'r arbedion effeithlonrwydd hynny sydd eisoes wedi eu cymeradwyo a sicrhau ein bod yn cynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn isafu unrhyw doriadau i wasanaethau.

**Mesur Perfformiad**

Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor yn gylch sy'n cefnogi cynllunio, rheoli ac adrodd ar berfformiad ein gwasanaethau, er mwyn sicrhau'r gorau ar gyfer pobl Gwynedd heddiw ac yfory. Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd yn adrodd ar ein llwyddiant wrth gyflawni ein blaenoriaethau gwella a hefyd yn darparu gwybodaeth ar berfformiad adrannau'r Cyngor a sut maent yn cynorthwyo pobl Gwynedd. Mae'r adroddiad ar gael yn:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Perfformiad-y-Cyngor/Mesur-Perfformiad.aspx

**Perfformiad Ariannol 2024/25**

- Gwelwyd pwysau ar wasanaethau'r Cyngor, gyda gorwariant o £6.6m ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf yn y maes gofal oedolion a phlant a'r maes gwastraff. Bu i dderbyniad grantiau a thanwariant ar gyllidebau corfforaethol olygu fod y sefyllfa gorwariant wedi ei gyllido a bu modd trosglwyddo £1.5m i'r Gronfa Trawsffurfio, i'w ddefnyddio ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor. Adroddwyd ar sefyllfa alldro ariannol 2024/25 i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 13 Mai 2025. Cymeradwyodd aelodau'r Cabinet orwariant net gwasanaethau o £400k am y flwyddyn.

- Yn yr adolygiad o'r gyllideb refeniw ddiwethaf a wnaed ar sefyllfa diwedd Tachwedd 2024, rhagwelwyd diffyg o £8.3m. Ers hynny, bu i sefyllfa gorwariant y maes gofal plant a gwastraff gynyddu, gyda sefyllfa maes gofal oedolion yn gwella yn dilyn derbyn grantiau ychwanegol. Mae sefyllfa ffafriol nifer o gyllidebau corfforaethol hefyd wedi cynorthwyo i leddfu rhywfaint ar y sefyllfa ariannol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

- Derbyniodd y Cyngor ddau grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, y cyntaf yn swm o £2.1m i gynorthwyo gyda pwysau cyflog a'r ail o £2.6m mewn ymateb i'r pwysau ychwanegol mae'r awdurdodau wedi ei wynebu yn ystod y flwyddyn.

- Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2024/25, adroddir ar sefyllfa gorwariant gan 5 adran sydd o ganlyniad i nifer o ffactorau. Mae'r pwysau sylweddol yn parhau ym meysydd gofal plant, oedolion a gwastraff.

- Bu i sefyllfa ariannol 2024/25 gael ei chymryd i ystyriaeth yn y broses o sefydlu cyllideb 2025/26, gyda bidiau wedi eu dyrannu i rai o'r meysydd sydd yn gorwario.

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 10 fod gwariant refeniw gros y Cyngor ar lefel 'Cost Gwasanaethau' yn £600m yn ystod 2024/25, gyda'r sefyllfa net yn £327m.

## TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae cyllideb net y Cyngor yn cael ei gyllido gan dreth cyngor, grantiau cyffredinol y llywodraeth a threthi annomestig cenedlaethol yn bennaf ac yn £361m ar gyfer 2024/25.

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, a ceir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

| | Cyllideb | Gwir | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwariant Net ar Weithrediadau | 357,598 | 361,055 | 3,457 |
| Swm adrannol i'w gario ymlaen ar ddiwedd blwyddyn | 0 | (400) | (400) |
| | 357,598 | 360,655 | 3,057 |
| Ariannwyd gan - | | | |
| Incwm y Dreth Cyngor | (124,282) | (127,339) | (3,057) |
| Cyfran o'r Trethi Annomestig Cenedlaethol | (43,364) | (43,364) | 0 |
| Grantiau Llywodraeth Cyffredinol | (189,952) | (189,952) | 0 |
| Cyfraniad o Falans y Gronfa Gyffredinol | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |

Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 10 a 11 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

**TABL 2 - Symudiad Trawsddodiad rhwng '<u>Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)' (Tabl 1)</u> i'r fformat <u>Incwm a Gwariant</u> sydd yn adlewyrchu'r Strwythur Rheolaethol Adrannol.**

| **Adran** | **Adroddiad Perfformiad (Alldro)** | **Addasiad Trawsddodiad** | **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo** | **Datganiad Incwm a Gwariant** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Addysg | 112,300 | (329) | **111,971** | 5,849 | **117,820** |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 8,235 | (8) | **8,227** | (143) | **8,084** |
| Cyllid | 8,482 | (42) | **8,440** | 1,492 | **9,932** |
| Economi a Chymuned | 4,908 | (1,077) | **3,831** | 2,875 | **6,706** |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 81,264 | 90 | **81,354** | (180) | **81,174** |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 27,096 | (86) | **27,010** | (161) | **26,849** |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC * | 18,056 | (4,343) | **13,713** | 4,376 | **18,089** |
| Amgylchedd | 18,176 | 985 | **19,161** | 4,183 | **23,344** |
| Tai ac Eiddo | 9,369 | 863 | **10,232** | 5,328 | **15,560** |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,655 | 334 | **2,989** | (42) | **2,947** |
| Corfforaethol | 17,720 | (5,085) | **12,635** | 3,362 | **15,997** |
| **Cost Gwasanaethau** | 308,261 | (8,698) | **299,563** | 26,939 | **326,502** |
| Eraill (Yn cynnwys Addasiad Canolog a Chorfforaethol) | 52,394 | 8,698 | **61,092** | (26,939) | **34,153** |
| **Cyfanswm** | 360,655 | 0 | **360,655** | 0 | **360,655** |

* Yn cynnwys addasiadau perthnasol i'r Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Addasiad Trawsddodiad - Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at y cyfraniad net i ac o reserfau.

- **Eitemau Materol o Incwm a Gwariant**

  Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:
  - (£1m) yn y maes pensiwn, sef yr ailfesuriad blynyddol o'r ymrwymiad buddion pensiwn diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 23.5).
  - Yn dilyn ailbrisio rhan o bortffolio tir ac adeiladau'r Cyngor (sydd bellach yn dilyn rhaglen dreigl), mae'r gwarged net yn deillio o ailbrisio asedau sefydlog i'r Reserf Ailbrisio yn £40m (Nodyn 23.1) a chost ailbrisio a'r amhariad i'r Gwasanaethau yn £4m (Nodyn 15).

- **Materion Eraill**
  - Mae ansefydlogrwydd economaidd a risgiau ariannol yn parhau yn y DU ac yn fyd-eang, yn arbennig o ystyried y tollau newydd rhwng yr UDA a gweddill y byd. Mae Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol (OBR) yn eu hadroddiad 'Economic and Fiscal Outlook' dyddiedig Mawrth 2025 yn darogan cynnydd mewn cyfraddau chwyddiant ac ynni a lleihad mewn cyfraddau llog. Mae'r Cyngor wedi cymryd yr amgylchiadau hyn i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan gadw lefel darbodus o reserfau.
  - Mae'r Cyngor fel pob corff cyhoeddus arall yn parhau i wynebu heriau ariannu sylweddol, yn benodol ansicrwydd ynghylch lefel y Grant Cynnal Refeniw a dderbynnir gan y Llywodraeth. Does dim sicrwydd o unrhyw gynnydd yn y grant ar gyfer y tymor canolig.

- O ganlyniad i gynlluniau'r Llywodraeth Ganolog gan gynnwys Cronfa Ffyniant Bro, derbyniwyd grantiau sylweddol yn ystod 2024/25, sydd wedi cyfrannu at y cynnydd sylweddol yn y gwariant refeniw sydd yn cael ei ariannu o gyfalaf dan statud, sydd yn £41m (Nodyn 34), tra fod yr incwm grant cysylltiedig i'w ariannu yn (£38m) (Nodyn 32).
- Mae gwerth dibrisiant asedau'r Cyngor yn £21m (Nodyn 15).

**Gwariant Cyfalaf yn 2024/25**

Yn 2024/25 gwariodd y Cyngor £85.2m ar gynlluniau cyfalaf. Dengys y tabl canlynol fanylion y gwariant yma ynghyd â'r modd y cafodd ei ariannu.

## TABL 3 - CRYNODEB O WARIANT CYFALAF A'I ARIANNU

| **2023/24 £'000** | | **2024/25 £'000** |
|---|---|---|
| 12,972 | Addysg | 12,086 |
| 5,084 | Amgylchedd | 7,516 |
| 0 | Gwasanaethau Corfforaethol | 87 |
| 716 | Cyllid | 1,451 |
| 18,551 | Economi a Chymuned | 40,298 |
| 10,319 | Tai ac Eiddo | 12,386 |
| 382 | Oedolion, Iechyd a Llesiant | 468 |
| 1,131 | Plant a Chefnogi Teuluoedd | 2,402 |
| 7,717 | Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd | 8,489 |
| 39 | Prif Weithredwr | 0 |
| **56,911** | | **85,183** |
| | **ARIANNWYD GAN -** | |
| 8,108 | Benthyciadau | 7,113 |
| 37,224 | Grantiau a Chyfraniadau | 66,547 |
| 250 | Derbyniadau Cyfalaf | 43 |
| 11,329 | Refeniw a Chronfeydd Eraill | 11,480 |
| **56,911** | | **85,183** |

- Cynhwysir Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf drwy Statud o £40.8m yn y tabl uchod. Ad-dalwyd y gwariant yma i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn. Cyfanswm ychwanegiadau Asedau Anghyfredol ac Asedau ar Gael i'w Gwerthu oedd £45.4m fel y dangosir yn Nodyn 15 a 20.

- Roedd Dyled Benthyciadau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2025 yn £94.6m – lleihad o £5.4m (o £100m) yn ystod y flwyddyn. Cymerwyd benthyciad newydd o £0.2m a gwnaethpwyd ad-daliadau o £5.6m yn unol â thelerau'r benthyciadau unigol.

**Darpariaethau ac Arian wrth Gefn**

Yn ychwanegol at y Balans Cyffredinol heb ei glustnodi o £7.9m, roedd gan y Cyngor ddarpariaethau o £8.9m, reserfau eraill a glustnodwyd o £110.8m a balansau ysgolion o £8.3m. Cyfanswm y rhain oedd £135.9m. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 10 a 22.

Adolygwyd digonolrwydd cronfeydd penodol a darpariaethau'r Cyngor gan y Pennaeth Cyllid wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd. Llwyddodd yr adolygiad i gynaeafu £1.3m o adnoddau, a chymeradwyodd y Cabinet (yn ei gyfarfod ar 13 Mai 2025) i'w drosglwyddo i'r Gronfa Trawsffurfio ar gyfer cyllido blaenoriaethau'r Cyngor.

**Cronfa Bensiwn**

Mae gan y Cyngor (fel cyflogwr) ymrwymiad yn deillio o’u cyfran o asedau ac ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd fel a ddangosir ar y Fantolen ar 31 Mawrth 2025. Cyfrifwyd hyn gan Actiwari y Gronfa, Hymans Robertson, gan gydymffurfio â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19. Gweler Nodyn 38 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw’r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr, ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o’r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn ei gael ar y Gronfa Bensiwn. Mae’r cyfrifon yn seiliedig ar y prisiad a gafodd ei gynnal 31 Mawrth 2022, bydd cyfrifon blwyddyn ariannol 2026/27 ymlaen yn seiliedig ar brisiad 31 Mawrth 2025.

**Llywodraethu**

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn bodoli, er hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, sy’n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth bellach wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Polisïau Cyfrifo**

Mae’r polisïau cyfrifo presennol y Cyngor wedi eu haddasu i adlewyrchu cyfarwyddiadau CIPFA yn y Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024/25.

**Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifeg ac i’r Datganiad o’r Cyfrifon**

Mae polisïau cyfrifo presennol y Cyngor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r newidiadau sydd yn ofynnol yn unol ag arferion cyfrifo cywir yn unig, yn dilyn addasiadau sydd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25 i God Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

**Gwybodaeth Bellach**

Mae Datganiad o’r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.llyw.cymru.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Ffion Madog Evans
Pennaeth Cyllid Cynorthwyol
Cyfrifeg a Phensiynau
01286 679133
Trysorydd@gwynedd.llyw.cymru

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa’r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i’w harolygu ar wefan y Cyngor ar yr adeg briodol.

**Datganiad Hygyrchedd**

Rydym yn ymwybodol, oherwydd natur a fformat y datgeliadau sy'n ofynnol i'w cynnwys yn yr ddogfen hon, nad yw pob un o'r tablau yn gwbl gydnaws â safonau hygyrchedd. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y datganiad cyfrifon hwn neu os ydych am i unrhyw un o'r tablau neu'r datgeliadau gael eu darparu mewn fformat mwy hygyrch, cysylltwch â Trysorydd@gwynedd.llyw.cymru.

# CYNGOR GWYNEDD

## DATGANIAD O'R CYFRIFON

### DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

**CYFRIFOLDEB Y CYNGOR**

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb y Cyngor hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

**Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** **13 Tachwedd 2025**

**CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID**

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir allan yn y *Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Cod").

Wrth baratoi'r Datganiad o'r Cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisïau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Cod.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

**TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL**

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2025, ac incwm a gwariant y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

**Dewi Aeron Morgan CIPFA** **4 Tachwedd 2025**
**Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd**

# DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau (grantiau llywodraeth, treth cyngor a threthi busnes) gan awdurdodau lleol o'i gymharu â'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio neu eu hennill gan awdurdodau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant yn cael ei ddyrannu i bwrpas gwneud penderfyniadau rhwng adrannau y Cyngor. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn fanylach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU**

| 2023/24 Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol £'000 | 2023/24 Addasiadau rhwng y sail Cyfrifo a'r sail Ariannu (gweler Nodyn 8 a 9) £'000 | 2023/24 Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr £'000 | | 2024/25 Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol £'000 | 2024/25 Addasiadau rhwng y sail Cyfrifo a'r sail Ariannu (gweler Nodyn 8 a 9) £'000 | 2024/25 Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 109,151 | 6,244 | 115,395 | Addysg | 111,971 | 5,849 | 117,820 |
| 8,099 | 28 | 8,127 | Gwasanaethau Corfforaethol | 8,227 | (143) | 8,084 |
| 7,254 | 1,612 | 8,866 | Cyllid | 8,440 | 1,492 | 9,932 |
| 3,803 | 3,951 | 7,754 | Economi a Chymuned | 3,831 | 2,875 | 6,706 |
| 76,499 | 289 | 76,788 | Oedolion, Iechyd a Llesiant | 81,354 | (180) | 81,174 |
| 24,423 | 146 | 24,569 | Plant a Chefnogi Teuluoedd | 27,010 | (161) | 26,849 |
| 17,407 | 5,211 | 22,618 | Priffyrdd, Peirianneg ac YGC * | 13,713 | 4,376 | 18,089 |
| 18,883 | 4,046 | 22,929 | Amgylchedd | 19,161 | 4,183 | 23,344 |
| 10,835 | 4,793 | 15,628 | Tai ac Eiddo | 10,232 | 5,328 | 15,560 |
| 2,711 | (10) | 2,701 | Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,989 | (42) | 2,947 |
| 16,924 | 3,656 | 20,580 | Corfforaethol | 12,635 | 3,362 | 15,997 |
| **295,989** | **29,966** | **325,955** | **Cost Gwasanaethau** | **299,563** | **26,939** | **326,502** |
| 30,830 | 4 | 30,834 | Gwariant Gweithredol Arall | 32,335 | (173) | 32,162 |
| 18,468 | (16,768) | 1,700 | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 20,059 | (16,682) | 3,377 |
| (340,184) | (20,629) | (360,813) | Treth ac Incwm Grant Amhenodol | (360,655) | (29,178) | (389,833) |
| **5,103** | **(7,427)** | **(2,324)** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(8,698)** | **(19,094)** | **(27,792)** |
| (123,400) | | | Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol | (118,297) | | |
| 5,103 | | | (Gwarged)/Diffyg ar y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn | (8,698) | | |
| **(118,297)** | | | Balans Cau y Gronfa Gyffredinol | **(126,995)** | | |

* Yn cynnwys addasiadau perthnasol i'r Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

# DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dengys y sefyllfa trethiant yn y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu ac yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

| 2023/24 | | | | | 2024/25 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** | | **Nodyn** | **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 147,388 | (31,993) | 115,395 | Addysg | | 154,763 | (36,943) | 117,820 |
| 9,035 | (908) | 8,127 | Gwasanaethau Corfforaethol | | 9,167 | (1,083) | 8,084 |
| 12,766 | (3,900) | 8,866 | Cyllid | | 13,446 | (3,514) | 9,932 |
| 60,662 | (52,908) | 7,754 | Economi a Chymuned | | 109,220 | (102,514) | 6,706 |
| 107,514 | (30,726) | 76,788 | Oedolion, Iechyd a Llesiant | | 114,163 | (32,989) | 81,174 |
| 37,184 | (12,615) | 24,569 | Plant a Chefnogi Teuluoedd | | 38,410 | (11,561) | 26,849 |
| 40,775 | (18,157) | 22,618 | Priffyrdd, Peirianneg ac YGC * | | 41,856 | (23,767) | 18,089 |
| 40,431 | (17,502) | 22,929 | Amgylchedd | | 41,702 | (18,358) | 23,344 |
| 29,455 | (13,827) | 15,628 | Tai ac Eiddo | | 28,546 | (12,986) | 15,560 |
| 3,615 | (914) | 2,701 | Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | | 4,488 | (1,541) | 2,947 |
| 44,871 | (24,291) | 20,580 | Corfforaethol | | 44,237 | (28,240) | 15,997 |
| **533,696** | **(207,741)** | **325,955** | **Cost Gwasanaethau** | | **599,998** | **(273,496)** | **326,502** |
| 30,834 | 0 | 30,834 | Gwariant Gweithredol Arall | *11* | 32,335 | (173) | 32,162 |
| 5,774 | (4,074) | 1,700 | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | *12* | 6,250 | (2,873) | 3,377 |
| 0 | (360,813) | (360,813) | Treth ac Incwm Grant Amhenodol | *13* | 0 | (389,833) | (389,833) |
| **570,304** | **(572,628)** | **(2,324)** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | | **638,583** | **(666,375)** | **(27,792)** |
| | | (13,652) | (Gwarged)/Diffyg yn deillio o ailbrisio Asedau Sefydlog | *23.1* | | | (40,307) |
| | | 69 | (Gwarged)/Diffyg yn deillio o ailbrisio Offerynnau Ariannol | *23.3* | | | (276) |
| | | 23,491 | Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymiadau/(asedau) | *23.5* | | | 1,083 |
| | | **9,908** | **(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(39,500)** |
| | | **7,584** | **Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **(67,292)** |

* Yn cynnwys addasiadau perthnasol i'r Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

# DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyngor, wedi eu dadansoddi i 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant neu leihau trethiant lleol) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn reserfau'r Cyngor yn cael eu torri lawr rhwng enillion a cholledion yn unol ag ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig, a hefyd yn dangos yr addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y swm a godir ar y dreth cyngor ar gyfer y flwyddyn. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos y symudiadau statudol Balans Cronfa Gyffredinol yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

| | | *Gwybodaeth ychwanegol* | | | **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | *Balans Cronfa Gyffredinol heb glustnodi* | *Reserfau Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd* | *Cyfanswm Balansau Ysgolion* | Balans Cronfa Gyffredinol | Reserf Derbyniadau Cyfalaf | Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio | **Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy** | **Reserfau na ellir eu defnyddio** | **Cyfanswm Reserfau'r Cyngor** |
| | | *£'000* | *£'000* | *£'000* | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2023 a ddygwyd ymlaen** | | *(7,912)* | *(103,571)* | *(11,917)* | (123,400) | (2,252) | (8,041) | **(133,693)** | **(399,299)** | **(532,992)** |
| Symudiad mewn reserfau yn 2023/24 | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | *(2,324)* | *0* | *0* | (2,324) | 0 | 0 | **(2,324)** | **9,908** | **7,584** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | | *7,427* | *0* | *0* | 7,427 | (68) | 302 | **7,661** | **(7,661)** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2023/24** | | *5,103* | *0* | *0* | 5,103 | (68) | 302 | **5,337** | **2,247** | **7,584** |
| *Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd* | | *(5,103)* | *1,728* | *3,375* | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| *(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2023/24 (yn dangos Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd)* | | *0* | *1,728* | *3,375* | 5,103 | (68) | 302 | **5,337** | **2,247** | **7,584** |
| **Balans 31 Mawrth 2024 a ddygwyd ymlaen** | | *(7,912)* | *(101,843)* | *(8,542)* | (118,297) | (2,320) | (7,739) | **(128,356)** | **(397,052)** | **(525,408)** |
| Symudiad mewn reserfau yn 2024/25 | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | *(27,792)* | *0* | *0* | (27,792) | 0 | 0 | **(27,792)** | **(39,500)** | **(67,292)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | 9 | *19,094* | *0* | *0* | 19,094 | (286) | (320) | **18,488** | **(18,488)** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2024/25** | | *(8,698)* | *0* | *0* | (8,698) | (286) | (320) | **(9,304)** | **(57,988)** | **(67,292)** |
| *Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd* | *10* | *8,698* | *(8,958)* | *260* | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| *(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2024/25 (yn dangos Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd)* | | *0* | *(8,958)* | *260* | (8,698) | (286) | (320) | (9,304) | (57,988) | (67,292) |
| **Balans 31 Mawrth 2025 a ddygwyd ymlaen** | | *(7,912)* | *(110,801)* | *(8,282)* | (126,995) | (2,606) | (8,059) | **(137,660)** | **(455,040)** | **(592,700)** |

# Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymiadau'r Cyngor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyngor (asedau llai ymrwymiadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan y Cyngor. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw'r reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd (er enghraifft, y Reserf Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddir i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled yn unig). Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Ailbrisio), ble nad yw'r symiau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

| **31 Mawrth 2024** | | *Nodyn* | **31 Mawrth 2025** |
|---|---|---|---|
| **£'000** | | | **£'000** |
| 596,761 | Eiddo, Offer a Chyfarpar | *15* | 661,220 |
| 60 | Asedau Treftadaeth | | 60 |
| 165 | Eiddo Buddsoddi | *16* | 165 |
| 2,133 | Asedau Gweddilliol | *15* | 2,086 |
| 17 | Buddsoddiadau Tymor Hir | *17* | 17 |
| 5,930 | Dyledwyr Tymor Hir | *17&18* | 6,861 |
| **605,066** | **Asedau Tymor Hir** | | **670,409** |
| 97,568 | Buddsoddiadau Tymor Byr | *17* | 86,873 |
| 0 | Asedau ar gael i'w Gwerthu | *20* | 217 |
| 1,589 | Stoc | | 1,469 |
| 121,201 | Dyledwyr Tymor Byr | *18* | 116,480 |
| 43,939 | Arian a Chywerthoedd Arian | *19* | 66,022 |
| **264,297** | **Asedau Cyfredol** | | **271,061** |
| (8,591) | Gorddrafft Banc | *19* | (23,994) |
| (6,033) | Benthyciadau Tymor Byr | *17* | (4,441) |
| (173,992) | Credydwyr Tymor Byr | *21* | (185,635) |
| (346) | Darpariaethau Tymor Byr | *22* | (342) |
| (25,437) | Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o Flaen Llaw | *32* | (8,759) |
| **(214,399)** | **Ymrwymiadau Cyfredol** | | **(223,171)** |
| (3,876) | Credydwyr Tymor Hir[1] | *21* | (4,060) |
| (8,703) | Darpariaethau Tymor Hir | *22* | (8,607) |
| (94,006) | Benthyciadau Tymor Hir | *17* | (90,138) |
| (17,248) | Ymrwymiad Pensiwn | *38* | (15,224) |
| (793) | Ymrwymiadau Prydles | *35* | (4,655) |
| (4,930) | Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o Flaen Llaw | *32* | (2,915) |
| **(129,556)** | **Ymrwymiadau Tymor Hir** | | **(125,599)** |
| **525,408** | **Asedau Net** | | **592,700** |
| | | | |
| (128,356) | Reserfau Defnyddiadwy | | (137,660) |
| (397,052) | Reserfau na ellir eu defnyddio | *23* | (455,040) |
| **(525,408)** | **Cyfanswm Reserfau** | | **(592,700)** |

[1] Nid oedd Credydwyr Tymor Hir wedi eu datgan ar wahân ar y Fantolen yn Natganiad o Gyfrifon 2023/24, gyda'r swm wedi ei gynnwys o fewn Credydwyr Tymor Byr.

# DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian y newidiadau mewn arian a chywerthoedd arian y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu a defnyddio arian a chywerthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyngor a ariennir trwy incwm grant a threthiant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol. Mae'r llif arian a gyfyd o Weithgareddau Ariannu yn ddefnyddiol i ragweld yr hawl sydd gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) ar lif arian y Cyngor yn y dyfodol.

| **2023/24**<br>**£'000** | | ***Nodyn*** | **2024/25**<br>**£'000** |
|---|---|---|---|
| (2,324) | (Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarpariaeth Gwasanaethau | | (27,792) |
| (32,816) | Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol | *24a* | (25,458) |
| 285 | Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu | *24b* | 468 |
| (34,855) | Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | | (52,782) |
| 44,136 | Gweithgareddau Buddsoddi | *25* | 45,137 |
| 1,365 | Gweithgareddau Ariannu | *26a* | 965 |
| 10,646 | (Cynnydd)/lleihad net mewn arian a chywerthoedd arian | | (6,680) |
| (45,994) | Arian a chywerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd | | (35,348) |
| **(35,348)** | **Arian a chywerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | *19* | **(42,028)** |

# NODIADAU I'R CYFRIFON

## NODYN 1 - POLISÏAU CYFRIFO

### 1.1 Egwyddorion Cyffredinol
Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor yn y flwyddyn ariannol 2024/25 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2025. Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024/25* ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Confensiwn cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu'n bennaf yn y Datganiad o'r Cyfrifon, wedi'i addasu gan ailbrisiad rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol. Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Mewn perthynas â pholisi yn ymwneud â chyfalafu gwariant, ein hymarferiad yw gweithredu ar sail natur y gwariant yn hytrach na lefel penodol o wariant.

### 1.2 Croniadau Incwm a Gwariant
Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn y maent yn digwydd, nid pan wneir neu dderbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o gytundebau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed am wasanaeth neu nwyddau, yn cael ei adnabod pan fydd y gwasanaeth neu'r nwyddau yn cael eu trosglwyddo i dderbynnydd y gwasanaeth yn unol â'r rhwymedigaethau perfformiad y cytundeb.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pan fydd y taliad yn cael ei wneud.
- Bydd llog sy'n cael ei dderbyn o fuddsoddiadau a'r llog sydd yn daladwy ar fenthyciadau yn cael ei gyfrifo yn ôl eu trefn fel incwm a gwariant ar sail gyfradd llog effeithiol yr offeryn ariannol yn hytrach na'r llif arian sydd wedi ei bennu gan y cytundeb.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid lleihau gwerth y dyledion a chodi tâl ar refeniw yn gwariant ac incwm ariannu a buddsoddi am yr incwm sydd yn annhebygol o gael ei gasglu.

### 1.3 Arian a Chywerthoedd Arian
Caiff unrhyw fuddsoddiadau tymor byr sydd gan y Cyngor, y mae modd eu troi'n arian yn rhwydd, a gyda risg isel o newid yn eu gwerth, eu categoreiddio fel cywerthoedd arian a'u cynnwys fel Arian a Chywerthoedd Arian ar y Fantolen. Adnau tymor byr gyda sefydliadau ariannol sydd ar gael ar unwaith ar ddyddiad y Fantolen yw'r buddsoddiadau a gynhwysir yn y diffiniad hwn.

### 1.4 Asedau Dibynnol / Ymrwymiadau Dibynnol
Ceir ased dibynnol pan fo digwyddiad sy'n rhoi ased posib i'r Cyngor ble bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor.

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fo digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran y Cyngor ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor. Ceir ymrwymiad dibynnol yn ogystal pan fod amgylchiadau y gwneir darpariaeth amdanynt fel arfer, ond unai, nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu, ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Nid yw asedau ac ymrwymiadau dibynnol yn cael eu datgan ar y Fantolen, ond yn hytrach o fewn y nodyn Ymrwymiadau Dibynnol ac Asedau Dibynnol yn y cyfrifon.

## NODYN 1 - POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

### 1.5 Corfforaethol

Mae'r pennawd Corfforaethol yn cynnwys eitemau yn ymwneud â ffurfio polisïau corfforaethol a gweithgareddau aelodau, a chostau sydd yn gysylltiedig â rhedeg y Cyngor.

### 1.6 Buddiannau Gweithwyr

### 1.6.1 Buddion sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwyr yn gwasanaethu'r Cyngor. Gwneir croniad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cost y croniad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau i'r cyfrif absenoldebau cronedig fel bod cost y buddion gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn ariannol y cymerir y gwyliau.

### 1.6.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad croniad yn erbyn y gwasanaeth priodol neu, lle mae'n berthnasol, i'r llinell Gwasanaethau Corfforaethol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr unai pan na all y Cyngor dynnu'r cynnig o'r buddion hynny yn ôl neu pan fo'r Cyngor yn cydnabod cost o ail-strwythuro, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau, mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai Cronfa'r Cyngor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyngor i'r Gronfa Bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn, yn hytrach na'r swm sydd wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau, mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiwn ychwanegol a rhoi'r debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

### 1.6.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar ran Adran Addysg Llywodraeth y DU.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lymp-symiau ymddeoliad) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyngor.

Fodd bynnag, mae trefniadau'r cynllun athrawon yn golygu nad yw ymrwymiadau'r buddion hynny yn cael eu hadnabod i'r Cyngor. Mae'r cynllun felly yn cael ei gyfrifo fel petai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid yw ymrwymiadau ar gyfer taliadau yn y dyfodol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen. Mae'r llinellau Addysg a Phlant a Chefnogi Teuluoedd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys cost cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

### 1.6.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyngor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun pensiwn.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yma gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.b. yn ogystal â thafluniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymiadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol, gan ddefnyddio graddfa disgownt o 5.80% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau lle roedd y gweithwyr yn gweithio.

- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymiadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o gostau Corfforaethol.

- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r Cyngor - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddaru ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

- Addasiad nenfwd ased – cyfyngir i werth nenfwd yr ased a gyfrifwyd os yw'n llai na sefyllfa'r ased. Mae'r cyfrifiad nenfwd ased yn berthnasol i ymrwymiadau wedi eu hariannu. Mae unrhyw ymrwymiadau heb eu hariannu yn cael eu hychwanegu yn dilyn gweithredu'r addasiad nenfwd ased.

- Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymiadau sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i Gronfa'r Cyngor dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i mewn neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o'r effaith i Gronfa'r Cyngor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymiadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh19.

### 1.6.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyngor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymiadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisïau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

### 1.7 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith materol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

### 1.8 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau i Bolisïau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifo neu i gywiro gwall materol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisïau cyfrifo yw pan mae'n ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyngor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai ei fod yn anfaterol neu a nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

### 1.9 Offerynnau Ariannol

#### Ymrwymiadau Ariannol

Cydnabyddir ymrwymiadau ariannol ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol. Maent yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn y lle cyntaf ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddiedig. Mae'r llog taladwy blynyddol sydd yn cael ei gynnwys ar y llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn seiliedig ar werth cario yr ymrwymiad, wedi ei luosi gyda chyfradd llog effeithiol yr offeryn. Y cyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sydd yn disgowntio taliadau arian parod amcangyfrifedig y dyfodol dros oes yr offeryn i'r swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

Ar gyfer y rhan fwyaf o fenthyciadau sydd gan y Cyngor, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm ad-daladwy sydd yn weddill (ynghyd â llog cronedig); a'r llog a gaiff ei ddatgan yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn unol â chytundeb y benthyciad.

Mewn achosion lle codwyd premiymau a disgownts ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei rannu dros y blynyddoedd i ddod. Mae gan y Cyngor bolisi o rannu'r enillion neu golledion dros y tymor sydd yn weddill ar y benthyciad ble'r oedd y premiwm yn daladwy neu'r gostyngiad yn dderbyniadwy pan fyddai'n cael ei ad-dalu. Mae cysoni'r swm a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr â'r tâl net sy'n ofynnol yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei reoli trwy drosglwyddiad i neu o'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiad mewn Reserfau.

#### Asedau Ariannol

Dosbarthir asedau ariannol yn unol â dull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae'r Cyngor yn dal asedau ariannol wedi eu mesur ar:

- gost amorteiddiedig, a

- gwerth teg drwy elw a cholled, a
- gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall. Mae angen polisi ar wahân ble mae awdurdod yn dal asedau ariannol ar werth teg drwy incwm a gwariant arall.

Model busnes y Cyngor yw i ddal buddsoddiadau i gasglu llif arian cytundebol. Mae offerynnau ariannol felly yn cael eu dosbarthu fel cost amorteiddiedig, ag eithrio rheiny nad yw eu taliadau cytundebol yn daliad o brifswm a llog yn unig (h.y. ble nad yw llif arian ar ffurf offeryn dyled sylfaenol).

**Asedau Ariannol wedi eu Mesur ar Gost Amorteiddiedig**

Cydnabyddir asedau ariannol ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol. Maent yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn y lle cyntaf ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddiedig. Bydd credyd blynyddol i linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am y llog a dderbynnir yn seiliedig ar werth cario yr ased wedi ei luosi gyda chyfradd llog effeithiol yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r asedau sydd gan y Cyngor, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm derbyniadwy sydd yn weddill (yn ogystal â'r llog cronedig) gyda'r llog sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn yn unol â chytundeb y benthyciad yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Bydd unrhyw enillion a cholledion sydd yn codi wrth ddad-gydnabod ased yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Model Colled Credyd Disgwyliedig**

Mae'r Cyngor yn cydnabod colledion credyd disgwyliedig ar ei holl asedau ariannol a ddelir ar gostau wedi'u hamorteiddio, unai ar sail 12 mis neu oes. Mae'r model colled credyd disgwyliedig hefyd yn gymwys i symiau derbyniadwy ar brydles ac asedau contract. Dim ond colledion oes a gydnabyddir ar gyfer symiau masnach derbyniadwy a ddelir gan y Cyngor. Cyfrifir colledion amhariad i adlewyrchu'r posibilrwydd na fydd y llif arian yn digwydd yn y dyfodol o ganlyniad i'r benthyciwr yn diffygdalu ei ymrwymiad.

**Asedau Ariannol a Fesurir ar Werth Teg Drwy Incwm Cynhwysfawr Arall**

Caiff asedau ariannol a fesurir ar WTICA eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offerynnau ariannol ac yn cael eu mesur yn y lle cyntaf a'u cario ar werth teg. Cydnabyddir enillion a cholledion gwerth teg wrth iddynt godi mewn incwm cynhwysfawr arall.

**Asedau Ariannol wedi eu Mesur ar Werth Teg Drwy Elw a Cholled**

Cydnabyddir asedau ariannol sydd wedi eu mesur ar werth teg drwy elw a cholled ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol. Maent yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn y lle cyntaf a'u cario ar werth teg. Cydnabyddir enillion a cholledion gwerth teg wrth iddynt gyrraedd y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau.

**Mesuriad Gwerth Teg o Asedau Ariannol**

Gwerth teg ased yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased mewn trafodiad trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar y dyddiad mesur. Mae mesuriad gwerth teg asedau ariannol y Cyngor yn seiliedig ar y technegau canlynol:

- Offerynnau sydd â phris marchnad wedi ei ddyfynnu – pris y farchnad.
- Offerynnau eraill gyda thaliadau sefydlog a phendant – dadansoddiad llif arian gostyngol.

Mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur wedi eu categoreiddio yn unol â'r tri lefel isod;

- Mewnbwn Lefel 1 – prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd actif am asedau yr un fath y gall y Cyngor gael mynediad atynt ar y dyddiad mesur.
- Mewnbwn Lefel 2 – mewnbwn heblaw am brisiau a ddyfynnwyd sy'n gynwysedig o fewn Lefel 1 sy'n weladwy ar gyfer yr ased, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- Mewnbwn Lefel 3 – mewnbwn anweladwy i'r ased.

## NODYN 1 – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Bydd unrhyw enillion a cholledion sydd yn codi wrth ddad-gydnabod ased yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae mesuriad ein hasedau a ddelir ar WTICA yn bris cais uned ar y dyddiad mesur.

### 1.10 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail groniadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyngor wedi ei fodloni.

Oherwydd gofynion y gyfundrefn rheoli cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf fel rhan o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf, nid yw'r grantiau a chyfraniadau sy'n ariannu gwariant cyfalaf sydd wedi eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wir incwm. Felly, mae'r Cyngor yn cyfrifo'r symiau hyn fel a ganlyn:

- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei dderbyn, a bod amodau'n parhau heb eu bodloni ar ddyddiad y Fantolen, yna caiff y grant ei gydnabod fel Derbyniadau Grantiau Cyfalaf o Flaen Llaw ar y Fantolen. Unwaith mae'r amod wedi ei fodloni, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei adnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a bod y gwariant sydd i'w ariannu o'r grant neu gyfraniad hwnnw wedi ei wneud ar ddyddiad y Fantolen, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf, i adlewyrchu dyrannu adnoddau cyfalaf i ariannu gwariant. Adroddir y trosglwyddiad hwn yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

### 1.11 Asedau Treftadaeth

Asedau diriaethol yw asedau treftadaeth gyda rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol, ac a ddelir gan y Cyngor yn bennaf er diben gwybodaeth addysgol neu gyfraniad i ddiwylliant. Dyma'r categorïau o asedau treftadaeth sydd wedi eu hadnabod gan y Cyngor:

- Lluniau a Phaentiadau
- Teyrndlysau Dinesig
- Casgliadau Llyfrgell/Archifau
- Casgliadau Amgueddfeydd ac Orielau
- Adeiladau Hanesyddol a Henebion Cofrestredig
- Parciau a Gwarchodfeydd Natur Leol

Defnyddiodd y Cyngor brisiwr allanol (cwmni Bonhams) i ddarparu amcangyfrifon o brisiadau o'i deyrndlysau dinesig a'i luniau a phaentiadau. Er mwyn cysondeb, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar sail yr un trothwy de minimis i ddibenion prisio Asedau Treftadaeth ag i weddill ei asedau tymor hir - gweler polisi 1.17.

Mae'r Cyngor yn ystyried bod gan yr asedau treftadaeth hyn oes amhenderfynadwy a gwerth gweddilliol uchel; ac o'r herwydd, nid yw'r Cyngor yn ei ystyried yn briodol i ddibrisio'r asedau. Bydd yr asedau treftadaeth a gynhwysir yn y cyfrifon yn cael eu hasesu'n flynyddol am unrhyw amhariad – gweler polisi 1.17.

### 1.12 Stoc a Chontractau Tymor Hir

Dylai stociau a gwaith mewn llaw ymddangos ar y Fantolen ar sail yr isaf o gost a gwir werth, yn unol â darpariaethau'r Cod Ymarfer. Oherwydd ymarferoldeb prif systemau stoc y Cyngor, mae mwyafrif y stoc yn ymddangos yn y cyfrifon ar sail cost gyfartalog. Nid yw'r gwahaniaeth o'r sail prisio yn faterol.

Mae contractau tymor hir yn cael eu cyfrifo ar sail o godi'r gwarged neu'r diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau gyda'r ystyriaeth yn cael ei ddyrannu i'r rhwymedigaethau perfformiad bodlonwyd ar sail y nwyddau neu'r gwasanaethau a drosglwyddwyd i dderbynnydd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

### 1.13 Eiddo Buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer ennill rhent ac/neu adbrisiant cyfalaf yn unig. Nid yw'n cwrdd â'r diffiniad os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os yw ar gael i'w werthu. Caiff yr eiddo yma eu prisio ar sail gwerth teg. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categoreiddio yn unol â thair lefel. Lefel

3 yw holl fewnbynnau y Cyngor (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o natur unigryw yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

### 1.14 Prydlesau

Mae'r Cyngor yn dosbarthu contractau fel prydlesau yn seiliedig ar eu sylwedd – wedi'u dadansoddi i benderfynu a ydynt yn cyfleu'r hawl i reoli'r defnydd o ased a nodwyd, trwy hawliau i gael yr holl fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth o'r ased hwnnw ac i gyfarwyddo ei ddefnydd..

**Y Cyngor fel Prydlesai:**

Mae prydlesau yn cael eu cydnabod i ddechrau fel Asedau Hawl Defnyddio gydag ymrwymiad cyfatebol ar y dyddiad y mae'r ased a brydleswyd ar gael i'w ddefnyddio (neu ddyddiad trosiad SAARh 16). I ddechrau, mae'r Cyngor yn cydnabod ymrwymiadau prydles a fesurir ar werth presennol y taliadau prydles, wedi'u disgowntio gan gyfradd fenthyca cynyddrannol y Cyngor lle na ellir pennu'r gyfradd llog ymhlyg yn y brydles. Mae taliadau prydles sydd wedi'u cynnwys wrth fesur yr ymrwymiad prydles yn cynnwys; taliadau sefydlog; taliadau prydles amrywiol sy'n dibynnu ar indecs neu gyfradd, wedi'u mesur i ddechrau gan ddefnyddio'r indecs neu'r gyfradd bresennol ar y dyddiad mabwysiadu; y pris a ddefnyddir o dan opsiwn prynu y mae'r Cyngor yn rhesymol sicr o'i ddefnyddio; taliadau prydles mewn cyfnod adnewyddu dewisol os yw'r Cyngor yn rhesymol sicr o ddefnyddio opsiwn estyniad; cosbau am derfynu prydles yn gynnar, oni bai bod y Cyngor yn rhesymol sicr na fydd yn terfynu'n gynnar.

Mae taliadau prydles yn cynnwys tâl ar gyfer llog (a adroddir ar linell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr) a thâl prifswm sy'n gostwng yr ymrwymiad prydles. Mae'r ased cysylltiedig yn cael ei drin yn unol â'r polisïau a gymhwysir yn gyffredinol i asedau o'r fath ac mae'n ddarostyngedig i daliadau dibrisiant fel y bo'n briodol. Mae'r ased yn cael ei ddibrisio llinell syth dros y cyfnod byrrach o weddill tymor y les a bywyd defnyddiol yr ased sylfaenol ar y dyddiad mabwysiadu.

Fodd bynnag, ar gyfer prydlesau anfasnachol (peppercorn), taliadau nominal neu brydlesau am ddim, mae'r ased yn cael ei fesur ar werth teg. Fel y caniateir gan y cod; eithrir unrhyw brydlesau ar gyfer eitemau gwerth isel, yr ystyrir gan y Cyngor eu bod yn is na £10,000, neu am dymor sy'n fyrrach na 12 mis.

**Y Cyngor fel Prydleswr:**

Ble mae'r Cyngor yn caniatáu prydles gyllidol ar eiddo, mae'r ased perthnasol yn cael ei ysgrifennu allan o'r Fantolen fel gwarediad, sydd i'w gynnwys yn y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Nid yw gwerth y gwarediad a ysgrifennir allan yn gost a roir yn erbyn y dreth cyngor, gan fod cost asedau tymor hir yn cael eu darparu o dan drefniadau gwahanol ar gyfer ariannu cyfalaf. Mae'r symiau felly yn cael eu priodoli i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o'r Balans Cronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau.

Caiff incwm rhent o eiddo sydd wedi ei ganiatáu trwy brydles weithredol ei gydnabod ar sail linol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a chaiff yr ased ei ddangos ar y Fantolen.

### 1.15 Asedau Gweddilliol

Caiff Asedau Gweddilliol y Cyngor eu dangos ar wahân ar y Fantolen. Gwerth teg yr asedau hyn sy'n cael ei ddangos, sy'n seiliedig ar werth y farchnad. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categoreiddio yn unol â thri lefel. Lefel 3 yw holl fewnbynnau'r Cyngor (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o unigrywiaeth yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

### 1.16 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae rhai costau gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu dosrannu i'r gwasanaethau priodol yn unol â threfniadau'r Cyngor ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol.

### 1.17 Asedau Tymor Hir

Adolygir gwerth asedau'r Cyngor a gofnodir ar fas data'r Gwasanaeth Eiddo o leiaf bob pum mlynedd. Ers y flwyddyn ariannol 2015/16, mae'r Cyngor wedi sefydlu rhaglen dreigl ar gyfer ailbrisio gwahanol gategorïau o'r asedau yma yn flynyddol, gydag ailbrisiad fel arfer yn effeithiol ar 31 Mawrth pob blwyddyn. Mae hyn yn unol â'r Cod a'r Datganiadau Egwyddorion Prisio Asedau a Nodiadau Arweiniad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.
Dangosir Tir ac Adeiladau ar sail gwerth teg, sy'n cynnwys Gwerth Defnydd Presennol (GDP) ar gyfer nifer o eitemau neu gost ail-adeiladu dibrisiedig (CAD) ar gyfer eiddo arbenigol.

## NODYN 1 – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Dangosir Eiddo Buddsoddi ar sail gwerth teg.

Defnyddir cost hanesyddol a ddibrisiwyd ar gyfer Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Mae Asedau is adeiladwaith a chymunedol yn ymddangos ar gost hanesyddol a ddibrisiwyd.

Cynhwysir Asedau materol heb eu cwblhau ar sail cost hanesyddol tan gwblheir y gwaith, pan eu prisir yn unol â'r polisïau cyfrifo a'u trosglwyddo i'r categori asedau perthnasol.

Defnyddir isafswm at ddibenion prisio o £20,000 ar gyfer Tir ac Adeiladau Gweithredol y Cyngor a £5,000 ar gyfer eitemau unigol o Gerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Fe ychwanegir gwariant ar asedau newydd a chyfredol yn flynyddol, gan wedyn ystyried os ydy'r gwariant yma wedi cynhyrchu cynnydd mewn gwerth i'r ased. Os oes cynnydd mae hyn yn cael ei adlewyrchu drwy'r Reserf Ail Brisio; os nad oes cynnydd mae'n dilyn fod amhariad i werth yr ased (gweler isod ar gyfer dull cyfrifo am amhariad). Yn benodol ar gyfer asedau megis Tir ac Adeiladau, ac Asedau Cymunedol ble ceir gwariant yn y flwyddyn o dros £100,000 ar ased unigol, mae Rheolwr Stadau (M.R.I.C.S) y Cyngor yn adolygu'r asedau ac yn ail brisio unrhyw un sydd ei angen.

### Amhariad a Dibrisiant

#### Amhariad

Amhariad yw treuliant budd economaidd sydd yn benodol i ased. Yn unol â Safon Cyfrifo Rhyngwladol 36 mae'r Cyngor yn adolygu ei asedau bob blwyddyn i adnabod unrhyw amhariad neu leihad mewn gwerth oherwydd treuliant buddiannau economaidd. Yn ogystal, caiff gwerth gweddilliol ac oes fuddiol yr asedau eu hadolygu'n flynyddol, a'u haddasu ble'n briodol.

Pan mae colledion amhariad yn cael eu hadnabod, maent yn cael eu cyfrifo fel a ganlyn:

- Ble mae balans o gynnydd ailbrisio ar gyfer ased o fewn y Reserf Ailbrisio, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu ffwrdd yn erbyn y balans (hyd at swm y cynnydd cronedig).

- Pan nad oes balans ar y Reserf Ailbrisio ar gyfer ased neu balans annigonol, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu ffwrdd yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

#### Dibrisiant

Prif elfen SCRh 16 yw y dylid dibrisio adeiladau oni bai eu bod yn cael eu prisio bob blwyddyn. Yn ogystal, dylid dibrisio bob rhan o Eiddo, Offer a Chyfarpar ar wahân os yw eu cost yn arwyddocaol o ystyried cyfanswm cost yr eitem. Dylid sefydlu trothwy isafswm, yn seiliedig ar yr effaith sylweddol tebygol ar y datganiadau ariannol, fel bod bob ased o dan y trothwy yn cael eu diystyru i bwrpas cydrannu. Trothwy ar gyfer 2024/25 yw 1% o werth yr holl adeiladau ar gychwyn y flwyddyn. Y dosraniad sydd yn cael ei ystyried ar gyfer yr elfen sydd ddim yn dir, dros y trothwy de minimis ydi:
a) offer a chyfarpar a gwasanaethau peirianneg, ac
b) adeiledd

Mae'r mwyafrif o adeiladau'r Cyngor (dros 75%) yn cael eu prisio ar sail Cost Ail-adeiladu Dibrisiedig (CAD), a ddatblygir ar y dull cydrannol, ac adlewyrchir y gwahanol elfennau ym manylion y cyfrifiadau. Fodd bynnag, yn gynwysedig yn yr uchod mae adeiladau gydag eitemau sylweddol o offer a chyfarpar sydd ag oes fuddiol fyrrach; e.e. boeleri ac offer gwresogi pyllau nofio a chanolfannau hamdden. Adnabyddir yr elfennau hyn drwy addasu oes fuddiol yr adeilad i gymryd oes fyrrach yr elfennau i ystyriaeth.

Yn seiliedig ar adolygiad o natur a'r math o adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor, daethpwyd i'r canlyniad nad oes gan weddill yr adeiladau eitemau sylweddol o offer a chyfarpar na gwasanaethau peirianneg sydd angen eu cydrannu ar wahân.

Dibrisir Asedau ar sail eu gwerth ar y Fantolen i'w ysgrifennu i ffwrdd fel a ganlyn:

(i) Dibrisir Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar dros eu bywyd amcangyfrifiedig (3–15 mlynedd, neu fwy os oes tystiolaeth cefnogol)
(ii) Dibrisir Is adeiladwaith dros 40 mlynedd
(iii) Ysgrifennir Gwariant Refeniw i'w ariannu o Gyfalaf drwy Statud i lawr yn y cyfnod yr ymddangosant
(iv) Ni ddibrisir Tir

## NODYN 1 – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

(v) Dibrisir Adeiladau dros eu bywyd defnyddiol gweddilliol amcangyfrifiedig (5–80 mlynedd)
(vi) Ni ddibrisir Eiddo Buddsoddi, Asedau heb eu Cwblhau nac Asedau Sydd Ar Gael i'w Gwerthu

Ni ddibrisir ym mlwyddyn y caffaeliad.

**Lleiafswm Darpariaeth Refeniw**

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifeg) (Cymru) (Diwygio) 2018 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud darpariaethau darbodus ar gyfer adbrynu dyledion. Mae'r Gweinidogion Cymreig wedi cyhoeddi Canllawiau ar Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (LIDR) ac mae gofyn i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i Ganllawiau o'r fath yn unol ag adran 21 (1B) Deddf Llywodraeth Leol 2003.

Dyma'r pedwar opsiwn LIDR sydd ar gael:
- Opsiwn 1: Y Dull Rheoleiddio
- Opsiwn 2: Y Dull Gofyn Cyllido Cyfalaf
- Opsiwn 3: Y Dull Oes Asedau
- Opsiwn 4: Y Dull Dibrisiad

*D.S.: Nid yw hyn yn cau allan dulliau darbodus eraill.*

LIDR yn 2024/25: Gellir defnyddio opsiynau 1 a 2 dim ond ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi nad yw o'r Cyfrif Refeniw Tai (Dim-CRT) a ariennir o fenthyciad (ystyr 'wedi'i gefnogi' yma yw costau cyllido a gaiff eu cefnogi drwy Grant Cefnogi Refeniw y Llywodraeth Ganolog). Mae'r dulliau o wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer gwariant cyfalaf Dim-CRT heb ei gefnogi yn cynnwys Opsiynau 3 a 4 (gellir defnyddio 3 a 4 ar gyfer gwariant cyfalaf Dim-CRT wedi'i gefnogi yn ogystal, os yw'r Cyngor yn penderfynu gwneud hynny).

Cyflwynwyd y Datganiad LIDR i'r Cyngor cyn dechrau blwyddyn ariannol 2024/25. Pe bai cynnig i ddiwygio telerau'r Datganiad LIDR gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor ar yr adeg honno.

Defnyddiodd y Cyngor Opsiwn 3 yng nghyswllt gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a ariennir o fenthyciad gan asesu mai mesuriad darbodus fyddai dros 50 mlynedd, ac Opsiwn 3 yng nghyswllt gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a ariennir o fenthyciad.

Roedd yr LIDR yng nghyswllt lesau a chynlluniau Menter Cyllid Preifat (MCP) a brynwyd ar y Fantolen dan y Cod Ymarfer Cyfrifeg sy'n seiliedig ar y SAARh yn cyd-fynd â'r ad-daliad prifswm blynyddol ar gyfer yr ymrwymiad gohiriedig cysylltiedig.

Mae'r Cyngor yn adolygu'r polisi yma yn flynyddol yng ngoleuni'r Cynllun Rheoli Asedau.

Yn unol â'r Cod Ymarfer, telir am wariant cyfalaf ar gyfer Gwasanaethau Cronfa'r Cyngor sydd i'w gyllido o refeniw drwy ei ddosbarthu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

### 1.18 Treth Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol

Mae incwm Treth Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol am y flwyddyn yn cael eu trin fel incwm cronedig, ac yn cael eu cynnwys ar linell Treth ac Incwm Grant Amhenodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae Cyngor Gwynedd yn Awdurdod bilio Treth Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol. Mae'n casglu Treth Cyngor ar ran ei hun ac ar ran awdurdodau eraill, ac yn casglu Trethi Annomestig fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru.

### 1.19 Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi cymryd lle ar neu cyn dyddiad y Fantolen:
- sy'n rhoi rhwymedigaeth bresennol i'r Cyngor
- sy'n debyg o fod angen setliad trwy drosglwyddiad o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth, a
- lle gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

## NODYN 1– POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Os nad yw'n glir os yw digwyddiad wedi cymryd lle ar neu cyn dyddiad y Fantolen, ystyrir ei fod yn arwain at rwymedigaeth bresennol os yw, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, yn fwy tebygol na pheidio bod rhwymedigaeth bresennol yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen. Gall y rhwymedigaeth bresennol fod yn gyfreithiol neu'n adeiladol.

Caiff setliadau amcangyfrifedig eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Pan ddaw'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd yn awr (neu y gwneir setliad is na'r disgwyl), caiff y ddarpariaeth ei wrthdroi a'i gredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

### 1.20 Reserfau (a Balansau)

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1992, mae'r Cyngor yn cynnal –

- Cronfa Gyffredinol sydd yn cynrychioli arian wrth gefn ("balansau") y Cyngor, sef balans gweithredol i helpu lliniaru effaith llif arian anwastad ag i'w gadw wrth gefn i liniaru effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau.

- Nifer o reserfau penodol cyfalaf a refeniw a glustnodwyd ar gyfer pwrpasau arbennig, sef arian wedi'i adeiladu i gwrdd ag ymrwymiadau a ragwelir. Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad parhaus o ddigonolrwydd a defnydd o reserfau penodol.

- Mae'r Cyngor yn cymryd agwedd asesu'r risg tuag at gynnal lefelau digonol o falansau a reserfau er mwyn cwrdd ag anghenion gwario'r dyfodol. Wrth ystyried y gyllideb flynyddol a'r strategaeth ariannol tymor canol, bydd y Cyngor yn gosod allan ei fwriad ynghylch lefel y balansau cyffredinol a'r cronfeydd, yng nghyd-destun yr holl risgiau perthnasol. Gweler cymeradwyaeth o'r polisi llawn ar gyfer cronfeydd gan Gabinet y Cyngor ar 23 Mehefin 2015.

- Cedwir rhai reserfau eraill, sef 'reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy y Cyngor.

### 1.21 Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf Drwy Statud

Mae deddfwriaeth yn caniatáu categoreiddio peth gwariant fel cyfalaf i bwrpas ariannu er nad yw'n creu ased sydd yn cael ei gario ar y Fantolen. Bwriad hyn yw galluogi'r gwariant i gael ei ariannu o adnoddau cyfalaf yn hytrach nag ei roi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol a fyddai'n cael effaith ar y Dreth Cyngor am y flwyddyn. Defnyddir cost hanesyddol fel sail prisio ar gyfer y math yma o wariant ac ysgrifennir hwn i lawr o fewn blwyddyn.

### 1.22 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW y cynhwysir TAW neu y caiff ei ddangos fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant cyfalaf a refeniw.

### 1.23 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir cyfrifon y Cyngor ar sail cronni yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol, a hefyd rhai taliadau blynyddol megis yswiriant. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith o bwys ar gyfrifon y flwyddyn.

### 1.24 Dyrannu Llog a Difidendau Derbyniadwy

Mae'r Cyngor yn buddsoddi arian dros ben am gyfnodau o dros nos hyd at 13 mis (ac eithrio buddsoddiadau mewn cronfeydd cyfun) a thelir y llog i'r Gronfa Gyffredinol, Cronfa Bensiwn Gwynedd, Cronfa'r Degwm ac ymddiriedolaethau a chyd-bwyllgorau eraill ar sail eu balansau dyddiol a'r gyfradd llog a enillir. Telir y difidendau o'r cronfeydd cyfun i'r Gronfa Gyffredinol.

### 1.25 Costau Benthyca

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca sy'n perthyn i gaffaeliad, gwneuthuriad na chynhyrchiad ased cymwysedig fel a ganiateir yn y Cod.

## NODYN 1– POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Cyfrifir am log sydd yn daladwy ar fenthyciadau allanol yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo ar sail sy'n adlewyrchu effaith economaidd gyflawn y benthyciad.

### 1.26 Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill

Mae gan y Cyngor ddiddordebau mewn cwmnïau ac endidau eraill y mae'n ofynnol eu cynnwys yn y datganiadau ariannol. Yn unol ag ystyriaethau materoldeb, mae Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi'i gynnwys o fewn datganiadau ariannol y Cyngor. Cynhaliwyd y gwaith atgyfnerthu ar sail llinell wrth linell a'i ddosrannu i bob awdurdod ar drafodion gwirioneddol yn y lle cyntaf gyda'r trafodion a'r balansau sy'n weddill wedi'u rhannu yn unol â'u Cytundeb Llywodraethu.

Yn seiliedig ar fateroldeb, nid yw'r cyd-bwyllgorau canlynol wedi cael eu cyfuno i ddatganiad ariannol y Cyngor:-

- GwE
- Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Yn seiliedig ar fateroldeb, nid yw cyfrifon grŵp wedi eu cynhyrchu i gynnwys Cwmni Byw'n Iach.

### 1.27 Asedau Cyfredol ar gael i'w gwerthu

Er mwyn i ased gael ei gydnabod fel Ased ar gael i'w werthu, mae'n ofynnol i'r ased fod ar gael i'w werthu yn syth yn ei gyflwr presennol, mae'n rhaid i'r gwerthiant fod yn hynod o debygol, rhaid i'r ased gael ei farchnata a'r gwerthiant gael ei gwblhau o fewn blwyddyn i ddyddiad y dosbarthiad. Caiff yr ased ei gydnabod ar werth teg (gwerth y farchnad) llai costau gwerthu wrth ailddosbarthu. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categoreiddio yn unol â thri lefel. Lefel 3 yw holl fewnbynnau'r Cyngor (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o unigrywiaeth yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

### 1.28 Gwaredu Asedau

Pan mae ased yn cael ei waredu, mae gwerth yr ased yn y Fantolen yn cael ei ysgrifennu ffwrdd i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw a cholled wrth waredu. Mae derbyniadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu golled wrth waredu (e.e. cael ei glustnodi yn erbyn gwerth yr ased ar adeg y gwaredu). Mae unrhyw gynnydd wedi ei gronni ar gyfer yr ased yn y Reserf Ailbrisio yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

### 1.29 Derbyniadau Cyfalaf

Pan werthir asedau gan y Cyngor mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'r defnydd y gellir ei wneud o'r derbyniadau cyfalaf.

Gellir defnyddio 100% o'r holl dderbyniadau cyfalaf sydd yn perthyn i Gronfa'r Cyngor ac nid yw'n angenrheidiol bellach i roi canran o'r derbyniad o'r neilltu. Cedwir y derbyniadau yn y Reserf Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy hyd nes defnyddir yr adnoddau i gyllido gwariant cyfalaf.

### 1.30 Trefniant Consesiwn Gwasanaeth

Mae Trefniant Consesiwn Gwasanaeth, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Menter Cyllid Preifat (MCP), yn gytundebau i dderbyn gwasanaethau, ble mae'r eiddo, offer a chyfarpar i ddarparu'r gwasanaeth dan gyfrifoldeb y contractwr MCP am gyfnod y cytundeb ond yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd y cyfnod heb unrhyw gost ychwanegol. Mae'r Cyngor yn rheoli'r gwasanaeth a ddarperir ac yn medru rheoli pwy arall sy'n medru defnyddio'r ddarpariaeth. Mae'r gost am ddefnydd o'r ddarpariaeth yn cael ei gytuno gyda'r Contractwr cyn gosod y cytundeb drwy broses o ddeialog cystadleuol.

### 1.31 Gweithrediadau ar y Cyd

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniant ble mae gan y partïon sydd â chydreolaeth yr hawl i'r asedau a'r oblygiadau o'r ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau. Mae'r gweithgareddau y mae'r Cyngor wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r cyd-weithredwyr. Mewn perthynas â'i ddiddordeb mewn trefniant gweithred ar y cyd, mae'r Cyngor fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod ei gyfran o'r asedau, ymrwymiadau, refeniw a gwariant.

## NODYN 1– POLISIAU CYFRIFO (parhad)

### 1.32 Ysgolion

Mae'r *Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* yn cadarnhau bod cydbwysedd rheolaeth ysgolion sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol (h.y. yr ysgolion hynny sy'n cael eu hadnabod yn y Ddeddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd), yn gorwedd efo'r awdurdod lleol. Mae'r Cod hefyd yn datgan bod asedau, ymrwymiadau, reserfau a llif arian yr ysgolion hynny yn cael eu cydnabod yng nghyfrifon yr awdurdod lleol (ac nid mewn Cyfrifon Grŵp). O ganlyniad, mae trafodion, llif arian a balansau yr ysgolion yn cael eu cydnabod ym mhob un o ddatganiadau ariannol y Cyngor fel petaent yn drafodion, llif arian a balansau y Cyngor.

### 1.33 Mesuriad Gwerth Teg o Asedion An-Ariannol

Mae polisi'r Cyngor ar fesuriad gwerth teg ased ariannol wedi ei osod allan yn nodyn 1.9. Mae'r Cyngor hefyd yn rhoi mesuriad gwerth teg ar rai o asedau an-ariannol y Cyngor megis asedau gweddilliol, eiddo buddsoddi a rhai o offerynnau ariannol ar bob cyfnod adrodd. Gwerth teg yw'r pris gwerthu a dderbynnir ar gyfer yr ased mewn modd trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar ddyddiad y mesuriad. Mae'r mesuriad gwerth teg yn tybio bod y trefniant o werthu'r ased neu drosglwyddo'r ymrwymiad yn cymryd lle unai:

a. yn y brif farchnad i'r ased, neu
b. yn absenoldeb prif farchnad, yn y farchnad sydd fwyaf manteisiol ar gyfer yr ased.

Wrth fesur gwerth teg ased neu ymrwymiad, defnyddia'r Cyngor ragdybiaethau y byddai cyfranogwyr y farchnad yn eu defnyddio wrth brisio ased neu ymrwymiad, gan gymryd bod cyfranogwyr y farchnad yn gweithredu er eu budd economaidd mwyaf.

Wrth fesur gwerth teg ased an-ariannol, mae'r Cyngor yn ystyried gallu cyfranogwyr y farchnad i gynhyrchu buddiannau economaidd drwy ddefnyddio'r ased yn y modd gorau bosib, neu drwy ei werthu i gyfranogwr arall y farchnad fyddai'n defnyddio'r ased yn y modd gorau bosib.

Defnyddia'r Cyngor dechnegau prisio sydd yn addas i'r amgylchiadau ac sydd â data digonol ar eu cyfer, gan uchafu'r defnydd o fewnbwn gweladwy perthnasol ac isafu'r defnydd o fewnbwn anweladwy.

Mae'r mewnbwn i'r technegau prisio sy'n berthnasol i'r asedau hynny ble mesurir neu ddatgelir gwerth teg ar eu cyfer yn natganiadau ariannol y Cyngor yn cael eu categoreiddio yn hierarchaeth gwerth teg fel a ganlyn:

- Lefel 1 – prisiau a ddyfynnir (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu ymrwymiadau unfath y gall y Cyngor eu cyrchu ar ddyddiad y mesuriad;
- Lefel 2 – mewnbwn ar wahân i'r prisiau a ddyfynnir yn Lefel 1, sydd yn weladwy ar gyfer yr ased, unai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol; neu
- Lefel 3 – mewnbwn anweladwy ar gyfer ased.

### 1.34 Polisïau Eraill

Mae gan Gyngor Gwynedd bolisïau ar gyfer y canlynol, ond nid ydynt yn cael eu hystyried i fod yn faterol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25:
- Asedau Anniriaethol
- Trosi Arian Tramor.

## NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Mae'r polisïau cyfrifo presennol y Cyngor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r cyfarwyddiadau yn y Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024/25.

## NODYN 3 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL

Nid oes yna addasiad cyfnod blaenorol yn berthnasol i gyfrifon 2024/25.

## NODYN 4 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwyliedig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gael ei ddatgan. Mae hyn yn berthnasol i'r ymarferion newydd neu ddiwygiedig canlynol o fewn Cod 2025/26*:*

- SCRh 21 Effeithiau Newidiadau Mewn Cyfraddau Cyfnewid Tramor (Diffyg Cyfnewidiadwyedd) a gyhoeddwyd ym mis Awst 2023. Mae'r diwygiadau i SCRh 21 yn esbonio sut y dylai endid asesu a yw arian cyfredol yn gyfnewidiol a sut y dylai benodi cyfradd cyfnewid ar y pryd pan y gwelir diffyg cyfnewidiadwyedd, yn ogystal â gofyn am ddatgelu gwybodaeth sy'n galluogi defnyddwyr datganiadau ariannol i ddeall yr effaith pan nad yw arian cyfredol yn gyfnewidiadwy.
- SAARh 17 Cytundebau Yswiriant a gyhoeddwyd ym Mai 2017. Mae SAARh 17 yn disodli SAARh 4 ac mae'n cyflwyno egwyddorion ar gyfer adnabod, mesur, cyflwyno a datgan cytundebau yswiriant.
- Mae'r newidiadau i fesur asedau na fuddsoddir o fewn Cod 2025/26 yn cynnwys addasiadau a dehongliadau o SCRh 16 Eiddo, Offer a Chyfarpar a SCRh 38 Asedau Anniriaethol. Mae rhain yn cynnwys sefydlu tair proses ailbrisio ar gyfer eiddo gweithredol, offer a chyfarpar, gan ofyn am ddefnyddio ffactorau mynegrifo ar gyfer asedau diriaethol na fuddsoddir a gofyniad i werthuso asedau anniriaethol gan ddefnyddio'r dull cost hanesyddol. Mae gan y rhain yr un effaith a gofyn am newid i bolisi cyfrifeg oherwydd diwygiad i'r safonau, a fyddai fel arfer yn cael ei ddatgelu o dan SCRh 8. Fodd bynnag, mae'r addasiadau hefyd yn cynnwys rhyddhad rhag gofynion SCRh 8 ar ôl newid yn y polisi cyfrifo.

Mae'n ofynnol fod y Cod yn weithredol o 1 Ebrill 2025 ac felly nid oes unrhyw effaith ar Ddatganiad o'r Cyfrifon 2024/25. Ni ddisgwylir y bydd yr eitemau eraill uchod yn cael effaith sylweddol ar y wybodaeth a ddarperir yn natganiadau ariannol 2025/26.

## NODYN 5 – BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISÏAU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisïau cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyngor wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau'r asedau ac ymrwymiadau i'w cario nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu seilio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol, a ffactorau eraill sy'n cynnwys tybiaethau a thafluniadau hanesyddol a chyfredol, a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiadau proffesiynol, tueddiadau cyfredol, a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu peth ansicrwydd am lefelau ariannu grantiau refeniw a chyfalaf i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r mater yma yn rhan bwysig o strategaeth ariannol y Cyngor sy'n cael ei ddiweddaru yn gyson, gyda'r ffactorau a wybyddir ac a ragwelir yn cael ystyriaeth briodol. Mae ansicrwydd economaidd yn parhau er bod cyfraddau chwyddiant a llog bellach wedi lleihau. Er hynny, mae'r Cyngor yn benderfynol nad yw'r ansicrwydd yn ddigonol i roi arwydd fod amhariad i werth asedau'r Cyngor o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau'r gwasanaeth a ddarperir yn sylweddol.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis ailbrisio, dibrisiant ac amhariad asedau, prisiad yr actiwari o asedau a ymrwymiadau'r Gronfa Bensiwn, reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymiadau dibynnol. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd, gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

## NODYN 6 – TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyngor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitemau canlynol ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2025 yn rhai a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

| Eitem | Ansicrwydd | Effaith os yw canlyniadau gwir yn wahanol i dybiaethau |
|---|---|---|
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | Mae asedau yn cael eu dibrisio dros eu hoes fuddiol yn unol â chyfrifeg safonol ac arferion cysylltiedig. Mae'r hinsawdd economaidd gyfredol yn creu ansicrwydd ymysg cynghorau am eu gallu i gynnal y gwariant angenrheidiol ar gynnal a chadw. Bydd goblygiadau o hyn ar fywyd ased. Mae Tir ac Adeiladau yn cael eu hailbrisio o leiaf bob pum mlynedd, ac ers 2015/16 cyflwynwyd rhaglen dreigl ailbrisio. Mae angen dod i farn yn aml fel rhan o'r broses asesiad ailbrisio ac amhariad. Mae hyn yn arwain at ansicrwydd, a'r angen am dybiaethau ac ymateb yn briodol iddynt. | Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng y dibrisiant a gwir ddirywiad yr ased ei adlewyrchu ym mhatrymau gwariant y dyfodol. Lle bo angen, bydd unrhyw oblygiadau tymor hir yn cael eu hymgorffori yn ein strategaeth ariannol. Mae gwybodaeth ynglŷn ag Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi ei gynnwys yn Nodyn 15. |
| Darpariaethau | Mae darpariaethau yn gynwysedig yn y cyfrifon, ble mae'r sail unigol wedi cael eu hasesu yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf, gweler Nodyn 22 am y manylion, sydd yn cynnwys darpariaeth am Safleoedd Gwastraff. Nid oes modd cadarnhau cywirdeb y ddarpariaeth hyd nes bod y materion wedi diweddu. | Os yw'r darpariaethau yn annigonol, bydd y costau ychwanegol yn cael eu hariannu o refeniw neu o gronfeydd wrth gefn. |
| Ymrwymiad Pensiwn | Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth yn ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac adenillion disgwyliedig ar asedau'r Gronfa Bensiwn. Mae cwmni o actiwariaid ymgynghori yn ymwneud â rhoi cyngor arbenigol i'r Cyngor am y rhagdybiaethau i'w defnyddio.<br><br>Cafodd Brexit a Covid effeithiau negyddol ar economi'r DU a gwerthoedd asedau pensiwn, ond mae cyfraddau chwyddiant a llogau wedi lleihau ac ymddengys bod y farchnad yn gwella ac yn sefydlogi. Fodd bynnag, gallai pandemig neu argyfwng byd eang arall gael effaith niweidiol ar adenillion asedau, yn ogystal â chynnydd mewn cyfraddau llog i ffrwyno cynnydd chwyddiant. | Mae effeithiau newidiadau mewn tybiaethau unigol ar ymrwymiad pensiwn net wedi ei nodi yn Nodiadau 37 a 38. |
| Lwfans Colled Amhariad | Mae lefel o amhariad dyledion drwg sydd wedi ei gynnwys yn y cyfrifon yn seiliedig ar bolisi penodol. Mae lefel yr amhariad yn cael ei adolygu yn rheolaidd er mwyn gallu ymateb i unrhyw newidiadau yn yr hinsawdd economaidd ac unrhyw addasiad i ymateb i'r sefyllfa yn cael ei weithredu'n briodol yn y cyfrifon. Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan y Cyngor falans dyledwyr net o £123m (Nodyn 18a), ac mae'r balans hwn yn net o'r amhariad ar ddyledion drwg o £9m. | Os yw'r amhariad yn annigonol, bydd y cyllid ychwanegol yn cael ei ariannu o refeniw neu o gronfeydd wrth gefn. |

## NODYN 7 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:

- (£1m) yn y maes pensiwn, sef yr ailfesuriad blynyddol o'r ymrwymiad buddion pensiwn diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 23.5).
- Yn dilyn ailbrisio rhan o bortffolio tir ac adeiladau'r Cyngor (sydd bellach yn dilyn rhaglen dreigl), mae'r gwarged net yn deillio o ailbrisio asedau sefydlog i'r Reserf Ailbrisio yn £40m (Nodyn 23.1) a chost ailbrisio a'r amhariad i'r Gwasanaethau yn £4m (Nodyn 15).
- Mae'r Cyngor fel pob corff cyhoeddus arall yn parhau i wynebu heriau ariannu sylweddol, yn benodol ansicrwydd ynghylch lefel y Grant Cynnal Refeniw a dderbynnir gan y Llywodraeth. Does dim sicrwydd o unrhyw gynnydd yn y grant ar gyfer y tymor canolig.
- O ganlyniad i gynlluniau'r Llywodraeth Ganolog gan gynnwys Cronfa Ffyniant Bro, derbyniwyd grantiau sylweddol yn ystod 2024/25, sydd wedi cyfrannu at y cynnydd sylweddol yn y gwariant refeniw sydd yn cael ei ariannu o gyfalaf dan statud, sydd yn £41m (Nodyn 34), tra fod yr incwm grant cysylltiedig i'w ariannu yn (£38m) (Nodyn 32).
- Mae gwerth dibrisiant asedau'r Cyngor yn £21m (Nodyn 15).

## NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

| **2024/25** | **ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i)** | **Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii)** | **Gwahaniaethau Eraill (iii)** | **Cyfanswm Addasiadau Statudol** | **Addasiadau (Anstatudol) Eraill (iv)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Addysg | 7,688 | (1,839) | 0 | **5,849** | 0 | **5,849** |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 28 | (171) | 0 | **(143)** | 0 | **(143)** |
| Cyllid | 1,704 | (212) | 0 | **1,492** | 0 | **1,492** |
| Economi a Chymuned | 3,032 | (157) | 0 | **2,875** | 0 | **2,875** |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 474 | (576) | 0 | **(102)** | (78) | **(180)** |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 83 | (244) | 0 | **(161)** | 0 | **(161)** |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC * | 4,937 | (561) | 0 | **4,376** | 0 | **4,376** |
| Amgylchedd | 4,445 | (262) | 0 | **4,183** | 0 | **4,183** |
| Tai ac Eiddo | 5,478 | (150) | 0 | **5,328** | 0 | **5,328** |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 8 | (50) | 0 | **(42)** | 0 | **(42)** |
| Corfforaethol | 0 | 361 | 2,865 | **3,226** | 136 | **3,362** |
| **Cost Gwasanaethau** | **27,877** | **(3,861)** | **2,865** | **26,881** | **58** | **26,939** |
| Gwariant Gweithredol Arall | (173) | 0 | 0 | **(173)** | 0 | **(173)** |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | (17,171) | 754 | (207) | **(16,624)** | (58) | **(16,682)** |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | (29,178) | 0 | 0 | **(29,178)** | 0 | **(29,178)** |
| **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(18,645)** | **(3,107)** | **2,658** | **(19,094)** | **0** | **(19,094)** |

* Yn cynnwys addasiadau perthnasol i'r Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

## NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

| 2023/24 | ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i)** | **Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii)** | **Gwahaniaethau Eraill (iii)** | **Cyfanswm Addasiadau Statudol** | **Addasiadau (Anstatudol) Eraill (iv)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Addysg | 7,602 | (1,358) | 0 | **6,244** | 0 | **6,244** |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 15 | 13 | 0 | **28** | 0 | **28** |
| Cyllid | 1,628 | (16) | 0 | **1,612** | 0 | **1,612** |
| Economi a Chymuned | 4,011 | (60) | 0 | **3,951** | 0 | **3,951** |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 548 | 36 | 0 | **584** | (295) | **289** |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 127 | 19 | 0 | **146** | 0 | **146** |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC * | 5,254 | (43) | 0 | **5,211** | 0 | **5,211** |
| Amgylchedd | 4,020 | 26 | 0 | **4,046** | 0 | **4,046** |
| Tai ac Eiddo | 4,796 | (3) | 0 | **4,793** | 0 | **4,793** |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 1 | (11) | 0 | **(10)** | 0 | **(10)** |
| Corfforaethol | 4 | (132) | 3,735 | **3,607** | 49 | **3,656** |
| **Cost Gwasanaethau** | **28,006** | **(1,529)** | **3,735** | **30,212** | **(246)** | **29,966** |
| Gwariant Gweithredol Arall | 4 | 0 | 0 | **4** | 0 | **4** |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | (16,581) | (231) | (202) | **(17,014)** | 246 | **(16,768)** |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | (20,629) | 0 | 0 | **(20,629)** | 0 | **(20,629)** |
| **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(9,200)** | **(1,760)** | **3,533** | **(7,427)** | **0** | **(7,427)** |

* Yn cynnwys addasiadau perthnasol i'r Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

### (i) Addasiadau i Bwrpas Cyfalaf

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r golofn yma yn ychwanegu dibrisiant, amhariad ac elw a cholledion ailbrisiad.
- **Gwariant Gweithredol Arall** – yn addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf gyda throsglwyddiad o incwm ar waredu asedau a'r symiau â ddilëwyd ar gyfer yr asedau hynny.
- **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi** – mae'r costau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf, h.y. darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf a chyfraniadau refeniw arall yn cael eu tynnu allan o incwm a gwariant arall gan na ellir codi amdanynt o dan ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig.
- **Treth ac Incwm Grant Amhenodol** - mae grantiau cyfalaf yn cael eu haddasu ar gyfer incwm na ellir codi amdano dan ymarferion cyfrifo. Mae grantiau refeniw yn cael eu haddasu o rhai sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn i rai sy'n dderbyniadwy heb amodau neu lle mae amodau wedi eu bodloni trwy gydol y flwyddyn. Mae'r llinell Treth ac Incwm Grant Amhenodol yn cael ei chredydu gyda grantiau cyfalaf derbyniadwy yn y flwyddyn heb amodau neu lle mae'r amodau wedi eu bodloni yn y flwyddyn.

**(ii) Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiynau**

Newidiadau net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* SCRh 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Ar gyfer **Gwasanaethau,** mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan y Cyngor fel y caniateir trwy statud a'u amnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Ar gyfer **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi,** y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**(iii) Gwahaniaethau Eraill**

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am groniad absenoldebau a enillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Ar gyfer **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi,** mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer gwahaniaethau amseru am bremiymau a disgownt.

**(iv) Addasiadau (Anstatudol) Eraill**

- **Gwasanaethau -** mae'r lwfans colled amhariad ar Ddyledwyr Masnachol wedi'i ddidynnu ac wedi trosglwyddo i wariant ac incwm ariannu a buddsoddi.
- **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi** – wedi'i addasu i drosglwyddo lwfans colled amhariad ar Ddyledwyr Masnachol o wasanaethau.

## NODYN 9 – ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyngor i gwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

| **2024/25**<br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserfau Defnyddiadwy** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Balans Cronfa Gyffredinol** | **Reserf Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau i Adnoddau Refeniw** | | | | |
| *Symiau ble mae'r incwm a gwariant sy'n gynwysedig yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r refeniw am y flwyddyn sy'n cael ei gyfrifo yn unol â'r gofynion statudol* | | | | |
| Costau pensiwn (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Pensiynau) | 3,106 | 0 | 0 | (3,106) |
| Offerynnau ariannol (trosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol) | 51 | 0 | 0 | (51) |
| Tâl gwyliau (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Absenoldebau Cronedig) | (2,571) | 0 | 0 | 2,571 |
| Gwrthdroi eitemau sydd wedi eu cynnwys yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf (mae'r eitemau hyn yn cael eu rhoi yn erbyn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf) | 1,475 | 0 | 0 | (1,475) |
| **Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw** | **2,061** | **0** | **0** | **(2,061)** |
| **Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | | | | |
| Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (138) | (329) | 0 | 467 |
| Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth | 3,456 | 0 | 0 | (3,456) |
| Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth | 2,235 | 0 | 0 | (2,235) |
| Gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu o falansau refeniw (trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf) | 11,480 | 0 | 0 | (11,480) |
| **Cyfanswm Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | **17,033** | **(329)** | **0** | **(16,704)** |
| **Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf** | | | | |
| Defnydd o'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | 0 | 43 | 0 | (43) |
| Defnydd o'r grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | 0 | 0 | (320) | 320 |
| Taliadau arian parod yn ymwneud â derbyniadau cyfalaf gohiriedig | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf** | **0** | **43** | **(320)** | **277** |
| **CYFANSWM ADDASIADAU** | **19,094** | **(286)** | **(320)** | **(18,488)** |

## NODYN 9 – ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU (parhad)

| **2023/24**<br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserfau Defnyddiadwy**<br>**Balans Cronfa Gyffredinol** | **Reserf Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau i Adnoddau Refeniw** | | | | |
| *Symiau ble mae'r incwm a gwariant sy'n gynwysedig yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r refeniw am y flwyddyn sy'n cael ei gyfrifo yn unol â'r gofynion statudol* | | | | |
| Costau pensiwn (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Pensiynau) | 1,760 | 0 | 0 | (1,760) |
| Offerynnau ariannol (trosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol) | (67) | 0 | 0 | 67 |
| Tâl gwyliau (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Absenoldebau Cronedig) | (3,515) | 0 | 0 | 3,515 |
| Gwrthdroi eitemau sydd wedi eu cynnwys yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf (mae'r eitemau hyn yn cael eu rhoi yn erbyn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf) | (7,377) | 0 | 0 | 7,377 |
| **Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw** | **(9,199)** | **0** | **0** | **9,199** |
| **Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | | | | |
| Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 45 | (318) | 0 | 273 |
| Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth | 2,756 | 0 | 0 | (2,756) |
| Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth | 2,496 | 0 | 0 | (2,496) |
| Gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu o falansau refeniw (trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf) | 11,329 | 0 | 0 | (11,329) |
| **Cyfanswm Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | **16,626** | **(318)** | **0** | **(16,308)** |
| **Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf** | | | | |
| Defnydd o'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | 0 | 250 | 0 | (250) |
| Defnydd o'r grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | 0 | 0 | 302 | (302) |
| Taliadau arian parod yn ymwneud â derbyniadau cyfalaf gohiriedig | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf** | **0** | **250** | **302** | **(552)** |
| **CYFANSWM ADDASIADAU** | **7,427** | **(68)** | **302** | **(7,661)** |

## NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD

**Balansau Ysgolion**

Cynrychiolai'r swm yma'r elfen o falansau a ryddhawyd o dan ddatganoli cyllideb yn uniongyrchol i'r ysgolion ond sydd heb eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac sydd yn leihad net o £260k o'i gymharu â'r balans ar 31 Mawrth 2024:

| 2024/25 | Balans 31 Mawrth 2024 £'000 | Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd £'000 | mewn £'000 | allan £'000 | Balans 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Balansau Ysgolion | 8,542 | 0 | 1,219 | (1,479) | 8,282 |
| **Cyfanswm** | **8,542** | **0** | **1,219** | **(1,479)** | **8,282** |

## NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

**Reserfau a Glustnodwyd**

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r symiau a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, a'r symiau hynny a drosglwyddwyd nôl o'r reserfau a glustnodwyd i gwrdd â gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2024/25, gyda chynnydd net o £9.0m ers sefyllfa 31 Mawrth 2024.

| | **2024/25** | **Balans** | **Trosglwyddiadau** | | | **Balans** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **31 Mawrth** | **rhwng cronfeydd** | **mewn** | **allan** | **31 Mawrth** |
| **Nodyn** | | **2024** | | | | **2025** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| *10.1* | Reserfau Adnewyddu | 5,675 | 0 | 3,574 | (5,279) | 3,970 |
| *10.2* | Reserf Adnewyddu Strategaeth Ddigidol Ysgolion | 2,000 | 0 | 0 | 0 | 2,000 |
| *10.3* | Reserfau Cyfalaf | 26,464 | (327) | 207 | 461 | 26,805 |
| *10.4* | Reserfau Yswiriant | 1,426 | 0 | 891 | (1,018) | 1,299 |
| *10.5* | Cronfa Gwasanaethau | 3,718 | (473) | 507 | (1,147) | 2,605 |
| *10.6* | Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant | 429 | 53 | 0 | (6) | 476 |
| *10.7* | Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion | 2,101 | 0 | 0 | (288) | 1,813 |
| *10.8* | Hyfforddiant Canolog | 921 | 1,640 | 0 | (498) | 2,063 |
| *10.9* | Reserfau Gwasanaethau Addysg | 4,242 | (785) | 794 | (208) | 4,043 |
| *10.10* | Reserfau Economi a Chymuned | 678 | 0 | 398 | (564) | 512 |
| *10.11* | Reserfau Priffyrdd, Peirianneg ac YGC | 284 | 0 | 4,489 | (595) | 4,178 |
| *10.12* | Reserfau Amgylchedd | 614 | 0 | 1,881 | (1,453) | 1,042 |
| *10.13* | Reserfau Tai ac Eiddo | 365 | 0 | 1,618 | (329) | 1,654 |
| *10.14* | Reserfau Gofal | 768 | 0 | 179 | (248) | 699 |
| *10.15* | Cronfa Trawsnewid Busnes | 941 | (37) | 0 | (73) | 831 |
| *10.16* | Cronfa Buddsoddi i Arbed - Prosiect Rheoli Carbon | 564 | 0 | 0 | 0 | 564 |
| *10.17* | Cronfa Trawsffurfio / Cynllun y Cyngor | 11,153 | 2,380 | 1,595 | (3,564) | 11,564 |
| *10.18* | Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu hymrwymo | 1,532 | 110 | 325 | (397) | 1,570 |
| *10.19* | Cronfa Gwasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth Tai | 27 | 227 | 0 | (160) | 94 |
| *10.20* | Gwarant Amgylcheddol Tai | 480 | 0 | 0 | 0 | 480 |
| *10.21* | Reserfau Technoleg Gwybodaeth | 921 | 0 | 0 | 0 | 921 |
| *10.22* | Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol | 15,148 | (2,500) | 6,276 | 0 | 18,924 |
| *10.23* | Trefniadau Partneriaethu | 136 | (35) | 3 | (24) | 80 |
| *10.24* | Cronfa Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru | 652 | 0 | 350 | (24) | 978 |
| *10.25* | Cronfa Premiwm Treth Cyngor | 17,201 | 0 | 6,000 | (5,784) | 17,417 |
| *10.26* | Cronfa Strategaeth Ddigidol | 786 | 0 | 0 | (116) | 670 |
| *10.27* | Cronfa Cynllun Ffyniant Gyffredin | 1,722 | 0 | 2,244 | (1,175) | 2,791 |
| *10.28* | Amrywiol Reserfau Eraill | 895 | (253) | 180 | (64) | 758 |
| | **Cyfanswm** | **101,843** | **0** | **31,511** | **(22,553)** | **110,801** |

Nid yw sefyllfa balans terfynol reserfau a glustnodwyd ar 31 Mawrth 2025 yn adlewyrchu'r lefel o ymrwymiadau a wnaethpwyd yn eu herbyn. Nodir isod fanylion o brif reserfau penodol y Cyngor.

## NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

10.1 Mae'r Reserfau Adnewyddu yn cael eu defnyddio gan adrannau amrywiol o'r Cyngor i adnewyddu cerbydau ac offer.

10.2 Reserf Adnewyddu Strategaeth Ddigidol Ysgolion ar gyfer ariannu adnewyddu offer TG ysgolion.

10.3 Mae'r Reserfau Cyfalaf yn cynrychioli adnoddau a ymrwymwyd eisoes i gynorthwyo ariannu Rhaglen Gyfalaf y Cyngor a gofynion eraill.

10.4 Nid yw Cyngor Gwynedd yn yswirio pob risg gydag yswirwyr allanol ond yn hytrach fe sefydlwyd cronfa er mwyn cwrdd â'r gofynion yma'n fewnol. Mae'r balans ar y Reserfau Yswiriant hefyd yn cynnwys elfen ar gyfer gofynion yswiriant sy'n berthnasol i'r cyn Gyngor Sir Gwynedd (hyd at 1996) ac a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.

10.5 Mae'r Gronfa Gwasanaethau yn gronfa sy'n dal llithriadau a thanwariant y mae hawl i adrannau ei gario drosodd o flwyddyn i flwyddyn, cyllidebau penodol a pherthnasol eraill a chyllidebau unwaith ac am byth sy'n ymestyn dros fwy nag un flwyddyn.

10.6 Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant – symiau a neilltuwyd ar gyfer cyfraniad cyfatebol gan y Cyngor mewn perthynas â chynlluniau refeniw a chyfalaf o dan y Rhaglen Cydgyfeiriant.

10.7 Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion – darpariaeth ar gyfer ariannu costau diswyddo i wireddu arbedion cyllidol.

10.8 Hyfforddiant Canolog – perthnasol i ofynion cynlluniau rhaglen hyfforddi gweithwyr y Cyngor gan gynnwys cyfraniad tuag at gyllido cynllun Prentisiaethau a Chynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory.

10.9 Reserfau Gwasanaethau Addysg – yn cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i allu ymateb yn bennaf i'r problemau ariannol cysylltiedig â gofynion 'Integreiddio', gofynion newidiol 'Anghenion Addysg Arbennig All Sirol', 'Cefnogi Ysgolion' a'r 'Cynllun Benthyciadau i Ysgolion'.

10.10 Mae Reserfau Economi a Chymuned yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i gynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth yn bennaf, ble mae'n rhaid cyfrifo balansau'r cynlluniau ar wahân.

10.11 Mae Reserfau Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd yn cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod sefyllfaoedd gwariant ac incwm anwastad rhai meysydd gwaith.

10.12 Reserfau Amgylchedd - yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i Drafnidiaeth, cynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth, ble mae'n rhaid cyfrifo balansau cynlluniau ar wahân, ynghyd â gofynion yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Unedol, a symiau ar gyfer sefyllfaoedd gwariant anwastad.

10.13 Reserfau Tai ac Eiddo – cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod rhag sefyllfaoedd gwariant anwastad posib ynghyd â chronfeydd amrywiol ar gyfer anghenion tai ac eiddo'r Cyngor.

10.14 Reserfau Gofal – cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod rhag sefyllfaoedd gwariant anwastad posib o ganlyniad i ofynion contractau.

10.15 Cronfa Trawsnewid Busnes – i gynorthwyo'r broses trawsnewid busnes, gwireddu arbedion a chynorthwyo cyflawni nod ac amcanion "Ffordd Gwynedd".

10.16 Cronfa Buddsoddi i Arbed – Prosiect Rheoli Carbon – yn ariannu rhaglen waith y Prosiect Rheoli Carbon yn rhannol i gyflawni gostyngiad mewn allyriadau carbon ynghyd â chynhyrchu arbedion refeniw ariannol i'r Cyngor.

## NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

10.17 Cronfa Trawsffurfio / Cynllun y Cyngor – ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor ac ar gyfer newid trefniadau mewnol i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon ac ar gyfer buddsoddi mewn gwahanol gynlluniau i wireddu arbedion cyllidol parhaol.

10.18 Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu hymrwymo – cynnwys grantiau refeniw a dderbyniwyd ac a ymrwymwyd ar gyfer defnydd yn y dyfodol.

10.19 Cronfa Gwasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth Tai – swm a neilltuwyd ar gyfer rhai gofynion yn ymwneud a threfniadau carthffosiaeth, pibellau dŵr a gweithfeydd trin carthion ar stadau cyn tai cyngor, na fabwysiadwyd gan Dŵr Cymru.

10.20 Gwarant Amgylcheddol Tai – neilltuwyd ar gyfer ymhlygiadau posib o ganlyniad i roddi gwarant amgylcheddol i Adra (Tai) Cyfyngedig, mewn perthynas ag amgylchiadau arbennig a phenodol yn ymwneud â chynlluniau amgylcheddol ar dir stadau cyn tai cyngor.

10.21 Reserfau Technoleg Gwybodaeth – ar gyfer ymateb i ofynion yn y maes technoleg gwybodaeth gan gynnwys cronfa adnewyddu berthnasol ac i allu ymateb i batrymau gwariant anwastad.

10.22 Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol – cronfa a sefydlwyd i gynorthwyo a chefnogi strategaeth ariannol y Cyngor.

10.23 Trefniadau Partneriaethu – yn cynnwys symiau a neilltuwyd mewn perthynas â gofynion gwahanol drefniadau partneriaethu a chydweithio.

10.24 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – ar gyfer gofynion ac ymrwymiadau'r cynllun hybu economaidd perthnasol i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (elfen Cyngor Gwynedd yn unig).

10.25 Cronfa Premiwm Treth Cyngor – darpariaeth yn deillio o Bremiwm Treth Cyngor ar gyfer cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor, gan gynnwys y Strategaeth Dai.

10.26 Cronfa Strategaeth Ddigidol – Darpariaeth ar gyfer sicrhau fod anghenion digidol y Cyngor yn galluogi adrannau i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i drigolion Gwynedd.

10.27 Cronfa ar gyfer llog a dderbyniwyd ar arian Cynllun Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig a ddelir yng nghyfrif banc Cyngor Gwynedd ar ran rhanbarth y Gogledd.

10.28 Amrywiol Reserfau Eraill – yn cynnwys symiau a neilltuwyd ar gyfer amrywiol ymrwymiadau eraill.

## NODYN 11 – GWARIANT GWEITHREDOL ARALL

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| | **Praeseptau** | |
| 18,714 | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | 19,619 |
| 2,895 | Cynghorau Cymuned | 3,116 |
| 21,609 | | 22,735 |
| | **Lefiau** | |
| 7,914 | Awdurdod Tân Gogledd Cymru | 8,295 |
| 1,059 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | 1,059 |
| 122 | Byrddau Draenio Lleol | 125 |
| 126 | Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd | 121 |
| 9,221 | | 9,600 |
| 4 | (Enillion)/colledion ar waredu a dad-gydnabod asedau anghyfredol | (173) |
| **30,834** | **Cyfanswm** | **32,162** |

## NODYN 12 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| 5,528 | Llog taladwy a thaliadau tebyg | 5,554 |
| (231) | Llog net ar yr ymrwymiadau (asedau) buddion pensiwn diffiniedig net | 754 |
| (3,831) | Llog derbyniadwy ac incwm tebyg | (2,872) |
| 246 | Addasiadau i ddarpariaethau | (58) |
| (12) | Addasiadau i werth teg offerynnau ariannol | (1) |
| **1,700** | **Cyfanswm** | **3,377** |

* Mae ffigyrau 2023/24 wedi eu hail-gategoreiddio i alluogi cymhariaeth gyda 2024/25.

## NODYN 13 – TRETH AC INCWM GRANT AMHENODOL

| 2023/24 £'000 | | *Nodyn* | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|---|
| (112,148) | Incwm Y Dreth Cyngor | *13a* | (127,339) |
| (39,172) | Trethi Annomestig | *13b* | (43,364) |
| (188,864) | Grantiau'r Llywodraeth heb eu clustnodi | *32* | (189,952) |
| (20,629) | Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf | *32* | (29,178) |
| **(360,813)** | **Cyfanswm** | | **(389,833)** |

## NODYN 13a - TRETH CYNGOR

Mae'r Cyngor yn penderfynu ar ei anghenion gwariant am y flwyddyn ac yn ei drosi i Dreth Cyngor Band D drwy ei rannu gyda chyfrifiad o'r nifer eiddo sydd ym mhob band Treth Cyngor a'u datgan yn nhermau nifer cyfatebol ym Mand D (Sylfaen y Dreth Cyngor). Yna, ychwanegir gofynion Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru at y swm yma i sefydlu'r Dreth Cyngor ar gyfer y Sir.

Cyfrifwyd Sylfaen y Dreth Cyngor ar gyfer 2024/25 fel a ganlyn:

**CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH CYNGOR AR GYFER 2024/25**

| Band Prisio | Nifer Eiddo Cyfatebol yn dilyn gostyngiadau a phremiymau | Lluosogydd Statudol | Nifer cyfatebol Eiddo Band D |
|---|---|---|---|
| A* | 7 | 5/9 | 4.03 |
| A | 8,105 | 6/9 | 5,403.46 |
| B | 14,193 | 7/9 | 11,039.04 |
| C | 11,806 | 8/9 | 10,494.32 |
| D | 10,534 | 1 | 10,534.15 |
| E | 8,244 | 11/9 | 10,076.12 |
| F | 4,227 | 13/9 | 6,105.67 |
| G | 1,394 | 15/9 | 2,323.34 |
| H | 255 | 18/9 | 509.50 |
| I | 80 | 21/9 | 185.50 |
| | | **Cyfanswm** | 56,675.13 |
| | **Sylfaen y Dreth Gyngor ar ôl lwfans colledion casglu** | | 56,109.27 |

Rhoddir dadansoddiad o'r incwm net, sy'n deillio i'r Cyngor, isod:

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| (112,870) | Treth Cyngor a godwyd | (128,161) |
| 722 | **Llai** Cynnydd yn y lwfans amhariad ar gyfer diffyg casgliad | 822 |
| **(112,148)** | | **(127,339)** |

## NODYN 13b - TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL

Fe reolir Trethi Annomestig Cenedlaethol ("Treth Busnes") gan y Llywodraeth ond awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ei gasglu a'i dalu i gronfa ganolog a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Maent hwythau wedyn yn dosrannu symiau o'r gronfa yma i awdurdodau lleol ar sail poblogaeth.

Mae'r Llywodraeth yn pennu swm y Dreth Annomestig Genedlaethol am y flwyddyn (56.2c yn 2024/25) a luosir gyda gwerth trethiannol yr eiddo. Yn amodol ar effaith trefniadau dros dro a rhai gostyngiadau eraill, dyma fydd y swm a delir gan y trethdalwr.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2024/25 roedd yna 9,020 eiddo ar y rhestr brisio leol yng Ngwynedd, yn cynrychioli gwerth trethiannol o £115,003,696.

Rhoddir isod ddadansoddiad o'r incwm net cronedig i'r Cyngor o'r Trethi Annomestig:

| **2023/24 £'000** | | **2024/25 £'000** |
|---|---|---|
| (38,662) | Trethi Annomestig a godwyd | (45,165) |
| 482 | Lwfans Costau Casglu | 480 |
| 441 | Darpariaeth Dyledion Drwg | 472 |
| 28 | Llog | 87 |
| 37,711 | Swm a dalwyd i'r Gronfa Genedlaethol | 44,126 |
| 0 | | 0 |
| (39,172) | Derbyniadau o'r Gronfa Genedlaethol | (43,364) |
| **(39,172)** | **Incwm net o'r Trethi Annomestig** | **(43,364)** |

## NODYN 14 – CYFRIF INCWM A GWARIANT RHEOLAETH ADEILADAU

Mae'r gwariant ac incwm ar y cyfrif yma yn perthyn i'r gwaith rheoliadau adeiladau ar wirio a goruchwylio, ac yn cynnwys ystyried unrhyw achos gorfodaeth ond nid y gwaith o roi rhybuddion statudol o dan y Ddeddf Adeiladu 1984.

Disgwylir i'r cyfrif adennill y costau dros raglen dreigl tair blynedd, ac mae'r gofynion yn cael eu hadolygu yn flynyddol. Bu colled yn 2024/25, felly adroddir ar golled cronedig dros gyfnod o dair blynedd.

| **2024/25** | **£'000** |
|---|---|
| Cyfanswm incwm ffioedd a dderbyniwyd (ag eithrio TAW) | (383) |
| Cyfanswm gwariant | 431 |
| (Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2024/25 | 48 |
| (Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2023/24 | 36 |
| (Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2022/23 | 135 |
| **(Gwarged)/Diffyg ar gyfer y tair mlynedd diwethaf** | **219** |

## NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

### Symudiadau ar Falansau Eiddo, Offer a Chyfarpar

Symudiadau yn 2024/25:

| | Tir ac Adeiladau | Cerbydau, Offer a Chyfarpar | Asedau Cymunedol | Asedau Gweddilliol | Asedau heb eu Cwblhau | Asedau Hawl Defnyddio | Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwerth** | | | | | | | |
| Balans ar 1.04.24 | 402,362 | 47,908 | 384 | 2,132 | 4,873 | 4,482 | 462,141 |
| Ychwanegiadau | 21,160 | 10,846 | 0 | 119 | 1,098 | 824 | 34,047 |
| Gwerthiannau | (1,041) | (6,062) | 0 | 0 | 0 | 0 | (7,103) |
| Trosglwyddiadau | 4,809 | 0 | 0 | (153) | (4,873) | 0 | (217) |
| Ailbrisio - i'r Reserf Ailbrisio | 28,472 | 0 | 0 | 26 | 0 | 0 | 28,498 |
| Ailbrisio - i'r Gwasanaethau | (1,506) | 0 | 0 | (39) | 0 | 0 | (1,545) |
| **Balans ar 31.03.25** | **454,256** | **52,692** | **384** | **2,085** | **1,098** | **5,306** | **515,821** |
| **Dibrisiant** | | | | | | | |
| Balans ar 1.04.24 | 1,856 | 24,752 | (1) | (1) | 0 | 0 | 26,606 |
| Dibrisiant yn y flwyddyn | 7,882 | 5,566 | 7 | 13 | 0 | 640 | 14,108 |
| Gwerthiannau | 0 | (5,977) | 0 | 0 | 0 | 0 | (5,977) |
| Trosglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ailbrisio | (7,749) | 0 | 0 | (13) | 0 | 0 | (7,762) |
| **Balans ar 31.03.25** | **1,989** | **24,341** | **6** | **(1)** | **0** | **640** | **26,975** |
| **Amhariad** | | | | | | | |
| Balans ar 1.04.24 | 13,003 | 20 | 1 | 0 | 98 | 0 | 13,122 |
| Amhariad yn y flwyddyn - i'r Reserf Ailbrisio | 282 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 284 |
| Amhariad yn y flwyddyn - i'r Gwasanaethau | 2,733 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 2,734 |
| Gwerthiannau | (832) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (832) |
| Trosglwyddiadau | 98 | 0 | 0 | 0 | (98) | 0 | 0 |
| Ailbrisio | (4,329) | 0 | 0 | (3) | 0 | 0 | (4,332) |
| **Balans ar 31.03.25** | **10,955** | **20** | **1** | **0** | **0** | **0** | **10,976** |
| **Gwerth Net 31 Mawrth 2025** | **441,312** | **28,331** | **377** | **2,086** | **1,098** | **4,666** | **477,870** |
| **Gwerth Net 1 Ebrill 2024** | **387,503** | **23,136** | **384** | **2,133** | **4,775** | **4,482** | **422,413** |

## NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR (parhad)

Symudiadau Cymharol yn 2023/24:

| | Tir ac Adeiladau | Cerbydau, Offer a Chyfarpar | Asedau Cymunedol | Asedau Gweddilliol | Asedau heb eu Cwblhau | Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Gwerth** | | | | | | |
| Balans ar 1.04.23 | 384,250 | 44,976 | 687 | 2,197 | 19 | 432,129 |
| Ychwanegiadau | 16,675 | 5,052 | 0 | 2 | 4,756 | 26,485 |
| Gwerthiannau | 0 | (2,120) | (253) | (28) | 0 | (2,401) |
| Trosglwyddiadau | (98) | 0 | 0 | 0 | 98 | 0 |
| Ailbrisio - i'r Reserf Ailbrisio | 4,194 | 0 | 173 | (9) | 0 | 4,358 |
| Ailbrisio - i'r Gwasanaethau | (2,659) | 0 | (223) | (30) | 0 | (2,912) |
| **Balans ar 31.03.24** | **402,362** | **47,908** | **384** | **2,132** | **4,873** | **457,659** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Balans ar 1.04.23 | 1,588 | 21,418 | 10 | (1) | 0 | 23,015 |
| Dibrisiant yn y flwyddyn | 7,508 | 5,412 | 2 | 13 | 0 | 12,935 |
| Gwerthiannau | 0 | (2,078) | 0 | 0 | 0 | (2,078) |
| Trosglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ailbrisio | (7,240) | 0 | (13) | (13) | 0 | (7,266) |
| **Balans ar 31.03.24** | **1,856** | **24,752** | **(1)** | **(1)** | **0** | **26,606** |
| **Amhariad** | | | | | | |
| Balans ar 1.04.23 | 12,726 | 20 | 97 | 5 | 0 | 12,848 |
| Amhariad yn y flwyddyn - i'r Reserf Ailbrisio | 527 | 0 | 0 | 0 | 0 | 527 |
| Amhariad yn y flwyddyn - i'r Gwasanaethau | 2,396 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,396 |
| Gwerthiannau | 0 | 0 | (94) | 0 | 0 | (94) |
| Trosglwyddiadau | (98) | 0 | 0 | 0 | 98 | 0 |
| Ailbrisio | (2,548) | 0 | (2) | (5) | 0 | (2,555) |
| **Balans ar 31.03.24** | **13,003** | **20** | **1** | **0** | **98** | **13,122** |
| **Gwerth Net 31 Mawrth 2024** | **387,503** | **23,136** | **384** | **2,133** | **4,775** | **417,931** |
| **Gwerth Net 31 Mawrth 2023** | **369,936** | **23,538** | **580** | **2,193** | **19** | **396,266** |

## NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR (parhad)

Prisiwyd eiddo gweithredol y Cyngor gan Reolwr Stadau (M.R.I.C.S) y Cyngor yn unol â’r polisïau a nodwyd yn rhan 1.17 o Nodyn 1 o’r Polisïau Cyfrifo ac eiddo an-weithredol (gweddilliol) yn unol â 1.15. Noder fod y Cyngor wedi sefydlu rhaglen dreigl ar gyfer ailbrisio gwahanol gategorïau o’r asedau yma yn flynyddol.

Gweler nodyn 1.17 hefyd ar gyfer sail dibrisio’r gwahanol gategorïau o asedau.

Yn dilyn mabwysiadu SAARh16, mae prydlesau wedi'u hailddosbarthu fel Asedau Hawl Defnyddio oni bai eu bod wedi'u heithrio ac maent wedi'u cynnwys fel rhan o gyfanswm yr Eiddo, Offer a Chyfarpar. Caiff yr ased ei ddibrisio ar sail llinell syth dros y cyfnod byrrach o weddill tymor y les a bywyd defnyddiol yr ased sylfaenol ar ddyddiad y mabwysiadu (gweler Nodyn 1.14).

Defnyddir 11 ysgol sydd o dan lywodraethiant eglwysig gan yr Adran Addysg, gyda 9 o'r adeiladau heb eu cynnwys yn y tabl uchod oherwydd nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw'r adeiladau yma ond nid yw'r symiau yn sylweddol. Mae Ysgolion Cae Top, Bangor a Phont y Gof, Botwnnog yn cael eu hystyried ar hyn o bryd fel asedau’r Cyngor yn y cyfrifon oherwydd nid yw teitlau’r eiddo (gweithredoedd) wedi eu trosglwyddo yn ffurfiol i’r Eglwys. Mae’n fwriad cynnal trafodaethau efo’r Eglwys yng Nghymru er mwyn gwireddu hynny ac o ganlyniad gall triniaeth yr asedion yn y cyfrifon newid yn y dyfodol.

Dangosir y ffyrdd o gyllido’r asedau a brynwyd yn ystod y flwyddyn gyda’r wybodaeth ar wariant cyfalaf yn yr adroddiad naratif.

**Isadeiladwaith**

Yn unol â'r Rhyddhad Dros Dro a roddwyd yn y Cod ar asedau isadeiladwaith nid yw'r nodyn hwn yn cynnwys datgeliad o gost gros a dibrisiad cronedig i asedau isadeiladwaith oherwydd golyga ymarferion adrodd hanesyddol a'r diffygion yn y wybodaeth o ganlyniad na fyddai hynny'n cynrychioli'n ffyddlon sefyllfa'r ased i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol.

Dewisodd y Cyngor i beidio datgelu'r wybodaeth oherwydd bod ymarferion adrodd blaenorol a'r diffygion yn y wybodaeth o ganlyniad yn golygu nad yw'r gost gros a'r dibrisiad cronedig wedi ei fesur yn fanwl gywir ac ni fyddai'n darparu sail i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol gymryd penderfyniadau economeg ac eraill yn ymwneud ag asedau isadeiladwaith.

Mae asedau isadeiladwaith yn cael eu dangos ar y Fantolen ar gost hanesyddol a ddibrisiwyd. Gwnaethpwyd ychwanegiadau yn y flwyddyn ac yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu)(Cymru)(Diwygio) 2022 mae gwerth unrhyw gydran o'r asedau Isadeiladwaith a ddisodlwyd wedi ei drin fel dim ac felly mae'r gwerth dadgydnabod yn ddim.

| | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Gwerth Net ar 1af Ebrill** | **176,746** | **180,963** |
| Ychwanegiadau | 10,852 | 11,380 |
| Dadgydnabod | 0 | 0 |
| Dibrisiant | (6,635) | (6,907) |
| **Gwerth Net ar 31 Mawrth** | **180,963** | **185,436** |

**Gwerth Net Asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar**

| | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|
| **Asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar** | **£'000** | **£'000** |
| Isadeiladwaith | 180,963 | 185,436 |
| Asedau EOCh Eraill | 417,931 | 477,870 |
| **Cyfanswm Net ar 31 Mawrth** | **598,894** | **663,306** |

## NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR (parhad)

### Ymrwymiadau Cyfalaf

Roedd yr ymrwymiadau o sylwedd (dros £200k) ar gytundebau cyfalaf ar 31 Mawrth 2025 fel a ganlyn:

| | Swm | Taliadau hyd yma | Balans |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gerddi Traphont Abermaw | 3,222 | 515 | 2,707 |
| Ysgol Ein Harglwyddes, Bangor | 7,248 | 1,248 | 6,000 |
| Ysgol Bontnewydd | 601 | 220 | 381 |
| Safle Hen Lyfrgell Llanberis, Ffordd Capel Coch | 884 | 175 | 709 |
| Amlosgfa Bangor | 1,198 | 228 | 970 |
| Datblygiad Coed Mawr Bangor | 2,819 | 50 | 2,769 |
| Safle Banc NatWest, Caernarfon | 331 | 110 | 221 |
| Atal Llifogydd, Afon Cadnant | 491 | 203 | 288 |
| Adeilad Mona, Caernarfon | 258 | 36 | 222 |
| Ysgol Hirael | 484 | 86 | 398 |
| Ysgol Uwchradd Tywyn | 853 | 23 | 830 |

## NODYN 16 – EIDDO BUDDSODDI

Mae'r eitemau canlynol o incwm a chostau wedi eu cymryd i ystyriaeth yn y llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

| | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm rhent o eiddo buddsoddi | 7 | 7 |
| Enillion/(colledion) net | **7** | **7** |

Nid oes cyfyngiadau ar allu'r Cyngor i adnabod gwerth ei eiddo buddsoddi, nac ychwaith ar hawl y Cyngor i'r incwm a'r elw sy'n deillio o'r gwerthiant. Nid oes gan y Cyngor unrhyw ymrwymiad cytundebol i brynu, adeiladu na datblygu eiddo buddsoddi na'i atgyweirio, cynnal na'i wella.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r symudiad yng ngwerth teg yr eiddo buddsoddi yn ystod y flwyddyn:

| | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Balans 1 Ebrill** | **165** | **165** |
| Gwarediadau | 0 | 0 |
| Elw/(colled) net o addasiadau gwerth teg | 0 | 0 |
| Trosglwyddiadau: | | |
| (i)/o Eiddo, Offer a Chyfarpar | 0 | 0 |
| **Balans 31 Mawrth** | **165** | **165** |

# NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL

## (i) Offerynnau Ariannol - Dosbarthiadau

Diffinnir offeryn ariannol fel unrhyw gytundeb sydd yn creu ased ariannol mewn un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti mewn endid arall. Nid yw trafodion nad ydynt yn cael eu cyfnewid, megis rhai sy'n ymwneud â threthi a grantiau'r llywodraeth, yn gyfystyr ag offerynnau ariannol.

### Ymrwymiadau Ariannol

Mae ymrwymiad ariannol yn ddyletswydd i drosglwyddo buddion economaidd a reolir gan y Cyngor, a all gynrychioli dyletswydd gytundebol i gyflwyno arian parod neu asedau ariannol, neu ddyletswydd i gyfnewid ymrwymiadau ac asedau ariannol gydag endid arall sydd o bosib yn anffafriol i'r Cyngor.

Mae ymrwymiadau ariannol y Cyngor nad ydynt yn ddeilliadol yn ystod y flwyddyn yn cael eu mesur ar gost wedi'i amorteiddio, ac yn cynnwys:

- benthyciadau tymor hir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a benthycwyr masnachol
- Trefniant Consesiwn Gwasanaeth (cytundebau Menter Cyllid Preifat (MPC)) a fanylir yn Nodyn 41
- gorddrafft gyda Banc Barclays ccc
- prydlesau a fanylir yn Nodyn 35
- taliadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd

### Asedau Ariannol

Mae ased ariannol yn golygu hawl i fuddion economaidd yn y dyfodol a reolir gan y Cyngor. Fe'i cynrychiolir gan arian parod, offerynnau ecwiti neu hawl cytundebol i dderbyn arian parod neu ased ariannol arall, neu hawl i gyfnewid asedau ac ymrwymiadau ariannol gyda endid arall sydd yn ffafriol i'r Cyngor. Mae'r asedau ariannol a ddaliwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyfrifo o fewn y tri dosbarth a ganlyn:

Cost wedi'i amorteiddio (ble mae'r llif arian yn daliadau prifswm a llog yn unig, ac mai cynllun busnes y Cyngor yw i gasglu'r llif arian hynny) yn cynnwys:

- arian parod
- cyfrifon banc a chyfrifon adnau
- adneuon cyfnod penodol gyda Llywodraeth y DU, banciau a chymdeithasau adeiladu
- benthyciadau i awdurdodau lleol eraill
- benthyciadau i gwmnïoedd bach
- derbyniadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a gyflenwyd

Gwerth teg trwy incwm cynhwysfawr arall (ble mae'r llif arian yn daliadau prifswm a llog yn unig, ac mai cynllun busnes y Cyngor yw i gasglu'r llif arian hynny yn ogystal â gwerthu'r offeryn; a buddsoddiadau ecwiti mae'r Cyngor wedi eu rhoi'n y categori hwn) yn cynnwys:

- cronfeydd bond, ecwiti ac eiddo cyfun a ddelir fel buddsoddiadau strategol

Gwerth teg trwy elw a cholled (asedau ariannol eraill) yn cynnwys:

- cronfeydd marchnadoedd arian

Dangosir asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i amorteiddio yn net o lwfans colled sydd yn adlewyrchu'r tebygolrwydd ystadegol na fydd y benthyciwr neu'r dyledwr yn gallu cyflawni ei ymrwymiadau cytundebol i'r Cyngor.

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

### (ii) Offerynnau Ariannol – Balansau

Mae'r ymrwymiadau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

| **Ymrwymiadau Ariannol** | **Tymor Hir** | | **Tymor Byr** | |
|---|---|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2024** | **31 Mawrth 2025** | **31 Mawrth 2024** | **31 Mawrth 2025** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| *Benthyciadau ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Prifswm a fenthycwyd | 94,006 | 90,138 | 5,589 | 4,018 |
| Llog cronedig | 0 | 0 | 444 | 423 |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **94,006** | **90,138** | **6,033** | **4,441** |
| *Benthyciadau ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Gorddrafft banc | 0 | 0 | 8,591 | 23,994 |
| **Cyfanswm Arian a Ordynnwyd** | **0** | **0** | **8,591** | **23,994** |
| *Ymrwymiadau ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Prydlesau | 793 | 4,655 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Ymrwymiadau Tymor Hir** | **793** | **4,655** | **0** | **0** |
| *Ymrwymiadau ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Dyledion masnachol | 0 | 0 | 48,118 | 62,059 |
| Prydlesau | 0 | 0 | 204 | 837 |
| **Cynhwyswyd o fewn Credydwyr *** | **0** | **0** | **48,322** | **62,896** |
| **Cyfanswm yr Ymrwymiadau Ariannol** | **94,799** | **94,793** | **62,946** | **91,331** |

* Mae llinellau credydwyr ar y Fantolen yn cynnwys £126,799,000 (2023/24: £129,344,000) o gredydwyr (Nodyn 21) nad ydynt yn cyfateb i'r diffiniad o ymrwymiad ariannol.

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r asedau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

| Asedau Ariannol | Tymor Hir | | Tymor Byr | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
| *Ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Prifswm | 17 | 17 | 85,000 | 74,955 |
| Llog cronedig | 0 | 0 | 984 | 57 |
| Lwfans colled | 0 | 0 | (2) | (1) |
| *Ar werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall:* | | | | |
| Offerynnau ecwiti wedi dewis i gyfrifo drwy werth teg drwy ICA | 0 | 0 | 11,586 | 11,862 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **17** | **17** | **97,568** | **86,873** |
| *Ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Prifswm | 0 | 0 | 921 | 1,007 |
| Llog cronedig | 0 | 0 | 18 | 15 |
| Lwfans colled | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *Ar werth teg drwy elw a cholled:* | | | | |
| Gwerth teg | 0 | 0 | 43,000 | 65,000 |
| **Cyfanswm Arian a Chywerthoedd Arian** | **0** | **0** | **43,939** | **66,022** |
| *Ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Derbyniadau Masnachol | 5,930 | 6,861 | 21,531 | 28,527 |
| **Cynhwyswyd o fewn Dyledwyr *** | **5,930** | **6,861** | **21,531** | **28,527** |
| **Cyfanswm Asedau Ariannol** | **5,947** | **6,878** | **163,038** | **181,422** |

* Mae llinellau dyledwyr ar y Fantolen yn cynnwys £87,953,000 (2023/24: £99,670,000) o ddyledwyr (Nodyn 18) nad ydynt yn cwrdd â'r diffiniad o ased ariannol.

**Benthyciadau Meddal Materol**

Mae gan Awdurdodau Lleol yr hawl i roi benthyciadau am resymau polisi yn hytrach na fel offerynnau ariannol, ac fe all y benthyciadau yma fod yn ddi-log neu ar gyfraddau is na chyfraddau cyffredinol y farchnad. Pan mae benthyciadau yn cael eu dyroddi ar gyfradd is na chyfradd y farchnad maent yn cael eu hadnabod fel "Benthyciadau Meddal".

Mae gwerth teg y benthyciadau meddal yma yn llai na chyfanswm yr arian a fenthycwyd. Mae gwerth teg benthyciad, sy'n cael ei roi yn ddi-log neu ar gyfradd is na chyfradd gyffredinol y farchnad, yn cael ei amcangyfrif fel gwerth presennol holl dderbyniadau arian y dyfodol wedi ei ddisgowntio yn defnyddio cyfradd llog y farchnad gyffredinol ar gyfer offeryn cyffelyb. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm a fenthycir a gwerth teg y benthyciad yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant. Mae Cod Ymarfer 2024/25 yn gosod gofynion cyfrifeg a datgeliad penodol ar gyfer benthyciadau meddal. Yn ystod 2024/25 fe adnabu Cyngor Gwynedd y "benthyciadau meddal" canlynol:

- Taliadau Gohiriedig am daliadau sy'n ddyledus gan bobl mewn gofal (cyfanswm yn ddyledus ar 31.03.25 £3,387,152, 31.03.24 £3,134,453)
- Benthyciadau Ceir a Beiciau i weithwyr (cyfanswm yn ddyledus ar 31.03.25 £1,369,926, 31.03.24 £992,361)

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

### Offerynnau ecwiti wedi dewis i gyfrifo drwy werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall

Mae'r Cyngor wedi dewis i gyfrifo am y buddsoddiadau canlynol mewn offerynnau ecwiti ar sail gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall oherwydd eu bod yn fuddsoddiad strategol tymor hir gyda'r newidiadau yn eu gwerth teg ddim yn cael ei gynnwys fel rhan o berfformiad ariannol blynyddol y Cyngor.

| | Gwerth Teg | | Difidendau | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2025 | 2023/24 | 2024/25 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| CCLA LAMIT Property Fund | 4,157 | 4,237 | 215 | 215 |
| Ninety One Diversified Income Fund | 1,114 | 1,111 | 52 | 56 |
| Schroder Income Maximiser Fund | 3,144 | 3,360 | 195 | 233 |
| Aegon Diversified Monthly Income Fund | 1,161 | 1,152 | 78 | 64 |
| Payden Absolute Return Bond Fund | 2,010 | 2,002 | 68 | 121 |
| **CYFANSWM** | **11,586** | **11,862** | **608** | **689** |

### Gwrthbwyso Asedau ac Ymrwymiadau Ariannol

Mae asedau ac ymrwymiadau ariannol yn cael eu gosod yn erbyn ei gilydd ble mae gan y Cyngor hawl gorfodol cyfreithiol i wrthbwyso ac yn bwriadu setlo ar sail net, neu i wireddu'r asedau a setlo'r ymrwymiadau yn gydamserol. Mae'r tabl isod yn dangos yr offerynnau hynny sydd wedi cael eu gosod yn erbyn ei gilydd ar Y Fantolen. Nid oedd gan y Cyngor unrhyw asedau nac ymrwymiadau ariannol eraill oedd yn destun i drefniant gorfodol neu drefniant tebyg.

| | 31 Mawrth 2024 | | | 31 Mawrth 2025 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Asedau gros (ymrwymiadau) | (Ymrwymiadau) asedau wedi eu gwrthbwyso | Sefyllfa net Y Fantolen | Asedau gros (ymrwymiadau) | (Ymrwymiadau) asedau wedi eu gwrthbwyso | Sefyllfa net Y Fantolen |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyfrifon banc mewn credyd | 55,542 | (55,542) | 0 | 36,469 | (36,469) | 0 |
| **Cyfanswm Asedau Ariannol** | **55,542** | **(55,542)** | **0** | **36,469** | **(36,469)** | **0** |
| Gorddrafft banc | (64,133) | 55,542 | (8,591) | (60,463) | 36,469 | (23,994) |
| **Cyfanswm Ymrwymiadau Ariannol** | **(64,133)** | **55,542** | **(8,591)** | **(60,463)** | **36,469** | **(23,994)** |

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

### (iii) Offerynnau Ariannol – Enillion a Cholledion

Mae'r enillion a cholledion a nodir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas â'r offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:

| | **Ymrwymiadau Ariannol** | **Asedau Ariannol** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cost wedi'i Amorteiddio** | **Cost wedi'i Amorteiddio** | **Wedi ethol Gwerth Teg drwy ICA** | **Gwerth Teg drwy Elw a Cholled** | **2024/25 Cyfanswm** | **2023/24 Cyfanswm** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Costau llog | 5,554 | 0 | 0 | 0 | 5,554 | 5,528 |
| **Llog taladwy a ffioedd tebyg** | **5,554** | **0** | **0** | **0** | **5,554** | **5,528** |
| Incwm llog | 0 | (1,543) | 0 | 0 | (1,543) | (2,210) |
| Incwm difidendau | 0 | 0 | (689) | (640) | (1,329) | (1,621) |
| **Incwm y llog a'r buddsoddiad** | **0** | **(1,543)** | **(689)** | **(640)** | **(2,872)** | **(3,831)** |
| Lwfans colled | 0 | (59) | 0 | 0 | (59) | 234 |
| **Addasiadau i ddarpariaethau a gwerth teg offerynnau ariannol** | **0** | **(59)** | **0** | **0** | **(59)** | **234** |
| **Effaith net ar (Gwarged)/ Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **5,554** | **(1,602)** | **(689)** | **(640)** | **2,623** | **1,931** |
| Enillion wrth ailbrisio | 0 | 0 | (296) | 0 | (296) | (105) |
| Colledion wrth ailbrisio | 0 | 0 | 20 | 0 | 20 | 174 |
| **Effaith ar incwm cynhwysfawr arall** | **0** | **0** | **(276)** | **0** | **(276)** | **69** |
| **(Enillion)/colledion net y flwyddyn** | **5,554** | **(1,602)** | **(965)** | **(640)** | **2,347** | **2,000** |

### (iv) Offerynnau Ariannol – Gwerthoedd Teg

Gwerth teg offeryn ariannol yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn wrth werthu ased, neu'r pris a fyddai'n cael ei dalu wrth drosglwyddo ymrwymiad, i gyfranogwr arall yn y farchnad mewn trafodyn hyd braich. Pan fydd ymrwymiadau'n cael eu dal fel ased gan barti arall, fel benthyca'r cyngor, amcangyfrifir y gwerth teg o safbwynt y deilydd.

Mae offerynnau ariannol, ar wahân i'r rhai gyda chost wedi ei amorteiddio, wedi eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg. Ar gyfer y mwyafrif o asedion, yn cynnwys cronfeydd cyfun a chyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnadoedd arian, mae'r gwerth teg yn deillio o bris y farchnad.

Mae offerynnau ariannol gyda chost wedi ei amorteiddio wedi eu cynnwys yn y Fantolen ar sail cost wedi'i amorteiddio. Amcangyfrifir eu gwerth teg trwy gyfrifo'r gwerth net presennol o'r llifau arian cytundebol sy'n weddill ar 31 Mawrth 2025, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- Mae benthyciadau'r Cyngor wedi eu prisio trwy ddisgowntio'r llifau arian cytundebol dros fywyd yr offeryn ar gyfradd y farchnad sydd yn addas i fenthyciadau awdurdodau lleol.
- Mae gwerth teg benthyciadau a buddsoddiadau tymor hir eraill wedi eu disgowntio ar gyfraddau'r farchnad ar gyfer offerynnau cyffelyb sydd â chyfnod ad-dalu cyffelyb yn weddill ar 31 Mawrth.
- Mae gwerth teg gwarantau ariannol wedi eu amcanu yn seiliedig ar y tebygolrwydd y caiff y gwarantau eu galw a'r taliadau tebygol.
- Ni chydnabyddir ad-daliadau cynnar nac amhariadau ar gyfer offerynnau ariannol.
- Rhagdybir bod gwerth teg offerynnau tymor byr, gan gynnwys dyledion a derbyniadau masnachol, yn cyfateb yn agos i'r swm cario, o ystyried y sefyllfa llog isel sydd ohoni.

Dengys y gwerthoedd teg yn y tabl isod, wedi eu rhannu yn unol â'u lefel yn yr hierarchaeth gwerth teg:

- Lefel 1 – gwerth teg sydd yn deillio o brisiau a ddyfynnwyd mewn marchnadoedd gweithredol am asedau neu ymrwymiadau yr un fath, e.e. prisiau bondiau
- Lefel 2 – gwerth teg sydd wedi ei gyfrifo yn seiliedig ar fewnbynnau yn hytrach na prisiau a ddyfynnwyd ar gyfer yr ased neu ymrwymiad, e.e. cyfraddau llog neu gynnyrch am offerynnau tebyg
- Lefel 3 – gwerth teg sydd wedi'i bennu trwy ddefnyddio mewnbynnau na ellir eu harsylwi, e.e. data nad yw'n y farchnad fel rhagolwg llif arian neu amcan teilyngdod credyd

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

| | Lefel Gwerth Teg | Mantolen 31 Mawrth 2024 £'000 | Gwerth Teg 31 Mawrth 2024 £'000 | Mantolen 31 Mawrth 2025 £'000 | Gwerth Teg 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| *Ymrwymiadau Ariannol ar gost wedi'i amorteiddio* | | | | | |
| Benthyciadau gan PWLB | 2 | (82,449) | (91,256) | (77,126) | (79,168) |
| Benthyciadau arall | 2 | (17,590) | (16,048) | (17,453) | (13,347) |
| **CYFANSWM** | | **(100,039)** | **(108,342)** | **(94,579)** | **(92,515)** |
| Ymrwymiadau ble nad ydi gwerth teg yn cael ei ddangos * | | (57,706) | | (91,545) | |
| **CYFANSWM YMRWYMIADAU ARIANNOL** | | **(157,745)** | | **(186,124)** | |
| *Wedi ei gofnodi ar y Fantolen fel:* | | | | | |
| Credydwyr tymor byr | | (48,118) | | (62,059) | |
| Benthyciadau tymor byr | | (6,033) | | (4,441) | |
| Arian a Ordynnwyd tymor byr | | (8,591) | | (23,994) | |
| Prydlesau tymor byr | | (204) | | (837) | |
| Benthyciadau tymor hir | | (94,006) | | (90,138) | |
| Prydlesau tymor hir | | (793) | | (4,655) | |
| **CYFANSWM YMRWYMIADAU ARIANNOL** | | **(157,745)** | | **(186,124)** | |

* Rhagdybir bod gwerth teg ymrwymiadau ariannol tymor byr, a ddelir ar gost wedi ei amorteiddio, gan gynnwys dyledion masnachol, yn gyfystyr â'r gwerth i'w gario. Nid oes angen datgeliadau gwerth teg prydlesi o 2024/25 oherwydd SAARh 16 ac felly mae ffigurau cymharol 2023/24 yn cynnwys prydlesi.

Mae gwerth teg benthyciadau gan y PWLB yn uwch na'r swm cario gan fod portffolio benthyciadau'r Cyngor yn cynnwys nifer o fenthyciadau sydd â chyfradd llog taladwy sy'n uwch na'r cyfraddau llog sydd ar gael ar gyfer benthyciadau cyffelyb ar ddyddiad y Fantolen. Mae benthyciadau eraill yn is na'r swm cario ar y Fantolen gan fod y llog taladwy yn is na'r cyfraddau cyfredol sydd ar gael ar gyfer benthyciadau tebyg ar dyddiad y Fantolen.

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

| | Lefel Gwerth Teg | Mantolen 31 Mawrth 2024 £'000 | Gwerth Teg 31 Mawrth 2024 £'000 | Mantolen 31 Mawrth 2025 £'000 | Gwerth Teg 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| *Gwerth teg offerynnau ariannol:* | | | | | |
| Cronfeydd marchnadoedd arian | 1 | 43,000 | 43,000 | 65,000 | 65,000 |
| Cronfeydd bondidau, ecwiti ac amrywiol | 1 | 7,429 | 7,429 | 7,625 | 7,625 |
| Cronfeydd eiddo | 2 | 4,157 | 4,157 | 4,237 | 4,237 |
| *Asedau ariannol ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | | |
| Stoc trysorlys | 1 | 17 | 17 | 17 | 17 |
| **CYFANSWM** | | **54,603** | **54,603** | **76,879** | **76,879** |
| Asedau ble nad ydi gwerth teg yn cael ei ddangos * | | 114,382 | | 111,421 | |
| **CYFANSWM ASEDAU ARIANNOL** | | **168,985** | | **188,300** | |
| *Wedi ei gofnodi ar y mantolen fel:* | | | | | |
| Dyledwyr tymor hir | | 5,930 | | 6,861 | |
| Buddsoddiadau tymor hir | | 17 | | 17 | |
| Dyledwyr tymor byr | | 21,531 | | 28,527 | |
| Buddsoddiadau tymor byr | | 97,568 | | 86,873 | |
| Arian a chywerthoedd arian | | 43,939 | | 66,022 | |
| **CYFANSWM ASEDAU ARIANNOL** | | **168,985** | | **188,300** | |

* Rhagdybir bod gwerth teg asedau ariannol tymor byr, a ddelir ar gost wedi ei amorteiddio, gan gynnwys derbyniadau masnachol, yn gyfystyr â'r gwerth i'w gario.

## NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Chod Ymarfer ar Reolaeth y Trysorlys CIPFA â'r Cod Darbodus Ariannu Cyfalaf Awdurdodau Lleol, y ddau wedi eu diwygio Rhagfyr 2021.

Yn unol â'r Cod Rheolaeth y Trysorlys, mae'r Cyngor yn cymeradwyo Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys cyn i bob blwyddyn ariannol newydd gychwyn. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r paramedrau ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol. Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu Ymarferion Rheolaeth y Trysorlys, sy'n manylu ar y trefniadau ymarferol i'w dilyn i reoli'r risgiau hynny.

Mae Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn unol ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol. Pwysleisia'r Arweiniad hwn y dylid rhoi blaenoriaeth i sicrwydd a hylifedd, yn hytrach na chynnyrch. Mae Strategaeth Trysorlys y Cyngor, ynghyd â'i Ymarferion Rheolaeth y Trysorlys yn seiliedig ar chwilio am y gyfradd adennill uchaf posib sy'n gyson â'r lefelau priodol o sicrwydd a hylifedd.

Mae hyn yn cynnwys y prif risgiau a ganlyn:

- *Risg Credyd:* Y posibilrwydd y bydd un parti mewn offeryn ariannol yn methu â chyflawni ei ymrwymiadau cytundebol, gan beri colled i'r Cyngor.
- *Risg Hylifedd:* Y posibilrwydd na fydd y Cyngor yn gallu codi digon o arian i ddiwallu'r ymrwymiad ariannol ar amser.
- *Risg y Farchnad:* Y posibilrwydd o golled ariannol oherwydd newidiadau i'r cyfraddau llog, prisiau'r farchnad ac ati.

**Risg Credyd: Buddsoddiadau**

Mae'r Cyngor yn rheoli risg credyd drwy sicrhau bod ei holl fuddsoddiadau'n cael eu gwneud gyda sefydliadau sydd ag ansawdd credyd uchel, fel y nodir yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys. Mae'r rhain yn cynnwys endidau masnachol gydag isafswm statws credyd hirdymor o A-, Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol eraill heb statws credyd y mae'r Cyngor wedi derbyn cyngor buddsoddi annibynnol arnynt. Gan gydnabod nad yw credyd-raddio bob amser yn medru rhagweld diffygdalu, mae'r Cyngor hefyd yn ystyried mesurau eraill gan gynnwys cyfnewid diffygdalu credyd a phrisiau ecwiti wrth ddewis sefydliadau masnachol ar gyfer buddsoddi.

Yn ystod 2024/25 gosodwyd uchafswm o £5m o swm yr holl bortffolio y gellid ei fuddsoddi gyda gwrth barti unigol (heblaw llywodraeth y DU). Defnyddiwyd terfyn o £10m ar gyfer awdurdodau lleol, buddsoddiadau â sicrwydd, cronfeydd marchnad arian, cronfeydd cyfun strategol ac ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real. Ni ellir buddsoddi mwy na chyfanswm o £40m am gyfnod hwy na blwyddyn.

Nid yw'r Cyngor yn dal gwarant gyfochrog yn erbyn unrhyw fuddsoddiadau.

## NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Ceir crynodeb yn y tabl isod o werth risg credyd portffolio buddsoddi'r Cyngor fesul cyfradd credyd:

| | Tymor Byr | |
|---|---|---|
| **Cyfradd Credyd** | **31 Mawrth 2024 £'000** | **31 Mawrth 2025 £'000** |
| AAA (Cronfeydd Marchnad Arian) | 43,000 | 65,000 |
| AA+ | 0 | 0 |
| AA | 0 | 0 |
| AA- | 0 | 0 |
| A+ | 910 | 1,000 |
| A | 5,000 | 5,000 |
| A- | 0 | 0 |
| Llywodraeth y DU | 0 | 44,955 |
| Awdurdodau lleol | 80,000 | 25,000 |
| **Cyfanswm (Prifswm)** | **128,910** | **140,955** |
| Cronfeydd wedi'u cyfuno * | 11,586 | 11,862 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **140,496** | **152,817** |

* Nid yw risg credyd yn berthnasol i gyfranddaliad a chronfeydd wedi'u cyfuno lle nad oes gan y Cyngor hawl gytundebol i gael unrhyw swm o arian.

Mae lwfansau colled ar fuddsoddiadau'r trysorlys ac arian a chywerthoedd arian wedi eu cyfrifo trwy gyfeirio at ddata rhagosodiad hanesyddol gyhoeddwyd gan asiantaethau statws credyd, wedi ei luosi gyda 52% (2023/24: 86%) i ystyried yr hinsawdd economaidd gyfredol ac i'r dyfodol. Rhagdybir y bydd oediad o ddwy flynedd yn y llifau arian mewn achos o ddiffygdalu. Mae buddsoddiadau wedi dioddef cynnydd sylweddol mewn risg credyd ac wedi eu israddio gan dri neu mwy o nodlau statws credyd, neu gyfatebol, ers y gydnabyddiaeth gychwynnol, oni bai eu bod yn dal sgôr credyd gradd buddsoddi. Ystyrir hwy â nam ar eu credyd os wedi eu dyfarnu â sgôr credyd "D" neu gyfatebol. Ar 31 Mawrth 2025, roedd £1,231 (£2,008 ar 31 Mawrth 2024) o lwfansau colled yn perthyn i fuddsoddiadau'r trysorlys.

Yn ogystal â buddsoddiadau'r trysorlys sydd eisoes wedi'i gwneud, mae'r Cyngor yn agored i'r risg o golled ar gyfleuster credyd cylchdröol cymdeithas tai nas defnyddiwyd o £5m (statws credyd A-). Ar 31 Mawrth 2025, y lwfans colled oedd £1,051 (£1,159 ar 31 Mawrth 2024).

### Risg Credyd: Derbyniadau Masnachol

Mae proffil oedran y balans masnachol yn ein system dyledwyr ar 31 Mawrth wedi ei ddadansoddi fel a ganlyn:-

| **31 Mawrth 2024** | | **31 Mawrth 2025** |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 8,879 | Llai na blwyddyn | 11,530 |
| 2,743 | Dros flwyddyn | 2,559 |
| **11,622** | | **14,089** |

Mae profiad hanesyddol o ddiffyg talu ac amodau economaidd presennol ac a ragwelir wedi eu hystyried wrth gyfrifo'r lwfans colled amhariad.

## NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

**Risg Credyd: Benthyciadau, Gwarantau Ariannol ac Ymrwymiadau Benthyciadau**

Mae'r Cyngor yn rheoli'r risg credyd sydd yn gynhenid yn eu benthyciadau i bwrpas gwasanaeth, gwarantau ariannol ac ymrwymiadau benthyciadau, yn unol â'r Strategaeth Fuddsoddi sydd wedi ei chyhoeddi.

**Risg Hylifedd**

Mae gan y Cyngor fynediad parod i fenthyciadau ar gyfraddau ffafriol o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac awdurdodau lleol eraill, ac ar gyfraddau uwch gan fanciau a chymdeithasau adeiladu. Nid oes unrhyw risg ymddangosiadol y bydd y Cyngor yn methu codi cyllid i gwrdd â'i ymrwymiadau. Er hyn, mae risg y bydd yn rhaid i'r Cyngor adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg lle mae'r cyfraddau llog yn anffafriol. Rheolir y risg hwn drwy gynnal amrediad o fenthyciadau gyda chyfraddau sefydlog a sicrhau nad yw mwy na 25% o fenthyciadau'r Cyngor yn aeddfedu mewn unrhyw un flwyddyn ariannol.

Mae'r Cyngor yn dal £66.0m (2023/24: £43.9m) o asedau ariannol hylifol y gellir eu tynnu'n ôl neu eu gwerthu ar fyr rybudd os oes angen i gwrdd ag all-lifau arian parod ar ymrwymiadau ariannol.

Mae dadansoddiad aeddfedrwydd o ymrwymiadau ariannol fel a ganlyn, wedi'i ddangos fel ffigurau sydd wedi'u disgowntio (prifswm ynghyd â llog cronedig hyd yn hyn) a heb eu disgowntio (prifswm ynghyd â thaliadau llog yn y dyfodol);

| **Amser tan aeddfedrwydd (blynyddoedd)** | **Wedi'u disgowntio (prifswm ynghyd â llog cronedig) 31 Mawrth 2024 £'000** | **Heb eu disgowntio (prifswm ynghyd â llog yn y dyfodol) 31 Mawrth 2024 £'000** | **Wedi'u disgowntio (prifswm ynghyd â llog cronedig) 31 Mawrth 2025 £'000** | **Heb eu disgowntio (prifswm ynghyd â llog yn y dyfodol) 31 Mawrth 2025 £'000** |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Llai na blwyddyn | 6,048 | 10,877 | 4,456 | 8,995 |
| Dros 1 ond dim dros 2 | 4,018 | 8,995 | 4,551 | 9,361 |
| Dros 2 ond dim dros 5 | 5,836 | 19,728 | 2,858 | 16,407 |
| Dros 5 ond dim dros 10 | 25,136 | 46,496 | 23,713 | 43,925 |
| Dros 10 ond dim dros 20 | 15,464 | 45,002 | 15,464 | 44,294 |
| Dros 20 ond dim dros 40 | 27,352 | 66,289 | 27,352 | 64,362 |
| Dros 40 | 16,200 | 26,113 | 16,200 | 25,429 |
| **Cyfanswm** | **100,054** | **223,500** | **94,594** | **212,773** |

**Risg y Farchnad : Risg Cyfraddau Llog**

Mae'r Cyngor yn agored i risgiau sy'n codi o symudiadau yn y cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effeithiau cymhleth ar y Cyngor. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn arwain at yr effeithiau a ganlyn:

- Benthyciadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r gwariant llog yn cynyddu.
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr ymrwymiadau benthyca yn disgyn.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r incwm llog sydd yn cael ei gredydu yn cynyddu.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr asedau yn disgyn.

Nid yw buddsoddiadau ar gost wedi ei amorteiddio na benthyciadau a ddelir yn cael eu cario ar werth teg, ac felly ni fydd newidiadau i'w gwerth teg yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag, mae'r newidiadau yn y llog sy'n daladwy ac yn ddyledus ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfraddau cyfnewidiol yn cael eu nodi ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau. Caiff symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau cyfradd sefydlog eu hadlewyrchu yn yr Incwm Cynhwysfawr Arall neu yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, fel sy'n briodol.

## NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY’N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn ceisio lleihau’r risgiau yma drwy osod terfyn uchaf o effaith refeniw 12 mis o gynnydd neu ostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog.

Petai’r holl gyfraddau llog wedi bod 1% yn uwch (gyda’r elfennau newidiol eraill oll yn gyson), yr effaith ariannol fyddai:

| | **31 Mawrth 2024 £'000** | **31 Mawrth 2025 £'000** |
|---|---|---|
| Cynnydd yn y llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau cyfradd newidiol | (444) | (636) |
| Gostyngiad yng ngwerth teg y buddsoddiadau a ddelir ar Werth Teg drwy Elw a Cholled | 57 | 83 |
| **Effaith ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(387)** | **(553)** |
| Gostyngiad yng ngwerth y buddsoddiadau a ddelir ar Werth Teg drwy ICA | 52 | 66 |
| **Effaith ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall** | **52** | **66** |
| Gostyngiad yng ngwerth teg benthyciadau a buddsoddiadau ar gost wedi’i amorteiddio * | 123 | 35 |
| Gostyngiad yng ngwerth teg benthyca cyfradd sefydlog * | (10,999) | (8,738) |

* Dim effaith ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, nac ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

**Risg y Farchnad : Risg Pris**

Mae prisiau marchnad unedau’r Cyngor mewn cronfeydd bondiau cyfun yn cael eu llywodraethu gan y cyfraddau llog cyffredinol, a rheolir y risg pris sy’n gysylltiedig â’r offerynnau hyn ar y cyd â’r risg cyfraddau llog.

Mae buddsoddiad y Cyngor mewn cronfa eiddo cyfun yn ddarostyngedig i risg o gwymp mewn prisiau eiddo masnachol. Cyfyngir y risg yma gan amlygiad y Cyngor i fuddsoddiadau eiddo wedi’u pwlio o £20m. Canlyniad cwymp o 5% ym mhrisiau eiddo masnachol ar 31 Mawrth 2025 fyddai cost o £0.17m (£0.18m ar 31 Mawrth 2024) i’r Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr Arall.

Mae buddsoddiad y Cyngor mewn cronfeydd ecwiti cyfun yn ddarostyngedig i’r risg o ostwng prisiau cyfranddaliadau. Cyfyngir y risg yma gan amlygiad y Cyngor i fuddsoddiadau ecwiti wedi’u pwlio o £20m. Canlyniad cwymp o 5% ym mhrisiau cyfranddaliadau ar 31 Mawrth 2025 fyddai cost o £0.20m (£0.19m ar 31 Mawrth 2024) i’r Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr Arall.

**Risg y Farchnad : Risg y Gyfnewidfa Dramor**

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau nac ymrwymiadau ariannol mewn arian tramor. Felly nid yw’n agored i golledion o ganlyniad i symudiadau niweidiol mewn cyfraddau cyfnewid.

## NODYN 18a – DYLEDWYR

| 31 Mawrth 2024 | | 31 Mawrth 2025 |
|---:|:---:|---:|
| **£'000** | | **£'000** |
| 19,667 | Derbyniadau masnach | 26,249 |
| 5,235 | Blaendaliadau | 4,358 |
| 102,229 | Derbyniadau eraill | 92,734 |
| **127,131** | **Cyfanswm** | **123,341** |

Mae ffigyrau 'Derbyniadau eraill' yn cynnwys dyledwyr tymor hir o £6,861k (£5,930k yn 2023/24). Mae ffigyrau'r dyledwyr uchod yn net o golledion amhariad o £9,134k (£8,558k yn 2023/24).

## NODYN 18b - DYLEDWYR TRETH CYNGOR

Gellir dadansoddi Treth Cyngor dyledus yn ôl oedran fel a ganlyn:

| 31 Mawrth 2024 | | 31 Mawrth 2025 |
|---:|:---:|---:|
| **£'000** | | **£'000** |
| 4,826 | Llai na blwyddyn | 7,212 |
| 3,809 | Dros flwyddyn | 6,768 |
| **8,635** | **Cyfanswm** | **13,980** |

Mae ffigyrau'r dyledwyr Treth Cyngor uchod yn net o golledion amhariad. (Mae cyfanswm dyledwyr Treth Cyngor wedi eu cynnwys o fewn cyfanswm 'Derbyniadau eraill' yn nhabl 18a).

## NODYN 19 – ARIAN A CHYWERTHOEDD ARIAN

| | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2025 |
|---|---:|---:|
| | **£'000** | **£'000** |
| Arian mewn Llaw | 7 | 7 |
| Cyfrifon Banc Cyfredol | 4 | 0 |
| Cyfrifon Galw | 43,928 | 66,015 |
| **Arian a Chywerthoedd Arian** | **43,939** | **66,022** |
| Gorddrafft Banc | (8,591) | (23,994) |
| **Cyfanswm** | **35,348** | **42,028** |

Er mwyn uchafu'r adenillion o fuddsoddiadau tymor byr ac adneuon banc, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian sydd dros ben yn ei gyfrifon banc ynghyd ag unrhyw arian sydd dros ben gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC), Cyd-bwyllgor GwE a Chronfa Bensiwn Gwynedd. Oherwydd y ffaith fod y buddsoddiadau tymor byr a'r adneuon banc yn enw Cyngor Gwynedd, maent yn ymddangos yn eu cyfanrwydd ar y Fantolen gyda chredydwr cyfatebol ar 31 Mawrth 2025 o £53.7m i'r BUEGC (£58.9m ar 31 Mawrth 2024), £605k i'r Cyd-bwyllgor GwE (£2.1m ar 31 Mawrth 2024) a £35.4m i Gronfa Bensiwn Gwynedd (£31.2m ar 31 Mawrth 2024).

## NODYN 20 – ASEDAU AR GAEL I'W GWERTHU

| | 2023/24<br>£'000 | 2024/25<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans 1 Ebrill** | **47** | **0** |
| Asedau newydd eu dosbarthu fel rhai ar gael i'w gwerthu: | | |
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | 0 | 217 |
| Gwariant yn y flwyddyn | 0 | 0 |
| Colledion Ailbrisio | 0 | 0 |
| Colledion Amharu | 0 | 0 |
| Asedau wedi eu tynnu allan o'r dosbarth sydd ar gael i'w gwerthu: | | |
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | 0 | 0 |
| Asedau wedi eu gwerthu | (47) | 0 |
| **Balans 31 Mawrth** | **0** | **217** |

## NODYN 21 – CREDYDWYR

| | 31 Mawrth 2024<br>£'000 | 31 Mawrth 2025<br>£'000 |
|---|---|---|
| Symiau taladwy masnach | 48,524 | 62,896 |
| Symiau taladwy eraill | 129,344 | 126,799 |
| **Cyfanswm** | **177,868** | **189,695** |

Mae ffigyrau 'Symiau taladwy eraill' yn cynnwys credydwyr tymor hir o £4,060k (£3,876k yn 2023/24).

## NODYN 22 – DARPARIAETHAU

Mae'r Cyngor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymiadau penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Ni chaniateir, yn unol ag egwyddorion cyfrifeg, i wneud darpariaethau ar gyfer patrymau gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi a dangosir y rheiny yn Nodyn 10.

Mae'r manylion isod wedi eu rhannu'n ddarpariaethau tymor byr (o fewn 12 mis) a darpariaethau tymor hir (dros 12 mis). Fodd bynnag, cynhelir adolygiad cyfnodol ar lefel darpariaeth yr eitemau perthnasol.

| | Balans ar 31 Mawrth 2024<br>£'000 | (Ychwanegiad) / Gostyngiad / Trosglwyddiad<br>£'000 | Defnydd yn y flwyddyn<br>£'000 | Balans ar 31 Mawrth 2025<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Darpariaethau Tymor Byr** | | | | |
| Darpariaeth Safleoedd Gwastraff | (345) | (336) | 340 | (341) |
| Ymrwymiadau Benthyciadau | (1) | 0 | 0 | (1) |
| | **(346)** | **(336)** | **340** | **(342)** |
| **Darpariaethau Tymor Hir** | | | | |
| Darpariaeth Safleoedd Gwastraff | (7,635) | 498 | 0 | (7,137) |
| Darpariaeth Hawliadau Yswiriant | (728) | (383) | 0 | (1,111) |
| Darpariaeth Cyflogau | (340) | (19) | 0 | (359) |
| | **(8,703)** | **96** | **0** | **(8,607)** |
| **Cyfanswm** | **(9,049)** | **(240)** | **340** | **(8,949)** |

**Darpariaeth Safleoedd Gwastraff** – ar gyfer gofynion gwaith capio ac ôl-ofalaeth holl safleoedd gwaredu gwastraff y Cyngor.

**Darpariaeth Hawliadau Yswiriant** – i gwrdd â setliadau hawliadau yswiriant posibl.

**Darpariaeth Cyflogau** – yn unol â'r gofynion perthnasol.

**Ymrwymiadau Benthyciadau** – adnabod lwfans colled cyfleuster credyd cylchdröol nas defnyddiwyd.

## NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| 31 Mawrth 2024 | | 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 177,504 | Reserf Ailbrisio | 214,538 |
| 248,102 | Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 269,278 |
| (1,414) | Reserf Ailbrisio Offerynnau Ariannol | (1,138) |
| (625) | Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol | (574) |
| (17,248) | Reserf Pensiynau | (15,224) |
| (9,267) | Cyfrif Absenoldeb Cronedig | (11,839) |
| **397,052** | **Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio** | **455,041** |

### 23.1 Reserf Ailbrisio

Mae'r Reserf Ailbrisio yn cynnwys enillion a wnaed gan y Cyngor yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar. Gostyngir y balans pan gaiff asedau gydag enillion cronedig eu:

- Ailbrisio i lawr neu eu hamharu a bod yr enillion yn cael eu colli;
- Defnyddio i ddarparu gwasanaethau a bod yr enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiant; neu
- Gwaredu a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Dim ond enillion ailbrisio sydd wedi eu cronni ers 1 Ebrill 2007, sef dyddiad creu'r Reserf, sy'n cael eu cynnwys yn y Reserf. Caiff unrhyw enillion sydd wedi eu cronni cyn y dyddiad yma eu cynnwys ym malans y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| 2023/24 | | 2024/25 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| **167,073** | **Balans 1 Ebrill** | **177,504** |
| 25,641 | Ailbrisio asedau i fyny | 46,598 |
| (11,989) | Ailbrisio asedau i lawr a cholledion amharu | (6,290) |
| **13,652** | **Gwarged/(diffyg) wrth ailbrisio asedau** | **40,308** |
| | | |
| (3,146) | Gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant hanesyddol | (3,274) |
| (75) | Elw cronedig ar asedau a werthwyd | 0 |
| **(3,221)** | **Swm i'w sgwennu i ffwrdd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf** | **(3,274)** |
| **177,504** | **Balans 31 Mawrth** | **214,538** |

### 23.2 Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amser sy'n codi oherwydd y gwahaniaethau mewn trefniadau cyfrifeg am ddefnyddio asedau tymor hir a chyllido'r prynu, adeiladu a gwella'r asedau o dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda'r gost o brynu, adeiladu a gwella gan fod dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddio yn cael ei gyfrifo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda thrafodion cysoni yn y Reserf Ailbrisio i drawsnewid y ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Mae'r Cyfrif yn cael ei gredydu gyda'r swm wedi ei neilltuo gan y Cyngor fel cyllid i brynu, adeiladu a gwella asedau.

Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi ac enillion wedi eu hadnabod ar asedau rhodd sydd heb eu treulio eto gan y Cyngor.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisio wedi cronni ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y crëwyd y Reserf Ailbrisio i gofnodi enillion o'r fath.

## NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

Mae Nodyn 9 yn dangos manylion yr holl drafodion o fewn y Cyfrif, ond am y rhai sydd yn cael eu cynnwys yn y Reserf Ail-brisio.

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| **235,399** | **Balans 1 Ebrill** | **248,102** |
| | Gwrthdroi eitemau sydd yn berthnasol i wariant cyfalaf sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: | |
| (24,878) | Dibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol | (25,294) |
| (19,923) | Gwariant Refeniw wedi ei ariannu o Gyfalaf drwy Statud | (40,767) |
| (201) | Addasiad i falansau asedau anghyfredol wrth werthu | (294) |
| 3,146 | Trosglwyddo o'r Reserf Ailbrisio Cyfalaf | 3,274 |
| | Ariannu Cyfalaf a gyfeiriwyd yn y flwyddyn: | |
| 250 | Derbyniadau Cyfalaf | 43 |
| 37,729 | Grantiau a Chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i ariannu cyfalaf | 67,043 |
| 2,755 | Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth | 3,456 |
| 11,329 | Gwariant Cyfalaf wedi ei gyfeirio yn y flwyddyn i'r Gronfa Gyffredinol | 11,480 |
| 2,496 | Derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd / Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth | 2,235 |
| **248,102** | **Balans 31 Mawrth** | **269,278** |

### 23.3 Reserf Ailbrisio Offerynnau Ariannol

Mae'r Reserf Ailbrisio Offerynnau Ariannol yn cynnwys enillion a wnaed gan y Cyngor yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei fuddsoddiadau gaiff ei mesur ar werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall. Gostyngir y balans pan mae buddsoddiadau gydag elw cronedig yn cael eu:

- Ailbrisio i lawr neu eu hamharu a'r elw'n cael ei golli.
- Gwerthu a'r elw yn cael ei wireddu.

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| **(1,345)** | **Balans 1 Ebrill** | **(1,414)** |
| (69) | Addasiadau Gwerth Teg | 276 |
| 0 | Ailbrisio buddsoddiadau nad ydynt wedi eu cynnwys yn y Gweddill/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau i lawr | 0 |
| **(1,414)** | **Balans 31 Mawrth** | **(1,138)** |

### 23.4 Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cynrychioli'r swm y dylai fod wedi'i godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn unol ag arferion cyfrifo cywir o dan y Cod Ymarfer, ond y mae Darpariaethau Statudol yn caniatáu neu'n gorfodi iddynt gael eu gohirio dros flynyddoedd dilynol.

Mae'n ofynnol i bob premiwm a disgownt o ganlyniad i ddiddymu benthyciadau ymlaen gael eu codi'n llawn ar Incwm a Gwariant. Lle bo'r trafodion yn cwrdd â'r diffiniad o gyfaddasiad mae unrhyw bremiwm neu ddisgownt yn cael ei ychwanegu at werth cario'r benthyciad, ac yn cael ei amorteiddio i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros oes y benthyciad newydd. Mae cyfaddasiad yn digwydd pan nad yw telerau'r ddyled newydd yn "sylweddol wahanol" i rai'r hen ddyled.

## NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

Gall premiymau sydd wedi'u hamorteiddio o dan ddarpariaethau statudol gael eu codi ar y Gronfa Gyffredinol, naill ai dros weddill oes y benthyciad gwreiddiol neu dros oes y benthyciad newydd, p'run bynnag yw'r cyfnod hwyaf. Rhaid i ddisgownt gael ei gredydu i'r Gronfa Gyffredinol naill ai dros 10 mlynedd neu dros oes y benthyciad gwreiddiol, p'run bynnag yw'r cyfnod byrraf.

Mae'r trafodion a adlewyrchir yn yr Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol fel a ganlyn:

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| **(558)** | **Balans 1 Ebrill** | **(625)** |
| 61 | Cyfran o bremiymau sy'n berthnasol i flynyddoedd blaenorol sydd yn gymwysedig ym malansau'r Gronfa Gyffredinol yn unol â gofynion statudol | 61 |
| (128) | Credyd gohiriedig am dderbyniad taliadau sy'n ddyledus gan bobl mewn gofal | (10) |
| **(625)** | **Balans 31 Mawrth** | **(574)** |

### 23.5 Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyngor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau sydd wedi eu neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion enillwyd gael eu hariannu fel y mae'r Cyngor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r Gronfa Bensiwn neu fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt, gydag anghenion ariannu wedi eu neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

| | 2023/24 | | | | 2024/25 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | **BUEGC*** | **Cyfanswm** | | **Gwynedd** | **BUEGC*** | **Cyfanswm** |
| **£000** | **£000** | **£000** | | **£000** | **£000** | **£000** |
| **4,482** | **0** | **4,482** | **Balans 1 Ebrill** | **(17,248)** | **0** | **(17,248)** |
| (23,486) | (5) | **(23,491)** | Ailfesuriad o'r (ymrwymiadau) / asedau buddion pensiwn diffiniedig net | (1,074) | (8) | **(1,082)** |
| (25,610) | (18) | **(25,628)** | Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (25,889) | (20) | **(25,909)** |
| 27,366 | 23 | **27,389** | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn | 28,987 | 28 | **29,015** |
| **(17,248)** | **0** | **(17,248)** | **Balans 31 Mawrth** | **(15,224)** | **0** | **(15,224)** |

* Mae cyfran Cyngor Gwynedd o 12.5% o reserf pensiynau y BUEGC wedi gynnwys yn y cyfrifon.

## NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

### 23.6 Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cydadfer enilledig ond heb eu cymryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| **(5,752)** | **Balans 1 Ebrill** | **(9,267)** |
| (3,515) | Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (2,572) |
| **(9,267)** | **Balans 31 Mawrth** | **(11,839)*** |

* £4k yn berthnasol i cyfran Gwynedd o'r BUEGC (£4k yn 2023/24).

## NODYN 24a – DATGANIAD LLIF ARIAN – ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| (19,570) | Dibrisiant | (21,015) |
| (5,308) | Amhariad ac ailbrisio i lawr | (4,279) |
| (604) | (Cynnydd)/Gostyngiad mewn amhariad dyledion drwg | (576) |
| (42,370) | (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr | 5,563 |
| 36,703 | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr | (5,072) |
| (97) | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Stoc | (120) |
| 1,760 | Ymrwymiad pensiwn | 3,107 |
| (276) | Gwerth i'w gario ar asedau anghyfredol sydd wedi eu gwerthu neu dad-gydnabod | (294) |
| (3,054) | Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau | (2,772) |
| **(32,816)** | | **(25,458)** |

## NODYN 24b – DATGANIAD LLIF ARIAN – ADDASU AM EITEMAU CYNWYSEDIG YN Y GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU SYDD YN WEITHGAREDDAU BUDDSODDI NEU ARIANNU

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| 12 | Prynu buddsoddiadau tymor byr a tymor hir | 1 |
| 273 | Derbyniad o werthiant eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 467 |
| **285** | | **468** |

## NODYN 24c – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

Mae'r llif arian o weithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

| 2023/24 | | 2024/25 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| (5,673) | Difidendau a Llog a dderbyniwyd | (5,615) |
| 5,539 | Llog a dalwyd | 5,577 |

## NODYN 25 – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

| 2023/24 | | 2024/25 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 35,860 | Prynu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 54,579 |
| 825,325 | Prynu buddsoddiadau tymor byr a thymor hir | 1,054,468 |
| 1,595 | Taliadau/derbyniadau eraill am weithgareddau Buddsoddi | 931 |
| (319) | Derbyniadau o werthu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | (328) |
| (818,325) | Derbyniadau o fuddsoddiadau tymor byr a thymor hir | (1,064,513) |
| **44,136** | **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | **45,137** |

## NODYN 26a – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU ARIANNU

| 2023/24 | | 2024/25 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 192 | Taliadau ariannol i leihau'r ymrwymiad sy'n ddyledus yn ymwneud â phrydlesau cyllidol | (4,495) |
| 1,173 | Ad-daliadau benthyciadau tymor byr a thymor hir | 5,460 |
| **1,365** | **Llif arian net o weithgareddau ariannu** | **965** |

## NODYN 26b – DATGANIAD LLIF ARIAN – CYSONIAD YMRWYMIADAU YN DEILLIO O WEITHGAREDDAU CYLLIDO

| | 31 Mawrth 2024 | Ariannu llif arian | Eitemau anariannol | 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Benthyciadau tymor hir | (94,006) | 3,868 | 0 | (90,138) |
| Benthyciadau tymor byr | (6,033) | 1,592 | 0 | (4,441) |
| Ymrwymiadau MCP ar y Fantolen | (997) | (4,495) | 0 | (5,492) |
| **Cyfanswm ymrwymiadau yn deillio o weithgareddau cyllido** | **(101,036)** | **965** | **0** | **(100,071)** |

## NODYN 27 – DADANSODDIAD NATUR GWARIANT AC INCWM

Mae gwariant ac incwm y Cyngor wedi ei ddadansoddi fel a ganlyn:

| 2023/24 £'000 | Gwariant / Incwm | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| | **Gwariant** | |
| 236,255 | Gwariant buddion gweithwyr | 246,473 |
| 252,076 | Gwariant arall Gwasanaethau | 286,724 |
| 560 | Ad-daliadau cefnogaeth ganolog | 725 |
| 44,805 | Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad | 66,077 |
| 5,774 | Taliadau llog | 6,250 |
| 30,830 | Praeseptau a Lefiau | 32,335 |
| 4 | Colledion ar waredu asedau | 0 |
| **570,304** | **Cyfanswm Gwariant** | **638,584** |
| | **Incwm** | |
| (71,247) | Ffioedd ac incwm arall gwasanaethau | (76,373) |
| (4,074) | Incwm llog a buddsoddi | (2,873) |
| (151,320) | Incwm o'r dreth cyngor a trethi annomestig | (170,704) |
| (345,987) | Grantiau a chyfraniadau llywodraeth | (416,253) |
| 0 | (Enillion) ar waredu asedau | (173) |
| **(572,628)** | **Cyfanswm Incwm** | **(666,376)** |
| **(2,324)** | **(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(27,792)** |

## NODYN 28 – GWASANAETHAU ASIANTAETH

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant i sawl cynllun ar ran Llywodraeth Cymru:

- Troi Tai'n Gartrefi – balans cau £232k (£195k yn 2023/24).
- Troi Tai'n Gartrefi 2 – balans cau £465k (£465k yn 2023/24).
- Benthyciadau i Wireddu Gwelliannau Cartrefi – balans cau £615k (£615k yn 2023/24).
- Cronfa Cefnogi Canol Tref Caernarfon – balans cau £615k (£615k yn 2023/24).
- Cronfa Canol Tref Caernarfon a Bangor – balans cau £633k (£633k yn 2023/24).
- Cronfa Canol Tref Bangor a Bethesda – balans cau £500k (£500k yn 2023/24).
- Cynllun Trawsnewid Trefi – balans cau £185k (£187k yn 2023/24).
- Cronfa Adfywio Trefi Gwynedd – balans cau £32k (£348k yn 2023/24).
- Cronfa Adfywio Trefi Gwynedd 2 – balans cau £700k (£nil yn 2023/24).
- Cronfa Adfywio Trefi Gwynedd 10 – balans cau £500k (£nil yn 2023/24).

Mae'r Cyngor hefyd yn gweinyddu Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Y prif weithgaredd yw cynnal a rheoli'r rhwydwaith cefnffyrdd yn ardal Partneriaeth Cynghorau Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n ymestyn i 1,088 cilomedr. Cyfanswm y trafodion incwm a gafodd eu hadennill yn ystod 2024/25 oedd £82.1m (£92.9m yn 2023/24).

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cyngor Gwynedd wedi gweithredu fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru ar gyfer nifer o grantiau a chefnogaeth ariannol, yn ystod 2024/25 bu i'r Cyngor weinyddu y canlynol:

* Grant Gostyngiad Cyfradd Trethi Annomestig Cenedlaethol - taliadau o £3.6m wedi eu gwneud gan y Cyngor (£4.8m yn 2023/24); (£0.2m) yn ddyledus gan Lywodraeth Cymru.

## NODYN 28 – GWASANAETHAU ASIANTAETH (parhad)

Yn ystod 2024/25 mae Cyngor Gwynedd wedi gweithredu fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru, ar gyfer cynlluniau lletya ffoaduriaid Wcráin gan gynnwys:

* Taliadau Lletya Ffoaduriaid Wcráin – taliadau o £216k wedi eu gwneud gan y Cyngor (£287k yn 2023/24).
* Taliadau Arian Parod Cynllun Wcráin – taliadau o £6k wedi eu gwneud gan y Cyngor (£8k yn 2023/24).

## NODYN 29 – LWFANSAU AELODAU

Talwyd y lwfansau a threuliau canlynol i aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn:

| 2023/24 | | 2024/25 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 1,507 | Lwfansau | 1,576 |
| 23 | Treuliau | 14 |
| **1,530** | | **1,590** |

## NODYN 30 – TALIADAU I SWYDDOGION

**30a.** Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar gyfer rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr (sydd yn cynnwys buddion diswyddo), ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr.

| | **2023/24** | | **Uwch Swyddogion** | | **2024/25** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflogau ac eraill** | **Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr** | **Cyfanswm** | | **Cyflogau ac eraill** | **Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr** | **Cyfanswm** |
| **£** | **£** | **£** | | **£** | **£** | **£** |
| 121,595 | 23,033 | 144,628 | Prif Weithredwr [1] | 126,908 | 22,485 | 149,393 |
| 103,347 | 19,843 | 123,190 | Cyfarwyddwr Corfforaethol | 108,595 | 20,850 | 129,445 |
| 103,347 | 19,843 | 123,190 | Cyfarwyddwr Corfforaethol | 108,595 | 20,850 | 129,445 |
| 22,383 | 4,298 | 26,681 | Pennaeth Addysg [2] | 94,266 | 17,035 | 111,301 |
| 91,205 | 17,512 | 108,717 | Pennaeth Cyllid [3] | 97,586 | 18,736 | 116,322 |
| 88,627 | 16,995 | 105,622 | Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg a YGC | 92,209 | 17,683 | 109,892 |
| 88,072 | 16,910 | 104,982 | Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant | 90,274 | 17,333 | 107,607 |
| 88,072 | 16,910 | 104,982 | Pennaeth Economi a Chymuned | 90,274 | 17,333 | 107,607 |
| 88,072 | 16,078 | 104,150 | Pennaeth Plant a Theuluoedd | 90,274 | 17,333 | 107,607 |
| 88,072 | 16,910 | 104,982 | Pennaeth Amgylchedd | 90,274 | 17,333 | 107,607 |
| 81,709 | 15,688 | 97,397 | Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol | 86,068 | 16,525 | 102,593 |
| 84,079 | 16,122 | 100,201 | Pennaeth Tai ac Eiddo | 88,254 | 16,929 | 105,183 |
| 79,443 | 14,527 | 93,970 | Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol [4] | 81,400 | 15,629 | 97,029 |

1. Nid yw'r ffigyrau yn cynnwys unrhyw daliad i'r Prif Weithredwr yn ei rôl fel Swyddog Canlyniadau. Talwyd £2,945 yn 2024/25 (Dim yn 2023/24), ar sail y raddfa a ddiffinnir gan y cyrff etholiadol perthnasol.
2. Deilydd yn y swydd ers 1 Ionawr 2024.
3. Deilydd y swydd wedi derbyn £7,361 ar gyfer dyletswyddau Swyddog Adran 151 i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE), yn ei rôl ers 1 Gorffennaf 2023. Mae Cyfraniad Pensiwn Cyflogwr ychwanegol o £1,413 yn berthnasol i'r dyletswyddau yma. Mae'r symiau yma wedi eu cynnwys yn y ffigyrau o fewn y tabl uchod. Mae APCE yn ad-dalu'r Cyngor am y taliadau yma.
4. Nid yw'r ffigyrau yn cynnwys unrhyw daliad i Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol yn ei rôl fel Dirprwy Swyddog Canlyniadau. Talwyd £1,646 yn 2024/25 (Dim yn 2023/24), ar sail y raddfa a ddiffinnir gan y cyrff etholiadol perthnasol.

## NODYN 30 – TALIADAU I SWYDDOGION (parhad)

**30b.** Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gofyn i'r Cyngor gyfrifo cymhareb tâl. Cymhareb tâl y Prif Weithredwr o £126,908 (£121,595 yn 2023/24) i'r tâl canolrif o holl weithwyr y Cyngor ar gyfer 2024/25 yw 5.04:1, sydd yn cyfateb â chyflog canolrif o £25,183 (5.09:1 yn 2023/24, sydd yn cyfateb â chyflog canolrif o £23,893).

**30c.** Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyngor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo a dalwyd mewn 22 achos yn 2024/25 (5 yn 2023/24). Ni fyddai 19 o'r swyddi yma'n ymddangos isod heblaw'r costau diswyddo a dalwyd yn y flwyddyn unigol. Mae'r tabl isod yn cynnwys dechreuwyr ac ymadawyr lle byddai eu tâl blynyddol yn fwy na £60,000.

**Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:**

| Nifer yn 2023/24 | | | | Nifer yn 2024/25 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgolion** | **Eraill** | **Cyfanswm** | | **Ysgolion** | **Eraill** | **Cyfanswm** |
| 60 | 15 | 75 | £60,000 - 64,999 * | 57 | 12 | 69 |
| 30 | 19 | 49 | £65,000 - 69,999 * | 58 | 28 | 86 |
| 13 | 4 | 17 | £70,000 - 74,999 | 30 | 6 | 36 |
| 11 | 2 | 13 | £75,000 - 79,999 | 12 | 4 | 16 |
| 6 | 1 | 7 | £80,000 - 84,999 | 17 | 0 | 17 |
| 2 | 0 | 2 | £85,000 - 89,999 | 5 | 0 | 5 |
| 2 | 0 | 2 | £90,000 - 94,999 | 6 | 0 | 6 |
| 2 | 0 | 2 | £95,000 - 99,999 | 1 | 0 | 1 |
| 1 | 0 | 1 | £100,000 - 104,999 | 1 | 0 | 1 |
| 1 | 0 | 1 | £105,000 - 109,999 | 3 | 0 | 3 |
| 0 | 0 | 0 | £110,000 - 114,999 | 0 | 0 | 0 |
| 1 | 0 | 1 | £115,000 – 119,999 | 2 | 0 | 2 |
| 0 | 0 | 0 | £120,000 - 124,999 | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | £125,000 - 129,999 | 1 | 1 | 2 |
| 0 | 0 | 0 | £130,000 - 134,999 | 1 | 0 | 1 |
| 0 | 0 | 0 | £135,000 - 139,999 | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | £140,000 - 144,999 | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | £145,000 - 149,999 | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | £150,000 - 154,999 | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | £155,000 - 159,999 | 1 | 0 | 1 |

* Mae dau weithiwr o Ysgol Rheolaeth Gwirfoddol wedi eu cynnwys uchod, gydag un wedi'i gynnwys yn y band £60,000-£64,999 a llall yn y band £65,000-£69,999. Un gweithiwr yn y band £60,000-£64,999 oedd wedi ei gynnwys yn 2023/24.

## NODYN 31 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyngor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol:

| 2023/24 | | 2024/25 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 230 | Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol | 233 |
| 107 | Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas ag archwiliadau statudol | 96 |
| 45 | Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer ardystio hawliadau a dychweliadau grant am y flwyddyn | 47 |
| **382** | | **376** |
| (1) | **Llai:** Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â Chyfrifon y Cyd-bwyllgorau a'r Harbyrau | (1) |
| (1) | Addasiad ffioedd archwiliadau blynyddoedd blaenorol | (16) |
| **380** | **Ffioedd Net Cyngor Gwynedd** | **359** |

## NODYN 32 – INCWM GRANT

Mae'r Cyngor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

| | Nodyn | | 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Wedi eu Credydu i Dreth ac Incwm Grant Amhenodol** | | | | | |
| Grant Cynnal Refeniw (Grantiau'r Llywodraeth heb eu Clustnodi) | 13 | | 188,864 | | 189,952 |
| Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf gan y Llywodraeth - | | | | | |
| Ysgolion 21ain Ganrif | | 6,991 | | 6,979 | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 4,172 | | 4,966 | |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol | | 2,888 | | 2,858 | |
| Arall | | 4,178 | | 8,697 | |
| | 13 | | 18,229 | | 23,500 |
| Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf arall | 13 | | 2,400 | | 5,678 |
| **Cyfanswm** | | | **209,493** | | **219,130** |
| **Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau** | | | | | |
| Llywodraeth Cymru - | | | | | |
| Grant Cynnig Gofal Plant | | 2,858 | | 633 | |
| Grantiau Addysg Awdurdod Lleol * | | 15,572 | | 18,020 | |
| Grant Cefnogi Tai | | 7,148 | | 7,444 | |
| Grant Plant a Chymunedau | | 4,771 | | 5,359 | |
| Grant Ôl 16 (Addysg) | | 4,449 | | 4,745 | |
| Grant Dad-Dryncio | | 0 | | 4,489 | |
| Grant Pwysau Costau Ychwanegol | | 0 | | 4,043 | |
| Grant Pensiwn Athrawon | | 0 | | 2,333 | |
| Grant Rhaglen ARFOR | | 3,656 | | 6,282 | |
| Grantiau Cyfalaf | | 2,317 | | 5,488 | |
| Grant Pwysau Gweithlu a Chynaliadwyedd Gofal Cymdeithasol | | 1,722 | | 1,700 | |
| Grant Cronfa Trafnidiaeth Leol | | 1,263 | | 1,772 | |
| Grant Tocynnau Teithio Rhad | | 1,213 | | 1,507 | |
| Arall * | | 8,807 | | 8,928 | |
| | | | 53,776 | | 72,743 |
| Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall | | | | | |
| Adran Gwaith a Phensiynau | | 22,285 | | 21,797 | |
| Cronfa Ffyniant Bro | | 39,320 | | 81,994 | |
| Arall | | 23,512 | | 26,267 | |
| | | | 85,117 | | 130,058 |
| Grantiau a Chyfraniadau eraill | | | 6,570 | | 4,789 |
| **Cyfanswm** | | | **145,463** | | **207,590** |

* Mae ffigyrau 2023/24 wedi eu hail-gategoreiddio i alluogi cymhariaeth gyda 2024/25.

## NODYN 32 – INCWM GRANT (parhad)

Mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o grantiau, cyfraniadau a rhoddion sydd eto i'w hadnabod fel incwm gan fod amodau wedi eu glynu i'r grantiau sy'n golygu efallai y bydd rhaid dychwelyd yr arian neu'r eiddo i'r rhoddwr. Mae'r balansau ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

| **Derbyniadau Grant Ymlaen Llaw** | **31 Mawrth 2024 £'000** | **31 Mawrth 2025 £'000** |
|---|---|---|
| **Tymor Hir** | | |
| **Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf** | | |
| Cyfraniadau Cyfalaf Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 498 | 352 |
| Grantiau Amgylchedd (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | 807 | 1,207 |
| Economi | 0 | 7 |
| Bargen Twf Gogledd Cymru | 3,625 | 1,349 |
| | 4,930 | 2,915 |
| **Cyfanswm Tymor Hir** | **4,930** | **2,915** |
| **Tymor Byr** | | |
| **Grantiau a Chyfraniadau Refeniw** | | |
| Grantiau Economi a Chymuned | 20,233 | 2,848 |
| Grantiau Oedolion, Iechyd a Llesiant | 0 | 85 |
| Grantiau Tai | 1,405 | 1,505 |
| Grantiau Addysg | 2 | 0 |
| Grantiau Cyllid | 0 | 60 |
| Grantiau Plant a Chefnogi Teuluoedd | 150 | 139 |
| Grantiau Eraill | 306 | 1 |
| | 22,096 | 4,638 |
| **Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf** | | |
| Bargen Twf Gogledd Cymru | 2,990 | 3,846 |
| Arall | 351 | 275 |
| | 3,341 | 4,121 |
| **Cyfanswm Tymor Byr** | **25,437** | **8,759** |
| **Cyfanswm** | **30,367** | **11,674** |

## NODYN 33 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyngor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyngor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyngor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyngor. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy ofyn i'r Aelodau a'r Uwch Swyddogion gwblhau datganiad personol, fel a ddiffinnir yng Nghod ymarfer CIPFA.

### 33.1 Llywodraeth Cymru a Chanolog

Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth effeithiol dros weithrediadau cyffredinol y Cyngor. Mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol, mae'n darparu'r mwyafrif o'r ariannu drwy grantiau ac yn pennu termau nifer o'r trafodaethau sydd gan y Cyngor o fewn partïon eraill (e.e. treth cyngor, budd-daliadau tai). Ceir dadansoddiad goddrychol o'r grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru ac adrannau eraill y Llywodraeth yn Nodyn 27 sy'n dadansoddi natur gwariant ac incwm. Manylir y sefyllfa ar 31 Mawrth yn Nodyn 32.

### 33.2 Aelodau a Swyddogion

Mae gan Aelodau'r Cyngor reolaeth uniongyrchol dros bolisïau ariannol a gweithredol y Cyngor. Ceir cyfanswm y lwfansau a dalwyd i aelodau yn ystod 2024/25 yn Nodyn 29.

Mae'r Cyngor yn penodi aelodau i rai cyrff elusennol neu wirfoddol neu maent wedi datgan cysylltiad â mudiadau, cyrff ac awdurdodau cyhoeddus. Ymhellach mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinnir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyngor.

Mae Uwch Swyddogion (fel y diffinnir) wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, ddiddordeb neu berthynas (fel a ddiffinnir) mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyngor.

Gan eithrio y partïon perthnasol sy'n cael ei adnabod ar wahân yn 33.3 i 33.8 isod, mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cyrff yma yn ystod 2024/25 a'r balansau ar 31 Mawrth 2025 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

| | Taliadau a wnaethpwyd (yn cynnwys credydwyr 2024/25) £'000 | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor £'000 | Incwm a dderbyniwyd (yn cynnwys dyledwyr 2024/25) £'000 | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Yn berthnasol i Aelodau yn unig | 16,841 | 2,714 | (10,573) | (9,505) |
| Yn berthnasol i Swyddogion yn unig | 1,618 | 15 | (48) | (34) |
| Yn berthnasol i Aelodau a Swyddogion | 4,613 | 340 | (528) | (216) |
| **Cyfanswm** | **23,073** | **3,070** | **(11,150)** | **(9,755)** |

### 33.3 Cyrff Cyhoeddus Eraill

Mae'r Cyngor yn gweinyddu'r Gronfa Bensiwn. Ceir manylion o'r trafodaethau gyda'r Gronfa Bensiwn yn Nodyn 38.

### 33.4 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)

Mae'r Pennaeth Cyllid yn swyddog Adran 151 i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE), fel sydd yn cael ei nodi yn Nodyn 30 o'r cyfrifon. Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyflogres ac archwilio mewnol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae rhai Aelodau Cyngor Gwynedd wedi eu penodi fel Aelodau i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

| Taliadau a wnaethpwyd (yn cynnwys credydwyr 2024/25) £'000 | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor £'000 | Incwm a dderbyniwyd (yn cynnwys dyledwyr 2024/25) £'000 | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor £'000 |
|---|---|---|---|
| 20 | 13 | (251) | (197) |

## NODYN 33 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG (parhad)

### 33.5 Adra (Tai) Cyfyngedig

Mae'r Cyngor yn gweinyddu cyflogau ar gyfer Adra (Tai) Cyfyngedig. Mae rhai Aelodau Cyngor Gwynedd wedi eu penodi fel Aelodau i fwrdd Adra (Tai) Cyfyngedig.

| Taliadau a wnaethpwyd (yn cynnwys credydwyr 2024/25) | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor | Incwm a dderbyniwyd (yn cynnwys dyledwyr 2024/25) | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor |
|---|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 2,592 | 317 | (332) | (26) |

### 33.6 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

Sefydlwyd Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC) yn ffurfiol ar 14 Ionawr 2022, ac roedd hyn yn sgil i'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 greu fframwaith i gael trefn gyson ar gyfer cydweithio rhanbarthol rhwng llywodraeth leol. Mae dyletswyddau CBC y Gogledd yn cynnwys cynllunio datblygu strategol a chynllunio trafnidiaeth ranbarthol a gall hefyd gynnwys lles economaidd. Mae'r CBC yn cynnwys chwech cyngor cyfansoddol sef Cyngor Bwrdeistrefol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn aelod o'r CBC mewn perthynas ag ymarfer swyddogaethau cynllunio strategol. Mae'r taliadau i'r CBC yn ystod 2024/25 a'r balansau ar 31 Mawrth 2025 fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd (yn cynnwys credydwyr 2024/25) | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor | Incwm a dderbyniwyd (yn cynnwys dyledwyr 2024/25) | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor |
|---|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 108 | 0 | (223) | (210) |

### 33.7 Cydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC)

Mae'r Cyngor yn aelod o WJEC CBAC Cyf, cwmni elusennol a'i aelodau yw'r 22 awdurdod unedol yng Nghymru. Mae'r cwmni yn gyfyngedig trwy warant, nid oes ganddo gyfalaf cyfranddaliad, ac mae ymrwymiad y Cyngor wedi'i gyfyngu i £1.

| Taliadau a wnaethpwyd (yn cynnwys credydwyr 2024/25) | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor | Incwm a dderbyniwyd (yn cynnwys dyledwyr 2024/25) | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor |
|---|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 877 | 28 | 0 | 0 |

### 33.8 Is-Gwmni

Sefydlwyd Cwmni Byw'n Iach Cyf ar y 27 Fehefin 2018 i ddarparu gwasanaeth hamdden i drigolion Gwynedd. Mae'r cwmni wedi ei gyfyngu dan warant, gyda Cyngor Gwynedd yn unig berchennog ac fe gyfyngir ymrwymiad y Cyngor i £1. Trosglwyddwyd cyfrifoldebau rheoli i'r cwmni Hamdden ar y 1af o Ebrill 2019 gyda chontract gwasanaeth ar waith sy'n nodi'r union wasanaethau a chanlyniadau y mae'n ofynnol i'r cwmni eu cyflawni am eu ffi. Mae'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn cynnwys 6 cyfarwyddwr sy'n aelodau etholedig Cyngor Gwynedd. Mae'r taliadau i Gwmni Byw'n Iach Cyf ar gyfer gwasanaethau Hamdden yn ystod 2024/25 a'r balansau ar 31 Mawrth 2025 fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd (yn cynnwys credydwyr 2024/25) | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor | Incwm a dderbyniwyd (yn cynnwys dyledwyr 2024/25) | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor |
|---|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 2,223 | 167 | (420) | (63) |

## NODYN 34 – GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Dengys y tabl isod gyfanswm gwariant cyfalaf am y flwyddyn (yn cynnwys gwerth yr asedau hynny gaffaelwyd drwy brydlesi cyllidol), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Os yw'n fwriad ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy godi tâl yn refeniw fel defnyddir asedau gan y Cyngor, yna byddai hyn yn arwain at gynnydd yn y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), mesurydd gwariant cyfalaf hanesyddol y Cyngor sydd heb ei ariannu eto. Dadansoddir y GCC yn yr ail ran o'r nodyn hwn.

| 31 Mawrth 2024 £'000 | | 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| 599,119 | Asedau Anghyfredol ac Asedau ar gael i'w gwerthu | 663,748 |
| (177,504) | Reserf Ailbrisio | (214,538) |
| (248,102) | Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | (269,278) |
| **173,513** | **Gofyn Cyllido Cyfalaf** | **179,932** |

Mae'r symudiadau am y flwyddyn yn cael eu hegluro fel a ganlyn:

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| **170,812** | **Gofyn Cyllido Cyfalaf 1 Ebrill *** | **177,995** |
| | | |
| 16,675 | Tir ac Adeiladau | 21,160 |
| 10,852 | Is adeiladwaith | 11,380 |
| 5,052 | Cerbydau, Offer a Chyfarpar | 10,846 |
| 2 | Asedau Gweddilliol | 119 |
| 4,756 | Asedau heb eu cwblhau | 1,098 |
| 0 | Asedau Hawl Defnyddio | 824 |
| 19,923 | Wedi'u hariannu o gyfalaf drwy statud | 40,767 |
| (250) | Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddiwyd | (43) |
| (37,729) | Grantiau Llywodraeth a chyfraniadau eraill | (67,043) |
| (11,329) | Gwariant cyfalaf yn erbyn refeniw | (11,480) |
| (2,755) | Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth | (3,456) |
| | Symiau gwirfoddol ychwanegol a neilltuwyd: | |
| (2,496) | Derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd / Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth | (2,235) |
| **173,513** | **Gofyn Cyllido Cyfalaf 31 Mawrth** | **179,932** |

* Cynnwys addasiad prydlesau SAARh16.

## NODYN 35 – PRYDLESAU SAARh 16

**Y Cyngor fel Prydlesai**
Mae contractau prydlesai'r Cyngor yn cynnwys rhentu tir ac adeiladau gweithredol; ac Offer a Chyfarpar.

Mae gan y Cyngor drefniant consesiwn gwasanaeth sydd wedi ei gynnwys o fewn Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen ond heb ei gynnwys ar y nodyn yma. Ceir rhagor o wybodaeth ar Drefniant Consesiwn Gwasanaeth GwyriAD yn Nodyn 41.

**Asedau Hawl Defnyddio**

Yn 2024/25, cymhwysodd y Cyngor SAARh16 i Brydlesau fel sy'n ofynnol gan y Cod. Y prif effaith yw bod nifer sylweddol o brydlesau, a gyfrifwyd yn flaenorol fel prydlesau gweithredol, yn cael eu cynnwys ar y Fantolen fel Ased Hawl Defnyddio ac ymrwymiad prydles o 1 Ebrill 2024 ymlaen. Mae prydlesau o werth isel (asedau islaw £10k) a phrydlesau sydd â llai na 12 mis i fynd wedi'u heithrio o'r trefniadau newydd. Mae asedau Hawl Defnyddio ac ymrwymiadau prydles wedi'u cyfrifo fel pe bai SAARh16 wedi bod yn berthnasol erioed ond wedi'u cydnabod yn 2024/25 ac nid trwy addasu ffigyrau'r flwyddyn flaenorol.

Mesurir ymrwymiadau prydles ar werth presennol y taliadau prydles sy'n weddill ar 1 Ebrill 2024, wedi'u disgowntio gan gyfradd benthyca cynyddrannol y Cyngor ar y dyddiad hwnnw. Y cyfartaledd pwysol o'r gyfradd fenthyca cynyddrannol a ddefnyddir i ddisgowntio ymrwymiadau yw 5.07%.

Mae hyn wedi arwain at yr ychwanegiadau canlynol i'r Fantolen (gweler Nodyn 15 am fanylion yr Ased Hawl Defnyddio):

| | Tir ac Adeiladau | Cerbydau, Offer a Chyfarpar | Cyfanswm Asedau Hawl Defnyddio |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1.04.24** | **4,443** | **39** | **4,482** |
| Ychwanegiadau | 824 | 0 | 824 |
| Ailasesiad | 0 | 0 | 0 |
| Dibrisiant | (634) | (6) | (640) |
| Gwerthiannau | 0 | 0 | 0 |
| **Balans 31.03.25** | **4,633** | **33** | **4,666** |

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i dalu isafswm ar y prydlesau hyn sy'n cynnwys setliad o'r ymrwymiad tymor hir am y budd yn yr eiddo gaffaelwyd gan y Cyngor a chostau cyllido a fydd yn daladwy gan y Cyngor yn y dyfodol tra mae'r ymrwymiad yn parhau'n ddyledus. Mae'r ymrwymiad les yn cynnwys y gwerthoedd canlynol:

| 31 Mawrth 2024 | | 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| | **Ymrwymiadau Asedau Hawl Defnyddio** | |
| | (gwerth presennol net o'r ymrwymiadau): | |
| 0 | Cyfredol | 621 |
| 0 | Ddim yn gyfredol | 4,078 |
| **0** | | **4,699** |

## NODYN 35 – PRYDLESAU SAARh 16 (parhad)

### Trafodion o dan prydlesau

Mae'r Cyngor wedi gwynebu'r costau a llif arian isod, yn unol â prydlesau:

| 31 Mawrth 2024 £'000 | | 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | |
| 0 | Llog ar rhwymedigaeth prydles | 227 |
| 0 | Cost cysylltedig a eitemau byr dymor/swm isel/wedi eu eithrio | 234 |
| | **Datganiad Llif Arian** | |
| 0 | Lleiafswm taliadau prydles | 834 |
| 0 | Llog ar rhwymedigaeth prydles | 227 |
| 0 | Cost cysylltedig a eitemau byr dymor/swm isel/wedi eu eithrio | 234 |

### Dadansoddiad Oedran Dyledion Prydlesau

Mae'r ymrwymiadau prydles i'w talu dros y cyfnodau amser canlynol (wedi eu mesur ar sail gwerth wedi'u disgowntio o'r taliadau arian parod disgwyliedig):

| | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Dim mwy na blwyddyn | 0 | 621 |
| Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd | 0 | 1,974 |
| Mwy na pum mlynedd | 0 | 2,104 |
| | **0** | **4,699** |

Yn 2024/25, gwnaethpwyd taliadau o £607,605 gan y Cyngor mewn perthynas â'r asedau hynny a ddelir fel prydles gydag Ased Hawl Defnyddio.

## NODYN 35 – PRYDLESAU SAARh 16 (parhad)

### Y Cyngor fel Prydleswr

### Prydlesau Cyllidol

Mae'r Cyngor wedi prydlesu eiddo ar brydles gyllidol, gan gynnwys:

- Yr Academi Hwylio ym Mhwllheli,
- Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu.

Mae'r prydlesau yma ar sail rhent enwol ac am gyfnod sydd yn cyfateb i fywyd economaidd yr asedau. Nid oes premiwm wedi ei dderbyn ar gyfer y prydlesau yma.

### Prydlesau Gweithredol

Mae'r Cyngor yn prydlesu eiddo o dan brydlesau gweithredol i'r dibenion canlynol:

- i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned, megis cyfleusterau chwaraeon, gwasanaethau twristiaeth a chanolfannau cymunedol,
- i bwrpas datblygiad economaidd i ddarparu adeiladau addas a fforddiadwy i fusnesau lleol.

Y lleiafswm taliadau prydles derbyniadwy na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

| | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Dim mwy na blwyddyn | 555 | 241 |
| Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd | 1,002 | 594 |
| Mwy na pum mlynedd | 4,818 | 4,693 |
| | **6,375** | **5,528** |

Nid yw'r lleiafswm taliadau derbyniadwy yn cynnwys rhent sydd yn amodol ar ddigwyddiad gymryd lle ar ôl i'r brydles ddechrau, er enghraifft, addasiadau yn dilyn adolygiad rhent. Yn 2024/25 derbyniwyd taliadau prydles o £1,196,510 gan y Cyngor (£1,033,783 yn 2023/24).

## NODYN 36 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Mae'r nifer o becynnau terfynu gwaith sydd yn cynnwys cyfanswm y gost fesul band, a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Mae'r gost yn y tabl isod yn adlewyrchu cost y pecynnau perthnasol i'r cyflogwr, yn hytrach na gwir werth y taliadau i'r unigolion. Yn unol â'r gofynion fe gynhwysir yr ymrwymiadau perthnasol i'r Cyngor fel a wybyddir ar 31 o Fawrth 2025. Cynhwysir isod y costau gros perthnasol ond nid unrhyw arbedion cyllidol i'r Cyngor, ble'n briodol.

| Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig) | Nifer diswyddiadau gorfodol | | Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill | | Cyfanswm nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost | | Cyfanswm cost y pecynnau terfyn gwaith ym mhob band | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £ | 2023/24 | 2024/25 | 2023/24 | 2024/25 | 2023/24 | 2024/25 | 2023/24 | 2024/25 | |
| | | | | | | | £'000 | £'000 | |
| 0 - 20,000 | 17 | 13 | 7 | 19 | **24** | **32** | 161 | 214 | |
| 20,001 - 40,000 | 1 | 4 | 8 | 17 | **9** | **21** | 283 | 633 | |
| 40,001 - 60,000 | 0 | 3 | 2 | 3 | **2** | **6** | 99 | 297 | |
| 60,001 - 80,000 | 1 | 2 | 0 | 0 | **1** | **2** | 66 | 142 | |
| 80,001 – 100,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | 0 | 0 | |
| 100,001 – 150,000 | 0 | 0 | 2 | 0 | **2** | **0** | 240 | 0 | |
| 150,001 – 200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | 0 | 0 | |
| 200,001 – 250,000 | 0 | 1 | 0 | 0 | **0** | **1** | 0 | 201 | * |
| Addasiad i amcangyfrif y flwyddyn flaenorol | | | | | | | 0 | 19 | |
| **Cyfanswm** | **19** | **23** | **19** | **39** | **38** | **62** | **849** | **1,506** | |

* Cyfraniad o £80,531 tuag at y Pecyn Terfynu Gwaith gan Gyngor Sir Ynys Môn.

## NODYN 37 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan yr Adran dros Addysg y Llywodraeth. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i Athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensiynadwy aelodau.

Yn dechnegol, cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Er hynny, mae'r cynllun heb ei ariannu ac mae'r Adran dros Addysg yn defnyddio cronfa ddamcaniaethol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w talu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyngor yn gallu adnabod ei ran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad o'r Cyfrifon, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2024/25 talodd y Cyngor £15.33m (£12.42m yn 2023/24) am gost pensiwn athrawon, oedd yn cynrychioli 28.68% (23.84% yn 2023/24) o dâl pensiynadwy athrawon. Mae'r cynnydd yn y gyfradd cyfraniad wedi arwain at gynnydd yng ngwerth y cyfraniad. Yn ychwanegol at hyn mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfarnir ar ymddeoliad cynnar tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Yn 2024/25 roedd hyn yn £1m (£1.13m yn 2023/24), ac yn cynrychioli 1.86% (2.17% yn 2023/24) o dâl pensiynadwy athrawon. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig a'u cynhwysir yn Nodyn 38.

## NODYN 38 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyngor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyngor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ôl-gyflogaeth:

a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd ar gyfer ei weithwyr ei hun ynghyd â gweithwyr 45 o gyrff eraill. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014, ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014. Mae'r Cyngor a'r gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i falansio'r ymrwymiadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir. Cyfran Cyngor Gwynedd o gyfanswm y cyfraniadau i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2024/25 oedd 35% (36% yn 2023/24).

b) **Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau ôl-ymddeol dewisol wrth ymddeol yn fuan**. Trefniant buddion diffiniedig heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymiadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymiadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiynau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Y prif risgiau i'r Cyngor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel a ddisgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifo i'r Gronfa Gyffredinol.

### Trafodion sy'n Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyngor yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y gost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn erbyn treth y cyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod gwir gost buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau:

## NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

| **Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net** | | |
|---|---|---|
| | **(Ymrwymiadau) / Asedau net** | |
| **Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth -** | **2024** | **2025** |
| | **£'000** | **£'000** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 976,244 | 1,087,014 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu | (822,438) | (833,557) |
| Effaith y nenfwd asedau | (131,272) | (253,457) |
| Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu | (18,052) | (17,248) |
| **Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill** | **4,482** | **(17,248)** |
| Cost gwasanaeth - | | |
| Cost gwasanaeth cyfredol [1] | (25,614) | (24,317) |
| Cost gwasanaeth y gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) | (228) | (818) |
| **Cyfanswm Cost Gwasanaeth** | **(25,842)** | **(25,135)** |
| Llog Net - | | |
| Incwm llog ar asedau'r cynllun | 46,494 | 52,915 |
| Cost llog ar fuddion a ddiffinnir ymrwymiad | (40,028) | (41,376) |
| Llog ar effaith y nenfwd asedau | (6,235) | (12,293) |
| **Cyfanswm Llog Net** | **231** | **(754)** |
| **Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)** | **(25,611)** | **(25,889)** |
| Llif Arian - | | |
| Cyfraniadau aelodau'r cynllun | 0 | 0 |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | 24,969 | 27,207 |
| Buddion a dalwyd | 0 | 0 |
| Buddion heb eu hariannu a dalwyd | 0 | 0 |
| Cyfraniadau buddion heb eu hariannu a dalwyd | 1,637 | 1,716 |
| **Sefyllfa Cau a Ddisgwylir** | **5,477** | **(14,214)** |
| Ailfesuriadau - | | |
| Newid mewn tybiaethau ariannol | 54,434 | 144,863 |
| Newid mewn tybiaethau demograffig | 5,037 | 1,491 |
| Profiad arall [2] | (25,314) | 7,968 |
| Enillion ar Asedau ag eithrio symiau a gynhwysir yn y llog net | 59,068 | (5,847) |
| Newid mewn effaith nenfwd asedau | 137,507 | 265,750 |
| **Cyfanswm yr holl ail fesuriadau a gynhwysir yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)** | **230,732** | **414,255** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 1,087,014 | 1,143,772 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu | (833,557) | (728,537) |
| Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu [3] | (17,248) | (15,224) |
| **Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth [4]** | **236,209** | **400,011** |

1 Mae'r gost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddiaeth 0.6% cyflogau.

2 O fewn yr eitem profiadau eraill hon, mae'r rhwymedigaethau a gyllidir wedi lleihau £7,272,000 o ganlyniad i'r ffaith bod y gorchymyn cynyddu pensiwn yn wahanol i'r dybiaeth flaenorol. Roedd ffigwr 31 Mawrth 2024 yn cynnwys lwfans o £25,029,000 ar gyfer effaith gorchymyn cynyddu pensiwn Ebrill 2024.

3 Mae'r ymrwymiadau heb eu cyllido yn cynnwys tua £5,910,000 (£6,401,000 ar 31 Mawrth 2024) sydd yn perthyn i bensiynau heb eu cyllido y CPLIL a £9,314,000 (£10,847,000 ar 31 Mawrth 2024) sydd yn perthyn i bensiynau Athrawon heb eu cyllido.

4 Mae'n cynnwys ymrwymiadau sy'n ymwneud â gweithwyr Byw'n Iach ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru sydd o dan gyfrifoldeb y cyngor.

## NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Asedau ac ymrwymiadau pensiwn a adnabyddir yn y Fantolen

Mae'r swm a gynhwysir yn y Fantolen sy'n codi o rwymedigaeth yr awdurdod mewn perthynas â'i gynllun buddion diffiniedig fel a ganlyn:

| | **31 Mawrth 2024** | **31 Mawrth 2025** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 1,087,014 | 1,143,772 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu | (833,557) | (728,537) |
| Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu | (17,248) | (15,224) |
| **Is gyfanswm** | 236,209 | 400,011 |
| Effaith SCRh 19/ PDAARh 14 | (236,209) | (400,011) |
| Ychwanegu Gwerth Ymrwymiadau heb eu hariannu | (17,248) | (15,224) |
| **Ased/ (Ymrwymiad) Net yn deillio o Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir** | **(17,248)** | **(15,224)** |

## NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Mae prisiad actiwaraidd ymrwymiadau cynllun pensiwn a reserf pensiynau'r Cyngor a ddangosir ar y Fantolen yn adrodd ymrwymiad net o £15.224m. Penderfynodd Actiwari'r Cyngor, Hymans Robertson PAC, fod gwerth teg asedau cynllun pensiwn y cyngor yn fwy na gwerth presennol ymrwymiadau'r cynllun ar 31 Mawrth 2025 gan arwain at ased cynllun pensiwn. Mae PDAARh 14 a buddion gweithwyr SCRh 19 yn ei gwneud yn ofynnol, lle mae ased cynllun pensiwn yn bodoli, ei fod yn cael ei fesur fel yr isaf o'r:

- Gwarged yn y cynllun buddion diffiniedig; a'r
- Nenfwd asedau, sydd wedi'i gyfyngu i £0 gan eithrio ymrwymiadau heb eu hariannu

Y nenfwd asedau yw gwerth presennol unrhyw fuddion economaidd sydd ar gael ar ffurf ad-daliadau o'r cynllun neu ostyngiadau yng nghyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol. Cyfrifodd actiwari'r Cyngor y nenfwd asedau fel y gwerth net presennol o gostau gwasanaeth yn y dyfodol llai gwerth net presennol cyfraniadau yn y dyfodol. Mae'r nenfwd asedau a gyfrifwyd ar gyfer 2024/25 yn arwain at fwy o gyfraniadau gwasanaeth yn y dyfodol na chostau gwasanaeth yn y dyfodol, felly mae'r budd economaidd wedi'i gyfyngu i ddim cyn ychwanegu gwerth yr ymrwymiadau presennol sydd heb eu hariannu. Mae'r Cyngor yn dibynnu ac yn rhoi sicrwydd ar farn broffesiynol yr Actiwari a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r prisiad actiwaraidd hwn.

### Prif Gategorïau Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion SCRh 19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny, ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny sydd ddim yn cael eu dyfynnu. Tybir bod rhaniad asedau Cyngor Gwynedd ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2024. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £3.18bn ar 31 Mawrth 2025, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ac yn rhoi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol.

### Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar werth bid yn unol â gofynion SCRh19.

| | Ar 31 Mawrth 2024 | | | | Ar 31 Mawrth 2025 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori Ased** | **Prisiau a ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000** | **Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000** | **Cyfanswm £'000** | **%** | **Prisiau a ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000** | **Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000** | **Cyfanswm £'000** | **%** |
| **Ernesau Ecwiti** | | | | | | | | |
| Defnyddiwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynhyrchu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynni a Gwasanaethau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sefydliadau Ariannol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Iechyd a Gofal | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ecwiti Preifat** | | | | | | | | |
| Y cyfan | 0 | 56,520 | 56,520 | 5 | 0 | 61,761 | 61,761 | 5 |
| **Ernesau Dyledion** | | | | | | | | |
| Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Eiddo Diriaethol** | | | | | | | | |
| Eiddo'r DU | 0 | 75,708 | 75,708 | 7 | 0 | 72,776 | 72,776 | 6 |
| Eiddo Tramor | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol** | | | | | | | | |
| Ecwiti | 0 | 604,921 | 604,921 | 56 | 0 | 631,674 | 631,674 | 55 |
| Bondiau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 336,136 | 336,136 | 29 |
| Is-adeiladwaith | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 33,756 | 33,756 | 3 |
| Eraill | 0 | 309,044 | 309,044 | 28 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Deilliadau** | | | | | | | | |
| Chwyddiant | 0 | 26,811 | 26,811 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Arian a Chywerthoedd Arian** | | | | | | | | |
| Y cyfan | 0 | 14,010 | 14,010 | 1 | 0 | 7,669 | 7,669 | 1 |
| **Cyfanswm** | **0** | **1,087,014** | **1,087,014** | **100** | **0** | **1,143,772** | **1,143,772** | **100** |

## NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar VitaCurves y Gronfa gyda gwelliannau yn unol â model CMI 2022, gyda phwysiad o 15% o ddata 2023 (a 2022), pwysiad o 0% o ddata 2021 (a 2020), llyfnu safonol (Sk7), addasiad cychwynnol o 0.25% a chyfradd gwelliant hirdymor o 1.5% y flwyddyn ar gyfer dynion a merched.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymiadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymiadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn diweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymiadau fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| **Tybiaethau Ariannol** | **% y.f.** | **% y.f.** |
| Cyfradd Cynnydd Pensiynau | 2.75 | 2.75 |
| Cyfradd Cynnydd Cyflogau | 3.25 | 3.25 |
| Cyfradd Chwyddiant | 2.75 | 2.75 |
| Cyfradd Ddisgownt | 4.85 | 5.80 |
| Cyfradd enillion tymor hir a ddisgwylir ar yr holl asedau | 4.85 | 5.80 |
| **Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol** | | |
| am wasanaeth cyn Ebrill 2008 | 65 | 65 |
| am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008 | 65 | 65 |
| **Tybiaethau Marwolaeth** | **Blynyddoedd** | **Blynyddoedd** |
| Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr cyfredol | | |
| Dynion | 20.7 | 20.6 |
| Merched | 23.6 | 23.5 |
| Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr y dyfodol | | |
| Dynion | 21.7 | 21.6 |
| Merched | 25.3 | 25.3 |

Mae'r amcangyfrif o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymiadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2025 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau SCRh19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyngor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o tua 3-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

## NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyngor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022, sef dyddiad y prisiad actiwaraidd diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn flaenorol.

| **Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun** | | |
|---|---|---|
| **Newid tybiaeth** | **Brasamcan cynnydd i'r Ymrwymiad Buddion Diffiniedig 31 Mawrth 2025 %** | **Brasamcan swm ariannol 31 Mawrth 2025 £'000** |
| 0.1% o leihad i'r gwir gyfradd ddisgownt | 2 | 14,316 |
| Cynnydd o 1 blwyddyn yn nisgwyliad oes aelodau | 4 | 29,750 |
| 0.1% o gynnydd i'r gyfradd cynnydd cyflog | 0 | 776 |
| 0.1% o gynnydd i'r gyfradd cynnydd pensiwn | 2 | 13,936 |

### Effaith ar Lif Arian y Cyngor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r gronfa i gyflawni lefel gyllido o 100% dros y 17 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyngor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad bob tair blynedd, neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddu. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2025 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod y cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyngor, dylid cyfeirio at adroddiad actiwaraidd 2022, dyddiedig 28 Mawrth 2023.

### Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir

| | **Rhaniad Ymrwymiad 31 Mawrth 2025 £'000** | **%** |
|---|---|---|
| Aelodau Gweithredol | 367,951 | 51 |
| Aelodau Gohiriedig | 102,040 | 14 |
| Aelodau Pensiynwyr | 258,546 | 35 |
| **Cyfanswm** | **728,537** | **100** |

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymiadau wedi eu hariannu yn unig, nid ydynt yn cynnwys ymrwymiadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2022. Yn unol â'r sefyllfa ar ddyddiad y prisiad yma - cyfnod cyfartaledd cymhwysol o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun yn 2024/25 yw 20 mlynedd.

### Effaith ar y Blynyddoedd i ddod

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyngor fod yn £26.833m yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2026

Gan fod adroddiad yr Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, ac o ganlyniad i wahaniaethau amseru, gwnaed addasiad o £64,270.04 yn 2024/25 (£761,058 yn 2023/24) i ddod â'r sefyllfa yn y Gronfa ar sail ffigyrau Actiwaraidd yn unol â'r sefyllfa cau ar 31 Mawrth 2025 (cyn unrhyw addasiad nenfwd ased). Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymiadau Pensiwn.

## NODYN 39 – YMRWYMIADAU DIBYNNOL

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fo digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran y Cyngor ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall ddigwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor.

Mae'r sefyllfa isod yn berthnasol i amgylchiadau'n ymwneud â tri ymrwymiad dibynnol penodol:

- Gofynion capio ac ôl-ofalaeth safleoedd tirlenwi y Cyngor - mae'r ddarpariaeth sydd yn gynwysedig yn y cyfrifon yn seiliedig ar amgylchiadau presennol a gwybyddus, yn ychwanegol i ragolygon perthnasol. Er hynny, mae'n bosib y bydd y gwir gost derfynol yn wahanol i'r amcangyfrif cyfredol o gostau'r dyfodol.

- Mae'r Cyngor yn agored i ymrwymiad yswiriant posib sy'n berthnasol i drefniadau yswiriant ei gyn-Awdurdodau, sef Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Arfon, Cyngor Dosbarth Dwyfor, Cyngor Dosbarth Meirionnydd, a therfyniad Cronfa Municipal Mutual Insurance (MMI) ar 30 Medi 1992.

  Gwnaeth MMI gynllun o drefniant gyda'i gredydwyr, ble, os oedd cyllid MMI yn annigonol i gyfarfod hawliadau yn y dyfodol, yna byddai cymal adfachu'n cael ei sbarduno (sef Cynllun o Drefniant) a allai effeithio hawliadau a dalwyd ers 1992/93. Ar 13 Tachwedd 2012, daeth cyfarwyddwyr y Cwmni i'r casgliad y dylid gweithredu amodau'r Cynllun o Drefniant a rhoddwyd rhybudd i'r perwyl hwn i Weinyddwr y Cynllun a'r Cwmni. Mae'r penderfyniad yn derfynol. Talwyd ardoll gwreiddiol o 15% o'r taliadau a wnaethpwyd ers 30 Medi 1992 yn ystod 2013/14, a talwyd 10% pellach yn 2016/17.

  Fodd bynnag, yn unol â'r cynllun, bydd modd codi ardoll pellach os na fydd y lefi gwreiddiol yma yn ddigonol ar gyfer ymrwymiadau MMI yn y tymor hwy. Mae Cyngor Gwynedd o'r farn y byddai'n ddarbodus i gynnal cronfa yn y disgwyliad y bydd yr ardoll gwreiddiol yn annigonol. Uchafswm cyfredol yr ymrwymiad i'r Cyngor hwn yn seiliedig ar y ffigyrau cyhoeddedig diweddaraf oedd ar gael ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yw £1.3m.

- Mae'r Cyngor yn asesu hawliadau posib sydd yn cynnwys euogfarn cyn-bennaeth Ysgol yng Ngwynedd a materion eraill yn deillio yn y maes addysg. Mae statws cyfredol yr hawliadau yn amrywio o gamau cychwynnol ymlaen. Os sefydlir atebolrwydd, bydd taliadau'r Cyngor yn cael eu cyfyngu i'r didyniadau polisi o dan y polisïau yswiriant atebolrwydd perthnasol. Mae gan y Cyngor eisoes Gronfa Yswiriant wrth gefn sydd wedi'i neilltuo i ariannu unrhyw gostau na fyddai yswiriant y Cyngor yn eu talu.

## NODYN 40 – YMDDIRIEDOLAETHAU

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel yr unig ymddiriedolwr ar gyfer 177 o gymroddion megis cronfeydd gwobrau ysgolion, a chronfeydd cysuron a gwelliannau i nifer o Sefydliadau'r Cyngor. Mae gan y gronfa fwyaf, y Gronfa Degwm, gyfriflyfr cyfrifo sy'n hollol ar wahân, tra bo'r Cyngor yn dal eiddo 176 o'r cymynroddion hyn ond nid yw'n gwneud penderfyniadau ar ddefnydd y cronfeydd. Ymhob achos, nid yw'r cronfeydd yn cynrychioli asedion y Cyngor ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn y Fantolen.

Cyfanswm balans y 176 o gymynroddion nad ydynt yn cael eu cydnabod ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2025 oedd £2,061,426 (£1,738,131 ar 31 Mawrth 2024). Buddsoddir y cronfeydd yn llawn er mwyn creu incwm.

Manylir ar y cymynroddion mwyaf, Y Gronfa Degwm ac Ymddiriedolaeth FMG Morgan, yn atodiadau A a B i'r cyfrifon hyn.

## NODYN 41 – TREFNIANT CONSESIWN GWASANAETH

Mae GwyriAD yn gynllun Trefniant Consesiwn Gwasanaeth, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel cynllun 'Menter Cyllid Preifat' (MCP). Dechreuwyd ar y dasg o'i adeiladu yn 2012/13 a daeth y gwaith yn weithredol ym Medi 2013. Mae'n safle ar gyfer trin gwastraff bwyd sydd wedi ei ddidoli yn y tarddle gan breswylwyr a busnesau Gwynedd (yn bennaf) trwy ddefnyddio technoleg Treulio Anaerobig (Anaerobic Digestion). Mae hyn yn gymorth i'r Cyngor gyrraedd ei dargedau ailgylchu, a gweithio o fewn ei lwfansau tirlenwi o Wastraff Dinesig Bioddiraddadwy am gyfnod o 15 mlynedd.

Mae'r asedau sy'n cael eu darparu i gyflenwi'r gwasanaeth yn cael eu cydnabod ar Fantolen y Cyngor. Gwerth yr asedau perthnasol ar 31 Mawrth 2025 oedd £2.1m (£2.2m ar 31 Mawrth 2024). Mae'r Cyngor yn gwneud taliad cytunedig (ffi giât) bob blwyddyn yn seiliedig ar isafswm o dunelli sy'n cael ei gynyddu yn flynyddol gan chwyddiant ac sy'n gallu cael ei ostwng os yw'r contractwr yn methu â chyrraedd safonau argaeledd a pherfformiad mewn unrhyw flwyddyn. Mae gan y Cyngor yr hawl i gynyddu swm y tunelli dros y 7,500 tunnell cytunedig hyd at 11,000 tunnell, a bydd yn talu ffi giât ostyngol am unrhyw beth dros 7,500 tunnell.

| | **Taliad am Wasanaethau** | **Ad-daliad Gwariant Cyfalaf** | **Llog** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Talwyd yn 2024/25 | 498 | 204 | 61 | 763 |
| Taladwy yn 2025/26 | 498 | 216 | 49 | 763 |
| Taladwy o fewn 2 i 5 mlynedd | 1,202 | 577 | 64 | 1,843 |
| **Cyfanswm** | **2,198** | **997** | **174** | **3,369** |

Er bod y taliadau sy'n cael eu gwneud i'r contractwr yn cael eu disgrifio fel taliadau unedol, maent wedi eu cyfrifo er digolledu'r contractwr am werth teg y gwasanaeth a gyflenwir, y gwariant cyfalaf a'r llog oedd yn daladwy.

Mae'r contractwr yn derbyn incwm o ynni sy'n cael ei gynhyrchu o'r gwastraff sydd wedi eu galluogi i gadw'r taliad unedol i'r Cyngor yn isel. Os yw'r incwm yn uwch na'r hyn sydd yn y cytundeb, mae trefniant iddo gael ei rannu rhwng y contractwr a Chyngor Gwynedd.

Mae'r ymrwymiadau sy'n ddyledus i'r contractwr am y gwariant cyfalaf sydd wedi ei wneud fel a ganlyn:

| | **2024/25** | |
|---|---|---|
| | **Ymrwymiadau Prydlesau** | **Incwm Gohiriedig** |
| | **£'000** | **£'000** |
| Balans yn sefyll 1 Ebrill 2024 | (997) | (644) |
| Ad-daliad o brifswm yn ystod y flwyddyn | 204 | 0 |
| Rhyddhad o incwm gohiriedig | 0 | 146 |
| **Balans yn sefyll ar 31 Mawrth 2025** | **(793)** | **(498)** |

Gellir terfynu'r cytundeb gan un o'r ddwy ochr ar unrhyw adeg ar sail diffygion, yn amodol ar roi rhybudd yn unol â'r cytundeb. Yn ogystal, gall y Cyngor derfynu'r cytundeb yn unochrog yn unol â'r amodau ynddo. Byddai costau iawndal ynghlwm ag unrhyw drefniant terfynu. Ar ddiwedd y cytundeb, mae gan y Cyngor hawl i ail-dendro am gontractwr i ddarparu'r gwasanaeth.

## NODYN 42 – CYLLIDEB CYFUN

O dan reoliad 19(1) o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, cytunwyd ar drefniant anffurfiol cyllidebau cyfun rhwng awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn perthynas â darparu llety cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn ar gyfer 2024/25.

Mae trafodion y Cyngor wedi'u cynnwys o dan Oedolion, Iechyd a Llesiant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r Incwm a Gwariant ar gyfer y trefniant cyllideb cyfun wedi'u cynnwys yn y tabl isod; mae'r gwerthoedd damcaniaethol wedi'u cynnwys er gwybodaeth yn unig.

| | **Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn** | |
|---|---|---|
| **2023/24** | | **2024/25** |
| **£'000** | | **£'000** |
| | **Gwariant** | |
| 124,041 | Costau Cartrefi Gofal | 136,047 |
| **124,041** | **Cyfanswm Gwariant** | **136,047** |
| | | |
| | **Arian a gyfrannir** | |
| (11,914) | Cyngor Sir Ddinbych | (12,423) |
| (15,301) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (18,090) |
| (13,578) | Cyngor Sir y Fflint | (14,980) |
| (14,957) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (16,470) |
| (12,044) | Cyngor Gwynedd | (13,084) |
| (7,214) | Cyngor Sir Ynys Môn | (7,126) |
| (49,033) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | (53,874) |
| **(124,041)** | **Cyfanswm Arian a gyfrannir** | **(136,047)** |
| **0** | **(Gwared) / Diffyg a drosglwyddir i'r gronfa wrth gefn** | **0** |

* Mae ffigyrau 2023/24 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer darparu llety cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn wedi eu hail-ddatgan adlewyrchu £2.881m o ostyngiad o (£18.182m) i (£15,301m); ac felly mae'r costau Cartrefi Gofal hefyd wedi'u hail-ddatgan i adlewyrchu'r un gostyngiad o £126,922m i £124,041m.

## NODYN 43 – GWEITHREDIADAU AR Y CYD A CHYD-BWYLLGORAU

Mae'r Cyngor yn rhan o nifer o weithrediadau ar y cyd gydag awdurdodau cyfagos yng Ngogledd Cymru.

Yn ystod 2024/25, roedd Cyngor Gwynedd yn rhan o dri chyd-bwyllgor ac un gweithrediad ar y cyd, sef cyd-weithio mewn meysydd penodol rhwng awdurdodau lleol. Mae'n ofynnol i gyfrifon ar wahân gael eu cynhyrchu ar gyfer cyd-bwyllgorau. Y tri chyd-bwyllgor perthnasol i Wynedd yn ystod 2024/25 yw:

- GwE
- Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC)
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC)

Y gweithrediad ar y cyd sy'n berthnasol i Wynedd yn ystod 2024/25 yw:

- Gogledd Cymru Actif

Mae cyfrifon y cyd-bwyllgorau yn dilyn yr un amserlen o ran dyddiad statudol ar gyfer cwblhau y cyfrifon. Yn yr amgylchiadau, felly fe welir bod cyfrifon Cyngor Gwynedd yn adlewyrchu y gwir ymrwymiad net perthnasol, er bod y sefyllfa ddadansoddol oddrychol yn mynd i amrywio yn ddibynnol ar sefyllfa a threfniadau adrodd y gwahanol gyd-bwyllgorau (eithrio y BUEGC). Mae'r ffigyrau a'r gyfran berthnasol i Wynedd wedi eu cynnwys yn y tabl isod:

| Cyd-Bwyllgor / Gweithrediad ar y Cyd | Awdurdod Lletya Cyllid | Cynghorau a Sefydliadau sydd yn rhan o'r Cyd-Bwyllgor / Gweithrediad ar y Cyd | Cyfran Cyngor Gwynedd | Gwerth Cyfran Gwynedd (Cyfrif Incwm a Gwariant) |
|---|---|---|---|---|
| | | | **%** | **£'000** |
| **Cyd-Bwyllgor** | | | | |
| GwE | Cyngor Gwynedd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 17.55 | 702 |
| Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru | Cyngor Sir y Fflint | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Ynys Môn | 24.24 | 1 |
| Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru * | Cyngor Gwynedd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>Prifysgol Bangor<br>Grŵp Llandrillo Menai<br>Prifysgol Glyndŵr Wrecsam<br>Coleg Cambria | Gweler y nodyn isod | |

| **Gweithrediad ar y Cyd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cymru Actif ** | Cyngor Gwynedd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 16.67 | 0 |

* Mae cyfrifon Cyngor Gwynedd yn cynnwys y gwir drafodion a balansau mewn perthynas â busnes y BUEGC yn ogystal â'u cyfran o'r trafodion a'r balansau sy'n weddill, a ddosbarthwyd fel 12.5% (Awdurdod Lleol) a 6.25% (Addysg Bellach/Uwch) yn unol â'r dyraniadau yn y Cytundeb Llywodraethu 2.

** Mae Gogledd Cymru Actif wedi ei ariannu gan grant.

Gellir gweld cyfrifon y cyd-bwyllgorau unigol ar wefannau y cynghorau sydd yn arwain ar y gwasanaeth cyllid a chyfrifeg.

## NODYN 44 – DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Awdurdodwyd y Datganiad o'r Cyfrifon gan y Pennaeth Cyllid ar 4 Tachwedd 2025. Nid yw digwyddiadau yn dilyn y dyddiad yma wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau cysylltiedig. Lle'r oedd digwyddiadau a oedd yn digwydd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2025, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob agwedd faterol i ddangos yr effaith.

# Y GRONFA DEGWM

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| 976 | **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill** | 978 |
| | **Ychwaneger -** Incwm yn ystod y flwyddyn | |
| 49 | Llog ar fuddsoddiadau | 49 |
| | **Llai -** Gwariant yn ystod y flwyddyn | |
| (47) | Grantiau a chostau | (25) |
| **978** | **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth** | **1,002** |
| | **A gynrychiolir gan yr Asedau canlynol** | |
| 7 | Dyledwyr | 5 |
| 900 | Buddsoddiadau | 900 |
| 71 | Arian mewn llaw | 97 |
| 978 | | 1,002 |
| **978** | **Cyfanswm** | **1,002** |

**NODIADAU I'R CYFRIFON**

1. Dywed Cynllun gweinyddu'r Gronfa y ceir defnyddio'r incwm at bwrpasau elusennol – addysgol, adloniadol a chymdeithasol, yn unol â disgresiwn y Cyngor.

2. Mae'r Ddeddf Elusennol 1993 yn gofyn am archwiliad annibynnol o ddatganiad o gyfrifon y Gronfa Degwm yn flynyddol.

3. Dangosir buddsoddiadau ar gost yn y cyfrifon. Gwerth y buddsoddiadau ar y farchnad ar 31 Mawrth 2025 oedd £906,375.

# CRONFA YMDDIRIEDOLAETH FMG MORGAN

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| 167 | **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill** | 166 |
| | **Ychwaneger -** Incwm yn ystod y flwyddyn | |
| 17 | Llog enillwyd gan yr asedau | 16 |
| | **Llai -** Gwariant yn ystod y flwyddyn | |
| (18) | Grantiau | (8) |
| **166** | **Cyfanswm y Gronfa 31 Mawrth** | **174** |
| | **Asedau** | |
| 144 | Buddsoddiadau | 144 |
| 22 | Arian mewn llaw | 30 |
| **166** | | **174** |

## NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Sefydlwyd y Gronfa hon gyda gweddill ystâd y diweddar Mrs. Florence Merthyr Guest Morgan. Roedd incwm y Gronfa i'w ddefnyddio er budd trigolion rhannau o Lŷn at bwrpasau penodedig.

2. Dangosir buddsoddiadau ar gost yn y cyfrifon. Gwerth y buddsoddiadau ar y farchnad ar 31 Mawrth 2025 oedd £381,145 (£369,850 ar 31 Mawrth 2024).

3. Mae Cronfa FMG Morgan tu allan i ofynion y Ddeddf Elusennol 1993. Oherwydd hyn nid oes angen archwiliad annibynnol o'r Gronfa Ymddiriedolaeth hon.

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

### Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae'n ddyletswydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i Gyngor Gwynedd wneud trefniadau i sicrhau gwelliant wrth arfer ei swyddogaethau, gan roi sylw penodol i effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesi.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang yma, mae Cyngor Gwynedd hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo a mabwysiadu Côd Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government*. Mae copi o'r côd i'w gael ar ein gwefan, neu gellir derbyn copi trwy ysgrifennu at Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH. Mae'r datganiad yma yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r côd ac mae hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 5(5) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reoli mewnol.

### Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod yn ei le yng Nghyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2025 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

**Rhan 3: TREFNIADAU LLYWODRAETHU CYNGOR GWYNEDD**

3.1 Mae'r **Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu** yn cadw golwg parhaus, disgybledig ar faterion llywodraethu, yn codi ymwybyddiaeth ehangach ohonynt, ac yn hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Grŵp yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol, y Rheolwr Risg & Yswiriant a'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.

3.2 Er mwyn adlewyrchu Fframwaith CIPFA/SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government,* mae'r fframwaith leol ar ffurf Cofrestr Risg Llywodraethu sydd yn rhan o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan adnabod 24 maes o risg llywodraethu.

3.3 Rhoddir amlinelliad o'r Meysydd Llywodraethu, sut maent yn perthnasu i egwyddorion CIPFA/SOLACE, y risgiau perthnasol a threfniadau'r Cyngor er mwyn ymdrin â hwy yng ngweddill y rhan yma o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Egwyddor Craidd Fframwaith CIPFA/SOLACE A: Ymddwyn gydag uniondeb, gan arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a parchu rheol y gyfraith.**

**Diwylliant**

- Cynhaliwyd adolygiad o gynnydd Ffordd Gwynedd ar draws y Cyngor mewn cydweithrediad ag aelodau Cabinet a Grwp Tasg a Gorffen o blith aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu and Archwilio. Arweiniodd hynny at Raglen Waith 5 mlynedd o'r newydd hyd at 2028 gafodd ei chymeradwyo gan y Cabinet ar y 7 Mawrth 2023. Mae'r Cynllun yn adnabod naw maes bydd y Cyngor yn canolbwyntio arno er mwyn gwreiddio'r "ffordd o weithio" ymhellach.
- Mae Grwp Arweiniol (Tim Rheoli Corfforaethol y Cyngor) wedi'i sefydlu gyda ffocws ar un o'r ffrydiau gwaith ymhob cyfarfod misol. Mae'r Grwp yn cadw trosolwg ar weithrediad y Rhaglen Waith ac yn cynnig arweiniad ar wreiddio'r diwylliant o fewn y Cyngor. Mae Grwp o swyddogion sy'n arwain ar y ffrydiau gwaith unigol yn cyfarfod yn fisol dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol tra bo Grwp Ymarferwyr wedi'i ffurfio er mwyn cefnogi unigolion sy'n gyrru adolygiadau o fewn eu gwasanaethau.
- Cyflwynir adroddiad blynyddol ar gynnydd y diwylliant gwaith sydd yn seiliedig ar gasgliadau hunan-asesiad y gofynnir i bob Adran ei gynnal ac hefyd ar ganlyniadau Arolwg Llais Staff sydd yn cael ei gynnal pob deuddeng mis.

**Ymddygiad**

- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu codau ymddygiad ar gyfer ei aelodau a swyddogion, yn seiliedig ar reoliadau cenedlaethol (codau fel y Cod Perthynas Aelod/Swyddog; y Cod Ymddygiad Aelodau; Y Cod Ymddygiad Swyddogion; Y Polisi Gwrth Dwyll a Llygredd a'r Cod Ymarfer Canu'r Gloch) ac mae rhain at ei gilydd yn gosod sylfaen ar gyfer sicrhau intergriti a moeseg.
- Mae tystiolaeth glir fod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth ddilys i adroddiadau'r Ombwdsman fel rhan o waith y Pwyllgor Safonau, sy'n gweithio'n effeithiol.

**Cyfreithlondeb**

- Mae'n rhaid i bopeth y mae'r Cyngor yn ei wneud gydymffurfio â'r gyfraith. Rhaid i swyddogion statudol (y Swyddog Monitro a Phennaeth Cyllid) gynnig sylwadau ar unrhyw benderfyniad ffurfiol, fel rhan o Gyfansoddiad cynhwysfawr sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae rôl y swyddogion statudol yn rhan greiddiol o drefniadau llywodraethu y Cyngor.

**Egwyddor Craidd Fframwaith CIPFA/SOLACE B: Sicrhau ein bod yn agored ac fod ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid**

**Bod yn agored**

- Yr isafswm bosib o adroddiadau Pwyllgor sydd yn eithriedig, ac yn ogystal â chyhoeddi cofnodion pwyllgorau llawn, rhoddir cyhoeddusrwydd i daflenni penderfyniad aelodau unigol, gyda gweithdrefnau sy'n sicrhau fod hyn yn digwydd. Cyhoeddir papurau cefndir gydag adroddiadau pwyllgor er mwyn sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud gyda gwybodaeth lawn. Fe we-ddarlledir nifer o gyfarfodydd pwyllgorau sy'n cymryd penderfyniadau.
- Mae'r Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol, Adroddiad Perfformiad Blynyddol a'r Datganiad o'r Cyfrifon i geisio rhoi gymaint o wybodaeth ag y byddai trigolion ei angen i ni fod yn atebol. Defnyddir ddulliau amrywiol eraill hefyd megis y wefan a chyfryngau cymdeithasol i geisio sicrhau fod trigolion Gwynedd yn ymwybodol o beth sydd yn digwydd o fewn y Cyngor.

**Rhanddeiliad**

- Mae parodrwydd cyrff sector gyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, cynghorau unedol eraill cyfagos, yr Heddlu, Y Bwrdd Iechyd, y trydydd sector ac eraill i gydweithredu er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd yn gallu cael effaith sylweddol, weladwy i Bobl Gwynedd, fel rhan o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael ei sefydlu ac yn cwrdd yn rheolaidd.

**Ymgysylltu**

- Mae ystod o weithdrefnau ymgysylltu corfforaethol wedi eu sefydlu i sicrhau ein bod yn derbyn barn y cyhoedd a rhan-ddeiliaid eraill fel bo'n briodol.

**Egwyddor Craidd Fframwaith CIPFA/SOLACE C: Diffinio deilliannau o ran buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy**

**Cyfeiriad a gweledigaeth**

- Cymeradwywyd Cynllun y Cyngor 2023-28 gan y Cyngor llawn ar yr 2il o Fawrth, 2023. Mae'r Cynllun yn cynnwys ein huchelgais a phrosiectau o dan 7 maes blaenoriaeth. Mae'r cynllun wedi ei adolygu yn flynyddol ym mis Mawrth ers ei fabwysiadu.

**Cynaliadwyedd**

- Ers Mai 2023 mae'n ofynnol i adroddiadau a gyflwynir i'r Cabinet amlygu sut mae'r hyn sydd yn yr adroddiad yn adlewyrchu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Sesiynau hyfforddiant wedi eu cynnal gyda aelodau etholedig er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r Ddeddf yn Hydref 2022 a 2024.
- Mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu Polisi Caffael Cynaliadwy sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Drwy fabwysiadu'r Polisi, y bwriad yw ystyried yr effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol bosibl y gall ein penderfyniadau caffael ei chael a pha gamau y gellir eu cymryd i wneud y defnydd gorau posibl o wariant y Cyngor, er lles y Sir.

**Egwyddor Craidd Fframwaith CIPFA/SOLACE D: Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r deilliannau a fwriedir**

**Penderfyniadau**

- Mae yna dystiolaeth dros y blynyddoedd diwethaf fod Cyngor Gwynedd yn barod i gymryd penderfyniadau anodd, ond dim ond ar ôl ystyried y dystiolaeth yn fanwl.

**Cynllunio Gweithrediadau**

- Mae'r Cyngor yn ymdrechu i gynnal balans addas rhwng cael gweithdrefnau Rheoli Prosiectau a gweithio'n effeithlon. Yn hynny o beth, mae'r Cyngor eisoes yn cynnal trefniadau rheoli prosiect ar cadarn ar gyfer y prosiectau mwyaf, gan ddefnyddio fersiwn llai cynhwysfawr ond yn seiliedig ar yr un egwyddorion ar gyfer prosiectau eraill.
- Mae gan y Cyngor Gynllun Ariannol Tymor Canol, gyda cyllidebau blynyddol yn seiliedig ar hwnnw. Mae gwaith y Cyngor ar gynllunio ariannol yn cael ei ganmol yn rheolaidd gan yr archwilwyr allanol, ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymryd rôl flaenllaw ar graffu ariannol.

**Adolygu deilliannau**

- Mae trefniadau asesu risg, llunio Cynllun Corfforaethol a rheoli prosiect y Cyngor yn sicrhau fod y deilliannau a fwriedir eu cyflawni ar gychwyn unrhyw brosiect yn glir. Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol yn ceisio canolbwyntio ar asesu i ba raddau y mae'r deilliannau hynny wedi cael eu cyflawni.

**Egwyddor Craidd Fframwaith CIPFA/SOLACE E: Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo**

**Asedau Eiddo**

- Mae Cynllun Rheoli Asedau newydd ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd 2024-2034 wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor ar 11 Gorffennaf 2024.

**Asedau Technoleg Gwybodaeth**

- Mae Cynllun Digidol newydd ar gyfer y cyfnod 2023-28 wedi cael ei fabwysiadu; cafodd ei graffu gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Medi 2023 a'i gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2023.

**Cynllunio'r Gweithlu**

- Mae'r Bwrdd Prosiect Cynllunio'r Gweithlu wedi cytuno ar amcanion tymor hir a rhestr o is-brosiectau ar gyfer y cyfnod yn arwain at Mawrth 2028.
- Mae trefniant cyfweliadau gadael a gwefan swyddi newydd yn eu lle.

**Arweinyddiaeth**

- Mae'r gyfres o gyfarfodydd y Rhwydwaith Rheolwyr ac Arweinyddion Tim (a gynhelir ddwy waith y flwyddyn) yn rhan allweddol yn y newid pwyslais o ddiwylliant "rheoli" i "arwain" o fewn y Cyngor.
- Mae prosiect penodol yn parhau i gael blaenoriaeth gwella uchel yng nghyswllt Merched mewn Arweinyddiaeth o fewn y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y nifer o ferched sydd yn cyflawni swyddogaeth rheolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur a rhaniad y gweithlu cyfan ac felly'n edrych i hybu'r nifer merched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor.
- Mae'r Tim Rheoli Corfforaethol wedi ymrwymo i'w ddatblygiad, gyda pob aelod o'r tîm wedi cwblhau proffil personol ac yn mynychu gweithdai rheolaidd er mwyn datblygu fel arweinydd unigol ac i atgyfnerthu'r gallu i fanteisio'n llawn ar weithredu fel tîm.
- Yn yr un modd, mae'r Cabinet newydd a ffurfiwyd yn Rhagfyr 2024 wedi ymrwymo i'w ddatblygiad ar lefel aelodau unigol ac fel tîm.

**Cyswllt Cwsmer**

- Dadansoddiad manwl wedi'i gyflawni ac wedi'i gyflwyno i Aelodau yn Hydref 2022 gyda rhaglen waith wedi'i hadnabod a'r risg wedi'i ychwanegu i'r risgiau llywodraethu corfforaethol. Galwadau Cynllunio yn cael eu derbyn yn uniongyrchol gan y Gwasanaeth Cynllunio ers y 1af o Ebrill, 2023 a modiwl hyfforddiant byr wedi'i dreialu ar gyfer holl staff sydd yn ymdrin ag ymholiadau.
- Cynllun ar gyfer Gweithio i'r Dyfodol wedi'i fabwysiadu yn Medi 2023.

**Egwyddor Craidd Fframwaith CIPFA/SOLACE F: Rheoli risgiau a perfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus**

**Rheoli Risg**

- Mae yna drefniadau cryf ar gyfer monitro ein cydymffurfiaeth â rhai mathau penodol o risgiau gweithredol. Mae pob risg yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi cael ei ystyried o berspectif y risg i Bobl Gwynedd, nid o safbwynt mewnblyg y Cyngor.
- Mae systemau'r Cyngor ar gyfer adnabod, asesu, cofnodi ac adrodd ar risgiau yn esblygu'n barhaus.

**Perfformiad**

- Mae swyddogion ac Aelodau yn cwestiynu yn barhaus os yr ydym yn mesur y pethau iawn. Mae yna gyfarfodydd rheolaidd gydag Aelodau Cabinet a rheolwyr i asesu'r perfformiad diweddaraf gydag aelodau o'r Pwyllgor Craffu perthnasol hefyd yn bresennol i roi her.
- Ers Ebrill 2025, cyflwynir adroddiadau perfformiad rheolaidd gan yr aelodau Cabinet ar eu meysydd cyfrifoldeb hwy i gyfarfodydd i'r Pwyllgorau Craffu, lle'n flaenorol roedd yr adroddiadau yn mynd i'r Cabinet. Gwelir y newid yma yn gam allweddol i wella herio ac atebolrwydd.
- Mae cwynion hefyd yn ffordd allweddol o gael gwybodaeth i wella. Mae'r Drefn Gwynion Gorfforaethol yn parhau i ddatblygu'n dda. Mae'r Swyddog Gwella Gwasanaeth yn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o gwynion, ac yn osgoi ailadrodd camgymeriadau.

**Rheolaeth Fewnol**

- Mae adolygu ac addasu rheolaethau mewnol fel eu bod yn gymesur i'r hyn sydd ei angen yn greiddiol i'r nod o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud, gan waredu tasgau or-fiwrocrataidd. Mae cael gwared o rwystrau yn ran o waith pawb, gan arwain at lefel addas o reolaeth fewnol. Mae effeithlonrwydd y gyfundrefn Archwilio Mewnol dan adolygiad parhaus, ac mae hunanasesiad yn dangos fod y gwasanaeth yn cwrdd â'r safonau proffesiynol yn unol â'r disgwyl. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gylch gorchwyl cytunedig sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae tystiolaeth fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn effeithiol iawn yn gwireddu ei swyddogaethau.

**Rheoli Gwybodaeth**

- Mae Cynllun Gwybodaeth y Cyngor 2021-2026 (diweddariad 2024) yn cynnwys nifer o gynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â risgiau rheoli gwybodaeth a'r defnydd o ddata. Mae 23 o'r 65 prosiect o fewn y cynllun wedi'u cwblhau eisoes a'r gweddill ar y gweill.
- Mae'r Grŵp Gwybodaeth trawsadrannol yn cymryd trosolwg corfforaethol o'r maes yma.

**Cyllid**

- Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer cynllunio a rheoli ariannol, gan gynnwys cyfrifwyr ac archwilwyr mewnol, dan arweiniad y prif swyddog cyllid.
- Mae gan archwilwyr mewnol ffocws ar drefniadau effeithiol a rheolaethau mewn systemau ariannol, tra mae'r cyfrifwyr yn gweithio'n agos gyda'r adrannau ac yn annog perchnogaeth rheolwyr o'u systemau, perfformiad, a phriodoldeb ariannol.
- Mae'r gwaith o adolygu gwariant yn erbyn cyllidebau, a monitro fod arbedion wedi'u cyflawni gan holl adrannau'r Cyngor, yn sicrhau fod y gwasanaethau yn gweithredu'n effeithlon. Mae sefyllfa gwariant refeniw yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet ond wrth i'r angen i ddarganfod arbedion barhau, a'r galw am wasanaethau gynyddu, gellir rhagweld sefyllfa lle nad oes cronfeydd digonol yn y dyfodol i ymdrin â'r diffyg yn y gyllideb.

**Iechyd, Diogelwch a Llesiant**

- Polisi Iechyd a Diogelwch wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor sy'n cael ei adolygu'n flynyddol.
- Ymgynghorwyr arbenigol ar gael er mwyn cynghori. Hyfforddiant Mandadol i holl staff y Cyngor yn cael ei ddarparu.
- Hyfforddiant IOSH Rheoli'n Ddiogel yn cael ei ddarparu i Reolwyr a staff perthnasol, gydag amrywiol hyfforddiant arall mewn lle yn ddibynnol natur cyfrifoldebau.
- Trefniadau cyfathrebu gyda Fforwm Gorfforaethol a Panel Ymgynghorol gan gynnwys safle mewnrwyd penodol gyda llu o ganllawiau a gweithdrefnau.
- Trefn adrodd ac ymchwilio ar ddamweiniau wedi ei sefydlu.

**Egwyddor Craidd Fframwaith CIPFA/SOLACE G: Gweithredu arferion da mewn tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol**

**Atebolrwydd**

- Mae'r Cyngor wedi darparu canllawiau ar baratoi adroddiadau ac ar wneud penderfyniadau da, er mwyn sicrhau fod yr adroddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn eglur.

**Sicrwydd**

- Mae swyddogion statudol yn sicrhau fod materion yn cydymffurfio â'r gyfraith a threfniadau'r cyfansoddiad tra bod y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn herio yn barhaus a yw adrannau yn gwneud y pethau iawn.
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cadw trosolwg ar y trefniadau llywodraethu yn ogystal ag ar weithrediad argymhellion archwilwyr allanol. Yn cefnogi hyn mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â'r safonau proffesiynol statudol, sef Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus.
- Mae trefniadau craffu wedi eu hadolygu nifer o weithiau dros y blynyddoedd diweddaraf, gydag adroddiad annibynnol Archwilio Cymru yn Medi 2023 yn adnabod cynnydd da yn safon craffu Gwynedd.
- Mae'r swyddogion craffu yn gweithio'n agos gyda Cadeiryddion/Is-gadeiryddion y pwyllgorau unigol er mwyn sicrhau eglurder a rhannu arferion gorau. Bydd hyn yn datblygu ymhellach gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn rheolaidd mewn pwyllgorau craffu.
- Hyfforddiant i'r Tim Rheoli Corfforaethol wedi cymryd lle a cynhelir cyfarfod blynyddol er mwyn adolygu cynnydd. Hyfforddiant i Aelodau o ran eu cyfrifoldebau ar ffactorau i'w hystyried wrth gymryd penderfyniadau.

## Rhan 4: ASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD EIN TREFNADAU LLYWODRAETHU

4.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnal hunan-asesiad o'i drefniadau llywodraethu yn unol â gofynion Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government* a gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r asesiad wedi amlygu'r canlynol o safbwynt lliniaru'r risgiau llywodraethu:

- Y cynnydd amlycaf yn ystod ail flwyddyn Cynllun Ffordd Gwynedd yw:

  **Dysgu, Arbrofi a Gweithredu i Wella** - Mae'r pwyslais yn y Cynllun cyfredol ar gynnal adolygiadau ar ddarnau llai o systemau gwaith, yn ogystal a chynnal adolygiadau ar systemau cyfan, wedi dwyn ffrwyth ac mae pob Adran yn y Cyngor yn gallu darparu enghreifftiau o adolygiadau sydd wedi arwain at welliannau yn ystod y flwyddyn.

  **Arweinyddiaeth** - Mae rhaglen hyfforddiant Ffordd Gwynedd ar ei newydd wedd wedi'i hail-gyflwyno ar gyfer rheolwyr yn ystod y flwyddyn tra bo'r Rhaglen Datblygu Rheolwyr yn mynd o nerth i nerth gyda'r adborth cadarnhaol gan fynychwyr.

  **Cefnogi a Datblygu** - Mae Fframwaith Dysgu a Datblygu newydd wedi'i lawnsio gyda'r rhaglen am y flwyddyn gyntaf yn canolbwyntio ar hyfforddiant sylfaenol fel rheolaeth cyllid, llesiant a sgiliau digidol. Mae'r Rhaglen Uwch Arweinyddiaeth, Rhaglen Datblygu Rheolwyr a'r Rhaglen Merched mewn Arweinyddiaeth yn parhau i arddangos eu gwerth gyda nifer fawr o swyddogion yn awyddus i gofrestru ar bob achlysur pan fo cyfres newydd yn cael ei chyhoeddi.

  **Cynllunio'r Gweithlu a Datblygu Talent** - Mae saith ffrwd gwaith wedi'u hadnabod ar gyfer gyrru'r gwaith hwn yn ei flaen. Maent yn amrywio o fod yn cynnal ymarferiad "Ffordd Gwynedd" ar yr holl broses o ddenu staff i weithio i'r Cyngor, i'r angen am sefydlu cynlluniau hyfforddi penodol sydd yn cyfarch sgiliau ac arbenigeddau prin, yn ogystal a'r ymddygiadau priodol, sydd yn angenrheidiol i barhad gwasanaeth yn y dyfodol.

  **Gweithlu Bodlon ac Iach** - Cymeradwywyd Strategaeth Llesiant newydd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar yr 17 o Ragfyr, 2024. Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar dair sylfaen, sef arwain a rheoli, cefnogaeth gynaliadwy, ac amgylchedd gwaith gyda llesiant meddyliol, corfforol, cymdeithasol ac ariannol yn ganolbwynt i'r hyn a geisir ei gyflawni.

  **Cyswllt a'r Cwsmer -** Sefydlwyd Grŵp traws-adrannol i lunio Siarter a Safonau Cyswllt Cwsmer. Bydd y Siarter hwnnw, yn ei ffurf drafft terfynol, yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w fabwysiadu ar yr 8 o Orffennaf, 2025. Bu ymgynghori cynhwysfawr ar gynnwys y Siarter ar draws gwasanaethau'r Cyngor ac mae yma enghraifft dda o geisio barn ar ddatblygiadau gyda staff.
- Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cyfres o gerrig milltir blynyddol ar gyfer pob un o'r prosiectau yng Nghynllun y Cyngor er mwyn caniatáu i ni fesur cynnydd yn ogystal â chynllunio gwaith ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwaith i wella hyn ymhellach yn parhau.
- Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ddogfen gyhoeddus sydd yn gosod allan y trefniadau llywodraethu ac mae Canllaw i'r Cyfansoddiad yn cael ei ddarparu er mwyn atgyfnerthu hyn. Mae'r Grŵp Llywodraethu wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd a wedi cadw trosolwg o faterion llywodraethu o fewn y Cyngor. Mae'r Grŵp yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, y Rheolwr Risg & Yswiriant a'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.
- Mae'r Cyngor yn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n amlinellu ein trefniadau llywodraethu a'u heffeithiolrwydd gan ddilyn egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government*.
- Mae gan y Cyngor broses i reoli risgiau drwy gael Cofrestr Risg Corfforaethol yn ei lle.
- Cynhelir gweithdy blynyddol ar sicrwydd a risgiau gydag archwilwyr allanol (Archwilio Cymru, Arolygaeth Gofal Cymru ac Estyn).
- Pan gyhoeddir argymhellion gan gyrff archwilio allanol, bydd ymateb sefydliadol yn cael ei baratoi ar ran y Cyngor ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gyfrifol am adolygu ac asesu'r ymateb ynghyd â'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion.
- Ceir trefniadau priodol hefyd i ymateb i unrhyw adroddiadau gan Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE).

- Mae prif risgiau llywodraethu wedi eu sgorio yn gorfforaethol ac ar lefel Adran gan fod lefel y risg yn amrywio. Mae'r Grŵp Llywodraethu mewnol gyda throsolwg ac yn gyfrifol am sicrwydd ansawdd o fewn Cyngor Gwynedd.
- Mae'r Cyngor wedi comisiynu *Local Partnerships* i gynnal adolygiad o'n trefniadau llywodraethu, gyda'r bwriad o roi her annibynnol a gwrthrychol i'r Cyngor yn ogystal â chynnig unrhyw argymhellion i wella.
- Er bod y drefn a strategaethau rheoli risg i'r dyfodol yn gwella a chryfhau ar y cyfan, mae trefniadau newydd wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ceisio safoni a cheisio cysoni y sgoriau ar gyfer risgiau uchel iawn. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol bob 3 mis. Yn ystod 2025/26 byddwn hefyd yn adrodd ar y risgiau hyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Tîm Arweinyddiaeth ddwywaith y flwyddyn.
- Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2024/25, ystyriwyd bod fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol honno yn gweithredu ar lefel sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu'r Awdurdod, rheoli risg a rheolaeth fewnol.
- Mae trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer cefnogi Aelodau Etholedig yng Ngwynedd, gyda 97% o Gynghorwyr Gwynedd yn adrodd bod y gwasanaeth gan y Tîm Democratiaeth yn dda/dda iawn. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y seiliau cadarn hyn yn ystod y flwyddyn i ddod.
- Mae'r Pennaeth Cyllid wedi cynnal hunanasesiad o gydymffurfiaeth gyda Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA, ac yn ei ddiweddaru o leiaf unwaith y flwyddyn a mae'r asesiad cyfredol yn dangos cydymffurfiaeth uchel ar draws pob un o'r safonau. Yn 2025, rydym wedi comisiynu CIPFA i ymgymryd â gwiriad annibynnol o'r hunanasesiad, a bydd canlyniad y gwaith hwnnw yn cael ei ystyried wrth ddylunio gwasanaeth cefnogaeth gyllidol ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r Cynllun Prentisiaethau wedi rhoi cyfle i **81** o brentisiaid ers 2019 ac mae'r Cynllun Graddedigion (sef Cynllun Yfory) wedi rhoi cyfle i **37** hyfforddai proffesiynol ers 2017 gyda nifer ohonynt wedi cael cynnig swydd gyda'r Cyngor. Ar gyfer 2025, mae cyfanswm o 21 o swyddi newydd ar gael, sef 13 swydd prentis a 8 swydd i raddedigion.
- Cynhaliwyd Arolwg Llais Staff 2024 yn ystod cyfnod heriol oedd yn cynnwys ansicrwydd cyllidol, newidiadau gwleidyddol yn y Cyngor, a chyfnod o gyflwyno newidiadau pellach i'n trefniadau gwaith 'gweithio i'r dyfodol' yn dilyn y pandemig. O ganlyniad, gwelwyd gostyngiad bychan yn lefel bodlonrwydd staff mewn ymateb i'r mwyafrif o'r cwestiynau, ond mae'r lefel bodlonrwydd yn parhau yn uchel ar gyfer rhai o'r prif ddangosyddion e.e. y sgôr ar gyfer y datganiad 'mae'r Cyngor yn lle da i weithio' yn 80%, ac yn 87% ar gyfer "Rydw i wedi fy ysgogi i wneud fy ngorau yn fy swydd er lles pobl Gwynedd." Fel ag yn arolwg y llynedd, roedd 4 rhan i'r arolwg eleni – Fi a'm Llesiant, Fi a'm swydd, Fi a'm gwasanaeth a Fi a'm Cyflogwr.

  Cwblhaodd 1,330 o staff yr holiadur Llais Staff, sef tua 21.8% o'r staff gafodd gyfle i ateb yr arolwg. Nododd **50.6%** eu bod yn cytuno neu cytuno'n gryf **fod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol.**

  Roedd **40.9%** yn cytuno neu cytuno'n gryf **fod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ganddo**, ac roedd **48.6%** yn cytuno neu cytuno'n gryf **fod gan y Cyngor drefniadau yn eu lle i sicrhau ei fod yn perfformio yn effeithiol.**
- Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur gan ofyn iddynt am adborth ar y meysydd canlynol:
  - Sylwadau ar berfformiad yr awdurdod a meysydd i'w gwella
    - A yw'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol?
    - A yw'r Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ganddo?
    - A oes gan y Cyngor drefniadau yn eu lle i sicrhau ei fod yn perfformio'n effeithiol?
  - Awgrymiadau ar gyfer gwella ymgysylltiad a lles staff

  Ymhlith yr ymatebion, nodwyd fod lle i wella'r cyfathrebu gydag undebau ynglŷn a materion staffio mewn rhai adrannau, ac roedd cydnabyddiaeth fod gennym rywfaint o ffordd i fynd o ran Partneriaeth Gymdeithasol (pan mae grwpiau fel llywodraeth leol, busnesau ac undebau llafur yn cydweithio i wneud penderfyniadau), gan fod hon yn broses o ddysgu.

- Roedd Gwynedd yn rhan o’r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol, y cyntaf o’i fath i’w gynnal yng Nghymru. Cafwyd 3,094 o ymatebion i’r arolwg.
- Mae’r nifer o Gwynion Ffurfiol Dilys wedi gostwng eleni o’i gymharu a llynedd, ond mae’r rhai sydd wedi mynd at yr Ombwdsmon wedi cynyddu. Rydym yn dal i weithio ar leihau’r amser a gymerir i ymateb i gwynion, ac yn anelu i’r Siarter Cyswllt Cwsmer newydd sydd yn cael ei datblygu gael effaith bositif ar hyn.
- Mae’r Tîm Caffael yn darparu cyngor a chymorth i wasanaethau, ac yn sicrhau fod y sefydliad yn dilyn rheoliadau ac ymarfer orau yn y maes caffael.
- Yn 2024/25 cyrhaeddodd y Cyngor restr fer gwobr caffael Cymru (GO Awards). Mae’r enwebiad am ein hymdrechion i geisio ennill gwerth cymdeithasol wrth gaffael ein darpariaeth bwyd ar draws y Sir.
- Darparwyd rhaglen hyfforddiant eang ar gyfer Aelodau Etholedig yn ystod 2024/25 oedd yn cynnwys hyfforddiant craidd mewn saith maes penodol:
    i. Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol
    ii. Cod Ymddygiad
    iii. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol
    iv. Diogelu Plant ac Oedolion
    v. Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb
    vi. Eich Cyfrifoldeb fel Rhiant Corfforaethol
    vii. Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi
- Mae gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 25/26 yn sialens, yn enwedig yn sgil yr angen i sicrhau bod cyllidebau adrannol yn ddigonol er mwyn darparu’r lefel angenrheidiol o wasanaethau i bobl Gwynedd, ac i osgoi gorwariant fel a welwyd yn 2024/25. Bryd hynny gwelwyd gorwariant adrannol o £6.6m gyda gorwariant sylweddol yn Adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant, Plant a Theuluoedd, Priffyrdd, Peirianneg ac YGC ac Amgylchedd.
- Yn ystod 2024, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o gynaliadwyedd ariannol y Cyngor gan gynnwys ffocws ar y camau gweithredu, y cynlluniau a’r trefniadau i bontio bylchau yn y cyllid ac ymdrin â phwysau ariannol dros y tymor canolig. Canfuwyd bod cynnydd sylweddol yn nifer yr adrannau yn y Cyngor a orwariodd yn y ddwy flynedd ariannol diwethaf, a bod y Cyngor wedi datblygu trefniadau i adolygu ei gyllidebau.
- Mae adolygiad mewnol ar y gweill i wella’n trefniadau casglu Treth Cyngor, ac mae camau gweithredu wedi eu cyflwyno er mwyn cynyddu’r cyfraddau casglu yn y dyfodol. Bydd y gwaith yma yn parhau i dderbyn sylw dros y flwyddyn i ddod. Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau fod materion fel hyn yn derbyn sylw cynnar yn y dyfodol, a byddwn yn edrych i adolygu ein trefniadau er mwyn sicrhau fod hyn yn digwydd.
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu newidiadau yn arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor, gyda sawl Aelod Cabinet newydd yn ymgymryd â chyfrifoldebau ar draws amryw feysydd. Yn ogystal, disgwylir penodiadau i swyddi uwch swyddogion dros y misoedd nesaf. Gall y newidiadau hyn beri heriau o ran arweinyddiaeth gyson ac achosi oedi wrth wneud penderfyniadau strategol, ond rydym yn cydnabod hyn ac yn bwriadu mynd i’r afael â’r mater yn briodol.
- Datblygwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-28 er mwyn rhoi fframwaith i wella tegwch o fewn y Cyngor, a sicrhau ein bod yn trin pobl yn ôl eu hanghenion, ac mae’r gwaith yma yn parhau.
- Bob blwyddyn mae’r Cyngor yn paratoi Strategaeth Ariannol ac yn gosod Cyllideb gytbwys (balanced) er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth.
- Mae’r Cyngor hefyd yn cyhoeddi Datganiad o’r Cyfrifon ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol sy’n dangos ei wariant blynyddol. Mae'r gwaith o adolygu gwariant yn erbyn cyllidebau, a monitro fod arbedion wedi'u cyflawni gan holl adrannau’r Cyngor, yn sicrhau bod y gwasanaethau yn gweithredu'n effeithlon. Fodd bynnag, fel a nodwyd yn gynharach, mae’r pwysau cynyddol ar gyllideb y Cyngor yn ei gwneud hi’n anoddach i adrannau gynnal yr un lefel o wasanaethau o fewn y gyllideb a ddarperir, a mae hynny yn arwain at risg o orwariant
- Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi creu dyletswyddau newydd i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol gymryd elfen o gyfrifoldeb dros hyrwyddo ymddygiad da a chydweithredu â'r Pwyllgor Safonau. Cytunwyd ar brotocol a meini prawf ar gyfer asesu cyflawniad

y ddyletswydd mewn gweithdy rhwng aelodau'r Pwyllgor a'r Arweinyddion. Mabwysiadwyd y rhain gan y Pwyllgor Safonau a byddent yn cyfrannu at baratoi adroddiad blynyddol y Pwyllgor. Mae'r gwaith yma wedi ei gefnogi gan gyfarfodydd a chyfathrebu rheolaidd gyda'r Swyddog Monitro.

4.2 Ar gyfer pob un o'r Risgiau Llywodraethu, dangosir sgôr risg cyfredol, sef y sgôr ar ôl asesiad gwrthrychol o'r trefniadau rheoli sydd yn eu lle rŵan. Rhoddir ystyriaeth i ddau ffactor:

- **Effaith** y risg petai'r digwyddiad yn cael ei wireddu
- Y **Tebygolrwydd** iddo ddigwydd.

4.3 Mae'r sgoriau Effaith yn amrywio o 1 (effaith gweladwy) i 5 (effaith catastroffig), a'r sgoriau Tebygolrwydd o 1 (Annhebygol Iawn) i 5 (digwydd rŵan). Cyfrifir y sgôr risg drwy luosi'r sgôr effaith a'r sgôr tebygolrwydd gyda'i gilydd.

4.4 Asesir lefel gymharol y risgiau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Sgôr 20-25** | **Risg Uchel Iawn** |
| **Sgôr 12-16** | **Risg Uchel** |
| **Sgôr 6-10** | **Risg Canolig** |
| **Sgôr 1-5** | **Risg Isel** |

4.5 Yn dilyn yr hunan-asesiad a nodir uchod, mae'r Grŵp Llywodraethu yn asesu sgoriau'r risgiau yn y 24 maes llywodraethu fel a ganlyn:

| **Maes** | **Risg** | **Effaith** | **Tebygolrwydd** | **Sgôr Risg** |
|---|---|---|---|---|
| Diwylliant | Diwylliant amhriodol o fewn y Cyngor yn llesteirio ein gallu i wneud y pethau iawn ac i'w gwneud yn y ffordd iawn | 4 | 3 | **12** |
| Ymddygiad | Diffyg integriti, moeseg a pharch yn ymddygiad aelodau a swyddogion, gan danseilio hyder y cyhoedd yn y Cyngor | 2 | 2 | **4** |
| Cyfreithlondeb | Anwybyddu rheol y gyfraith, sy'n golygu fod y Cyngor yn agored i heriau yn y llysoedd. | 3 | 1 | **3** |
| Bod yn agored | Cyngor sydd ddim yn agored, sy'n golygu nad oes modd ei ddal yn atebol am ei benderfyniadau | 2 | 1 | **2** |
| Rhanddeiliad | Perthynas wan gyda rhanddeiliaid sefydliadol, gan ddiweddu gyda gwasanaethau is-optimaidd | 3 | 3 | **9** |
| Ymgysylltu | Methiant i ymgysylltu'n effeithiol efo pobl Gwynedd yn arwain at flaenoriaethu a phenderfyniadau gwael | 3 | 3 | **9** |
| Cyfeiriad a gweledigaeth | Cyfeiriad a gweledigaeth sydd heb ei wreiddio mewn canlyniadau i unigolion ac nad yw felly'n gwireddu anghenion Pobl Gwynedd | 3 | 2 | **6** |
| Cynaliadwyedd | Methu cydymffurfio gyda 5 egwyddor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 3 | 3 | **9** |
| Penderfyniadau | Amharodrwydd i wneud penderfyniadau ar weithredu, sy'n golygu oedi mewn gwireddu canlyniadau i bobl Gwynedd | 2 | 2 | **4** |
| Cynllunio Gweithrediadau | Ymyrryd heb gynllunio'n ddigonol | 2 | 2 | **4** |
| Adolygu deilliannau | Parhau i wneud yr un pethau yn anghywir am nad ydym yn dysgu gwersi | 3 | 2 | **6** |
| Asedau Eiddo | Asedau Eiddo'r Cyngor ddim yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial | 2 | 2 | **4** |

| Maes | Risg | Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr Risg |
|---|---|---|---|---|
| Asedau Technoleg Gwybodaeth | Asedau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor ddim yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial | 3 | 3 | **9** |
| Cynllunio'r Gweithlu | Methiant i gynllunio'r gweithlu o ran denu, datblygu a chadw staff | 3 | 3 | **9** |
| Arweinyddiaeth | Diffygion yn arweinyddiaeth y Cyngor yn golygu nad ydym yn gwneud y pethau cywir | 4 | 2 | **8** |
| Rheoli Risg | Gwendidau yn ein trefniadau rheoli risg | 5 | 2 | **10** |
| Perfformiad | Gwendidau yn ein trefniadau rheoli perfformiad sy'n golygu nad ydym yn gallu cymryd camau priodol i wireddu ein pwrpas | 2 | 2 | **4** |
| Rheolaeth Fewnol | Trefniadau rheolaeth fewnol anaddas | 2 | 2 | **4** |
| Rheoli Gwybodaeth | Methu bodloni gofynion statudol wrth ymdrin â gwybodaeth a data | 4 | 3 | **12** |
| Cyllid | Gorwariant yn sgil tan-gyllido neu diffyg rheolaeth ariannol | 5 | 3 | **15** |
| Atebolrwydd | Adrodd gwael, heb dryloywder ac anaddas i'r gynulleidfa | 2 | 2 | **4** |
| Sicrwydd | Diffyg sicrwydd ac atebolrwydd sy'n codi amheuaeth ymysg y cyhoedd am yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud | 3 | 5 | **15** |
| Iechyd, Diogelwch a Llesiant | System Rheoli Iechyd, Diogelwch a Llesiant aneffeithiol | 5 | 3 | **15** |
| Cyswllt Cwsmer | Diffyg ymateb yn amserol i ymholiadau | 3 | 4 | **12** |

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod.

**Rhan 5. MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

5.1 Dengys y sgoriau uchod nad oes yr un o'r 24 maes llywodraethu yn cyflwyno risg uchel iawn. Mae 6 yn risg uchel a 9 yn risg canolig.

5.2 Mae'r hunan-asesiad wedi adnabod y gwelliannau canlynol fydd yn cael eu gweithredu yn 2025-26.

- Mewn ymateb i argymhellion astudiaeth gan Archwilio Cymru byddwn yn edrych i wella'n trefniadau comisiynu gwasanaethau.
- Rheoli effaith y newidiadau sylweddol sydd wedi bod yn ddiweddar yn arweinyddiaeth gwleidyddol y Cyngor ac ymysg Penaethiaid Adran.
- Gwella hyfforddiant ar adnabod a rheoli risg.
- Gweithredu ar yr argymhellion perthnasol yn adroddiad Local Partnerships.
- Ystyried sut y gallwn adeiladu ar yr arolwg preswylwyr a drefnwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Data Cymru a chael mwy o wybodaeth/tystiolaeth er mwyn ein galluogi i wella gwasanaethau.
- Rhoi camau pellach yn eu lle er mwyn gwella cydymffurfiaeth gyda'r Ddyletswydd Partneriaeth Cymdeithasol.
- Gweithredu ar ganfyddiadau Arolwg Llais Staff, gan gynnwys gwerthfawrogiad a llesiant.

5.3 Bydd diweddariad ar gamau gweithredu blynyddoedd blaenorol yn cael eu hadrodd yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25.

**Rhan 6: BARN**

*Rydym o'r farn fod y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir uchod yn cynnig sicrwydd fod ein trefniadau llywodraethu ar y cyfan yn gweithredu'n dda. Serch hynny, rydym yn bwriadu cymryd camau i ddelio gyda'r materion a nodir yn Rhan 4 uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.*

| | |
|---|---|
| **DAFYDD GIBBARD** | **Cyng. NIA JEFFREYS** |
| **PRIF WEITHREDWR CYNGOR GWYNEDD** | **ARWEINYDD CYNGOR GWYNEDD** |
| **DYDDIAD: 16/10/2025** | **DYDDIAD: 16/10/2025** |

## Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

### Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Gwynedd yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Daflen Fantolen, y

Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae’r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2025 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â’r gyfraith berthnasol a’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 ‘Archwiliad o ddatganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig’. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o’m hadroddiad sy’n nodi cyfrifoldebau’r archwilydd am archwilio’r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau’n annibynnol o Gyngor Gwynedd yn unol â’r gofynion moesegol sy’n berthnasol i’m harchwiliad o’r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â’r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

### Casgliadau sy’n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio’r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i’r casgliad bod defnyddio’r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi’i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyngor Gwynedd i barhau i fabwysiadu’r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol. Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau’r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes Gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o’r adroddiad hwn.

### Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy’n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw’r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â’r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei cham-ddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o’r fath neu wybodaeth berthnasol o’r fath sy’n ymddangos fel pe bai wedi cael ei cham-ddatgan, mae’n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi’i wneud, os wyf yn dod i’r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi’i cham-ddatgan yn berthnasol, mae’n ofynnol i mi nodi’r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i’w nodi yn hyn o beth.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gyngor Gwynedd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi, os, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

**Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol**

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y DatganiadCyfrifon y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon sy'n rhoi darlun gwir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Cyngor Gwynedd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cyd-bwyllgor yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffygcydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Gwynedd sy'n ymwneud ag:
    - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;;
    - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;a hefyd

- y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

- ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial am dwyll o ganlyniad i wrth wneud rheolaethau gan reolwyr;
- cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cyngor Gwynedd, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau; a.
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr ac Cyngor Gwynedd ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill;
- asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o duedd bosibl; a
- gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Gwynedd, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

**Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd**

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

**Tystysgrif cwblhau'r archwiliad**

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | 1 Cwr y Ddinas |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | Stryd Tyndall |
| 19 Tachwedd 2025 | Caerdydd, CF10 4BZ |

# Geirfa

**Amhariad** – Lleihad yng ngwerth cario ased sefydlog oddi tan ei werth cario (oherwydd darfodedigrwydd, difrod neu newid anffafriol mewn amgylchedd statudol).

**Amorteiddio** – Gwarediad graddol ymrwymiad, megis benthyciad, gyda thaliadau cyson dros gyfnod penodol o amser. Rhaid i daliadau o'r fath fod yn ddigonol i glirio'r prifswm a'r llog.

**Ariannu Cyfalaf** - Cyllid ar gyfer talu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd i ariannu gwariant cyfalaf yn cynnwys benthyca, lesu, cyllido'n uniongyrchol o refeniw, derbyniad cyfalaf i'w ddefnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, reserfau refeniw a reserfau wedi'u clustnodi.

**Ased** - Eitemau o werth sydd yn cael ei fesur mewn cyd-destun pris.

- Caiff ased cyfredol ei dreulio neu gall golli gwerth ariannol materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae ased anghyfredol yn darparu budd i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n ddarparu am gyfnod o dros flwyddyn.

**Asedau Anniriaethol** – Ased anariannol adnabyddadwy heb sylwedd corfforol. Meddalwedd cyfrifiadurol er enghraifft.

**Asedau Cymunedol** - Asedau anghyfredol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu dal yn barhaus sydd heb oes benodol ddefnyddiol, ac a allai gael cyfyngiadau ar eu gwarediad. Gall esiamplau gynnwys parciau ac adeiladau hanesyddol.

**Asedau Treftadaeth** – Ased gyda rhinweddau Hanesyddol, Artistig, Gwyddonol, Technolegol, Geoffisegol neu a budd Amgylcheddol, gaiff ei ddal a'i gynnal yn bennaf am ei gyfraniad i wybodaeth a diwylliant.

**Balansau (neu Reserfau) -** Mae'r rhain yn cynrychioli cyllid cronedig sydd ar gael i'r Cyngor. Caiff rhai balansau (reserfau) eu clustnodi ar gyfer pwrpas penodol i ariannu mentrau diffiniedig yn y dyfodol neu i gwrdd â risg neu ymrwymiadau gaiff eu hadnabod.

**CIPFA (Chartered Institute of Public Finance and Accounting)** – Sefydliad proffesiynol ar gyfer cyfrifwyr sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus.

**Cost Adnewyddu Dibrisiedig** – Dull prisio sy'n darparu procsi ar gyfer gwerth marchnad asedau arbenigol.

**Cost Gwasanaeth Cyfredol** – Cynnydd yng ngwerth cyfredol ymrwymiadau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a ddisgwylir i godi o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

**Credydwyr -** Symiau yn ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, sydd â thaliadau heb eu gwneud erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

**Cronfa Gyffredinol -** Prif gronfa refeniw'r Cyngor sydd yn cynnwys cost net yr holl wasanaethau a ariennir gan drethdalwyr lleol a grantiau'r Llywodraeth.

**Cronfa Ymddiriedolaeth -** Cronfeydd a weinyddir gan y Cyngor ar gyfer dibenion megis gwobrau, elusennau, prosiectau penodol ac ar ran plant dan oed.

**Cyfrif Addasiadau Cyfalaf** – Reserf wedi ei glustnodi o adnoddau cyllid neu dderbyniad cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-daliad benthyciad allanol a mathau eraill o drafodion cyllido cyfalaf.

**Cynllun Buddiannau Diffiniedig** – Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall sydd ddim yn gynllun cyfraniad diffiniedig.

**Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig -** Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall lle gwelir gweithiwr yn cyfrannu symiau penodol rheolaidd fel swm neu ganran o'r cyflog, a ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu cyfraniadau pellach petai'r cynllun ddim ag asedau digonol i dalu buddion i'r holl weithwyr mewn perthynas â gwasanaeth y gweithiwr yn y cyfnod presennol a blaenorol.

**Darpariaeth** – Ymrwymiad sydd ag amseru neu swm ansicr, sydd i gael ei dalu drwy drosglwyddo buddion economaidd.
**Derbyniadau Cyfalaf** - Incwm a dderbynnir o werthu tir neu asedau cyfalaf arall.

**Dibrisio** – Mesuriad cost y budd economaidd yr asedau sefydlog diriaethol dreuliwyd yn ystod y cyfnod.

**Dyledwyr** - Symiau yn ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, o fewn y cyfnod cyfrifo, sydd â thaliadau heb eu derbyn erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

**Eiddo Buddsoddi** – Eiddo a ddelir unai ar gyfer ennill incwm rhent neu ar gyfer gwerthfawrogiad cyfalaf, neu'r ddau.

**Enillion a Cholledion Actiwaraidd** - Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, mae y newidiadau mewn gwarged actiwaraidd sydd yn codi oherwydd bod digwyddiadau heb gyd-daro gyda rhagdybiaeth actiwaraidd a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profiad enillion a cholledion) neu bod y rhagdybiaethau actiwaraidd wedi newid.

**Gwariant Cyfalaf** - Gwariant caffael ar ased anghyfredol, a gaiff ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaeth tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo neu wariant sydd yn cyfrannu, a ddim yn unig yn cynnal, at werth ased anghyfredol.

**Gwerth Llyfr Net** – Gwerth lle caiff asedau sefydlog eu cynnwys ar y Fantolen, h.y. eu cost hanesyddol neu werth cyfredol llai'r gwerth cronnus a ddarperir ar gyfer dibrisiad.

**Gwerth Teg** - Y pris a dderbynnir i werthu ased, neu a delir i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranwyr i'r farchnad ar ddyddiad y mesuriad.

**Lleiafswm Darpariaeth Refeniw (LIDR)** – Y lleiafswm sydd rhaid ei godi ar gyfrif refeniw Awdurdod yn flynyddol a'i neilltuo fel darpariaeth ar gyfer ymrwymiad credyd.

**Menter Cyllid Preifat (MCP)** – Menter llywodraeth ganolog sy'n anelu i gynyddu lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus drwy ddenu ffynonellau preifat o gyllid.

**Offerynnau Ariannol** - Unrhyw gytundeb sydd yn cynyddu ased un endid ac ymrwymiadau ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymiadau ariannol, o fasnach dderbyniadwy (anfoneb dyledus) a masnach daladwy (anfoneb sy'n ddyledus i'w talu) i ddeilliadau cymhleth a deilliadau wedi eu mewnblannu.

**Partïon Cysylltiedig** - Caiff partïon eu hystyried i fod yn gysylltiedig os oes gan un parti'r gallu i reoli'r parti arall neu gyda dylanwad sylweddol penodol dros y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

**Praeseptau** – Yr ardoll a wnaed gan awdurdodau archebiant ar awdurdodau sy'n bilio, gyda'r gofyn ar yr Awdurdod sy'n bilio i gasglu'r incwm gan drethdalwyr y Cyngor ar eu rhan.

**Prydlesau Cyllidol** – Les sydd yn trosglwyddo'n sylweddol holl risg a gwobr perchnogaeth ased anghyfredol i'r deiliad prydles.

**Prydlesau Gweithredol** - Math o les, gan amlaf ar offer cyfrifiadurol, cyfarpar swyddfa, dodrefn a.y.y.b. ble mae'r cydbwysedd risgiau a gwobrau o ddal yr ased ynghlwm â'r prydleswr. Mae'r ased yn aros ym mherchnogaeth y prydleswr ac mae costau'r les yn wariant refeniw i'r Cyngor.

**Rhestr Eiddo** – Niferoedd stoc heb eu defnyddio sy'n cael eu dal gyda'r disgwyliad o'u defnyddio yn y dyfodol. Fe gawn eu categoreiddio fel nwyddau neu asedau eraill a brynwyd i'w gwerthu ymlaen, nwyddau traul, defnydd crai a chyfansoddion, nwyddau a gwasanaeth mewn camau canolog rhwng cwblhad a gorffenedig.

**Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh)** – Cyfres o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Rhaid iddynt gael eu gweithredu ar bob datganiad cyllidol gan bob endid sy'n adrodd i bob datganiad cyllidol er mwyn darparu darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr endid, ac fel ffordd i gysoni a chymharu gyda datganiadau cyllidol endidau eraill.

**Ymrwymiadau** – Symiau sydd yn ddyledus i unigolion / sefydliadau y bydd yn rhaid eu talu rhywbryd yn y dyfodol.

# Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cyngor Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 5112A2025



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | 2 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Cipolwg ar eich archwiliad | 5 |
| Perthnasedd | 6 |
| Canfyddiadau Archwilio | 7 |
| Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol | 12 |
| Atodiad 1 – Risgiau archwilio a'r canlyniadau | 13 |
| Atodiad 2 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed | 19 |
| Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig | 23 |
| Atodiad 4 – Llythyr sylwadau | 29 |
| Ansawdd archwilio | 33 |
| Eich cefnogi chi | 34 |

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw’r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru’n derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon nac unrhyw ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o’n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cyflwyniad



**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae’n dda gennyf rannu fy Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Cyfrifon. Mae’r Adroddiad yn crynhoi prif ganfyddiadau fy archwiliad o’ch cyfrifon ar gyfer 2024-25. Mae fy nhîm eisoes wedi trafod y canfyddiadau hyn gyda’r Pennaeth Cyllid.

Mae fy nhîm wedi cwblhau y gwaith archwilio i raddau helaeth yn unol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio dyddiedig Mai 2025.

Ers fy Nghynllun Archwilio, rwyf wedi diweddaru perthnasedd i adlewyrchu cyfrifon 2024-25. Nid wyf wedi adnabod unrhyw risgiau archwilio newydd. Caiff fy ymateb i risgiau a adnabuwyd yn flaenorol ei nodi yn **Atodiad 1.**

Mae’n ofynnol i mi ddarparu barn pa un a yw’r cyfrifon wedi cael eu paratoi’n briodol, a pha un a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg, ym mhob agwedd berthnasol. Caiff fy marn archwilio arfaethedig a’r sail drosti ei hamlinellu ar dudalen 23.

Cyfrifoldeb y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu, h.y. y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw mynd i’r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn fy adroddiad a darparu Llythyr Sylwadau ar fy nghyfer.

Hoffwn estyn fy niolchgarwch i swyddogion a staff Cyngor Gwynedd am eu cydweithrediad trwy gydol y broses archwilio sydd wedi bod yn amhrisiadwy i allu cwblhau’r archwiliad hwn yn effeithiol.

# Cipolwg ar eich archwiliad

Rydym yn bwriadu cyhoeddi **barn ddiamod** ar y cyfrifon.

Gweler **Atodiad 4**

Nid oes **materion arwyddocaol eraill** i'w nodi.

Gweler y **Canfyddiadau archwilio**

Mae **camddatganiadau heb eu cywiro** yn y cyfrifon yr ydym yn dymuno eu dwyn i'ch sylw.

Gweler y **Canfyddiadau archwilio**

Bydd yr argymhellion sy'n codi o'n gwaith yn cael eu nodi mewn Memorandwm ar y Cyfrifon a fydd yn cael ei gyfleu i swyddogion maes o law.

Rydym yn anelu at ardystio eich cyfrifon ar 19 Tachwedd 2025, yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 13 Tachwedd 2025. Mae hyn yn disgyn ar ôl y dyddiad cau statudol o 31 Hydref, na ellid ei gyflawni oherwydd amseriad cyfarfod y Pwyllgor.

# Perthnasedd

Rwy’n defnyddio barn proffesiynol i bennu trothwy perthnasedd i adnabod a chywiro camddatganiadau a allai effeithio ar benderfyniadau defnyddwyr, gan ystyried gwallau ariannol a gofynion datgelu yn ôl y fframwaith cyfrifyddu a’r cyfreithiau perthnasol. Mae fy nhîm yn diweddaru perthnasedd trwy gydol yr archwiliad ac yn yr adroddiad hwn rwy’n cynnwys materion sy’n mynd y tu hwnt i’m trothwy adrodd, a nodir isod.

| Perthnasedd | Trothwy adrodd (dibwys) |
|---|---|
| Pennwyd lefel perthnasedd o 1% o wariant gros yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol drafft 2024-25. | Pennwyd lefel perthnasedd o 5%. |
| **£6.385 miliwn** | **£0.319 miliwn** |

Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon. Rydym yn cadarnhau lefelau perthnasedd is ar gyfer y rhain:

| Cydnabyddiaeth uwch swyddogion | Datgeliadau partïon cysylltiedig (unigolion) |
|---|---|
| £1,000 | £10,000 |

# Canfyddiadau Archwilio

## Camddatganiadau

Mae camddatganiad yn codi lle nad yw gwybodaeth yn y cyfrifon yn unol â safonau cyfrifeg.

### Camddatganiadau nas cywirwyd

Rydym yn nodi isod y camddatganiadau a adnabuwyd gennym yn y cyfrifon, a drafodwyd gyda’r rheolwyr ond sy’n dal heb eu cywiro. Gofynnwn i chi gywiro’r camddatganiadau hyn.

Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro’r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi ddarparu eich rhesymau ar ein cyfer yn ysgrifenedig dros beidio â’u cywiro:

**Nodyn 15 – Eiddo, Offer a Chyfarpar**

- Cofnodwyd eitem o wariant cyfalaf a ariannwyd o grant cyfalaf yn wreiddiol fel ychwanegiadau i Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen. Fodd bynnag, nododd profion archwilio nad yw Cyngor Gwynedd yn berchen ar yr adeilad y mae'r gwariant yn ymwneud ag ef. Er bod y gwariant yn parhau i fod yn gyfalaf ei natur, dylid bod wedi’i ddosbarthu fel Gwariant Refeniw wedi ei ariannu o Gyfalaf drwy Statud (REFCUS) a'i adrodd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (DIGC). Arweiniodd yr ailddosbarthiad hwn at ychwanegiadau wedi ei or-ddatgan o £0.332 miliwn a REFCUS wedi’i dan-ddatgan o £0.332 miliwn.

- Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod gwariant cyfalaf nad yw’n gwella yn gywir fel ychwanegiadau i Eiddo, Offer a Chyfarpar ac yna’n cydnabod amhariad ar unwaith, heb arwain at unrhyw effaith ar y Gwerth Llyfr Net. Fodd bynnag, mae methu â dyrannu'r gwariant hwn i asedau penodol yn y Gofrestr Asedau Sefydlog yn atal addasiad cywir o'r Gwerth Llyfr Gros a'r Amhariad Cronedig wrth ailbrisio. Yn lle hynny, mae dad-gydnabod yn cael ei ohirio i'r flwyddyn ganlynol, gan arwain at Gwerth Llyfr Gros wedi'i dan-ddatgan a chamddatganiadau yn y DIGC, y Datganiad o’r Symudiad mewn Reserfau (MiRS) a datgeliadau Eiddo, Offer a Chyfarpar. Yn 2024-25, dad-gydnabuwyd £0.775 miliwn

o gost ac amhariad cronedig. Cyfalafuwyd ac amharwyd £1.225 miliwn pellach yn ystod y flwyddyn a fydd yn effeithio ar ddatganiadau ariannol 2025-26.

- Arweiniodd gwall yn y daflen waith prisiad Cyngor Gwynedd at anghysondebau rhwng taflenni prisiad y Prisiwr a’r ffigyrau a ddefnyddiwyd i ddiweddaru’r Gofrestr Asedau Sefydlog. O ganlyniad, cam-ddatganwyd gwerthoedd asedau, gan arwain at or-ddatganiad ailbrisio net o £0.408 miliwn. Roedd hyn yn golygu bod angen addasiadau cyfatebol i’r Gronfa Ailbrisio o £0.403 miliwn ac yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (DIGC) o £5,000.

**Nodyn 17a (iv) Offerynnau Ariannol**
Gwnaeth Cyngor Gwynedd addasiad ôl-weithredol i ffigwr les tymor byr ar gyfer 2023–24 yn y tabl ‘Ymrwymiadau Ariannol ar gost wedi’i amorteiddio’ drwy dynnu balans o £0.997 miliwn ohono. Nid yw’r dull hwn yn unol ag Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) 16 - Prydlesau, sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r safon gael ei chymhwyso’n ragweithiol. Nododd Cyngor Gwynedd fod y diwygiad wedi’i wneud er mwyn gwella cymaroldeb rhwng blynyddoedd ariannol 2023–24 a 2024–25.

**Nodyn 21 Credydwyr – symiau taladwy eraill**
Nododd profion archwilio falans credydwyr o £0.907 miliwn, a gydnabuwyd yn wreiddiol yn 2013, a gafodd ei gynnwys yn anghywir yn y balans cau ar 31 Mawrth 2025. Yn dilyn adolygiad o’r llythyr grant, daethom i’r casgliad nad oedd y grant yn ad-daladwy, yn groes i asesiad cychwynnol Cyngor Gwynedd. O ganlyniad, mae balans y credydwyr wedi’i or-ddatgan o £0.907 miliwn.

**Nodyn 35 SAARh 16 Prydlesau**

- Nododd profion archwilio nad oedd Asedau Hawl i’w Defnyddio o les-ddaliadau anfasnachol wedi’u hailbrisio ar werth teg yn unol â chanllawiau SAARh 16 - Prydlesau. Er bod y rhan fwyaf o’r prydlesi wedi’u hasesu yn ddiweddarach a chanfuwyd eu bod yn disgyn o dan y trothwy *de minimis* o £10,000, roedd gan un ased werth o £0.675 miliwn. Dylai’r ased hwn fod wedi’i gydnabod fel Ased Hawl i’w Ddefnyddio ar y Fantolen, gan arwain at dan-ddatganiad o £0.675

miliwn, gydag addasiad cyfatebol i’r DIGC mewn perthynas â’r enillion ar gydnabyddiaeth.

- Nid oedd yr adolygiad o drefniadau prydles leswyr sy’n ymwneud ag is-brydlesi wedi’i gynnal yn unol â gofynion SAARh 16, fel yr amlinellir yng Nghod Ymarfer CIPFA. Roedd hyn oherwydd diffyg asesiad ynghylch a oedd gan yr awdurdod reolaeth dros yr asedau a brydleswyd, gofyniad ar gyfer cydnabod Ased Hawl i’w Ddefnyddio. O ganlyniad, dylid bod wedi ailddosbarthu £1.531 miliwn o Dir ac Adeiladau i Asedau Hawl i’w Defnyddio o fewn y datgeliad Eiddo, Offer a Chyfarpar. Fodd bynnag, roedd cyfyngiadau o fewn y gofrestr asedau sefydlog ddim yn caniatáu i Gyngor Gwynedd ailddosbarthu asedau a gydnabuwyd yn flaenorol o dan Eiddo, Offer a Chyfarpar fel Asedau Hawl i’w Defnyddio.

### Camddatganiadau a gywirwyd

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom rhai gamddatganiadau sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i’ch sylw yn ein tyb ni.

Caiff y rhain eu nodi yn **Atodiad 2.**

## Materion arwyddocaol eraill

Mae’r Safon Ryngwladol ar Gyfrifyddu 260 yn ei gwneud hi’n ofynnol i ni gyfathrebu gyda’r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu. Rhaid i ni roi gwybod i chi am ganfyddiadau arwyddocaol o’r archwiliad a materion eraill os ydynt yn arwyddocaol i’ch goruchwyliaeth chi ar broses adrodd ariannol Cyngor Gwynedd.

Nid chanfuwyd unrhyw faterion o’r fath yn ystod yr archwiliad.

## Materion eraill

#### Gweithredu Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) 16 – Prydlesau

Fel yr amlygwyd yn ein Cynllun Archwilio, fe wnaethom nodi risg nad oedd Cyngor Gwynedd wedi cymhwyso a gofynion SAARh 16 Prydlesau yn briodol, a allai arwain at gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol.

Yn ystod ein profion archwilio, gallai asesiad mwy manwl o ofynion y safon fod wedi cryfhau’r dull a gymerwyd. O ganlyniad, roedd angen ailddrafftio’r datgeliad gan nad oeddent yn cydymffurfio â Chod Ymarfer CIPFA. Yn ogystal â’r camddatganiadau heb eu cywiro sy’n ymwneud ag SAARh 16 a nodwyd uchod, mae’r camddatganiadau eraill a gywirwyd ar gyfer SAARh 16 wedi’u manylu yn **Atodiad 2**.

## Ystyriaethau Pellach

Byddwn yn parhau i weithio gyda Cyngor Gwynedd a'r sector ehangach i adolygu ein huchelgais i ddod â'r dyddiad cau archwilio ymlaen i fis Medi 2026 fel rhan o broses archwilio cyfrifon 2025-26. Er mwyn bodloni'r dyddiadau cau hyn, bydd yn hanfodol bod:

- set o gyfrifon o ansawdd uchel a datganiad llywodraethu blynyddol yn cael eu derbyn ar amser;
- bod y cyfrifon yn cael eu cefnogi'n llawn, gyda'r holl bapurau gwaith ar gael ac ansawdd wedi'i asesu ar ddechrau'r archwiliad; a
- bod swyddogion ar gael drwy gydol y ffenestr archwilio’r haf i sicrhau bod ymholiadau archwilio yn cael eu datrys mewn modd amserol.

Derbyniwyd y datganiadau ariannol drafft ar y dyddiad y cytunwyd arno, sef 30 Mehefin 2025. Roedd Cyngor Gwynedd wedi paratoi'r rhan fwyaf o'r papurau gwaith cyn yr archwiliad, a nodwyd gwelliannau cadarnhaol mewn sawl maes o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol. Mae cyfleoedd o hyd i wella safon rhai papurau gwaith, a gallai cyflwyno proses sicrhau ansawdd gryfach gefnogi hyn. Gallai hyn hefyd helpu i leihau nifer y camddatganiadau (wedi’u cywiro a heb eu cywiro) a nodwyd yn ystod yr archwiliad. Rydym hefyd yn cydnabod bod rhai ymholiadau archwilio wedi cymryd mwy o amser i’w datrys, ac rydym yn gwerthfawrogi ymdrechion y tîm i reoli blaenoriaethau cystadleuol yn ystod cyfnod prysur.

Oherwydd nifer y camddatganiadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad, bydd y ffi amcangyfrifedig o £232,750 ar gyfer archwilio’r datganiadau ariannol yn cael ei rhagori. Byddwn yn cydweithio â’r Pennaeth Cyllid i gytuno ar y ffi ychwanegol derfynol.

Ni effeithiodd yr oediadau hyn ar ein gallu i gwblhau'r archwiliad erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno eleni. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y bydd y ffenestr archwilio cyfrifon yn fyrrach y flwyddyn nesaf, a gallai

oediadau tebyg beri risg sylweddol i gwrdd â'r dyddiad cau ardystio diwygiedig o 30 Medi.

Nid ydym wedi codi argymhelliad ynghylch y mater hwn. Byddwn yn ei drafod fel rhan o'n dysgu ôl-brosiect archwiliad gyda swyddogion i asesu'r sefyllfa. Hoffem ddiolch i swyddogion am eu hymgysylltiad â'r tîm archwilio drwy gydol yr archwiliad.

## Barn archwilio arfaethedig

### Barn archwilio

Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod  ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch chi wedi darparu Llythyr Sylwadau ar ein cyfer (gweler isod).

Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 3.**

### Llythyr sylwadau

Llythyr ffurfiol yw Llythyr Sylwadau ac ynddo rydych yn cadarnhau wrthym ni bod yr wybodaeth a ddarparwyd ar ein cyfer yn ystod yr archwiliad yn gywir ac yn gyflawn. Mae peth o’r wybodaeth hon yn ofynnol yn ôl safonau archwilio; gall gwybodaeth arall ymwneud yn benodol â’ch archwiliad chi.

Mae’r llythyr yr ydym yn gofyn i chi ei lofnodi wedi’i gynnwys yn **Atodiad 4** sy’n cynnwys sylwadau ychwanegol ar y camddatganiadau na chywirwyd a nodwyd uchod.

## Argymhellion

Bydd yr argymhellion sy’n deillio o’n gwaith yn cael eu nodi mewn Memorandwm Cyfrifon a fydd yn cael ei gyfathrebu gyda’r swyddogion maes o law.

Byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf.

# Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol

Mae prif aelodau fy nhîm a wnaeth y gwaith archwilio, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: fy nhîm archwilio lleol**

| | |
|---|---|
| **Arweinydd Ymgysylltu** | Matthew Edwards<br>matthew.edwards@audit.wales |
| **Rheolwr Archwilio** | Yvonne Thomas<br>yvonne.thomas@audit.wales |
| **Arweinydd Archwilio** | Sioned Owen<br>sioned.owen@audit.wales |

## Cydymffurfio â safonau moesegol

Rydym yn cadarnhau:

- ein bod wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol y mae'n ofynnol i ni eu dilyn wrth wneud ein gwaith;
- ein bod wedi aros yn annibynnol oddi arnoch chi;
- nad yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu; ac
- nad oes gennym unrhyw berthnasoedd a allai danseilio ein hannibyniaeth neu ein gwrthrychedd.

Cafodd y mesurau diogelu a amlinellwyd yn y Cynllun Archwilio ynghylch cyfeillgarwch ac/neu berthnasau teuluol y Rheolwr Archwilio a'r Arweinydd Archwilio â gweithwyr Cyngor Gwynedd eu gweithredu'n briodol i reoli unrhyw wrthdaro posibl.

# Atodiad 1 – Risgiau archwilio a’r canlyniadau

Roedd fy Nghynllun Archwilio’n nodi’r risgiau o gamddatganiad perthnasol ar gyfer yr archwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd. Mae **Arddangosyn 2** yn rhestru’r risgiau archwilio hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i’r afael â hwy fel rhan o’r archwiliad. Nid adnabuwyd unrhyw risgiau archwilio ychwanegol ers hynny y mae angen eu dwyn i’ch sylw.

**Arddangosyn 2: risgiau archwilio a adroddwyd yn flaenorol, gwaith a wnaed a’r canlyniad**

| Risg archwilio | Gwaith a wnaed | Canlyniad |
|---|---|---|
| **Risg o wrthwneud gan reolwyr**<br>Mae’r risg y bydd rheolaethau yn cael eu gwrthwneud gan reolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o’r fath ddigwydd, fe’i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.32-33] | Fe wnaeth y tîm archwilio:<br>• brofi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi’r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer tuedd; a<br>• gwerthuso’r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes. | Ni chanfuwyd yn fy ngwaith unrhyw achosion o wrthwneud rheolaethau gan reolwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| **Prisio rhwymedigaeth net/gwarged cronfa bensiwn**<br>Mae rhwymedigaeth cronfa bensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) fel y'i hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrifon perthnasol.<br>Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn destun lefel uchel o ansicrwydd amcangyfrif gan ei fod yn sensitif i addasiadau bach yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth ei gyfrifo.<br>Mae effaith amodau economaidd, yn enwedig lefelau cyfraddau llog hefyd yn cael effaith sylweddol ar y rhwymedigaeth, er enghraifft, ar 31 Mawrth 2024, roedd y rhwymedigaeth yn warged mewn gwirionedd, yn bennaf oherwydd cyfraddau llog uwch.<br>Mae yna hefyd nifer o achosion cyfreithiol a allai effeithio ar brisiad rhwymedigaeth net.<br>Mae risg felly bod y rhwymedigaeth /gwarged yn cael ei gam-ddatgan yn faterol. | Fe wnaeth y tîm archwilio:<br>• werthuso'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan reolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;<br>• asesu cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiadau;<br>• asesu cywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth a ddarperir gan yr Awdurdod i'r actiwari i amcangyfrif y rhwymedigaeth;<br>• profi cywirdeb rhwymedigaeth net a datgeliadau’r gronfa bensiwn yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraidd oddi wrth yr actiwari;<br>• asesu pa mor rhesymol yw'r rhagdybiaethau a wnaed gan yr actiwari drwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) a chynnal unrhyw weithdrefnau ychwanegol sy'n ofynnol; ac<br>• asesu pa un a allai unrhyw achosion cyfreithiol gael effaith perthnasol ar y | Ni chanfuwyd unrhyw faterion yn fy ngwaith archwilio mewn perthynas â phrisiad y pensiwn. Gweler **Atodiad 2** am fy nghanfyddiadau ynghylch cyflwyniad y prisiad pensiwn. |

| | | |
|---|---|---|
| | rhwymedigaeth net, ac os felly, cadarnhau bod hyn wedi cael ei gydnabod a'i ddatgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol. | |
| **Prisio tir ac adeiladau**<br>Mae gwerth tir ac adeiladau a adlewyrchir yn y fantolen a nodiadau gyda’r cyfrifon yn amcangyfrifon perthnasol.<br><br>Mae'n ofynnol cadw tir ac adeiladau ar sail prisio sy'n ddibynnol ar natur a’r defnydd o’r asedau. Mae'r amcangyfrif hwn yn amodol ar lefel uchel o oddrychedd, yn dibynnu ar ragdybiaethau arbenigol a rhagdybiaethau’r rheolwyr, a gall newidiadau yn y rhain arwain at newidiadau perthnasol i brisiadau.<br><br>Mae'n ofynnol i asedau gael eu hailbrisio bob pum mlynedd, ond gall gwerthoedd hefyd newid o flwyddyn i flwyddyn, ac mae risg y gallai gwerth cario ymlaen asedau a gydnabyddir yn y cyfrifon fod yn berthnasol wahanol i werth presennol asedau ar 31 Mawrth 2025, yn enwedig yn yr amgylchedd economaidd presennol. | Fe wnaeth y tîm archwilio:<br>• adolygu'r wybodaeth a ddarperir i'r prisiwr i asesu ar gyfer cyflawnrwydd;<br>• gwerthuso cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd y prisiwr proffesiynol;<br>• profi sampl o asedau a ail-brisiwyd yn y flwyddyn i sicrhau bod y sail brisio, y data a'r rhagdybiaethau allweddol a ddefnyddir yn y broses brisio yn rhesymol, a bod yr ailbrisiadau wedi'u hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol; a<br>• phrofi’r cysoni rhwng y cyfriflyfr ariannol a'r gofrestr asedau. | Gweler **Atodiad 2** am fanylion fy nghanfyddiadau mewn perthynas â phrisiad tir ac adeiladau. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion**<br>Er nad oes unrhyw newidiadau sylweddol mewn uwch swyddogion ar gyfer 2024-25, mae cydnabyddiaeth ariannol a delir i uwch swyddogion yn parhau i fod o ddiddordeb mawr ac yn berthnasol o ran natur.<br>Felly, mae risg y gallai hyd yn oed gamgymeriadau gwerth isel yn y datgeliad arwain at gamddatganiad perthnasol. | Fe wnaeth y tîm archwilio:<br>• sicrhau bod y gydnabyddiaeth ariannol a ddatgelir yn gyson â thystiolaeth ategol;<br>• sicrhau bod y symiau a delir yn gyson â'r rhai a gymeradwyir gan y Cyngor; a<br>• sicrhau bod datgeliadau'n gyflawn yn seiliedig ar wybodaeth y tîm ac yn cael eu paratoi yn unol â gofynion. | Ni chanfuwyd unrhyw faterion yn fy ngwaith archwilio mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion. |
| **Gweithredu’r Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (SAARh) 16 – Prydlesi**<br>Mae'n ofynnol i gyrff Llywodraeth Leol fabwysiadu SAARh 16 Prydlesau o 1 Ebrill 2024 ymlaen.<br>Mae hyn yn newid yn sylweddol y driniaeth a'r datgeliadau cyfrifyddu sy'n ofynnol ar gyfer asedau ar les ac mae'n golygu y bydd y rhan fwyaf o lesoedd yn arwain at ased a rhwymedigaeth ar fantolenni.<br>Mae risg nad yw gofynion SAARh yn cael eu mabwysiadu'n briodol ac o ganlyniad mae'r datganiadau ariannol yn cael eu cam-ddatgan yn faterol. | Fe wnaeth y tîm archwilio:<br>• adolygu'r papurau gwaith Cyngor Gwynedd i sicrhau bod yr holl lesoedd sy'n dod o fewn cwmpas y Safon wedi'u cynnwys mewn cyfrifiadau;<br>• profi sampl o gyfrifiadau asedau a rhwymedigaeth i sicrhau bod y rhagdybiaethau'n rhesymol, a bod cyfrifiadau wedi'u paratoi'n gywir; a<br>• chadarnhau bod gwerthoedd asedau a rhwymedigaeth wedi'u cyfrif yn gywir a'u datgelu yn y datganiadau ariannol. | Gweler **Atodiad 2** am fy nghanfyddiadau mewn perthynas â gweithredu’r safon. |

| | | |
|---|---|---|
| **Datgeliadau partïon cysylltiedig**<br>Rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthnasoedd partïon cysylltiedig ynghyd â'r trafodion a'r balansau rhwng y Cyngor a'r corff/parti arall.<br>Mae gan y Cyngor lawer o berthnasoedd y gellid eu hystyried yn bartïon cysylltiedig. Mae llawer yn adnabyddus er enghraifft, Llywodraeth Cymru<br>fel cyllidwr.<br>Fodd bynnag, lle mae perthnasoedd partïon cysylltiedig yn codi trwy berthnasoedd swyddog neu aelod unigol, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder o ran y cysylltiadau hyn. Mae'r trafodion hyn o ddiddordeb mawr ac yn cael eu hystyried yn berthnasol o ran natur.<br>Mae perygl o gamddatganiad perthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed pan fo'r rhain o werth cymharol isel. | Fe wnaeth y tîm archwilio:<br>• adolygu proses y Cyngor ar gyfer nodi perthnasoedd partïon cysylltiedig a thrafodion a balansau cysylltiedig;<br>• ymgymryd â gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnrwydd perthnasoedd partïon cysylltiedig; a<br>• sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â'r Cod Llywodraeth Leol. | Gweler **Atodiad 2** am fy nghanfyddiadau mewn perthynas â datgeliadau partïon cysylltiedig. |

| | | |
|---|---|---|
| **Hawliau cyfreithiol**<br>Gall y Cyngor wedi derbyn hawliadau posibl am iawndal a allai fod yn faterol i'r cyfrifon. Mae risg felly fod y datganiadau ariannol wedi'u cam-ddatgan yn sylweddol mewn perthynas â'r mater hwn. | Fe wnaeth y tîm archwilio:<br>• ymgysylltu â'r rheolwyr a'r swyddog monitro i ddeall natur, tebygolrwydd ac effaith ariannol bosibl unrhyw hawliau ar diwedd y flwyddyn;<br>• sicrhau bod yr holl ddatgeliadau angenrheidiol ynghylch unrhyw hawliau yn gyflawn, yn gywir ac yn unol â'r Cod Llywodraeth Leol; a<br>• sicrhau eu bod wedi'u cyfrifo'n gywir yn y datganiadau ariannol | Sicrhaodd fy ngwaith archwilio fod y datgeliadau perthnasol wedi'u diwygio'n briodol i adlewyrchu statws cyfredol yr hawliadau cyfreithiol. |

# Atodiad 2 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi'u cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni.

| Gwerth y cywiriad | Maes yn y cyfrifon | Eglurhad |
|---|---|---|
| £0.406 miliwn | **Nodyn 17 a (ii) Tabl Offerynnau Ariannol – Balansau**<br>Dyledion masnachol wedi lleihau o £0.406 miliwn i £48.118 miliwn<br><br>**Nodyn 17 a (iv) Tabl Offerynnau Ariannol – Gwerthoedd Teg**<br>Credydwyr tymor byr wedi lleihau o £0.406 miliwn i £48.118 miliwn. | Wrth gymharu datganiadau ariannol wedi'u harchwilio y llynedd gyda chyfrifon drafft y flwyddyn bresennol, nodwyd bod ffigwr 2023-24 ar gyfer credydwyr tymor byr wedi'i or-ddatgan gan £0.406 miliwn |
| £2.141 miliwn | **Nodyn 18a Dyledwyr**<br>Mae Derbyniadau eraill wedi cynyddu o £2.141 miliwn.<br><br>**Nodyn 21 Credydwyr**<br>Mae Symiau taladwy eraill wedi cynyddu £2.141 miliwn.<br><br>Gwnaed addasiadau cyfatebol hefyd i'r nodyn Llif Arian (Nodyn 24a) | Canfuwyd yn ein profion archwilio cam-ddosbarthiad lle cafodd balans credydwr o £2.141 miliwn ei gynnwys yn anghywir o fewn y dyledwyr. Mae'r driniaeth hon yn anghyson â Chod Ymarfer CIPFA sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i drafodion o natur wahanol gael eu datgelu ar wahân ar y fantolen. |

| | | |
|---|---|---|
| Datgeliad ychwanegol | **Nodyn 18a Dyledwyr**<br>Mae gwerth colledion amhariad o £9.134 miliwn wedi'i ychwanegu at y droednodyn. | Yn unol â Chod Ymarfer CIPFA rhaid datgelu pob balans a thrafodion materol yn briodol yn y datganiadau ariannol. |
| £19.121 miliwn | **Nodyn 19 Arian a Chywerthoedd Arian**<br>Cynyddodd Gorddrafft Banc o £19.121 miliwn<br><br>**Nodyn 21 Credydwyr**<br>Gostyngodd Symiau taladwy eraill o £19.121 miliwn<br><br>Gwnaed addasiadau cyfatebol hefyd i'r nodyn Llif Arian (Nodyn 24a) | Nododd profion archwilio fod trafodion a nodwyd fel arian parod wrth gludo ar 31 Mawrth 2025 wedi'u hadnabod mewn camgymeriad fel credydwyr. Gan ystyried fod y cyfarwyddyd talu i'r banc wedi'i wneud cyn diwedd y flwyddyn, nid oedd gan yr endid ymrwymiad bresennol o ran y ddyled, ac nid oedd gyda rheolaeth dros yr ased cysylltiedig.<br>O ganlyniad, roedd balans y credydwyr wedi'i or-ddatgan £19.121 miliwn (yr oedd £0.233 miliwn ohono'n ymwneud â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru) ac arian parod wedi'i dan-ddatgan gan swm cyfatebol.<br>O ystyried y canllawiau cyfyngedig yng Nghod Ymarfer CIPFA ar gyfer y senario penodol hwn, ymgynghorwyd â Fframwaith Cysyniadol IASB i sicrhau bod y driniaeth gyfrifyddu wedi'i chefnogi'n briodol. |
| £4.060 miliwn | **Y Fantolen**<br>Cynyddodd credydwyr tymor hir o £4.060 miliwn<br>Gostyngodd credydwyr tymor byr o £4.060 miliwn | Canfuwyd yn ein profion archwilio fod £1.630 miliwn o gredydwyr wedi'u cam-ddosbarthu fel ymrwymiadau tymor byr yn hytrach na rhai thymor hir. Mesurodd gwaith dilynol a |

| | | |
|---|---|---|
| | Diwygiwyd pennawd Nodyn 21 o Credydwyr Tymor Byr i Credydwyr a chynhwyswyd troednodyn i ddatgelu natur y balans | gynhaliwyd gan y Cyngor y cyfanswm cam-ddosbarthiad fel £4.060 miliwn. |
| Amrywiol | **Nodyn 33 Partïon Cysylltiedig**<br>Datgeliad wedi’i Ailddrafftio | Nid yw Cod Ymarfer CIPFA yn rhagnodi canllawiau manwl ar gyflwyniad y nodyn hwn. Fodd bynnag, er mwyn gwella eglurder ac osgoi unrhyw gam-ddehongliad gan ddefnyddwyr, ail-ddrafftiwyd y nodyn i ddileu cofnodion dyblyg gwerth cyfanswm o £12.319 miliwn lle’r oedd rhai partïon cysylltiedig wedi’u cynnwys mewn mwy nag un tabl. Mae’r addasiad hwn yn atal gôr-ddatgelu gwerthoedd partïon cysylltiedig ac yn cefnogi datgelu cywir a thryloyw. |
| Nifer o welliannau i'r naratif a'r ffigyrau | **Nodyn 35 SAAR 16 Prydlesau**<br>Datgeliad wedi’i Ailddrafftio | Fe wnaethom adolygu'r datgeliad prydlesau a gyflwynwyd yn Nodyn 35 a nodi bod angen ei ailddrafftio i sicrhau cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer CIPFA. Er bod y data sylfaenol yn gyson â gofynion SAAR 16, roedd y fformat a ddefnyddiwyd yn adlewyrchu elfennau o’r cyflwyniad IAS 17 blaenorol, nad oedd yn berthnasol bellach.<br>Hepgorodd y nodyn y tabl treuliau gofynnol, fel sy'n ofynnol gan SAAR 16 i roi eglurder ar wariant sy'n gysylltiedig â phrydlesau. |

| | | |
|---|---|---|
| Cyflwyniadol | **Nodyn 38 Tabl - Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net** | Gan nad yw Cod Ymarfer CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu ar wahân gydrannau'r ased, y rhwymedigaeth a'r addasiad i nenfwd yr ased, cytunwyd i symleiddio'r cyflwyniad drwy ddatgelu'r sefyllfa net yn unig |
| Bu hefyd nifer o addasiadau mân o ganlyniad i'n gwaith. | | |

# Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig

**Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

**Barn ar y datganiadau ariannol**

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Gwynedd yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Daflen Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2025 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

**Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â’r gyfraith berthnasol a’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 ‘Archwiliad o ddatganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig’. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o’m hadroddiad sy’n nodi cyfrifoldebau’r archwilydd am archwilio’r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau’n annibynnol o Gyngor Gwynedd yn unol â’r gofynion moesegol sy’n berthnasol i’m harchwiliad o’r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â’r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

**Casgliadau sy'n ymwneud â busnes Gweithredol**

Wrth archwilio’r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i’r casgliad bod defnyddio’r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi’i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyngor Gwynedd i barhau i fabwysiadu’r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol. Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau’r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes Gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o’r adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy’n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw’r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â’r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei cham-ddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o’r fath neu wybodaeth berthnasol o’r fath sy’n ymddangos fel pe bai wedi cael ei cham-ddatgan, mae’n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi’i wneud, os wyf yn dod i’r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi’i cham-ddatgan yn berthnasol, mae’n ofynnol i mi nodi’r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i’w nodi yn hyn o beth.

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae’r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac yn unol â’r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25;
- mae’r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac yn unol â’r canllawiau.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gyngor Gwynedd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi, os, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

### Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon y swyddog cyllid cyfrifol sy’n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon sy'n rhoi darlun gwir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Cyngor Gwynedd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod

y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cyd-bwyllgor yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau’r archwilydd ar gyfer archwilio’r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio’r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy’n dylunio gweithdrefnau yn unol â’m cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau’n cynnwys y canlynol:

- holi’r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol a’r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Gwynedd sy’n ymwneud ag:
    - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i’r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy’n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o’r drafodaeth hon, canfûm botensial am dwyll o ganlyniad i wrthwneud rheolaethau gan reolwyr;

- cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cyngor Gwynedd, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau; a
- chael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr ac Cyngor Gwynedd ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill;
- asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o duedd bosibl; a
- gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Gwynedd, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

**Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd**
Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion

arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

**Tystysgrif cwblhau’r archwiliad**

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
19 Tachwedd 2025

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

# Atodiad 4 – Llythyr sylwadau

## Llythyr Sylwadau Terfynol

[Pennawd y corff a archwilir]

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd
CF10 4BZ

13 Tachwedd 2025

## Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2024-25

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 at ddiben mynegi barn ar eu gwirionedd a'u tegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau'r rheolwyr

### Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol 2024-25; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg yn unol â hwy;
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

## Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:

  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad digyfyngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u cam-ddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Cyngor Gwynedd ac sy'n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan weithwyr, cyn-weithwyr, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol; a
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau camddatganiadau nas cywirwyd a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unol ac ar y cyd, i'r datganiadau ariannol o'u cymryd yn eu cyfanrwydd. Ceir crynodeb o'r eitemau hyn wedi'i nodi isod:

- Cafodd gwariant a ariannwyd gan grant cyfalaf (UKSPF) ei gydnabod yn anghywir fel ychwanegiadau at Eiddo, Offer a Chyfarpar (EoCh) ar y Fantolen, gan arwain at or-ddatganiad o Ychwanegiadau EoCh o £0.332 miliwn a tan-ddatganiad o Wariant Refeniw a Ariannwyd o Gyfalaf o dan Statud (REFCUS) o £0.332 miliwn. Gan nad yw'r camgymeriad yn berthnasol, ni chymerwyd camau i'w gywiro.
- Rydym yn trin gwariant cyfalaf nad yw'n gwella yn briodol fel ychwanegiadau at EoCh gyda dirywiad ar unwaith, gan arwain at ddim newid i'r Gwerth Llyfr Net. Fodd bynnag, mae methu â chysylltu'r gwariant hwn ag asedau penodol yn y Gofrestr Asedau Sefydlog ar gyfer dau gynllun cyfalaf yn oedi'r dad gydnabod ac yn effeithio ar gywirdeb y Gwerth Llyfr Gros, yr Amhariad Cronedig, a'r datgeliadau ariannol cysylltiedig. Yn 2024–25, cafodd £0.775 miliwn ei ddad-gydnabod ar gyfer y cynlluniau perthnasol i 2023-24, tra cafodd £1.225 miliwn ei gyfalafu a'i ddirywio, gan effeithio ar gyfrifon 2025–26. Gan nad yw'r camgymeriad yn berthnasol, ni chymerwyd camau i'w gywiro.
- Achosodd gwall yn y llyfr gwaith prisiad gamddatganiad o ased, gan arwain at or-ddatganiad ailbrisio o £0.408 miliwn. Roedd angen addasiadau o £0.403 miliwn i'r Gronfa Ailbrisio a £5,000 i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (DIGC). Gan nad yw'r camgymeriad yn berthnasol, ni chymerwyd camau i'w gywiro.
- Tynnwyd £0.997 miliwn o ffigwr les tymor byr 2023–24 ar Nodyn 17a (iv) i wella'r gymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn, ond nid yw'r addasiad ôl-weithredol hwn yn cydymffurfio ag Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) 16, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r safon gael ei chymhwyso'n ragweithiol. Gan nad yw'r camgymeriad yn berthnasol, ni chymerwyd camau i'w gywiro.
- Canfu profi archwilio gredydwr o £0.907 miliwn o 2013 a gadwyd yn anghywir yn y balans cau ar 31 Mawrth 2025. Nid oedd y grant yn ad-daladwy, gan arwain at or-ddatganiad o'r balans credydwr. Gan

nad yw’r camgymeriad yn berthnasol, ni chymerwyd camau i’w gywiro.

- Canfu profion archwilio nad oedd asedau prydles anfasnachol wedi’u hailbrisio fel sy’n ofynnol gan SAARh 16. Er bod y rhan fwyaf wedi syrthio o dan y trothwy o £10,000, hepgorwyd un ased gwerth £0.675 miliwn, gan arwain at dan-ddatganiad o Asedau Hawl i’w Defnyddio ag enillion cyfatebol yn y DIGC. Gan nad yw’r camgymeriad yn berthnasol, ni chymerwyd camau i’w gywiro.
- Nododd yr adolygiad o drefniadau prydlesi prydleswyr sy’n ymwneud ag is-brydlesi nad oedd gofynion SAARh 16 wedi’u cymhwyso’n llawn. Yn benodol, effeithiodd absenoldeb asesiad ynghylch a oedd gennym reolaeth dros yr asedau a brydleswyd ar yr ailddosbarthiad i Asedau Hawl i’w Defnyddio. O ganlyniad, dylid bod wedi ailddosbarthu £1.531 miliwn o Dir ac Adeiladau i Asedau Hawl i'w Defnyddio. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau system o fewn y gofrestr asedau sefydlog, ni ellid prosesu’r ailddosbarthiad hwn. Gan nad yw’r camgymeriad yn berthnasol, ni chymerwyd camau i’w gywiro.

## Sylwadau gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â’r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 13 Tachwedd 2025.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi’i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi’n ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| Dewi Aeron Morgan | Carys Edwards |
| Pennaeth Cyllid | Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| 13 Tachwedd 2025 | 13 Tachwedd 2025 |

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru’n un llwyr. Rydym ni’n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â chael pethau’n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwylio’r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel dolen gyswllt i’n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2024.

**Ein Pobl**

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu

**Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir**

- Platfform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol

**Sicrwydd annibynnol**

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y broblem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

# Eich cefnogi chi

Mae gan Archwilio Cymru ystod o adnoddau i roi cymorth i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

**Ewch at ein gwefan i ganfod:**

Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.

Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.

Offer data i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau mewn gwariant cyhoeddus.

Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arfer a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.

Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **DYDDIAD** | 13 Tachwedd 2025 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor GwE am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 ac Archwiliad perthnasol |
| **PWRPAS** | Cyflwyno – <br>• Datganiad o'r Cyfrifon GwE ôl-archwiliad;<br>• Adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru;<br>• Llythyr Sylwadau. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a nodi adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru, cymeradwyo cyfrifon 2024/25, ac awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i lofnodi'r llythyr sylwadau ar gyfer GwE. |
| **AWDUR** | Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

1.1 Bu i GwE, sef Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol ddod i ben 31 Mai 2025, o ganlyniad nid oedd y Cyd-Bwyllgor yn cyfarfod ar ôl y dyddiad yma. Cyngor Gwynedd yw'r cyngor lletyol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar faterion cyllidol Cyd-Bwyllgor GwE, ac felly mae cyfrifon 2024/25 a 2025/26 yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd i'w cymeradwyo.

1.2 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.3 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.4 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor GwE yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.

## 2. CYFRIFON 2024/25

2.1 Cyflwynwyd Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw GwE am 2024/25 i gyfarfod 21 Mai 2025 o Gyd-Bwyllgor GwE ar ffurf adroddiad "alldro".

2.2 Fe ryddhawyd y Datganiad o'r Cyfrifon GwE am 2024/25 (yn amodol ar archwiliad) i'r Archwilwyr gan hefyd eu rhoi ar wefan Cyngor Gwynedd ar 30 Mehefin 2025, ond gan fod GwE eisoes wedi dod i ben ar 31 Mai 2025, nid oedd modd ei gyflwyno i'r Cyd-Bwyllgor.

## 3. ARCHWILIAD

Mae'r cyfrifon wedi bod yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru dros y misoedd diwethaf, a cyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Archwilio Cymru. Gweler ar dudalen 5 o'r adroddiad ei fod yn nodi "barn ddiamod ar y cyfrifon" ar gyfer 2024/25.

## 4. CYFRIFON TERFYNOL 2024/25

Cyflwynir yma Ddatganiad o'r Cyfrifon GwE am 2024/25 (yn dilyn archwiliad). Mae'r materion a godwyd fel rhan o'r archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 2 i'r adroddiad 'ISA260' cyflwynwyd gan Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## 5. ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried a chymeradwyo'r –**

- Adroddiad 'ISA260' gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru
- Datganiad o'r Cyfrifon GwE 2024/25 (yn dilyn archwiliad)

## 6. LLYTHYR SYLWADAU

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ymofyn i'r person sy'n llywyddu'r cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyr Sylwadau, yn electronig, wedi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r uchod.

## 7. TYSTYSGRIF ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Adrian Crompton) yn cyhoeddi'r dystysgrif ar y cyfrifon yn dilyn iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y person sy'n llywyddu'r cyfarfod a'r Pennaeth Cyllid,

## Cyd-Bwyllgor GwE
**(Cynghorau Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd, Môn a Wrecsam)**

# DATGANIAD O'R CYFRIFON 2024/25

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
www.gwynedd.llyw.cymru

# MYNEGAI


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad Naratif | 2 – 6 |
| Datganiad Cyfrifoldebau | 7 |
| Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu | 8 |
| Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 9 |
| Datganiad o’r Symudiad Mewn Reserfau | 10 |
| Y Fantolen | 11 |
| Datganiad Llif Arian | 12 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 13 – 37 |
| Atodiad A – Datganiad Llywodraethu Blynyddol | 38 – 46 |
| Geirfa | 47 – 48 |
| Adroddiad yr Archwilydd | 49 – 51 |

# ADRODDIAD NARATIF

## RHAGARWEINIAD

Sefydlwyd y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r cynghorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, a hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y gwasanaeth gyda Chyd-Bwyllgor o'r holl bartneriaid yn goruchwylio rheolaeth o'r gwasanaeth.

Ar 31 Ionawr 2024, cyhoeddodd Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddatganiad ysgrifenedig: Y cam nesaf yn yr adolygiad o wella ysgolion - rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru : https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-cam-nesaf-yn-yr-adolygiad-o-wella-ysgolion-rolau-chyfrifoldebau. Roedd y datganiad hwn yn amlinellu'r newidiadau yn y trefniant gwella ysgolion yng Nghymru gyda model partneriaeth rhwng dau Awdurdod Lleol, neu fwy, yn disodli model y consortia rhanbarthol o 1 Ebrill, 2025. Yn sgil hynny, penderfynodd y 6 Awdurdod i ddod â'r GwE i ben ar y 31 o Fai 2025.

Mae cyfrifon Cyd-Bwyllgor GwE am 2024/25 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 8 i 37. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â *Chod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2024/25.*

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** – Er nad yw'n ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.

- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg gyffredinol derbyniol. Mae'r incwm a gwariant wedi ei rannu rhwng y chwe cyngor fel a ganlyn am 2024/25:

| | |
|---|---:|
| Conwy | 15.24% |
| Dinbych | 15.62% |
| Fflint | 22.71% |
| Gwynedd | 17.55% |
| Ynys Môn | 10.04% |
| Wrecsam | 18.84% |
| **Cyfanswm** | **100.00%** |

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'.

- **Y Fantolen** - Sydd yn datgan sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2025.

- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2024/25.

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail fod GwE yn dod i ben 31 Mai 2025, a chefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisïau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

## Gweledigaeth a Blaenoriaethau GwE

GwE yw gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol gogledd Cymru sydd yn gweithio ochr yn ochr â ac ar ran awdurdodau lleol gogledd Cymru – Conwy, Sir Ddinbych, Sir Y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam.

Craidd ein gwaith yw uchelgais i weld yr ysgolion a'r sefydliadau yr ydym ni'n gweithio gyda nhw yn cyflawni eu dyheadau a gweld pob dysgwr yn llwyddo.

Yn Gymry balch ac â gwybodaeth ryngwladol, byddwn yn cefnogi ein hysgolion i fod yn sefydliadau dysgu llwyddiannus a hyderus. Cydweithiwn i sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn cael yr addysg y maent yn eu haeddu, a hynny mewn amgylchedd gofalgar, er mwyn iddynt allu bod yn unigolion galluog a gwydn sy'n gwireddu eu llawn botensial beth bynnag eu hil, rhyw, cefndir a chred. Safwn yn erbyn hiliaeth ac unrhyw fath o wahaniaethu.

Mae'r Cynllun Busnes yn un dros gyfnod o dair blynedd o 2023 ymlaen, mae'n amlinellu amcanion strategol GwE a'r blaenoriaethau gwella a'r rhaglenni gwaith i'w cyflawni. Mae'r Cynllun Busnes ar gael yn: https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/ielistdocuments.aspx?cid=243&mid=4879&ver=4

Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru fod trefniadau consortia rhanbarthol i ddod i ben, mae 2024/25 wedi bod yn flwyddyn trosiannol. Y blaenoriaeth oedd i barhau i ddarparu cefnogaeth i'r Ysgolion, hyd nes sefydlu trefn newydd.

## Strategaeth Ariannol

Mae Strategaeth Ariannol y Cyd-Bwyllgor a Chyllideb 2024/25 a fabwysiadwyd gan y Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth 2024 yn gosod y sylfaen ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau gwella, wrth geisio dygymod hefyd gyda'r cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau. Yn anorfod, mae'r Strategaeth Ariannol yn ddibynnol ar y blaenoriaethau. Mae'r strategaeth ar gael yn: https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/ielistdocuments.aspx?mid=5005&x=1&

## Perfformiad 2024/25

Mae GwE yn adrodd yn rheolaidd ar berfformiad y gwasanaeth o ran cyflawni swyddogaethau'r gwasanaeth a'r nodau allweddol.

## Perfformiad Ariannol 2024/25

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 9 fod gwariant refeniw gros y Cyd-Bwyllgor ar y lefel 'Cost Gwasanaethau' yn £9,987k yn ystod 2024/25, gyda'r sefyllfa net yn (£266k).
- Adroddwyd sefyllfa alldro ariannol 2024/25 i'r Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 21 Mai 2025. Rhoddwyd gymeradwyaeth aelodau'r Cyd-Bwyllgor i drosglwyddo £221k o'r gronfa gyffredinol a £313k o'r Gronfa Athrawon Newydd Gymhwyso i gyfrannu at orwariant eleni.
- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 9 a 10 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

## TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, a cheir wybodaeth bellach yn Nhabl 2.

| | Cyllideb | Gwir | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwariant ar Weithrediadau | 9,948 | 11,030 | 1,082 |
| Incwm | | | |
| Cyfraniadau'r cynghorau: | | | |
| Conwy | (1,389) | (1,476) | (87) |
| Dinbych | (1,372) | (1,460) | (87) |
| Fflint | (1,944) | (2,031) | (87) |
| Gwynedd | (1,632) | (1,719) | (87) |
| Ynys Môn | (1,095) | (1,182) | (87) |
| Wrecsam | (1,695) | (1,782) | (87) |
| Incwm Arall | (821) | (846) | (25) |
| **(Tanwariant)/Gorwariant Net** | **0** | **534** | **534** |

## TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng '<u>Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)' (Tabl 1)</u> i'r fformat <u>Incwm a Gwariant</u>

| | Adroddiad Perfformiad (Alldro) | Addasiad Gwybodaeth Ddiweddaraf[1] | Adroddiad Perfformiad (Alldro) Addasedig | Addasiad Trawsddodiad[2] | Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Reserfau Defnyddiadwy | Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Nodyn 9) | Datganiad Incwm a Gwariant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwariant | 11,030 | (75) | 10,955 | 0 | 10,955 | (968) | 9,987 |
| Incwm | (10,496) | 75 | (10,421) | 168 | (10,253) | 0 | (10,253) |
| **Cost Gwasanaethau Net** | **534** | **0** | **534** | **168** | **702** | **(968)** | **(266)** |

1. *Addasiad Gwybodaeth Diweddaraf – Addasiad rhwng yr adroddiad alldro a sail y cyfrifon yn derbyn gwybodaeth diweddaraf am gostau diswyddo ac eraill.*
2. *Addasiad Trawsddodiad – Mae'r addasiad yma yn cyfeirio at gyfraniad arferol blynyddol o'r gronfa ANG a llog ar falansau a dderbyniwyd yn y flwyddyn ariannol.*

### Eitemau Materol o Incwm a Gwariant

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- £821k yn y maes pensiwn, sef yr ailfesuriad blynyddol o'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 15).
- £10,253k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 20).
- Mae'r cyfrifon yn cynnwys costau cysylltiedig â diswyddiadau (gan gynnwys costau cyfalaf ymddeol yn gynnar) cyfwerth â £2,417k (Nodyn 19)

**Materion Eraill**

- Ar 31 Ionawr 2024, cyhoeddodd Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddatganiad ysgrifenedig: Y cam nesaf yn yr adolygiad o wella ysgolion - rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru : https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-cam-nesaf-yn-yr-adolygiad-o-wella-ysgolion-rolau-chyfrifoldebau. Roedd y datganiad hwn yn amlinellu'r newidiadau yn y trefniant gwella ysgolion yng Nghymru gyda model partneriaeth rhwng dau Awdurdod Lleol, neu fwy, yn disodli model y consortia rhanbarthol o 1 Ebrill 2025. Yn sgil hynny, penderfynodd y 6 Awdurdod i ddod a GwE i ben ar 31 Mai 2025.
- Mae ansefydlogrwydd economaidd a risgiau ariannol yn parhau yn y DU ac yn fyd-eang. Yn arbennig, o ystyried y tollau newydd rhwng yr UDA a gweddill y byd. Mae Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol (OBR), yn eu hadroddiad 'Economic and Fiscal Outlook' dyddiedig Mawrth 2025, yn darogan cynnydd mewn cyfraddau chwyddiant ac ynni a lleihad mewn cyfraddau llog.

**Arian wrth Gefn**

Roedd gan y Cyd-Bwyllgor reserfau defnyddiadwy ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 10.

**Cronfa Bensiwn**

Mae gan y Cyd-Bwyllgor (fel cyflogwr) ymrwymiad net o ddim yn deillio o'u cyfran o asedau ac ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd fel y dangosir ar y Fantolen ar 31 Mawrth 2025. Cyfrifwyd hyn gan Actiwari y Gronfa, Hymans Robertson, gan gydymffurfio â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19, Gweler Nodyn 22 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn ei gael ar y Gronfa Bensiwn. Mae'r cyfrifon yn seiliedig ar y prisiad a gafodd ei gynnal 31 Mawrth 2022.

**Llywodraethu**

Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn bodoli, er hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth bellach wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Polisïau Cyfrifo**

Mae'r polisïau cyfrifo y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu cyfarwyddiadau CIPFA yn y Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024/25.

**Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon**

Mae polisïau cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r newidiadau sydd yn ofynnol yn unol ag arferion cyfrifo cywir yn unig, yn dilyn addasiadau sydd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25 i God Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

**Gwybodaeth Bellach**

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Cyllidebau-a-gwariant/Datganiad-or-cyfrifon/Cyd-bwyllgor-GwE.aspx.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Ffion Madog Evans
Pennaeth Cyllid Cynorthwyol
Cyfrifeg a Phensiynau
01286 679133
Trysorydd@gwynedd.llyw.cymru

neu

Gwion Elis Jones
Uwch Gyfrifydd
01286 679060

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor a'r Cyd-Bwyllgorau. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Cyngor ar yr adeg briodol.

**Datganiad Hygyrchedd**

Rydym yn ymwybodol, oherwydd natur a fformat y datgeliadau sy'n ofynnol i'w cynnwys yn yr ddogfen hon, nad yw pob un o'r tablau yn gwbl gydnaws â safonau hygyrchedd. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y datganiad cyfrifon hwn neu os ydych am i unrhyw un o'r tablau neu'r datgeliadau gael eu darparu mewn fformat mwy hygyrch, cysylltwch â Trysorydd@gwynedd.llyw.cymru.

# CYD-BWYLLGOR GwE

# DATGANIAD O'R CYFRIFON

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

### CYFRIFOLDEB Y CYNGOR

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod lletya sydd â'r cyfrifoldeb am drefniadau a gweinyddiad ar faterion ariannol y Cyd-Bwyllgor.

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb y Cyd-Bwyllgor yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

______________________________ **13 Tachwedd 2025**

**Carys Edwards**
**Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cyngor Gwynedd**

---

### CYFRIFOLDEB PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD

Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y *Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Cod").

Wrth baratoi'r Datganiad o'r Cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisïau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Cod.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

---

### TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2025 ac incwm a gwariant y Cyd Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



______________________________ **4 Tachwedd 2025**

**Dewi Aeron Morgan CPFA**
**Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd**

# DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn fanylach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| 2023/24 | | | | 2024/25 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Reserfau Defnyddiadwy** | **Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 8)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** | | **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Reserfau Defnyddiadwy** | **Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 8)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 6,609 | 295 | 6,904 | Gweithwyr | 8,751 | (1,775) | 6,976 |
| 352 | 0 | 352 | Eiddo | 415 | 0 | 415 |
| 227 | 0 | 227 | Cludiant | 150 | 0 | 150 |
| 1,376 | 0 | 1,376 | Gwasanaethau a Chyflenwadau | 448 | 0 | 448 |
| 8,981 | 0 | 8,981 | Trydydd Parti | 1,191 | 0 | 1,191 |
| 0 | 0 | 0 | Costau Heb eu Dosrannu | 0 | 807 | 807 |
| (17,023) | 0 | (17,023) | Incwm | (10,253) | 0 | (10,253) |
| **522** | **295** | **817** | **Cost Gwasanaethau** | **702** | **(968)** | **(266)** |
| (45) | (25) | (70) | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | (25) | 0 | (25) |
| **477** | **270** | **747** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **677** | **(968)** | **(291)** |
| (1,154) | | | Balans Agoriadol y Reserfau Defnyddiadwy | (677) | | |
| 477 | | | (Gweddill)/Diffyg ar y Reserfau Defnyddiadwy yn y flwyddyn | 677 | | |
| **(677)** | | | Balans Cau y Reserfau Defnyddiadwy | **0** | | |

# DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaeth y Cyd-Bwyllgor yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol.

| 2023/24 | | | | | 2024/25 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** | | *Nodyn* | **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 6,904 | 0 | 6,904 | Gweithwyr | | 6,976 | 0 | 6,976 |
| 352 | 0 | 352 | Eiddo | | 415 | 0 | 415 |
| 227 | 0 | 227 | Cludiant | | 150 | 0 | 150 |
| 1,376 | 0 | 1,376 | Gwasanaethau a Chyflenwadau | | 448 | 0 | 448 |
| 8,981 | 0 | 8,981 | Trydydd Parti | | 1,191 | 0 | 1,191 |
| 0 | 0 | 0 | Costau Heb eu Dosrannu | | 807 | 0 | 807 |
| 0 | (17,023) | (17,023) | Incwm | | 0 | (10,253) | (10,253) |
| **17,840** | **(17,023)** | **817** | **Cost Gwasanaethau** | | **9,987** | **(10,253)** | **(266)** |
| 0 | (70) | (70) | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | *11* | 0 | (25) | (25) |
| **17,840** | **(17,093)** | **747** | **(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | | **9,987** | **(10,278)** | **(291)** |
| | | 481 | Ailfesuriad o'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net | *15* | | | 821 |
| | | **481** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **821** |
| | | **1,228** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **530** |

Tud. 176

# DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi i 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn reserfau'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu torri lawr rhwng enillion a cholledion yn unol ag ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig. A hefyd yn dangos yr addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y swm a godir ar y dreth cyngor (trwy gyfraniadau'r cynghorau). Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau statudol y Reserfau Defnyddiadwy yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

| | | **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** | | |
|---|---|---|---|---|
| | ***Nodyn*** | **Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy** | **Reserfau na ellir eu defnyddio** | **Cyfanswm Reserfau'r Cyd-Bwyllgor** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2023 a ddygwyd ymlaen** | | **(1,154)** | **(442)** | **(1,596)** |
| Symudiad mewn reserfau yn 2023/24 | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | | **747** | **0** | **747** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | **0** | **481** | **481** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **747** | **481** | **1,228** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | *9* | **(270)** | **270** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau Defnyddiadwy** | | **477** | **751** | **1,228** |
| ***(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2023/24*** | | **477** | **751** | **1,228** |
| **Balans 31 Mawrth 2024 a ddygwyd ymlaen** | *10+15* | **(677)** | **309** | **(368)** |
| Symudiad mewn reserfau yn 2024/25 | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | | **(291)** | **0** | **(291)** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | **0** | **821** | **821** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **(291)** | **821** | **530** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | *9* | **968** | **(968)** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau Defnyddiadwy** | *10+15* | **677** | **(147)** | **530** |
| ***(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2024/25*** | | **677** | **(147)** | **530** |
| **Balans 31 Mawrth 2025 a ddygwyd ymlaen** | | **0** | **162** | **162** |

# Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymiadau'r Cyd-Bwyllgor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyd-Bwyllgor (asedau llai ymrwymiadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw'r reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd. Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Pensiynau), ble nad yw'r symiau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

| **31 Mawrth 2024 £'000** | | *Nodyn* | **31 Mawrth 2025 £'000** |
|---|---|---|---|
| 1,110 | Dyledwyr Tymor Byr | *12* | 1,325 |
| 2,122 | Arian a Chywerthoedd Arian | *13* | 605 |
| **3,232** | **Asedau Cyfredol** | | **1,930** |
| (2,864) | Credydwyr Tymor Byr | *14* | (2,092) |
| **(2,864)** | **Ymrwymiadau Cyfredol** | | **(2,092)** |
| 0 | Ymrwymiad Pensiwn | *22* | 0 |
| **0** | **Ymrwymiadau Tymor Hir** | | **0** |
| **368** | **Asedau Net** | | **(162)** |
| (677) | Reserfau Defnyddiadwy | *10* | 0 |
| 309 | Reserfau na ellir eu defnyddio | *15* | 162 |
| **(368)** | **Cyfanswm Reserfau** | | **162** |

# DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian y newidiadau mewn arian a chywerthoedd arian y Cyd-Bwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Cyd-Bwyllgor yn cynhyrchu a defnyddio arian a chywerthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyd-Bwyllgor a ariennir trwy gyfraniadau gan yr awdurdodau, incwm grant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyd-Bwyllgor.

| **2023/24** | | ***Nodyn*** | **2024/25** |
|---|---|---|---|
| **£'000** | | | **£'000** |
| 747 | (Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau | | (291) |
| (235) | Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol | *16* | 1,808 |
| 512 | Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | | 1,517 |
| 0 | Gweithgareddau Buddsoddi | | 0 |
| 0 | Gweithgareddau Ariannu | | 0 |
| 512 | (Cynnydd)/lleihad net mewn arian a chywerthoedd arian | | 1,517 |
| (2,634) | Arian a chywerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd | *13* | (2,122) |
| **(2,122)** | **Arian a chywerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | | **(605)** |

# NODIADAU I'R CYFRIFON

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO

### 1.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-Bwyllgor yn y flwyddyn ariannol 2024/25 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2025. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024/25* ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Confensiwn cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu yn y Datganiad o'r Cyfrifon. Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail bod GwE yn dod i ben ar 31 Mai 2025.

Arfer y Cyd-Bwyllgor yw gweithredu ar y sail bod pob eitem o wariant yn cael eu trin fel refeniw yn y lle cyntaf. Os bydd unrhyw eitemau cyfalaf eu natur (e.e. offer TG, dodrefn) yn profi bod ganddynt arwyddocâd materol ar y cyflwyniad cywir a theg o'r sefyllfa ariannol, yna byddai'r eitemau yn cael eu trin yn unol ag arferion priodol.

Natur gyfyngedig sydd i drafodion y Cyd-Bwyllgor ac felly gweler isod y polisïau perthnasol yn unig.

### 1.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn digwydd, nid pan wneir neu derbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o gytundebau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed am wasanaeth neu nwyddau, yn cael ei adnabod pan fydd y gwasanaeth neu'r nwyddau yn cael eu trosglwyddo i dderbynnydd y gwasanaeth yn unol â'r rhwymedigaethau perfformiad y cytundeb.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pan fydd y taliad yn cael ei wneud.
- Bydd llog sy'n cael ei dderbyn o fuddsoddiadau a'r llog sydd yn daladwy ar fenthyciadau yn cael ei gyfrifo yn ôl eu trefn fel incwm a gwariant ar sail gyfradd llog effeithiol yr offeryn ariannol yn hytrach nag i'r llif arian sydd wedi ei bennu gan y cytundeb.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid lleihau gwerth y dyledion a chodi tâl ar refeniw yn gwariant ac incwm ariannu a buddsoddi am yr incwm sydd yn annhebygol o gael ei gasglu.

### 1.3 Arian a Chywerthoedd Arian

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Gyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun.

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

### 1.4 Buddiannau Gweithwyr

### 1.4.1 Buddion sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Cyd-Bwyllgor. Gwneir croniad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cost y croniad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r symudiad mewn Reserfau i'r cyfrif absenoldebau cronedig fel bod cost y buddion gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn ariannol y cymerir y gwyliau.

### 1.4.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'i codir ar sail addasiad croniad yn erbyn y gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr unai pan na all dynnu'r cynnig o'r buddion hynny yn ôl neu pan yn cydnabod cost o ail-strwythuro neu dirwyn y gwasanaeth i ben, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai Cronfa'r Cyd-Bwyllgor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn, yn hytrach na'r swm sydd wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r gronfa bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiwn ychwanegol a rhoi'r debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

### 1.4.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o un cynllun pensiwn:

- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r cynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lymp-symiau ymddeoliad) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyd-Bwyllgor a'u cyn-gyflogwyr.

### 1.4.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.y.b. yn ogystal â thafluniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymiadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol, gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 5.80% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni – dangosir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymiadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r Cyd-Bwyllgor - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion pensiwn diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddaru ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
- Addasiad nenfwd ased – cyfyngir i werth nenfwd yr ased a gyfrifwyd os yw'n llai na'r sefyllfa'r ased.
- Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn ar gyfer setliad ymrwymiadau sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i'r Gronfa Gyffredinol dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i mewn neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o'r effaith i'r Gronfa Gyffredinol o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymiadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol (yn cynnwys Cyd-Bwyllgorau) Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh 19.

### 1.4.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyd-Bwyllgor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymiadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisïau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

### 1.5 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith materol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

### 1.6 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, newidiadau i Bolisïau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisïau cyfrifo yw pan mae'n ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai ei fod yn anfaterol neu a nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

### 1.7 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail groniadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyd-Bwyllgor wedi ei fodloni.

### 1.8 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol o fewn Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

### 1.9 Reserfau

Mae reserfau penodol yn cael eu creu ar gyfer rhoi symiau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy drosglwyddiadau allan o'r Balans Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

Cedwir rhai reserfau eraill sef 'reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy y Cyd-Bwyllgor.

### 1.10 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW y cynhwysir TAW neu y caiff ei ddangos fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant refeniw. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor wedi cofrestru gyda TAW. Mae'r TAW yn cael ei adennill drwy gofrestriad TAW Cyngor Gwynedd.

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

### 1.11 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar sail cronni yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn neu ddim.

### 1.12 Gweithrediadau ar y Cyd

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniant ble mae gan y partïon sydd â chydreolaeth yr hawl i'r asedau a'r oblygiadau o'r ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau. Mae'r gweithgareddau y mae'r Cyd-Bwyllgor wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r cyd-weithredwyr. Mewn perthynas â'i ddiddordeb mewn trefniant gweithred ar y cyd, mae'r Cyd-Bwyllgor fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod ei gyfran o'r asedau, ymrwymiadau, refeniw a gwariant.

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi ei gategoreiddio fel Gweithrediad ar y Cyd gan wneud defnydd o asedau ac adnoddau'r gweithredwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân.

## NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Mae'r polisïau cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r cyfarwyddiadau yn y Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024/25.

## NODYN 3 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL

Nid oes unrhyw addasiadau cyfnod blaenorol yn ystod 2024/25.

## NODYN 4 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwyliedig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gael ei ddatgan.

Mae adolygiad o'r safonau cyfrifeg wedi ei wneud eleni, ond nid yw un o'r safonau dan sylw yn mynd i gael effaith materol ar GwE

## NODYN 5 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISÏAU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisïau cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyd-Bwyllgor wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau'r asedau ac ymrwymiadau i'w cario, nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu seilio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol, a ffactorau eraill sy'n cynnwys tybiaethau a thafluniadau hanesyddol a chyfredol, a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiadau proffesiynol, tueddiadau cyfredol, a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu peth ansicrwydd am lefelau ariannu grantiau refeniw ynghyd â dosbarthiad y grantiau gan Lywodraeth Cymru, gyda'r grantiau yn cael ei talu i'r awdurdodau, sydd wedyn yn comisiynu gwasanaeth gan GwE. Mae'r mater yma yn rhan bwysig o strategaeth ariannol y Cyd-Bwyllgor sy'n cael ei ddiweddaru yn gyson, gyda'r ffactorau a wybyddir ac a ragwelir yn cael ystyriaeth briodol.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis prisiad yr actiwari o asedau ac ymrwymiadau'r gronfa bensiwn a reserfau a glustnodwyd. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd, gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

## NODYN 6 - TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyd-Bwyllgor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitem ganlynol ar Fantolen y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2025 yn un a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

| Eitem | Ansicrwydd | Effaith os yw canlyniadau gwir yn wahanol i dybiaethau |
|---|---|---|
| Ymrwymiad Pensiwn | Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth yn ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac adenillion disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae cwmni o actiwariaid ymgynghori yn ymwneud â rhoi cyngor arbenigol i'r cyngor am y rhagdybiaethau i'w defnyddio.<br><br>Cafodd Brexit a Covid effeithiau negyddol ar economi'r DU a gwerthoedd asedau pensiwn, ond mae cyfraddau chwyddiant a llogau wedi lleihau ac ymddengys bod y farchnad yn gwella ac yn sefydlogi. Fodd bynnag, gallai pandemig neu argyfwng byd eang arall gael effaith niweidiol ar adenillion asedau, yn ogystal â chynnydd mewn cyfraddau llog i ffrwyno cynnydd chwyddiant o ganlyniad i'r adferiad. | Mae effeithiau newidiadau mewn tybiaethau unigol ar ymrwymiad pensiwn net wedi'u nodi yn Nodyn 22. |

## NODYN 7 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- £821k yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 15).
- £10,253k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 20).
- Mae'r cyfrifon yn cynnwys costau cysylltiedig â diswyddiadau (gan gynnwys costau cyfalaf ymddeol yn gynnar) cyfwerth â £2,417k (Nodyn 19)

## NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

| 2024/25 | ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **Addasiadau i bwrpas Cyfalaf** | **Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i)** | **Gwahaniaethau Eraill (ii)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gweithwyr | 0 | (1,628) | (147) | (1,775) |
| Eiddo | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cludiant | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau a Chyflenwadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trydydd Parti | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau Heb eu Dosrannu | 0 | 807 | 0 | 807 |
| Incwm | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cost Gwasanaethau** | **0** | **(821)** | **(147)** | **(968)** |
| Gwariant Gweithredol Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **0** | **(821)** | **(147)** | **(968)** |

| 2023/24 | ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **Addasiadau i bwrpas Cyfalaf** | **Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i)** | **Gwahaniaethau Eraill (ii)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gweithwyr | 0 | 101 | 194 | 295 |
| Eiddo | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cludiant | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau a Chyflenwadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trydydd Parti | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Incwm | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cost Gwasanaethau** | **0** | **101** | **194** | **295** |
| Gwariant Gweithredol Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 0 | (25) | 0 | (25) |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **0** | **76** | **194** | **270** |

## NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

### (i) Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiynau

Newidiadau net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* SCRh 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Ar gyfer **Gwasanaethau,** mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan y Cyd-Bwyllgor fel y caniateir trwy statud a'u hamnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Ar gyfer **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi,** y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

### (ii) Gwahaniaethau Eraill

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am groniad absenoldebau a enillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Ar gyfer **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi,** mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer gwahaniaethau amseru am bremiymau a disgownt.

## NODYN 9 - ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor i gwrdd â gwariant.

| **2024/25**<br><br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:** | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 22) | (1,609) | 1,609 |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | 2,430 | (2,430) |
| **Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig** | | |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol (Nodyn 8) | 147 | (147) |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **968** | **(968)** |

| **2023/24**<br><br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:** | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 22) | (907) | 907 |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | 831 | (831) |
| **Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig** | | |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol (Nodyn 8) | (194) | 194 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **(270)** | **270** |

## NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O RESERFAU DEFNYDDIADWY

### 10a. Y Gronfa Gyffredinol

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau defnyddiadwy er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario, gyda lleihad o (£221k) yn ystod y flwyddyn.

| | **Cronfa Gyffredinol Cyd-Bwyllgor GwE** |
|---|---|
| | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2024** | **221** |
| Trosglwyddiadau: | |
| Mewn | 0 |
| Allan | (221) |
| **Balans 31 Mawrth 2025** | **0** |

### 10b. Cronfa Athrawon Newydd Gymhwyso

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Athrawon Newydd Gymhwyso mewn reserfau defnyddiadwy er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario i gefnogi athrawon sydd newydd gymhwyso, gyda lleihad o (£456k) yn ystod y flwyddyn.

| | **Cronfa Athrawon Newydd Gymhwyso Cyd-Bwyllgor GwE** |
|---|---|
| | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2024** | **456** |
| Trosglwyddiadau: | |
| Mewn | 0 |
| Allan | (456) |
| **Balans 31 Mawrth 2025** | **0** |

## NODYN 11 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

| **2023/24** | | **2024/25** |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| (25) | Llog net yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net | 0 |
| (45) | Llog derbyniadwy | (25) |
| **(70)** | **Cyfanswm** | **(25)** |

## NODYN 12 – DYLEDWYR TYMOR BYR

| | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau dyledus masnach | 168 | 35 |
| Blaendaliadau | 48 | 54 |
| Symiau dyledus eraill | 894 | 1,236 |
| **Cyfanswm** | **1,110** | **1,325** |

## NODYN 13 – ARIAN A CHYWERTHOEDD ARIAN

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun. Dangosir un ffigwr net yn flynyddol yn y tabl, sef swm net yr arian parod wedi ei ddal ar ran y Cyd-Bwyllgor o fewn symiau Cyngor Gwynedd.

| | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Arian mewn Banc a ddelir gan yr Awdurdod Lletya | 2,122 | 605 |
| **Arian a Chywerthoedd Arian** | **2,122** | **605** |

## NODYN 14 – CREDYDWYR TYMOR BYR

| | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau taladwy masnach | 239 | 268 |
| Symiau taladwy eraill | 2,625 | 1,824 |
| **Cyfanswm** | **2,864** | **2,092** |

## NODYN 15 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| 31 Mawrth 2024 | | 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 0 | Reserf Pensiynau | 0 |
| (309) | Cyfrif Absenoldeb Cronedig | (162) |
| **(309)** | **Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio** | **(162)** |

### 15.1 Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion enillwyd cael eu hariannu fel y mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt, gydag anghenion ariannu wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

| 2023/24 | | 2024/25 |
|---|---|---|
| **£000** | | **£000** |
| **557** | **Balans 1 Ebrill** | **0** |
| (481) | Ailfesuriad o'r (ymrwymiad)/ased buddion diffiniedig net (Nodyn 22) | (821) |
| (907) | Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (1,609) |
| 831 | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn | 2,430 |
| **0** | **Balans 31 Mawrth** | **0** |

### 15.2 Cyfrif Absenoldeb Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cydadfer enilledig ond heb eu cymryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

| 2023/24 | | 2024/25 |
|---|---|---|
| **£000** | | **£000** |
| **(115)** | **Balans 1 Ebrill** | **(309)** |
| (194) | Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 147 |
| **(309)** | **Balans 31 Mawrth** | **(162)** |

## NODYN 16 – DATGANIAD LLIF ARIAN: ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| (805) | (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr | 625 |
| 840 | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr | 215 |
| (76) | Ymrwymiad Pensiwn | 821 |
| (194) | Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gweddill neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaeth | 147 |
| **(235)** | | **1,808** |

## NODYN 17 – TALIADAU I SWYDDOGION

**17a.** Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd), yn gosod dyletswydd ar y Cyd-Bwyllgor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar gyfer rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr (sydd yn cynnwys buddion diswyddo), ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Gwnaed y taliadau canlynol yn gysylltiedig â uwch swyddogion y Cyd-Bwyllgor sydd wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gan GwE:

| 2023/24 | | | | Uwch Swyddogion | 2024/25 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau £ | Cyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr £ | Costau Eraill y Cyflogwr £ | Cyfanswm £ | | Cyflogau £ | Cyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr £ | Costau Eraill y Cyflogwr £ | Cyfanswm £ |
| 110,537 | 20,670 | 0 | 131,207 | Rheolwr Gyfarwyddwr[1] | 51,964 | 8,819 | 454,932 | 515,715 |
| 0 | 0 | 0 | 0 | Pennaeth Gwasanaeth GwE – Dysgu Proffesiynol[2] | 58,337 | 10,909 | 0 | 69,246 |
| 0 | 0 | 0 | 0 | Pennaeth Gwasanaeth GwE – Gwella Ysgolion[2] | 60,220 | 11,261 | 0 | 71,481 |

1. Deilydd yn y swydd hyd at 31 Awst 2024, mae pecyn terfynu gwaith wedi'i gynnwys yn Costau Eraill y Cyflogwr, gweler Nodyn 19 am eglurhad pellach.
2. Deilyddion yn eu swyddi o 1 Awst 2024. Y swyddogion wedi eu cyflogi drwy'r flwyddyn, ond yn brif swyddogion o 1 Awst 2024, gyda cost y rôl prif swyddogion yn unig wedi'i gynnwys uchod.

## NODYN 17 – TALIADAU I SWYDDOGION (parhad)

**17b.** Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyd-Bwyllgor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn* (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr), ond sydd yn cynnwys costau diswyddo. Roedd hyn yn cynnwys costau diswyddo a dalwyd mewn 20 achos yn 2024/25 (dim achos yn 2023/24). Ni fyddai pedwar o'r swyddi yma'n ymddangos isod heblaw'r costau diswyddo a dalwyd yn y flwyddyn unigol.

| Nifer gweithwyr eraill a fyddai'n derbyn mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo: | | |
|---|---|---|
| **Nifer yn 2023/24*** | | **Nifer yn 2024/25*** |
| **Cyfanswm** | | **Cyfanswm** |
| 42 | £60,000 - £64,999 | 15 |
| 5 | £65,000 - £69,999 | 14 |
| 13 | £70,000 – £74,999 | 13 |
| 3 | £75,000 - £79,999 | 5 |
| 1 | £80,000 - £84,999 | 3 |
| 0 | £85,000 - £89,999 | 2 |
| 0 | £90,000 - £94,999 | 0 |
| 0 | £95,000 - £99,999 | 2 |
| 0 | £100,000 - £104,999 | 2 |
| 0 | £105,000 - £109,999 | 2 |
| 0 | £110,000 - £114,999 | 2 |
| 0 | £115,000 - £119,999 | 0 |
| 0 | £120,000 - £124,999 | 0 |
| 0 | £125,000 - £129,999 | 2 |
| 0 | £130,000 - £134,999 | 1 |

**Mae niferoedd 2024/25 a 2023/24 yn cynnwys staff sydd wedi cychwyn neu orffen yn eu swyddi yn ystod y flwyddyn, wedi eu haddasu i gyfateb i gyflogaeth flwyddyn lawn.*

## NODYN 18 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

| **2023/24** | | **2024/25** |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 14 | Ffioedd taladwy i archwilydd apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol | 19 |
| **14** | **Ffioedd Net** | **19** |

## NODYN 19 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Mae'r nifer o becynnau terfynu gwaith sydd yn cynnwys cyfanswm y gost fesul band, a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Mae'r gost yn y tabl isod yn adlewyrchu'r costau diswyddo a chostau cyfraniadau pensiwn i'r cyflogwr, yn hytrach na gwir werth y taliadau i'r unigolion. Yn unol â'r gofynion fe gynhwysir yr ymrwymiadau perthnasol i'r Cyd-Bwyllgor fel a wybyddir ar 31 Mawrth 2025. Cynhwysir isod y costau gros perthnasol ond nid unrhyw arbedion cyllidol i'r Cyd-Bwyllgor, ble'n briodol.

| Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig) | Nifer diswyddiadau gorfodol | | Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill | | Cyfanswm nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost | | Cyfanswm cost y pecynnau terfyn gwaith ym mhob band | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £ | 2023/24 | 2024/25 | 2023/24 | 2024/25 | 2023/24 | 2024/25 | 2023/24<br>£'000 | 2024/25<br>£'000 |
| 0 - 20,000 | 0 | 5 | 0 | 1 | **0** | **6** | 0 | 74 |
| 20,001 - 40,000 | 0 | 4 | 0 | 2 | **0** | **6** | 0 | 161 |
| 40,001 - 60,000 | 0 | 3 | 0 | 1 | **0** | **4** | 0 | 186 |
| 60,001 - 80,000 | 0 | 0 | 0 | 2 | **0** | **2** | 0 | 142 |
| 80,001 – 100,000 | 0 | 3 | 0 | 0 | **0** | **3** | 0 | 272 |
| 100,001 – 150,000 | 0 | 3 | 0 | 0 | **0** | **3** | 0 | 353 |
| 150,001 – 200,000 | 0 | 1 | 0 | 0 | **0** | **1** | 0 | 198 |
| 200,001 – 250,000 | 0 | 1 | 0 | 0 | **0** | **1** | 0 | 220 |
| 250,001 – 300,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | 0 | 0 |
| 300,001 – 350,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | 0 | 0 |
| 350,001 – 400,000 | 0 | 1 | 0 | 0 | **0** | **1** | 0 | 356 |
| 400,001 – 450,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | 0 | 0 |
| 450,001 – 500,000 | 0 | 1 | 0 | 0 | **0** | **1** | 0 | 455 |
| **Cyfanswm** | **0** | **22** | **0** | **6** | **0** | **28** | **0** | **2,417** |

## NODYN 20 – INCWM GRANT

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

| | 2023/24 | | 2024/25 | |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau** | | | | |
| Llywodraeth Cymru | | | | |
| Grant Datblygu Disgyblion (GDD) - Plant Mewn Gofal | 1,145 | | 0 | |
| GDD - Cynghorydd Strategol | 100 | | 0 | |
| GDD - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | 186 | | 0 | |
| Arall | 376 | | 253 | |
| | | **1,807** | | **253** |
| Grant Consortia Rhanbarthol | | | | |
| Llywodraeth Cymru (heb gynnwys y GGA) | | **7,013** | | **0** |
| Grant Gwella Addysg (GGA) | | | | |
| Ariannu cyfatebol gan gynghorau | 457 | | 0 | |
| Llywodraeth Cymru | 2,481 | | 0 | |
| | | **2,938** | | **0** |
| Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall | | | | |
| Cyngor y Gweithlu Addysg | 541 | | 229 | |
| | | **541** | | **229** |
| Grantiau a Chyfraniadau gan y cynghorau | | | | |
| Cyfraniadau'r cynghorau tuag at y Gwasanaeth Craidd | | | | |
| Conwy | 667 | | 610 | |
| Dinbych | 682 | | 625 | |
| Fflint | 1,001 | | 909 | |
| Gwynedd | 770 | | 702 | |
| Ynys Môn | 443 | | 402 | |
| Wrecsam | 831 | | 754 | |
| | | **4,394** | | **4,002** |
| Cytundebau Comisiynu y Cynghorau | | | | |
| Conwy | 0 | | 656 | |
| Dinbych | 0 | | 624 | |
| Fflint | 0 | | 912 | |
| Gwynedd | 0 | | 807 | |
| Ynys Môn | 0 | | 570 | |
| Wrecsam | 0 | | 818 | |
| | | **0** | | **4,387** |
| Grantiau a Chyfraniadau eraill | | **330** | | **198** |
| Grant Cyllid Pontio ar gyfer y Rhaglen Bartneriaeth Gwella Ysgolion (£123k gan bob awdurdod) | | **0** | | **738** |
| Cyfraniadau gan yr awdurdodau i ariannu'r gorwariant GwE (£74k gan bob awdurdod) | | **0** | | **446** |
| **Cyfanswm Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau** | | **17,023** | | **10,253** |

## NODYN 21 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyd-Bwyllgor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyd-Bwyllgor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyd-Bwyllgor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyd-Bwyllgor. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy ofyn i'r Aelodau a'r Uwch Swyddog gwblhau datganiad personol, fel y diffinnir yng Nghod Ymarfer CIPFA.

### Gweithrediad y Cyd-Bwyllgor

Mae'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r cynghorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Fe grynhoir isod daliadau ac incwm rhwng y Cyd-Bwyllgor a'r Awdurdodau Lleol yn ystod y flwyddyn ariannol 2024/25. Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth gyda Chyd-Bwyllgor o'r holl bartneriaid yn goruchwylio rheolaeth o'r gwasanaeth.

| | Taliadau a wnaethpwyd | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor | Incwm a dderbyniwyd | Symiau sy'n ddyledus i' r Cyd-Bwyllgor |
|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod Lleol** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 351 | 45 | 1,268 | 212 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 130 | 7 | 1,321 | 197 |
| Cyngor Sir y Fflint | 402 | 1 | 1,824 | 220 |
| Cyngor Gwynedd | 570 | 33 | 1,699 | 225 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 155 | 3 | 974 | 198 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 212 | 10 | 1,572 | 198 |

### Aelodau
Mae gan aelodau'r Cyd-Bwyllgor ddylanwad dros bolisïau ariannol a gweithredol y Cyd-Bwyllgor.

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinnir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyd-Bwyllgor. Yn ystod 2024/25, ni wnaed unrhyw daliadau i'r cwmnïau a chyrff yma ac nid oes unrhyw swm yn ddyledus gan nac i'r Cyd-Bwyllgor gan y cwmnïau a chyrff a nodwyd.

### Swyddogion
Mae Uwch Swyddogion y Cyd-Bwyllgor (fel y diffinnir) wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, ddiddordeb neu berthynas mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyd-Bwyllgor. Yn ystod 2024/25, ni wnaed unrhyw daliadau i'r cwmnïau a chyrff yma ac nid oes unrhyw swm yn ddyledus gan nac i'r Cyd-Bwyllgor gan y cwmnïau a chyrff a nodwyd.

## NODYN 22 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyd-Bwyllgor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae GwE yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ôl-gyflogaeth:

a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014, ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014. Mae'r Cyd-Bwyllgor a'r gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i falansio'r ymrwymiadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir. Cyfran GwE o gyfanswm y cyfraniadau i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2024/25 oedd 1.2% (1.3% yn 2023/24).

b) **Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau ôl-ymddeol dewisol wrth ymddeol yn fuan**. Trefniant buddion diffiniedig heb eu hariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymiadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymiadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiynau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei weithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Y prif risgiau i'r Cyd-Bwyllgor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel y ddisgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifo i'r Gronfa Gyffredinol.

### Trafodion sy'n Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y gost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn erbyn treth y cyngor (drwy gyfraniadau y cynghorau) yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod gwir gost buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau:

## NODYN 22 – COSTAU PENSIWN (parhad)

| Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net | (Ymrwymiadau)/Asedau Net | |
|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2025 |
| | £'000 | £'000 |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 26,324 | 29,888 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu | (22,876) | (23,764) |
| Effaith y nenfwd ased | (2,891) | (6,124) |
| **Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill** | **557** | **0** |
| Cost gwasanaeth | | |
| - Cost gwasanaeth cyfredol* | (932) | (802) |
| - Cost gwasanaeth gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) | 0 | (807) |
| **Cyfanswm Cost Gwasanaeth** | **(932)** | **(1,609)** |
| Llog Net | | |
| - Incwm llog ar asedau'r cynllun | 1,267 | 1,483 |
| - Cost llog ar fuddion a ddiffinnir ymrwymiad | (1,105) | (1,186) |
| - Llog ar effaith y nenfwd ased | (137) | (297) |
| **Cyfanswm Llog Net** | **25** | **0** |
| **Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)** | **(907)** | **(1,609)** |
| Llif arian | | |
| - Cyfraniad aelodau'r cynllun | 0 | 0 |
| - Cyfraniad y cyflogwr | 842 | 1,618 |
| - Buddion a dalwyd | 0 | 0 |
| **Sefyllfa Cau a Ddisgwylir** | **492** | **9** |
| Ail fesuriadau | | |
| - Newid mewn tybiaethau ariannol | 1,535 | 4,135 |
| - Newid mewn tybiaethau demograffig | 143 | 44 |
| - Profiadau eraill ** | (683) | 211 |
| - Enillion ar asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net | 1,609 | (164) |
| - Newidiadau mewn effaith y nenfwd ased | (3,096) | 6,421 |
| **Cyfanswm yr holl ail fesuriadau a gynhwysir yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)** | **(492)** | **10,647** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 29,888 | 32,638 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu | (23,764) | (21,982) |
| **Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth** | **6,124** | **10,656** |

Sylwch fod gwerth teg asedau'r cyflogwr o ran cynllun oddeutu 1% o gyfanswm y Gronfa.

Amcangyfrifir bod gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir yn cynnwys oddeutu £12,540,000 mewn perthynas ag aelodau staff, £1,435,000 mewn perthynas a phensiynwyr gohiriedig, a £8,007,000 mewn perthynas a phensiynwyr ar 31 Mawrth 2025.

* Mae cost cyfredol y gwasanaeth yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddu o 0.6% o'r gyflogres.

**O fewn yr eitem profiad arall, mae'r rhwymedigaethau a ariennir wedi lleihau o £211,000, o ganlyniad i'r gorchymyn cynyddu pensiwn fod yn wahanol i'r tybiaeth blaenorol.

## NODYN 22 – COSTAU PENSIWN (parhad)

**Asedau ac ymrwymiadau pensiwn a adnabyddir yn y Fantolen.**

Mae'r swm a gynhwysir yn y fantolen sy'n codi o rwymedigaeth y Cyd-Bwyllgor mewn perthynas â'i gynllun buddion diffiniedig fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 29,888 | 32,638 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau | (23,764) | (21,982) |
| **Is-gyfanswm** | **6,124** | **10,656** |
| Effaith SCRh 19/ PDAARh 14 | (6,124) | (10,656) |
| **Ased/ (Ymrwymiad) Net yn deillio o Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir** | **0** | **0** |

Mae prisiad actiwaraidd ymrwymiadau cynllun pensiwn a reserf pensiynau'r Cyd-Bwyllgor a ddangosir ar y Fantolen yn adrodd ased neu ymrwymiad net o ddim. Penderfynodd Actiwari'r Cyd-Bwyllgor, Hymans Robertson LLP, fod gwerth teg asedau cynllun pensiwn y Cyd-Bwyllgor yn fwy na gwerth presennol ymrwymiadau'r cynllun ar 31 Mawrth 2025 gan arwain at ased cynllun pensiwn. Mae PDAARh 14 a buddion gweithwyr SCRh 19 yn ei gwneud yn ofynnol, lle mae ased cynllun pensiwn yn bodoli, ei fod yn cael ei fesur fel yr isaf o'r:

- Gwarged yn y cynllun buddion diffiniedig; a'r
- Nenfwd asedau, sydd wedi'i gyfyngu i £0

Y nenfwd asedau yw gwerth presennol unrhyw fuddion economaidd sydd ar gael ar ffurf ad-daliadau o'r cynllun neu ostyngiadau yng nghyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol. Cyfrifodd actiwari'r Cyd-Bwyllgor y nenfwd ased fel y gwerth net presennol o gostau gwasanaeth yn y dyfodol llai gwerth net presennol cyfraniadau yn y dyfodol. Mae'r nenfwd ased a gyfrifwyd ar gyfer 2024/25 yn arwain at fwy o gyfraniadau gwasanaeth yn y dyfodol na chostau gwasanaeth yn y dyfodol, felly mae'r budd economaidd wedi'i gyfyngu i ddim. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn dibynnu ac yn rhoi sicrwydd ar farn broffesiynol yr Actiwari a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r prisiad actiwaraidd hwn.

**Prif Gategorïau Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun**

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion SCRh 19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny, ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny sydd ddim yn cael eu dyfynnu. Tybir bod rhaniad asedau Cyd-Bwyllgor ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2024. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £3.18bn ar 31 Mawrth 2025, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ac yn rhoi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol. Dim ond elfen o hwn sydd yn berthnasol i GwE.

## NODYN 22 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar werth bid yn unol â gofynion SCRh 19.

| Categori Ased | Ar 31 Mawrth 2024 | | | | Ar 31 Mawrth 2025 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol | Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol | Cyfanswm | | Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol | Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol | Cyfanswm | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | £'000 | % |
| **Ernesau Ecwiti** | | | | | | | | |
| Defnyddiwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynhyrchu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynni a Gwasanaethau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sefydliadau Ariannol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Iechyd a Gofal | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ernesau Dyledion** | | | | | | | | |
| Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ecwiti Preifat** | | | | | | | | |
| Y cyfan | 0 | 1,554 | 1,554 | 5 | 0 | 1,762 | 1,762 | 5 |
| **Eiddo Diriaethol** | | | | | | | | |
| Eiddo'r DU | 0 | 2,082 | 2,082 | 7 | 0 | 2,077 | 2,077 | 6 |
| Eiddo Tramor | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol** | | | | | | | | |
| Ecwiti | 0 | 16,633 | 16,633 | 56 | 0 | 18,025 | 18,025 | 55 |
| Is-adeiladwaith | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 963 | 963 | 3 |
| Eraill | 0 | 8,497 | 8,497 | 28 | 0 | 9,592 | 9,592 | 29 |
| **Deilliadau** | | | | | | | | |
| Chwyddiant | 0 | 737 | 737 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Arian a Chywerthoedd Arian** | | | | | | | | |
| Y cyfan | 0 | 385 | 385 | 1 | 0 | 219 | 219 | 1 |
| **Cyfanswm** | **0** | **29,888** | **29,888** | **100** | **0** | **32,638** | **32,638** | **100** |

## NODYN 22 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar VitaCurves y Gronfa gyda gwelliannau yn unol â model CMI 2023, gyda phwysiad o 15% o ddata 2023 (a 2022), pwysiad o 0% ddata 2021 (a 2020), llyfnu safonol (Sk7), addasiad cychwynnol o 0.25% a chyfradd gwelliant hirdymor o 1.5% y flwyddyn ar gyfer dynion a merched.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymiadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymiadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn ddiweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymiadau fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| **Tybiaethau Ariannol** | **% y.f.** | **% y.f.** |
| Cyfradd Cynnydd Pensiynau | 2.75 | 2.75 |
| Cyfradd Cynnydd Cyflogau | 3.25 | 3.25 |
| Cyfradd Chwyddiant | 2.75 | 2.75 |
| Cyfradd Ddisgownt | 4.85 | 5.80 |
| Cyfradd enillion tymor hir a ddisgwylir ar yr holl asedau | 4.85 | 5.80 |
| **Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol** | | |
| am wasanaeth cyn Ebrill 2008 | 65 | 65 |
| am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008 | 65 | 65 |
| **Tybiaethau Marwolaeth** | **Blynyddoedd** | **Blynyddoedd** |
| Hirhoedledd yn 65 oed am bensiynwyr cyfredol | | |
| Dynion | 21.7 | 21.6 |
| Merched | 24.1 | 24.1 |
| Hirhoedledd yn 65 oed am bensiynwyr y dyfodol | | |
| Dynion | 22.7 | 22.6 |
| Merched | 25.7 | 25.6 |

Mae'r amcangyfrifiad o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymiadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2025 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau SCRh 19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyd-Bwyllgor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o tua 3-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

## NODYN 22 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyd-Bwyllgor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022, sef dyddiad y prisiad actiwaraidd diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn flaenorol.

| **Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun** | | |
|---|---|---|
| **Newid tybiaeth** | **Brasamcan cynnydd i'r Ymrwymiad Buddion Diffiniedig 31 Mawrth 2025** | **Brasamcan swm ariannol 31 Mawrth 2025** |
| | % | £'000 |
| 0.1% o leihad i'r gwir gyfradd ddisgownt | 2 | 424 |
| Cynnydd o 1 flwyddyn yn nisgwyliad oes aelodau | 4 | 879 |
| 0.1% o gynnydd i'r gyfradd cynnydd cyflog | 0 | 28 |
| 0.1% o gynnydd i'r gyfradd cynnydd pensiwn | 2 | 407 |

### Effaith ar Lif Arian y Cyd-Bwyllgor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyd-Bwyllgor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad pob tair blynedd, neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddu. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2025 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyd-Bwyllgor, dylid cyfeirio at adroddiad actiwaraidd 2022, dyddiedig 28 Mawrth 2023.

### Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir

| | **Rhaniad Ymrwymiad 31 Mawrth 2025** | |
|---|---|---|
| | **£'000** | **%** |
| Aelodau Gweithredol | 12,540 | 57.1 |
| Aelodau Gohiriedig | 1,435 | 6.5 |
| Aelodau Pensiynwyr | 8,007 | 36.4 |
| **Cyfanswm** | **21,982** | **100.00** |

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymiadau wedi eu hariannu yn unig, nid ydynt yn cynnwys ymrwymiadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2022. Yn unol a'r sefyllfa ar dyddiad y prisiad yma - cyfnod cyfartaledd cymhwysol o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun yn 2024/25 yw 19 mlynedd.

### Effaith ar y Blynyddoedd i ddod

Cyfanswm y cyfraniadau gan y Cyd-Bwyllgor GwE i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyd-Bwyllgor yn 2025/26 am y ddau fis hyd at ddiwedd Mai 2025, sef dyddiad terfynu GwE oedd £119k.

Gan fod adroddiad Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, ac o ganlyniad i wahaniaethau amseru, gwnaed addasiad o (£812k) yn 2024/25, (£11k yn 2023/24) i ddod â'r sefyllfa yn y Gronfa ar sail ffigyrau Actiwaraidd yn unol â'r sefyllfa cau ar 31 Mawrth 2025 (cyn unrhyw addasiad nenfwd ased). Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymiadau Pensiwn.

## NODYN 23 – DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Awdurdodwyd y Datganiad o'r Cyfrifon gan y Pennaeth Cyllid ar 30 Mehefin 2025. Nid yw digwyddiadau yn dilyn y dyddiad yma wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau cysylltiedig. Lle'r oedd digwyddiadau a oedd yn digwydd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2025, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob agwedd faterol i ddangos yr effaith.

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Mae'r datganiad hwn yn bodloni'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.

**Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB**

1.1 Sefydlwyd GwE yn Gyd-Bwyllgor gan chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru yn 2013 i fod yn wasanaeth effeithiolrwydd gwella ysgolion rhanbarthol drwy gyflawni'r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb rhwng y Cyd-Bwyllgor a'r awdurdodau. Yn y cytundeb, roedd y Cynghorau wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i'r Cynghorau, ac yn cyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion.

1.2 Y weledigaeth oedd sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol i fod yn atebol i, ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau statudol y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yng nghyswllt eu dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaeth cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion yn ogystal â darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

1.3 Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

1.4 Wrth gyflawni'r holl gyfrifoldebau hyn, mae GwE hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

1.5 Ar 18 Rhagfyr, 2023, daeth Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd, â'r Adolygiad Haen Ganol i ben, gan dderbyn bod y canfyddiadau interim yn derfynol. Ar 19 Rhagfyr, 2023, rhesymolwyd y grantiau addysg cyn-16 a ddyrannwyd i'r Awdurdodau Lleol a'r Consortia Rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru gyda'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol. Ar 31 Ionawr, 2024, cyhoeddodd Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddatganiad ysgrifenedig: *Y cam nesaf yn yr adolygiad o wella ysgolion - rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru*. Roedd y datganiad hwn yn amlinellu'r newidiadau yn y trefniant gwella ysgolion yng Nghymru gyda model partneriaeth rhwng dau Awdurdod Lleol, neu fwy, yn disodli model y consortia.

1.6 Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyfuno'r prif grantiau addysg o dan un pennawd, sef y Grant Addysg Awdurdodau Lleol o 2024-25 ymlaen, talwyd y grant i'r Awdurdodau Lleol i reoli a dirprwyo cyllid yn uniongyrchol i ysgolion. Yr Awdurdodau Lleol unigol sydd bellach yn llwyr gyfrifol am ofynion, risgiau, telerau ac amodau y grant. Er mwyn sicrhau parhad y gefnogaeth i ysgolion tra bod yr adolygiad yn mynd yn ei flaen, nododd Llywodraeth Cymru y disgwyliad bod unrhyw drefniadau gweithio rhanbarthol presennol yn parhau yn ystod y cyfnod hwn a'u bod yn cael eu hwyluso drwy'r cyllid grant penodol i gefnogi'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol mewn ysgolion. Trosglwyddwyd yr elfennau 'Cwricwlwm i Gymru' a 'Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth' o'r GAALl 'Diwygio' yn llawn i GwE gan pob un o 6 Awdurdod Lleol y rhanbarth er mwyn cynnig darpariaeth i gefnogi'r agweddau yma ac sydd yn bodloni telerau ac amodau'r grant. Mae Cyllideb GwE ar gyfer 2024-25 hefyd yn adlewyrchu penderfyniad y chwe Awdurdod Lleol i leihau eu cyfraniad at y gwasanaeth craidd o 10%.

1.7 Mae'r penderfyniadau hyn wedi cael effaith sylweddol ar y gwasanaeth a ddarperir gan GwE a'r trefniadau gwella ysgolion yng Ngogledd Cymru o 1 Ebrill, 2024. Yn benodol:

- Mae GwE wedi newid o fod yn 'wasanaeth rhanbarthol ar y cyd' i fod yn wasanaeth sydd wedi'i gomisiynu.
- Cleient yw GwE sydd yn darparu comisiwn gwahaniaethol i'r Awdurdodau Lleol.

- Y Prif Swyddogion Addysg sydd yn darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwella ysgolion, a ddelir yn atebol gan drefniadau craffu lleol.
- Roedd rhaid i GwE gadw'n gaeth at y comisiwn a ddiffinnir gan yr Awdurdodau Lleol ac a nodir yn y Cytundebau Comisiynu unigol am y Flwyddyn Ariannol 2024-25.

1.8 Mae'r datganiad hwn yn manylu ar trefniadau sydd wedi bod yn weithredol am y flwyddyn ariannol 2024-25 ac yng nghyd-destun y newidiadau uchod.

**Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

2.1 Mae’r fframwaith llywodraethu’n cynnwys y systemau a’r prosesau, y diwylliant a’r gwerthoedd hynny sy’n cyfeirio a rheoli GwE, a’r gweithgareddau ble mae’n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae’n galluogi’r awdurdodau sydd yn rhan o GwE i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw’r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

2.2 Mae’r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o’r fframwaith honno ac mae wedi ei dylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu’r risg o fethiant yn gyfan gwbl i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; ni all felly ond darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod.

2.3 Mae’r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy’n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy’n berthnasol i gyflawni polisïau, bwriadon ac amcanion GwE, i werthuso’r tebygolrwydd o'r risgiau hynny’n cael eu gwireddu a’r effaith petai hynny’n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

2.4 Mae’r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod ar waith yn GwE ar gyfer y flwyddyn sy’n diweddu 31 Mawrth 2025, a hyd at ddyddiad cymeradwyo datganiad cyfrifon 2024-25.

**Rhan 3: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A'U HEFFEITHIOLRWYDD**

3.1 Mae Bwrdd Rheoli GwE yn monitro materion yn ymwneud â llywodraethu, gan godi ymwybyddiaeth o'r rhain ar raddfa ehangach ac yn hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.2 Er mwyn arddangos llywodraethu da, rhaid i GwE ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (a chefnogol) sydd yn y *'Framework for Delivering Good Governance in Local Government (CIPFA/Solace, 2016*)'. Paratowyd y datganiad hwn yn unol â'r egwyddorion hynny.

3.3 Yng ngweddill y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, rhoddir amlinelliad o'r Meysydd Llywodraethu a threfniadau GwE i ddelio gyda'r rhain, ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

3.4 Mae'r datganiad hwn yn manylu ar trefniadau sydd wedi bod yn weithredol am y flwyddyn ariannol 2024-25 ac yng nghyd-destun y newidiadau a amlinellir yn Rhan 1.

| Egwyddor A | Ymddwyn ag integriti, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol, a pharchu rheol gyfreithiol |
|---|---|
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Dilyna GwE reolau gweithredu yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd), sydd yn manylu ar sut mae angen gwneud penderfyniadau a'r gweithdrefnau i'w dilyn i sicrhau eu bod yn effeithlon, yn dryloyw ac ar gael i bobl leol.
- Mae Cytundeb Rhyng-Awdurdod GwE wedi cytuno i ddilyn yr egwyddorion llywodraethu da a ganlyn:
  - Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth
  - Ymrwymiad a Chymhelliant
  - Sgiliau a Chreadigedd
  - Perthnasau Effeithiol
  - Datblygu ac Addasu
  - Enw Da
  - Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau
  - Caniatâd Angenrheidiol
  - Ymrwymiadau Aelodau a Swyddogion
- Mae aelodau Cyd-Bwyllgor GwE sydd â hawliau pleidleisio yn cael eu llywodraethu gan God Ymddygiad eu Cyngor perthnasol. Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a chyflogeion o fewn Cyfansoddiad yr awdurdod lletyol yn seiliedig ar egwyddorion bod yn agored, yn dryloyw ac yn onest.
- Mae'r gwerthoedd gwasanaeth a phersonol hyn wedi'u gwau yn y gwasanaeth ac wedi'u gosod er mwyn galluogi'r gwasanaeth i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion. Dyma nhw:
  - Parch
  - Ymddiriedaeth
  - Lles
  - Arloesi ac ysbrydoli

- Cefnogi a chydweithio
- Cymru a’r Gymraeg

- Disgwylir i staff arddel ac arddangos y safonau uchaf o ymddygiadau a gwerthoedd y gwasanaeth.
- Mae gan GwE, gyda chymorth yr awdurdod lletyol, weithdrefnau ar waith i sicrhau bod cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod y broses o wneud penderfyniadau yn un effeithiol.
- Cynhaliwyd pob cyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2024-25 yn rhithiol ar Zoom. Mae canllawiau wedi eu darparu i'r Aelodau mewn perthynas â mynychu cyfarfodydd rhithiol.

| Egwyddor B | Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad llawn rhanddeiliaid |
|---|---|
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae cyfarfodydd Cyd-Bwyllgor GwE yn rhai agored a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd) a gwefan GwE.
- Mae calendr cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor wedi'u gosod am y flwyddyn sydd i ddod.
- Mae GwE yn annog i'w randdeiliaid ymgysylltu a rhoi adborth drwy ystod eang o ddulliau cyfathrebu ac ymgysylltu. Dyma enghreifftiau: presenoldeb mewn cyfarfodydd Ffederasiwn Penaethiaid; grwpiau clwstwr; bwletin wythnosol; rhwydweithiau, cyfryngau cymdeithasol ac ati.
- Sicrheir natur agored ac ymgysylltiad llawn rhanddeiliaid drwy:
    - Cydweithio yn sicrhau llywodraethiant gadarn a chysondeb rhanbarthol o ran y cymorth, y negeseuon a'r canllawiau a roddir i ysgolion.
    - Sefydlu llinellau cyfathrebu clir gyda rhanddeiliaid allweddol.
    - Adroddiadau i'r Cyd-Bwyllgor
    - Rhannu diweddariadau cyson a sicrhau cyswllt a chymorth.
    - Rhannu gwybodaeth, negeseuon allweddol a ffrydiau gwaith â'r ALl/Aelodau Etholedig.
    - Diweddaru rhanddeiliaid allweddol ar amrywiol faterion GwE.
    - Rhannu gwybodaeth ranbarthol a sicrhau negeseuon cyson.
    - Sicrhau cysondeb o ran gwybodaeth genedlaethol a rhanbarthol.
    - Sicrhau cyfathrebu effeithiol.
    - Cysylltu â rhanddeiliaid allweddol.

- Bu gwaith tîm, gweithio ar y cyd a chydweithredu hefyd wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion. Mae GwE wedi annog ysgolion i gydweithio drwy rannu arferion a chyd-lunio meysydd sydd angen eu gwella. Rydym wedi buddsoddi mewn amrywiol fodelau clwstwr, cynghreiriau a rhwydweithiau ac wedi annog ysgolion i ganfod ystod o bartneriaid priodol i gyflawni gwelliannau a newidiadau. Mae pob ysgol yn y rhanbarth yn rhan o glwstwr neu fforwm, lle gallant ddod ynghyd i drafod materion gweithredol yn ogystal â rhannu'r arferion gorau. Bu'r cydweithio hwn, a hwylusir gan staff GwE, yn llwyddiannus iawn, ac mae'n gosod sylfaen gadarn iawn i waith yn y dyfodol.
- Mae'r rhanbarth hefyd wedi edrych tuag allan am arferion da o ran adnabod modelau effeithiol ar gyfer adolygu cymheiriaid, yn ogystal ag annog ein hysgolion i ddatblygu ac esblygu eu harferion eu hunain. Cred GwE y dylai gwaith ymgysylltu â chymheiriaid gyd-fynd â'r dimensiynau a nodir yng nghyhoeddiad yr OECD 'What Makes a School a Learning Organisation’. Mae'r egwyddorion ynghlwm yn rhan o bob Dysgu Proffesiynol ac ar draws GwE.

- Mae pedair thema drawsliniol sy'n rhedeg drwy gydol y gwaith hwn, ac sy'n greiddiol i ddatblygu sefydliad sy'n dysgu, sef Ymddiriedaeth, Amser, Technoleg a Meddwl Gyda'n Gilydd. Bu'r rhain yn sylfaenol ar gyfer datblygu ffordd GwE o fynd ati i ddatblygu partneriaethau cryf gan fod ymddiriedaeth yn sylfaen i'r berthynas sydd ei hangen, yn fewnol ac yn allanol, er mwyn i sefydliadau sy'n dysgu ffynnu.
- Bu cytundeb â Phenaethiaid ar gyfres o egwyddorion rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid. Cytunwyd ar fodel adolygu cymheiriaid a chynllunio gwelliant (sef y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion [SPP]), a gymeradwywyd gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor. Mae holl YCG GwE wedi cael hyfforddiant a chymorth parhaus ar adolygu cymheiriaid, hwyluso, mentora a hyfforddi ac mae rhaglenni ar waith i gynnig hyfforddiant ar y RhPY i'r 405 o ysgolion yn y rhanbarth a'r Unedau Cyfeirio.

| Egwyddor C | Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd yn gynaliadwy. |
|---|---|
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae gan bob Awdurdod Lleol Gynllun Busnes a Chytundeb Comisiynu sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r arweinydd craidd.
- Mae Cynlluniau Busnes GwE gyda'r Awdurdodau Lleol yn cyfarch Telerau ac Amodau'r grant Diwygio. Mae'r cynlluniau yn amlinellu sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf. Mae'r cynlluniau yn nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i holl ysgolion y rhanbarth o ran yr elfennau 'Cwricwlwm i Gymru' a 'Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth'.
- Roedd Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE yn ymateb yn benodol i ofynion telerau ac amodau'r grant hefyd, ac yn cynnig darpariaeth i gefnogi'r agweddau yma. Roedd y Cynnig ar gael am ddim i holl ymarferwyr y Gogledd ar ffurf catalog ac yn cael ei ddiweddaru'n gyson Cynnig Proffesiynol GwE.
- Mae GwE wedi adrodd i'r Cyd-bwyllgor a'r Awdurdodau Lleol ar yr elfen Diwygio o'r grant yn ystod 2024-25.
- Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.
- Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.
- Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau.
- Mae GwE hefyd wedi datblygu Strategaeth Arfarnu ac Effaith fel y gall arfarnu a chofnodi'n glir effaith ei waith yn unol â'i swyddogaeth gwella ysgolion graidd, ac fel y gall fodloni'n llawn y disgwyliadau a amlinellir yn y Canllawiau Gwella Ysgolion. Pwrpas y Strategaeth yw nodi'n glir sut y bydd GwE yn rhan o brosesau arfarnu parhaus yn unol â'i ymrwymiad i ddatblygu diwylliant o welliant parhaus fel sefydliad sy'n dysgu. Bydd y prosesau hunan arfarnu hyn yn tynnu ar amrywiaeth o ffynonellau ansoddol a meintiol sy'n cefnogi ysgolion i weithio tuag at y blaenoriaethau cenedlaethol.
- Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddaru'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor wybod amdanynt.

| Egwyddor D | Penderfynu ar yr ymyraethau sydd yn angenrheidiol i optimeiddio cyflawniad y deiliannau penodol |
|---|---|
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae gan GwE weithdrefnau ar waith i sicrhau bod cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod y broses o wneud penderfyniadau yn un effeithiol. Lluniwyd cyfres o adroddiadau a'u rhannu â'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor yn ystod y flwyddyn.

- Cafwyd ymweliadau gan AEM Estyn drwy'r Arolygydd Cyswllt y Consortia Rhanbarthol yn ystod y flwyddyn.
- Mae gan GwE Gytundeb Rhyng-Awdurdod (CRhA) sydd yn nodi'r glir sut y mae'r Cyd-Bwyllgor yn gweithredu a sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud a sut mae angen dilyn gweithdrefnau er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd.
- Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gyd-bwyllgor sydd wedi'i gyfansoddi gan y Cynghorau dan Adran 101(5) ac 102 (1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 20 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972 gan gynnwys y darpariaethau ar fynediad at wybodaeth a chyfarfodydd a gynhelir yn gyhoeddus.
- Mae gan aelodau'r Cyd-bwyllgor a'r cyhoedd y fantais o allu gweld, yn llawn, papurau'r Cyd-Bwyllgor a gwybodaeth ategol.
- Bydd y Cyd-Bwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn.
- Yn y CRhA, nodir dau gategori o benderfyniadau ynghyd â'r modd y cânt eu gwneud, sef:
    - 'Mater Cyd-Bwyllgor' - sef mater i'w benderfynu mewn cyfarfodydd cworwm (3 aelod â phleidlais) o'r Cyd-Bwyllgor gan y rheiny sydd yn bresennol ac â'r hawl i bleidleisio a bydd y cyfryw benderfyniad yn rhwymo pob Cyngor;
    - 'Mater a gedwir yn ôl i'r Cynghorau' - sef mater y bydd yn rhaid ei gyfeirio at bob Cyngor i benderfynu arno, er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd y Cyd-Bwyllgor yn delio gydag unrhyw fater fel hyn (yn ôl y galw) nes bydd y mater wedi'i benderfynu gan yr holl Gynghorau. Pe bydd y Cynghorau yn methu cyrraedd yr un penderfyniad efo mater fel hyn, yna cyfeirir y mater o dan Datrys Anghydfod fel anghydfod i'w ddatrys.
- Cylch gorchwyl a phwerau dirprwyedig y Cyd-Bwyllgor yw hybu cydweithio wrth ddarparu'r Gwasanaeth drwy:
    - hwyluso gwaith partneriaeth buddiol;
    - cysylltu â chyrff a rhanddeiliaid allweddol â buddiant, pan fo'n briodol;
    - cyflawni gweithgareddau eraill a fwriedir i hwyluso, neu sydd yn arwain at ddarparu'r Gwasanaeth yn llwyddiannus;
    - goruchwylio gwaith rheoli'r Gwasanaeth a sicrhau bod y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu ac yn perfformio yn unol â disgwyliadau'r Awdurdodau Partner fel y nodir yn yr Achos Busnes Llawn, y Cytundeb Rhyng-Awdurdod a'r Cynllun Busnes a'r Cynlluniau Comisiynu cytûn;
    - cymeradwyo cyllideb y Gwasanaeth pob blwyddyn;
    - cymeradwyo cynllun busnes y Gwasanaeth pob blwyddyn;
    - monitro a rheoli'r risgiau sydd yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth;

- cadarnhau ceisiadau gan y Gwasanaeth am arian cyllideb ychwanegol gan Gynghorau unigol;
    - cymeradwyo strwythur staffio'r Gwasanaeth;
    - penodi Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth;
    - penderfynu ar gamau disgyblu yn erbyn y Rheolwr Gyfarwyddwr;
    - ble'n ofynnol, pennu neu drefnu i bennu apeliadau mewn perthynas â materion Adnoddau Dynol.

- Cefnogir y Cyd-Bwyllgor gan Fwrdd Rheoli sydd â'r cylch gorchwyl hwn:
    - Cyd-lunio'r Cynllun Busnes blynyddol, gan gynnwys yr atodiadau unigol i adnabod gofynion penodol ar lefel ALl unigol;
    - Monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a'r deilliannau a nodir yn y Cynllun Busnes yn rheolaidd;
    - Cael trefniadau ar waith i sicrhau bod mesurau a systemau rheoli ariannol GwE yn gadarn;
    - Darparu cyngor proffesiynol i'r Cyd-Bwyllgor o ran penodi'r Rheolwr Gyfarwyddwr;
    - Adrodd yn rheolaidd i'r Cyd-Bwyllgor.

- Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â blaenoriaethau.

- Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.

- Drwy'r broses hunanarfarnu, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.

| Egwyddor E | Datblygu capasiti yr endid, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'i unigolion. |
|---|---|
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae staff GwE wedi ail-bwrpasu eu gwaith yn briodol at ddibenion gwahanol dros y blynyddoedd diwethaf i barhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol a chymorth i'w holl gymunedau o ysgolion yn ystod y pandemig ac wedyn.
- Mae’r cyfathrebu a'r ymgysylltu o fewn strwythur arweinyddol GwE yn rheolaidd ac yn glir.
- Mae GwE wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu.
- Wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion a phartneriaid y bu themâu trawsliniol Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg.
- Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid. Mae'r gallu i fod yn hyblyg ac ystwyth a chydweithio yn effeithiol mewn gwahanol dimau, a hynny'n draws sector yn aml, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad sefydliadol ac argraffiadau allanol. Wrth wraidd yr ailgyfeirio y bu'r angen i sicrhau bod lles arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr o'r pwys mwyaf wrth wneud penderfyniadau a sicrhau y gall y gwasanaeth

gyfeirio'n gywir y lefel briodol o gefnogaeth, boed hynny'n gefnogaeth weithredol neu broffesiynol.

- Mae cysondeb ac ansawdd yr her a'r cymorth i ysgolion yn dda. Mae hyfforddiant, cymorth a thrafodaethau yn sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o ddatblygiadau cenedlaethol a lleol, a goblygiadau hyn i'w rôl, yn dda.
- Mae prosesau Sicrhau Ansawdd yn parhau i ddatblygu ac esblygu yn unol â datblygiadau ac egwyddorion cenedlaethol. Parhaodd y broses Adolygiad Proffesiynol yn ystod y flwyddyn sy'n ystyried anghenion hyfforddi neu ddatblygu.
- Mae gan aelodau staff fynediad at sesiynau anwytho priodol wedi'i deilwra i'w rôl gyda hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus.
- Mae iechyd a lles plant a'r gweithlu yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gan wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi lles ein staff ysgol, plant a phobl ifanc ar draws y rhanbarth.
- Cyflëir negeseuon a gwybodaeth yn glir ac yn rheolaidd i bob gweithiwr. Cynigir rhaglenni cefnogaeth generig, pwrpasol ac effeithiol.

| Egwyddor F | Rheoli risgiau a pherfformiad drwy fesurau rheoli mewnol cadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref. |
|---|---|
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.
- Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau.
- Mae gan bob Awdurdod Lleol Gynllun Busnes a Chytundeb Comisiynu sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r arweinydd craidd.
- Mae Cynlluniau Busnes GwE gyda'r Awdurdodau Lleol yn cyfarch Telerau ac Amodau'r grant Diwygio. Mae'r cynlluniau yn amlinellu sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf. Mae'r cynlluniau yn nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i holl ysgolion y rhanbarth o ran yr elfennau 'Cwricwlwm i Gymru' a 'Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth'.
- Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.
- Mae trefniadau ar waith i adnabod a rheoli risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddaru'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor wybod amdanynt.
- 

| Egwyddor G | Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn rhoi atebolrwydd effeithiol |
|---|---|
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn gwerthuso ei waith yn rheolaidd ac yn defnyddio gwybodaeth yn effeithiol i sicrhau bod meysydd ar gyfer gwelliant yn cael eu hadnabod yn gyflym, ac yn cael sylw cadarn drwy gyfrwng cynllunio busnes manwl.
- Mae cyfarfodydd Cyd-Bwyllgor GwE yn rhai agored a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd) a gwefan GwE.
- Mae GwE yn 'gorff perthnasol' sydd yn gorfod cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol o'i gofnodion cyfrifo a'i system reolaeth fewnol. Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn, darperir gwasanaeth archwilio mewnol yr awdurdod lletyol i GwE, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae'r Safonau yn berthnasol i bob darparwr gwasanaeth archwilio mewnol i'r sector cyhoeddus, boed yn wasanaeth mewnol, yn un a rennir, neu'n allanol.

**Rhan 4: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

4.1 Noda'r asesiad uchod nad oes unrhyw faterion sydd yn fater llywodraethu arwyddocaol.

**Rhan 5: ADNABOD MATERION LLYWODRAETHU**

5.1 Ni adnabuwyd Materion Llywodraethu yn 2024/25.

**Rhan 6: BARN**

Rydym o'r farn bod y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir uchod yn cynnig sicrwydd cryf bod ein trefniadau llywodraethu yn gweithio'n dda.



________________________________

**Swyddog Arweiniol GwE**

**Dyddiad:** 21/05/2025

EUROS DAVIES

PENNAETH GWASANAETH GwE



________________________________

**Is-Gadeirydd Cydbwyllgor GwE**

**Dyddiad:** 21/05/2025

CYNGHORYDD PHIL WYNN

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

# Geirfa

**Amhariad** – Lleihad yng ngwerth cario ased sefydlog oddi tan ei werth cario (oherwydd darfodedigrwydd, difrod neu newid anffafriol mewn amgylchedd statudol).

**Ased -** Eitemau o werth sydd yn cael ei fesur mewn cyd-destun pris.

- Caiff ased cyfredol ei dreulio neu gall golli gwerth ariannol materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae ased anghyfredol yn darparu budd i'r Cyd-Bwyllgor ac i'r gwasanaethau mae'n ddarparu am gyfnod o dros flwyddyn.

**Balansau (neu Reserfau) -** Mae'r rhain yn cynrychioli cyllid cronedig sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor. Caiff rhai balansau (reserfau) eu clustnodi ar gyfer pwrpas penodol i ariannu mentrau diffiniedig yn y dyfodol neu i gwrdd â risg neu ymrwymiadau gaiff eu hadnabod.

**CIPFA (Chartered Institute of Public Finance and Accounting)** – Sefydliad proffesiynol ar gyfer cyfrifwyr sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus.

**Cost Gwasanaeth Cyfredol** – Cynnydd yng ngwerth cyfredol ymrwymiadau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a ddisgwylir i godi o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

**Credydwyr -** Symiau yn ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, sydd â thaliadau heb eu gwneud erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

**Cronfa Gyffredinol -** Prif gronfa refeniw'r Cyd-Bwyllgor sydd yn cynnwys cost net yr holl wasanaethau a ariennir gan drethdalwyr lleol a grantiau'r Llywodraeth.

**Cynllun Buddiannau Diffiniedig** – Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall sydd ddim yn gynllun cyfraniad diffiniedig.

**Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig -** Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall lle gwelir gweithiwr yn cyfrannu symiau penodol rheolaidd fel swm neu ganran o'r cyflog, a ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu cyfraniadau pellach petai'r cynllun ddim ag asedau digonol i dalu buddion i'r holl weithwyr mewn perthynas â gwasanaeth y gweithiwr yn y cyfnod presennol a blaenorol.

**Dyledwyr -** Symiau yn ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, o fewn y cyfnod cyfrifo, sydd â thaliadau heb eu derbyn erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

**Eiddo Buddsoddi** – Eiddo a ddelir unai ar gyfer ennill incwm rhent neu ar gyfer gwerthfawrogiad cyfalaf, neu'r ddau.

**Enillion a Cholledion Actiwaraidd -** Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, mae y newidiadau mewn gwarged actiwaraidd sydd yn codi oherwydd bod digwyddiadau heb gyd-daro gyda rhagdybiaeth actiwaraidd a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profiad enillion a cholledion) neu bod y rhagdybiaethau actiwaraidd wedi newid.

**Gwariant Cyfalaf -** Gwariant caffael ar ased anghyfredol, a gaiff ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaeth tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo neu wariant sydd yn cyfrannu, a ddim yn unig yn cynnal, at werth ased anghyfredol.

**Gwerth Teg -** Y pris a dderbynnir i werthu ased, neu a delir i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranwyr i'r farchnad ar ddyddiad y mesuriad.

**Offerynnau Ariannol -** Unrhyw gytundeb sydd yn cynyddu ased un endid ac ymrwymiadau ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymiadau ariannol, o fasnach dderbyniadwy (anfoneb dyledus) a masnach daladwy (anfoneb sy'n ddyledus i'w talu) i ddeilliadau cymhleth a deilliadau wedi eu mewnblannu.

**Partïon Cysylltiedig -** Caiff partïon eu hystyried i fod yn gysylltiedig os oes gan un parti'r gallu i reoli'r parti arall neu gyda dylanwad sylweddol penodol dros y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

**Rhestr Eiddo** – Niferoedd stoc heb eu defnyddio sy'n cael eu dal gyda'r disgwyliad o'u defnyddio yn y dyfodol. Fe gawn eu categoreiddio fel nwyddau neu asedau eraill a brynwyd i'w gwerthu ymlaen, nwyddau traul, defnydd crai a chyfansoddion, nwyddau a gwasanaeth mewn camau canolog rhwng cwblhad a gorffenedig.

**Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh)** – Cyfres o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Rhaid iddynt gael eu gweithredu ar bob datganiad cyllidol gan bob endid sy'n adrodd i bob datganiad cyllidol er mwyn darparu darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr endid, ac fel ffordd i gysoni a chymharu gyda datganiadau cyllidol endidau eraill.

**Ymrwymiadau** – Symiau sydd yn ddyledus i unigolion / sefydliadau y bydd yn rhaid eu talu rhywbryd yn y dyfodol.

**Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Gwynedd**

**Barn ar y datganiadau ariannol**
Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyd-bwyllgor GwE yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Daflen Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2025 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

**Sail y farn**
Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o ddatganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o Gyd-bwyllgor GwE yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

**Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol**
Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Nodaf fod Cyd-bwyllgor GwE wedi rhoi'r gorau i weithredu'n ffurfiol ar 31 Mai 2025, gyda'i swyddogaethau a'i wasanaethau wedi'u trosglwyddo i'r chwe awdurdod lleol cyfansoddol. Yn unol â Nodyn Ymarfer 10, mae'r dull darparu gwasanaeth parhaus yn berthnasol yng nghyd-destun y sector cyhoeddus, lle mae'r sail busnes gweithredol yn parhau'n briodol os disgwylir i'r gwasanaethau sylfaenol barhau, hyd yn oed os yw'r endid ei hun yn rhoi'r gorau i weithredu.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**
Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y

datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gyd-Bwyllgor GwE a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi, os, yn fy marn i:

- Nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

**Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol**

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon sy'n rhoi darlun gwir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Cyd-bwyllgor GwE i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cyd-bwyllgor yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cydbwyllgor GwE sy'n ymwneud ag:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial am dwyll o ganlyniad i wrthwneud rheolaethau gan reolwyr;
- cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cyd-bwyllgor GwE, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyd-bwyllgor GwE yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau; a
- chael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a
ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr ac y Cyd-bwyllgor GwE ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau y Cyd-bwyllgor GwE, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

**Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd**

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

**Tystysgrif cwblhau'r archwiliad**

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-bwyllgor GwE yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
19 Tachwedd 2025

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cyd-Bwyllgor GwE

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 5110A2025



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | 2 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Cipolwg ar eich archwiliad | 5 |
| Perthnasedd | 6 |
| Canfyddiadau Archwilio | 7 |
| Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol | 9 |
| Atodiad 1 – Risgiau archwilio a’r canlyniadau | 10 |
| Atodiad 2 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed | 16 |
| Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig | 18 |
| Atodiad 4 – Llythyr sylwadau | 24 |
| Ansawdd archwilio | 27 |
| Eich cefnogi chi | 28 |

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru'n derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon nac unrhyw ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cyflwyniad



**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae’n dda gennyf rannu fy Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Cyfrifon. Mae’r Adroddiad yn crynhoi prif ganfyddiadau fy archwiliad o’ch cyfrifon ar gyfer 2024-25. Mae fy nhîm eisoes wedi trafod y canfyddiadau hyn gyda Dirprwy Bennaeth Cyllid, Cyfrifeg a Phensiynau.

Mae fy nhîm wedi cwblhau y gwaith archwilio i raddau helaeth yn unol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio dyddiedig Mai 2025.

Ers fy Nghynllun Archwilio, rwyf wedi diweddaru perthnasedd i adlewyrchu cyfrifon 2024-25. Nid wyf wedi adnabod unrhyw risgiau archwilio newydd. Caiff fy ymateb i risgiau a adnabuwyd yn flaenorol ei nodi yn **Atodiad 1.**

Mae’n ofynnol i mi ddarparu barn pa un a yw’r cyfrifon wedi cael eu paratoi’n briodol, a pha un a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg, ym mhob agwedd berthnasol . Caiff fy marn archwilio arfaethedig a’r sail drosti ei hamlinellu ar dudalen 18.

Cyfrifoldeb y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu, sef Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cyngor Gwynedd yw mynd i’r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn fy adroddiad a darparu Llythyr Sylwadau ar fy nghyfer.

Hoffwn estyn fy niolchgarwch i swyddogion a staff Cyd-Bwyllgor GwE am eu cydweithrediad trwy gydol y broses archwilio sydd wedi bod yn amhrisiadwy i allu cwblhau’r archwiliad hwn yn effeithiol.

# Cipolwg ar eich archwiliad

Rydym yn bwriadu cyhoeddi **barn ddiamod** ar y cyfrifon

Gweler **Atodiad 4**

Nid oes **materion arwyddocaol eraill** i'w nodi

Gweler y **Canfyddiadau archwilio**

Nid oes unrhyw **gamddatganiadau heb eu cywiro** yn y cyfrifon yr ydym yn dymuno eu dwyn i'ch sylw

Gweler y **Canfyddiadau archwilio**

Rydym yn anelu at ardystio eich cyfrifon ar 19 Tachwedd 2025, yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cyngor Gwynedd ar 13 Tachwedd 2025. Mae hyn yn disgyn ar ôl y dyddiad cau statudol o 31 Hydref, na ellid ei gyflawni oherwydd amseriad cyfarfod y Pwyllgor.

# Perthnasedd

Rwy’n defnyddio barn proffesiynol i bennu trothwy perthnasedd i adnabod a chywiro camddatganiadau a allai effeithio ar benderfyniadau defnyddwyr, gan ystyried gwallau ariannol a gofynion datgelu yn ôl y fframwaith cyfrifyddu a’r cyfreithiau perthnasol. Mae fy nhîm yn diweddaru perthnasedd trwy gydol yr archwiliad ac yn yr adroddiad hwn rwy’n cynnwys materion sy’n mynd y tu hwnt i’m trothwy adrodd, a nodir isod.

**Perthnasedd**

Pennwyd lefel perthnasedd o 2% o wariant gros yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol drafft 2024-25.

**£199,000**

**Trothwy adrodd (dibwys)**

Pennwyd lefel perthnasedd o 5%.

**£10,000**

Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon. Rydym yn cadarnhau lefelau perthnasedd is ar gyfer y rhain:

**Cydnabyddiaeth uwch swyddogion**

£1,000

**Datgeliadau partïon cysylltiedig (unigolion)**

£10,000

# Canfyddiadau Archwilio

## Camddatganiadau

Mae camddatganiad yn codi lle nad yw gwybodaeth yn y cyfrifon yn unol â safonau cyfrifeg.

### Camddatganiadau nas cywirwyd

Nid oes unrhyw camddatganiadau nas cywirwyd.

### Camddatganiadau a gywirwyd

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom rhai gamddatganiadau sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni.

Caiff y rhain eu nodi yn **Atodiad 2**.

## Materion arwyddocaol eraill

Mae'r Safon Ryngwladol ar Gyfrifyddu 260 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Rhaid i ni roi gwybod i chi am ganfyddiadau arwyddocaol o'r archwiliad a materion eraill os ydynt yn arwyddocaol i'ch goruchwyliaeth chi ar broses adrodd ariannol y Cyd-Bwyllgor.

Nid chanfuwyd unrhyw faterion o'r fath yn ystod yr archwiliad.

## Ystyriaethau pellach ar gyfer 2025–26

Byddwn yn cydweithio â Chyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletyol ar gyfer y Cyd-bwyllgor, yn ogystal â'r sector ehangach, i adolygu ein huchelgais o symud y dyddiad cau ar gyfer yr archwiliad ymlaen i fis Medi 2026, fel rhan o broses archwilio cyfrifon 2025–26. Er mwyn cyrraedd y terfyn amser hwn, bydd yn hanfodol bod y cyfrifon a'r datganiad llywodraethu blynyddol yn cael eu cyflwyno'n brydlon, eu bod o ansawdd uchel ac yn cael eu cefnogi'n llawn – gyda'r holl bapurau gwaith ar gael ac wedi'u hasesu o ran ansawdd ar ddechrau'r archwiliad – a bod staff ar gael drwy gydol ffenestr yr archwiliad i sicrhau bod ymholiadau archwilio'n cael eu datrys yn brydlon.

Derbyniwyd y datganiadau ariannol drafft erbyn y dyddiad cau a gytunwyd, sef 30 Mehefin, a pharatowyd y phapurau gwaith yn barod ar gyfer dechrau’r broses archwilio. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gallai’r gostyngiad arfaethedig yn y ffenestr ar gyfer paratoi’r cyfrifon a’r archwiliad y flwyddyn nesaf greu heriau wrth geisio cyrraedd y terfynau amser yn y dyfodol.

## Barn archwilio arfaethedig

### Barn archwilio

Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch chi wedi darparu Llythyr Sylwadau ar ein cyfer (gweler isod).

Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 3**.

### Llythyr sylwadau

Llythyr ffurfiol yw Llythyr Sylwadau ac ynddo rydych yn cadarnhau wrthym ni bod yr wybodaeth a ddarparwyd ar ein cyfer yn ystod yr archwiliad yn gywir ac yn gyflawn. Mae peth o’r wybodaeth hon yn ofynnol yn ôl safonau archwilio; gall gwybodaeth arall ymwneud yn benodol â’ch archwiliad chi.

Mae’r llythyr yr ydym yn gofyn i chi ei lofnodi wedi’i gynnwys yn **Atodiad 4.** Mae ei gynnwys yn gyson â’n cais safonol am sylwadau.

# Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol

Mae prif aelodau fy nhîm a wnaeth y gwaith archwilio, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: fy nhîm archwilio lleol**

| | |
|---|---|
| **Arweinydd Ymgysylltu** | Matthew Edwards<br>matthew.edwards@audit.wales mailto: |
| **Rheolwr Archwilio** | Yvonne Thomas<br>yvonne.thomas@audit.wales |
| **Uwch-Archwilydd** | Siwan Glyn<br>siwan.glyn@audit.wales |

## Cydymffurfio â safonau moesegol

Rydym yn cadarnhau:

- ein bod wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol y mae'n ofynnol i ni eu dilyn wrth wneud ein gwaith;
- ein bod wedi aros yn annibynnol oddi arnoch chi;
- nad yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu; ac
- nad oes gennym unrhyw berthnasoedd a allai danseilio ein hannibyniaeth neu ein gwrthrychedd.

Gweithredwyd y mesurau diogelu a nodwyd yn y Cynllun Archwilio mewn perthynas ag adnabyddiaeth y Rheolwr Archwilio â swyddog o'r Cyd-Bwyllgor yn briodol er mwyn lliniaru unrhyw wrthdaro buddiannau posibl.

# Atodiad 1 – Risgiau archwilio a'r canlyniadau

Roedd fy Nghynllun Archwilio'n nodi'r risgiau o gamddatganiad perthnasol ar gyfer yr archwiliad o gyfrifon Cyd-Bwyllgor GwE. Mae **Arddangosyn 2** yn rhestru'r risgiau archwilio hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad. Nid adnabuwyd unrhyw risgiau archwilio ychwanegol ers hynny y mae angen eu dwyn i'ch sylw.

**Arddangosyn 2: risgiau archwilio a adroddwyd yn flaenorol, gwaith a wnaed a'r canlyniad**

| Risg archwilio | Gwaith a wnaed | Canlyniad |
|---|---|---|
| **Risg o wrthwneud gan reolwyr**<br>Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.32-33]. | Fe wnaeth y tîm archwilio:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer tuedd; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg sy'n sail i unrhyw drafodiadau sylweddol y tu allan i'r trywydd busnes arferol. | Ni chanfuwyd yn fy ngwaith unrhyw achosion o wrthwneud rheolaethau gan reolwyr. |

**Prisio rhwymedigaeth net/gwarged cronfa bensiwn**

Mae rhwymedigaeth cronfa bensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) fel y'i hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrifon perthnasol.

Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn destun lefel uchel o ansicrwydd amcangyfrif gan ei fod yn sensitif i addasiadau bach yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth ei gyfrifo.

Mae effaith amodau economaidd, yn enwedig lefelau cyfraddau llog hefyd yn cael effaith sylweddol ar y rhwymedigaeth, er enghraifft, ar 31 Mawrth 2024, roedd y rhwymedigaeth yn warged mewn gwirionedd, yn bennaf oherwydd cyfraddau llog uwch.

Mae yna hefyd nifer o achosion cyfreithiol a allai effeithio ar brisiad rhwymedigaeth net.

Mae risg felly bod y rhwymedigaeth /gwarged yn cael ei gam-ddatgan yn faterol.

Fe wnaeth y tîm archwilio:

- werthuso'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan reolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;
- asesu cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiadau;
- asesu cywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth a ddarperir gan yr Awdurdod i'r actiwari i amcangyfrif y rhwymedigaeth;
- profi cywirdeb rhwymedigaeth net a datgeliadau’r gronfa bensiwn yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraidd oddi wrth yr actiwari;
- asesu pa mor rhesymol yw'r rhagdybiaethau a wnaed gan yr actiwari drwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) a chynnal unrhyw weithdrefnau ychwanegol sy'n ofynnol; ac
- asesu pa un a allai unrhyw achosion cyfreithiol gael effaith perthnasol ar y rhwymedigaeth net, ac os felly, cadarnhau bod hyn wedi cael ei gydnabod a'i

Ni chanfuwyd unrhyw faterion yn fy ngwaith archwilio mewn perthynas â phrisiad y pensiwn. Gweler Atodiad 2 am fy nghanfyddiadau ynghylch cyflwyniad y prisiad pensiwn.

| | | |
|---|---|---|
| | ddatgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol. | |
| **Taliadau pecyn ymadael i aelodau'r Uwch Dîm Rheoli sy'n gadael**<br>Mae diddymu'r Cyd-bwyllgor ar 31 Mai 2025 wedi arwain at ailstrwythuro'r Uwch Dîm Rheoli gan arwain at ymadawiad uwch swyddogion yn ystod y flwyddyn. Mae hwn yn cael ei ystyried yn faes sensitif ar gyfer datgeliadau a allai arwain at gamddatganiad materol oherwydd y trothwy perthnasedd is a gymhwysir i gydnabyddiaeth uwch swyddogion (fel y nodwyd uchod) a allai arwain at ddiffyg cydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol. | Fe wnaeth y tîm archwilio:<br>• sicrhau bod y gydnabyddiaeth a ddatgelir yn gyson â thystiolaeth ategol; a<br>• sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn yn seiliedig ar wybodaeth y tîm ac yn cael eu paratoi yn unol â'r gofynion. | Ni chanfuwyd unrhyw faterion yn fy ngwaith archwilio mewn perthynas â’r datgeliadau o daliadau ymadael. |

| | | |
|---|---|---|
| **Tâl Uwch Swyddogion**<br>Mae'r gydnabyddiaeth a delir i uwch swyddogion yn parhau i fod o ddiddordeb uchel ac yn faterol wrth ei natur. Mae risg nad yw newidiadau yn yr Uwch Dîm Rheoli yn dilyn yr ailstrwythuro yn cael eu datgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol a gallai hyd yn oed gwallau gwerth isel wrth ddatgelu tâl arwain at gamddatganiad sylweddol. | Fe wnaeth y tîm archwilio<br>• deall y symudiadau yn yr uwch dîm rheoli yn ystod 2024-25;<br>• sicrhau bod y gydnabyddiaeth a ddatgelir yn gyson â thystiolaeth ategol; a<br>• sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn yn seiliedig ar wybodaeth y tîm ac yn cael eu paratoi yn unol â'r gofynion. | Gweler Atodiad 2 am fanylion fy nghanfyddiadau mewn perthynas â chyflog uwch swyddogion. |
| **Gweithredu’r Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IFRS) 16 – Prydlesi**<br>Mae'n ofynnol i gyrff Llywodraeth Leol fabwysiadu SAAR 16 Lesoedd o 1 Ebrill 2024 ymlaen.<br>Mae hyn yn newid yn sylweddol y driniaeth a'r datgeliadau cyfrifyddu sy'n ofynnol ar gyfer asedau ar les ac mae'n golygu y bydd y rhan fwyaf o lesoedd yn arwain at ased a rhwymedigaeth ar fantolenni.<br>Mae risg nad yw gofynion SAAR yn cael eu mabwysiadu'n briodol ac o ganlyniad mae'r datganiadau ariannol yn cael eu cam-ddatgan yn faterol. | Cadarnhaodd ein canfyddiadau nad oedd y corff yn dal unrhyw gontractau prydlesu yn ei enw ei hun. Yn hytrach, roedd yr holl drefniadau prydlesu perthnasol wedi’u dal yn enw’r awdurdod lletyol. O ganlyniad, nid oedd gofyniad i’r corff gynnwys nodyn cysylltiedig â phrydlesi o dan IFRS 16 yn ei ddatganiadau ariannol. | Ni chanfuwyd unrhyw faterion yn fy ngwaith archwilio mewn perthynas â’r datgeliadau o dan IFRS 16. |

| | | |
|---|---|---|
| **Datgeliadau partïon cysylltiedig**<br>Rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthnasoedd partïon cysylltiedig ynghyd â'r trafodion a'r balansau rhwng y Cyd-bwyllgor a'r corff/parti arall.<br>Mae gan y Cyd-bwyllgor lawer o berthnasoedd y gellid eu hystyried yn bartïon cysylltiedig. Mae llawer yn adnabyddus er enghraifft, er enghraifft,<br>Llywodraeth Cymru<br>fel cyllidwr.<br>Fodd bynnag, lle mae perthnasoedd partïon cysylltiedig yn codi trwy berthnasoedd swyddog neu aelod unigol, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder o ran y cysylltiadau hyn. Mae'r trafodiadau hyn o ddiddordeb mawr ac yn cael eu hystyried yn berthnasol o ran natur.<br>Mae perygl o gamddatganiad perthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed pan fo'r rhain o werth cymharol isel. | Fe wnaeth y tîm archwilio<br>• adolygu proses y rheolwyr ar gyfer nodi perthnasoedd partïon cysylltiedig a thrafodion a balansau cysylltiedig;<br>• ymgymryd â gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnrwydd perthnasoedd partïon cysylltiedig; a<br>• sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â'r Cod Llywodraeth Leol. | Ni chanfuwyd unrhyw faterion yn fy ngwaith archwilio mewn perthynas â'r datgeliadau partïon cysylltiedig. |

| | | |
|---|---|---|
| **Costau Diswyddo**<br>Mae diddymu'r Cyd-bwyllgor ar 31 Mai 2025 wedi arwain at ddiswyddo rhai staff ar 31 Mai 2025. Cymeradwywyd y rhain yn ystod 2024-25.<br><br>Bydd croniad ar gyfer costau amcangyfrifedig ar gyfer diswyddiadau ar 31 Mai 2025 yn cael ei ddatgelu yn natganiadau ariannol 2024-25. Mae risg o gamddatganiad materol gan fod gwerth y taliadau yn debygol o fod yn sylweddol. | Fe wnaeth y tîm archwilio:<br>• asesu rhesymoldeb y rhagdybiaethau a wnaed gan y Cyd-bwyllgor wrth gyfrifo'r croniad; a<br>• chynnal profion manwl ar sampl o drafodion. | Ni chanfuwyd unrhyw faterion yn fy ngwaith archwilio mewn perthynas â chostau diswyddo. |

# Atodiad 2 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi'u cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni.

| Gwerth y cywiriad | Maes yn y cyfrifon | Eglurhad |
| --- | --- | --- |
| Amryw | **Nodyn 17a Taliadau i Swyddogion**<br>Diweddarwyd y cyfraniadau cyflog a phensiwn ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth GwE i adlewyrchu'n gywir y tâl a dderbyniwyd o ddyddiad cychwyn cywir eu swyddi uwch. | Er mwyn sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol. |
| Datgeliad yn unig | **Nodyn 22 Cost Pensiynau**<br>Nid oedd y ffigurau asedau a rhwymedigaethau a gyflwynwyd mewn perthynas â'r nenfwd ased yn cyfateb yn gywir i'r ffigwr net (rhwymedigaeth)/ased a adroddwyd, gan arwain at wall traws-gastio. Gan nad yw Cod Ymarfer CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu gydrannau asedau a rhwymedigaethau ar wahân, cytunwyd i symleiddio'r cyflwyniad trwy ddatgelu'r sefyllfa net yn unig, a thrwy hynny ddatrys yr anghysondeb. | Er mwyn sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol. |

| | | |
|---|---|---|
| £147,000 | **Nodyn 16 Datganiad llif arian: Addasiadau i'r gwarged neu diffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol**<br>Cafodd y symudiad yn y cyfrif absenoldebau cronedig ei gynnwys yn anghywir o fewn y llinell 'cynnydd/gostyngiad mewn credydwyr'. Yn unol â chanllawiau CIPFA, dylid datgelu’r symudiad hwn ar wahân o dan ‘Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gwarged neu diffyg net ar ddarparu gwasanaethau’. | Er mwyn sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol. |
| Bu hefyd nifer fach o newidiadau mân i’r naratif a’r ffigyrau o ganlyniad i’n gwaith. | | |

# Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig

**Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Gwynedd**

**Barn ar y datganiadau ariannol**

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyd-bwyllgor GwE yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Daflen Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2025 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

**Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â’r gyfraith berthnasol a’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 ‘Archwiliad o ddatganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig’. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o’m hadroddiad sy’n nodi cyfrifoldebau’r archwilydd am archwilio’r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau’n annibynnol o Gyd-bwyllgor GwE yn unol â’r gofynion moesegol sy’n berthnasol i’m harchwiliad o’r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â’r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

**Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio’r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i’r casgliad bod defnyddio’r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol.

Nodaf fod Cyd-bwyllgor GwE wedi rhoi’r gorau i weithredu’n ffurfiol ar 31 Mai 2025, gyda’i swyddogaethau a’i wasanaethau wedi’u trosglwyddo i’r chwe awdurdod lleol cyfansoddol. Yn unol â Nodyn Ymarfer 10, mae’r dull darparu gwasanaeth parhaus yn berthnasol yng nghyd-destun y sector cyhoeddus, lle mae’r sail busnes gweithredol yn parhau’n briodol os disgwylir i’r gwasanaethau sylfaenol barhau, hyd yn oed os yw’r endid ei hun yn rhoi’r gorau i weithredu.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau’r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o’r adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy’n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw’r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â’r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o’r fath neu wybodaeth berthnasol o’r fath sy’n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae’n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr

wyf wedi’i wneud, os wyf yn dod i’r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi’i chamddatgan yn berthnasol, mae’n ofynnol i mi nodi’r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i’w nodi yn hyn o beth.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae’r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac yn unol â’r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25;
- mae’r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac yn unol â’r canllawiau.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gyd-Bwyllgor GwE a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi, os, yn fy marn i:

- Nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

**Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol**

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon y swyddog cyllid cyfrifol sy’n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon sy'n rhoi darlun gwir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;

- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Cyd-bwyllgor GwE i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cyd-bwyllgor yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau’r archwilydd ar gyfer archwilio’r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio’r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy’n dylunio gweithdrefnau yn unol â’m cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau’n cynnwys y canlynol:

- holi’r rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd a’r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyd-bwyllgor GwE sy’n ymwneud ag:
    - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i’r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd

  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial am dwyll o ganlyniad i wrthwneud rheolaethau gan reolwyr;
- cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cyd-bwyllgor GwE, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyd-bwyllgor GwE yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau; a
- chael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr ac y Cyd-bwyllgor GwE ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau y Cyd-bwyllgor GwE, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

**Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd**

Rwy’n cyfathrebu gyda’r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

**Tystysgrif cwblhau’r archwiliad**

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-bwyllgor GwE yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
19 Tachwedd 2025

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

# Atodiad 4 – Llythyr sylwadau

## Llythyr Sylwadau Terfynol

[Pennawd y corff a archwilir]

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd
CF10 4BZ

13 Tachwedd 2025

## Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2024-25

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyd-bwyllgor GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 at ddiben mynegi barn ar eu gwirionedd a'u tegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau'r rheolwyr

### Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol 2024-25; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg yn unol â hwy;
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

## Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:

  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy’n berthnasol i baratoi’r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad digyfyngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad ni o’r risg y gallai’r datganiadau ariannol fod wedi’u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni’n ymwybodol ohono ac sy’n effeithio ar Cyd-bwyllgor GwE ac sy’n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai’r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy’n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi’r datganiadau ariannol; a
- gwybodaeth am bwy yw’r holl bartïon cysylltiedig a’r holl berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae’r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe’u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae’r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a’u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy’n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu’n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae’r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol.

## Sylwadau gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cyngor Gwynedd

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cyngor Gwynedd ar 13 Tachwedd 2025.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:
Dewi Aeron Morgan
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

13 Tachwedd 2025

Llofnodwyd gan:
Carys Edwards
Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cyngor Gwynedd

13 Tachwedd 2025

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru’n un llwyr. Rydym ni’n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â chael pethau’n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwylio’r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel dolen gyswllt i’n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2024.

### Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu

### Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Platfform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol

### Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y broblem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

# Eich cefnogi chi

Mae gan Archwilio Cymru ystod o adnoddau i roi cymorth i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

**Ewch at ein gwefan i ganfod:**

Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.

Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.

Offer data i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau mewn gwariant cyhoeddus.

Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arfer a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.

Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

**Cyllid / Finance**
Pennaeth Cyllid / Head of Finance: Dewi Morgan

## Llythyr Sylwadau Terfynol

Gofynnwch am/Ask for: Dewi Morgan
☎ (01286) 682684
🖃 dewiaeronmorgan@gwynedd.llyw.cymru
Ein Cyf / Our Ref: DAM/NJOM
Eich Cyf / Your Ref:

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd
CF10 4BZ

13 Tachwedd 2025

## Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2024-25

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyd-bwyllgor GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 at ddiben mynegi barn ar eu gwirionedd a'u tegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau'r rheolwyr

### Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol 2024-25; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg yn unol â hwy;
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

## Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad digyfyngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Cyd-bwyllgor GwE ac sy'n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol; a
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol.

## Sylwadau gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cyngor Gwynedd

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cyngor Gwynedd ar 13 Tachwedd 2025.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:
Dewi Aeron Morgan
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

13 Tachwedd 2025

Llofnodwyd gan:
Carys Edwards
Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cyngor Gwynedd

13 Tachwedd 2025

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **13 TACHWEDD 2025** |
| TEITL: | **CYLLIDEB REFENIW 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2025** |
| PWRPAS: | **Adroddiad Monitro ar y Sefyllfa Ariannol Ddiweddaraf** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu'r penderfyniadau i'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD HUW WYN JONES** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **FFION MADOG EVANS, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL** |

---

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

**2.** Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Cyllideb Refeniw 2025/26 – Adolygiad Diwedd Awst 2025) i'r Cabinet ar 11 Tachwedd 2025.

**3.** Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w graffu.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau i'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

**Atodiadau:**
Adroddiad Cabinet 11/11/2025: Cyllideb Refeniw 2025/26 – Adolygiad Diwedd Awst 2025

## CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Cyllideb Refeniw 2025/26 – Adolygiad Diwedd Awst 2025 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid |
| **Swyddog perthnasol:** | Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol<br>- Cyfrifeg a Phensiynau |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 11 Tachwedd 2025 |

**1. Penderfyniad a geisir**

Fod y Cabinet yn:

**1.1** Cymeradwyo cymorth ariannol ychwanegol uwchlaw'r taliad cytundebol sydd yn amcanu i fod yn £219k i Gwmni Byw'n Iach i'w gyllido o'r gronfa trawsffurfio, gan ddirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet dros Economi mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet Cyllid, Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i gytuno ar swm y gefnogaeth ariannol derfynol uwchlaw y tâl cytundebol gyda Byw'n Iach ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**1.2** Gofyn i'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Amgylchedd gyflwyno adroddiad pellach ar yr opsiynau posib ar gyfer ariannu'r costau o ddiogelu/dymchwel adeilad y Corbett Arms yn Nhywyn.

**1.3** Cymeradwyo trosglwyddiad o £3.757 miliwn o danwariant ar gyllidebau corfforaethol i Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor, gyda'i ddefnydd i'w ystyried cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

**1.4** Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol fel yr amlinellir yn **Atodiad 3** yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, gan ddileu gwerth £576k o falansau negyddol ar gronfeydd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant sef £300k a'r Adran Plant a Theuluoedd £276k, yn dilyn i'r adrannau fethu cyflawni gwasanaethau o fewn eu cyllideb dros y tair blynedd ddiwethaf.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad**

**2.1** Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio rhoi tafluniad o'n sefyllfa refeniw erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Felly mae'r symiau a nodir isod yn amcan o'r hyn a ragwelwn erbyn Mawrth 2026 ac nid symiau sy'n cynrychioli gorwariant heddiw.

**2.2** Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

### Cefndir / Cyflwyniad

**3.1** Cyflwynir yr adroddiad ar yr adolygiad diweddaraf diwedd Awst o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2025/26, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Mae'r rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd gan bump o'r adrannau ddiffyg cyllideb erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagwelir y prif ddiffyg yn:

- Oedolion, Iechyd a Llesiant – Gofal Cartref a Chartrefi Preswyl
- Adran Amgylchedd – Gwastraff
- Adran Plant a Theuluoedd – lleoliadau all sirol, Derwen ac Ôl 16
- Adran Tai ac Eiddo - Digartrefedd
- Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC – llai o incwm na'r disgwyl ar yr ochr priffyrdd

**3.2** Isod, ac yn **Atodiad 2,** rhoddir manylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau ble rhagwelir diffyg cyllideb , ynghyd ag argymhellion penodol lle'n briodol.

## 4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

### Sefyllfa Arbedion

**4.1** Yn adroddiad Cyllideb 2025/26 i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2025, adroddwyd fod arbedion gwerth £3.5 miliwn wedi eu proffilio ar gyfer cyllideb 2025/26. Mae'r cyllidebau wedi eu lleihau o'r swm yma; ac felly adroddir ar y sefyllfa yn dilyn ystyriaeth o'r arbedion.

**4.2** Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi adrodd ar risgiau i gyflawni arbedion. O ran y cynlluniau sydd yn weddill, mae yna risgiau o ran gwireddu rhai o'r cynlluniau.

**4.3** Y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr arbedion yw bod bron i £46 miliwn, sef 92% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu.

## 5. Adrannau'r Cyngor

### 5.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Ceir sefyllfa gymysg ar gyfer cyllideb 2025/26 gyda gwerth dros £3 miliwn o arian parhaol ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r Adran tra bod y gyllideb ar yr un pryd wedi ei lleihau gan doriadau o dros £1m eleni ynghyd â £500k o arbedion hanesyddol dynnwyd o'r gyllideb ond na wireddwyd hyd yn hyn (cyfanswm arbedion o £1.5m). Awgryma'r rhagolygon diweddaraf pe na fyddai newid mewn gweithredu yn ystod y flwyddyn hon y byddai diffyg cyllideb o £3.1m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Cynyddodd y galw am wasanaethau gofal preswyl gyda 29 preswylydd ychwanegol mewn cartrefi preifat, yn rhannol oherwydd heriau staffio yn y cartrefi preswyl mewnol a arweinia at leihad yn y gwelyau sydd ar gael, gan gynyddu'r costau'n sylweddol. Bu cynnydd annisgwyl ac anarferol yn y nifer (12 ers Tachwedd 2024) o unigolion sydd angen gofal preswyl oherwydd materion iechyd meddwl ac mae hynny'n ychwanegu at y galw.

Yn ychwanegol at hynny bu cynnydd costau cartrefi preswyl arwyddocaol yn sgil y cynnydd yng nghostau yswiriant cenedlaethol i'r darparwyr gofal. Yn yr un modd gwelir darpariaeth gofal cartref yn costio uwchlaw'r gyllideb a hynny yn dangos costau ychwanegol yr ymdrechion i ddarparu gofal mewn ardaloedd lle nad oes gwasanaeth hawdd i'w gael. Gwelodd y gwasanaeth gofal cartref mewnol gostau ychwanegol o tua chwarter miliwn yn sgil cynnydd yn y cyfraddau salwch diweddar. Mae'r Adran yn ymrwymedig i leihau'r costau hyn, a'r gorwariant yn sgil hynny, yn ystod y flwyddyn hon.

### 5.2 Adran Plant a Theuluoedd

Dyrannwyd cynnydd yng nghyllideb yr Adran ar gyfer 2025/26 o £2.175 miliwn. Ceir sawl achos ychwanegol lle mae unigolion angen gofal arbenigol tu allan i'r sir a'r gofal hwnnw yn gostus; hefyd gwelir cynnydd yn y ddarpariaeth am ofal i blant ag anableddau yn y sir drwy wasanaethau Derwen a Hafan y Sêr; ac o'r herwydd rhagwelir y bydd diffyg cyllideb oddeutu £1.5 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol os na fydd newid yn yr hyn ddarperir yn ystod y flwyddyn.

### 5.3 Adran Addysg

Rhagwelir tanwariant o (£20k) gan yr Adran Addysg. Yn dilyn gorwariant sylweddol ar y maes cludiant ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf, bu i'r maes dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol o £896k ar sail barhaol a £939k pellach am flwyddyn yn unig, i gyfarch y pwysau ar y maes bysus a thacsis ysgolion. Bu gwelliant yn y darlun maes cludiant ac felly mae modd cwtogi'r cyfraniad un tro i £639k yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf.

**5.4 Byw'n Iach**

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cwmni Byw'n Iach wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan y Cyngor oedd yn £550k yn 2022/23, £308k yn 2023/24 ac yn £281k yn 2024/25, oedd uwchlaw'r taliad cytundebol y contract ddarparu, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Rhagwelir fod y galw am gefnogaeth ariannol yn parhau yn 2025/26 gyda'r swm gofynnol yn £219k erbyn diwedd y flwyddyn. Byddwn yn cynnal trafodaethau pellach gyda'r cwmni cyn sefydlu os yw'n briodol i'r Cyngor roi cefnogaeth ariannol eto eleni.

**5.5 Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC**

Rhagwelir diffyg cyllideb o £522k gan yr adran erbyn diwedd y flwyddyn. Gwelwyd lleihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol sydd yn cael effaith negyddol ar incwm gwasanaethau priffyrdd. Mae'r adran yn ddarbodus wrth geisio rhagamcanu gwariant fydd yn codi wrth ymateb i stormydd a thywydd garw. Mae gwariant ar ymateb tywydd garw yn rhan o weithredu blynyddol yr Adran erbyn hyn ac fe ymgeisir i ymdopi gyda'r gwariant drwy waith rhaglenedig yn y man cyntaf, ond dros y 3 blynedd diwethaf mae'r ymateb wedi bod uwchlaw'r rhaglenedig ac wedi arwain at orwariant. Yn y gwasanaeth Bwrdeistrefol, mae cyfuniad o ffactorau gan gynnwys pwysau ychwanegol ar gyllidebau staff glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus. Tra bod colledion incwm yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus.

**5.6 Adran Amgylchedd**

Rhagwelir diffyg cyllideb oddeutu 740K erbyn diwedd y flwyddyn. Y tueddiad blynyddol o orwariant yn y maes gwastraff yn parhau ac yn gyfrifol am £662k o'r gorwariant adrannol. Mae sawl cynllun ar y gweill gan yr Adran er mwyn mynd i'r afael â'r gorwariant hwn. Ar un adeg roedd y gorwariant yn £1.4M felly mae llawer wedi ei gyflawni dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Er mwyn gwneud y cam olaf bydd angen cwblhau ail strwythuro o'r Gwasanaeth gwastraff ac yna newidiadau gweithredol pellach.

Ymhellach i hyn, yn dilyn i Gyngor Gwynedd gyflawni cyfradd o 65.3% ar ailgylchu ar gyfer 2024/25 sydd islaw targed ailgylchu 70% Llywodraeth Cymru, mae risg i'r Cyngor dderbyn dirwy o £612k sydd yn ddarostyngedig i asesiad yn erbyn gwahanol feini prawf gan y Llywodraeth. Fodd bynnag, gan fod gennym gynllun ffurfiol mewn lle i geisio mynd i'r afael a chyrraedd y targed cenedlaethol, a'n bod yn cydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar hwnnw, credwn fod y risg o orfodi'r ddirwy arnom yn isel ac felly nid ydym wedi cynnwys y swm yma yn y tafluniad at ddiwedd y flwyddyn.

Derbyniwyd £3.7 miliwn o incwm newydd sydd yn deillio o ardoll ar ddeunyddiau pacio i gynhyrchwyr a mân-werthwyr, er mwyn hybu ailgylchu gan y cwmnïau sy'n creu'r gwastraff hwn. Pwrpas yr incwm yw gallu buddsoddi yn ein hisadeiledd ailgylchu, er yn dechnegol nid yw wedi ei gyfyngu i hynny yn unig. Am eleni, bydd rhaid defnyddio cyfran

gyntaf yr incwm hwn ar gyfer cyfarch unrhyw ddiffyg yng nghyllideb refeniw y gwasanaeth gwastraff cyn trosglwyddo’r gweddill i gronfa am y tro.

Byddwn angen rhoi ystyriaeth hefyd sut i ariannu costau diogelu a/neu ddymchwel adeilad Gwesty’r Corbett Arms yn Nhywyn dros yr wythnosau nesa. Mae’n adeilad rhestredig Gradd II, sydd wedi bod yn achos pryder i Gyngor Gwynedd a'r gymuned leol ers blynyddoedd gan ei fod mewn cyflwr strwythurol peryglus ac sydd wedi golygu fod y Cyngor wedi gorfod gweithredu er mwyn amddiffyn a diogelu'r cyhoedd. Mae posib i’r gost derfynol fod rhywle rhwng £1m a £1.5M. Ni all yr Adran ymdopi gyda’r fath wariant unwaith ac am byth yn ddirybudd o fewn eu cyllideb refeniw arferol ac felly bydd angen adroddiad ar wahân maes o law i ystyried pa opsiynau eraill sydd gennym i gyfarch y gost yma.

**5.7 Tai ac Eiddo**

Y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng yn parhau, gyda rhagolygon fod gwariant ar y maes am fod yn £6.7 miliwn eleni, hyn i gymharu â £6 miliwn y llynedd. Mae'r sefyllfa ariannol a adroddir yn dilyn ystyried cyllideb ychwanegol o £3m sydd wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor a hefyd cyllideb un-tro ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o'r drefn bidiau i gynorthwyo gyda'r pwysau cynyddol. Rhagwelir y bydd yr adran yn ei gyfanrwydd yn gorwario £167k, sydd yn gyfuniad o gostau uwch ar gyfer symud a storio eiddo personol aelwydydd sy’n derbyn llety argyfwng; cynnydd yn y nifer o unigolion sy’n cyflwyno’n ddigartref ac angen llety; a chynnydd ym mhris y noson ar gyfer llety argyfwng gan rai darparwyr.

**5.8 Corfforaethol**

Tanwariant o £3.8 miliwn ar benawdau corfforaethol o ganlyniad i gynnyrch treth ychwanegol a rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2025/26. Yn dilyn cadarnhad diweddar am setliad tâl cenedlaethol 2025/26, roedd y setliad yn is na’r hyn a ddarparwyd gennym yn ein cyllideb ar gyfer 25/26 ac yn ychwanegol i hyn bu i ni dderbyn grant tuag at dâl athrawon. Yn dilyn i Lywodraeth Cymru oedi ar gadarnhau eu cyfraniad tuag at gostau ychwanegol yswiriant gwladol cynghorau tan yr haf, erbyn hyn rydym wedi derbyn cadarnhad y bydd y Cyngor yn derbyn grant oedd yn uwch na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol.

**5.9 Cronfeydd**

Adolygwyd cronfeydd fel yr amlinellir yn **Atodiad 3**, yn dilyn i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a’r Adran Plant a Theuluoedd orwario dair blynedd yn olynol, golyga fod eu cronfeydd adrannol gyda balansau negyddol gwerth £576k. Awgrymir fod y balans yn cael ei ddileu i ganiatáu’r adrannau ganolbwyntio ar heriau 2025/26.

**6. Casgliad**

**6.1** Rhagwelir sefyllfa o wario £2.5 miliwn yn uwch na'r gyllideb sydd ar gael erbyn diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn gallu parhau i gyfarfod y galw cynyddol am wasanaethau gweddill y flwyddyn ar sail yr wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd. Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar ddiffyg cyllideb o £6.3 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn gan yr adrannau, gyda'r effaith yn cael ei liniaru gan y ffaith fod tanwariant tebygol o £3.8 miliwn ar gyllidebau corfforaethol

**7. Camau nesaf ac amserlen**

**7.1** Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet 20 Ionawr 2026 yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Tachwedd.

**8. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**8.1 Prif Swyddog Cyllid**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**8.2 Swyddog Monitro**
Dim sylwadau i'w hychwanegu os safbwynt priodoldeb.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau

Atodiad 2 - Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol

Atodiad 3 - Adolygiad o Gronfeydd

## Cyllideb Refeniw 2025/26 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Diwedd Awst | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Arfaethedig 2025/26 £'000 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26 £'000 | Addasiadau a Argymhellir £'000 | Amcan Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2025/26 £'000 |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | 84,181 | 3,133 | 0 | 3,133 |
| **Plant a Theuluoedd** | 26,548 | 1,561 | 0 | 1,561 |
| **Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal** | 3,163 | (93) | 0 | (93) |
| **Addysg** | 125,492 | (20) | 0 | (20) |
| **Economi a Chymuned** | 6,307 | 296 | (219) | 77 |
| **Priffyrdd, Peirianneg ac YGC** | 19,037 | 522 | 0 | 522 |
| **Amgylchedd** | 18,952 | 740 | 0 | 740 |
| **Tai ac Eiddo** | 12,389 | 167 | 0 | 167 |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | 2,937 | (21) | 0 | (21) |
| **Gwasanaethau Corfforaethol** | 8,473 | (6) | 0 | (6) |
| **Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** | 9,361 | (8) | 0 | (8) |
| **Cyllidebau Corfforaethol** *(Gwahaniaethau yn unig)* | * | (3,757) | 3,757 | 0 |
| **Cyfansymiau (net)** | 326,201 | 2,514 | 3,538 | 6,052 |

**CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Amcan Cyllideb 2025/26 | Amcan Sefyllfa 2025/26 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Rheolaeth | 598 | 536 | (62) | | (62) | (114) |
| Anabledd Dysgu | 31,213 | 31,402 | 189 | | 189 | (92) |
| Iechyd Meddwl | 6,076 | 6,636 | 560 | | 560 | (218) |
| Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 24,516 | 25,428 | 912 | | 912 | (750) |
| Gofal Cartref | 11,700 | 13,258 | 1,558 | | 1,558 | 2,125 |
| Anabledd Corff | 3,653 | 2,581 | (1,072) | | (1,072) | (1,214) |
| Taliadau Uniongyrchol | 2,194 | 2,011 | (183) | | (183) | (433) |
| Eraill | 3,057 | 3,147 | 90 | | 90 | 408 |
| | 45,120 | 46,425 | 1,305 | 0 | 1,305 | 136 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **83,007** | **84,999** | **1,992** | **0** | **1,992** | **(288)** |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | 26 | 1,073 | 1,047 | | 1,047 | 504 |
| Gofal Cartref | 1,147 | 1,251 | 104 | | 104 | 614 |
| Eraill | 1 | (9) | (10) | | (10) | 27 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **1,174** | **2,315** | **1,141** | **0** | **1,141** | **1,145** |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2024/25 | | | | | **0** | **(757)** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **84,181** | **87,314** | **3,133** | **0** | **3,133** | **100** |

**Oedolion, Iechyd a Llesiant**

Dyrannwyd gwerth dros £3.1 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r Adran ar gyfer cyllideb 2025/26 ymlaen. Awgryma'r rhagolygon diweddaraf pe na byddai newid mewn gweithredu yn ystod y flwyddyn hon y byddai diffyg cyllidebol o £3.1m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Rheolaeth yr Adran** - tanwariant ar y gyllideb gyfreithiol a throsiant staff.

**Anabledd Dysgu -** er y bu i'r gwasanaeth dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol o £400k yn 2025/26, nid yw'r cynlluniau arbedion newydd gwerth £735k yn cael eu gwireddu ac felly yn arwain at orwariant. Mae pwysau ar lety cefnogol ac ar y gwasanaeth preswyl yng nghartrefi'r Cyngor. Mae'r gwaith o adolygu pecynnau gofal yn parhau ac yn dwyn ffrwyth.

**Iechyd Meddwl -** er bod £177k o arian ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r maes yn 2025/26, rhagwelir diffyg cyllidebol o £693k ar yr elfen breswyl a nyrsio yn dilyn cynnydd annisgwyl ac anarferol yn y nifer gyda saith o achosion newydd yn ystod blwyddyn ariannol yma (12 ers Tachwedd 2024). Mae cynlluniau cefnogol a llety cefnogol yn tanwario ac felly yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

**Pobl Hŷn -** dyrannwyd £1.5 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r maes ar gyfer 2025/26, gyda £1.2 miliwn ohono i Ofal Cartref. Er hyn rhagwelir diffyg cyllidebol o £1.3 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn. Ym mhreswyl a nyrsio, cynyddodd y galw am wasanaethau gofal preswyl gyda 29 preswylydd ychwanegol mewn cartrefi preifat, yn rhannol oherwydd heriau staffio yn y cartrefi preswyl mewnol a arweinia at leihad yn y gwelyau sydd ar gael, gan gynyddu'r costau'n sylweddol. Yng Ngofal cartref, y costau £1.6 miliwn uwchlaw'r gyllideb o ganlyniad i gostau ychwanegol yr ymdrechion i ddarparu gofal mewn ardaloedd lle nad oes gwasanaeth hawdd i'w gael. Yn y maes anabledd corff, llai o alw am ofal cartref yn parhau. Yn 'Eraill', cynlluniau arbedion sydd eto i'w gwireddu.

**Gwasanaethau Darparu** - gorwariant staff yng ngofal preswyl yn cynnwys £755k o orwariant ar ddefnydd o staff asiantaeth. Cyllideb ychwanegol o £1 miliwn wedi ei fuddsoddi yn barhaol yng ngofal cartref yn 2025/26 ac felly lleihad yn y gorwariant a adroddir eleni, serch hynny costau staff uwchlaw'r gyllideb, gyda lefelau salwch a chyfraddau oriau di-gyswllt uchel.

**Arbedion** - o ran sefyllfa gwireddu arbedion yr adran, er bod cynnydd wedi bod mewn gwireddu arbedion mae gwerth £1.5 miliwn o arbedion eto ar ôl i'w gwireddu.

**CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Amcan Cyllideb 2025/26 | Amcan Sefyllfa 2025/26 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 708 | 825 | 117 | | 117 | (3) |
| Gweithredol | 3,075 | 3,450 | 375 | | 375 | 433 |
| Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 6,930 | 7,339 | 409 | | 409 | 2,107 |
| Cartrefi Grwpiau Bychan | 196 | 208 | 12 | | 12 | 28 |
| Maethu Drwy Asiant | 1,755 | 1,523 | (232) | | (232) | (427) |
| Maethu Mewnol | 3,120 | 3,138 | 18 | | 18 | (201) |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 2,211 | 2,429 | 218 | | 218 | 427 |
| | 14,212 | 14,637 | 425 | 0 | 425 | 1,934 |
| Ôl-16 | 1,779 | 2,008 | 229 | | 229 | 273 |
| Gwasanaeth Derwen | 3,662 | 4,177 | 515 | | 515 | 1,235 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 274 | 269 | (5) | | (5) | (41) |
| Blynyddoedd Cynnar | 156 | (15) | (171) | | (171) | (119) |
| Uned Datblygu'r Gweithlu | 311 | 311 | 0 | | 0 | 0 |
| Eraill | 2,371 | 2,447 | 76 | | 76 | 93 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2024/25 | | | 0 | | 0 | (3,705) |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **26,548** | **28,109** | **1,561** | **0** | **1,561** | **100** |

## Plant a Theuluoedd

Dyrannwyd gwerth £2.175 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r Adran ar gyfer cyllideb 2025/26. Er hyn, rhagwelir y bydd diffyg cyllideb yr adran yn £1.5 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Rheolaeth** - costau staffio ychwanegol un tro.

**Gweithredol** - er bod adnodd ychwanegol parhaol gwerth £365k wedi ei ddyrannu i'r maes ar gyfer 2025/26 ymlaen, mae'r tueddiad gorwariant yn parhau o ganlyniad i bwysau sylweddol ar gefnogaeth cynlluniau cefnogol ynghyd â staffio uwchlaw'r gyllideb gweithwyr maes.

**Lleoliadau** - er bod cynnydd yn y nifer cyfartalog lleoliadau all-sirol unwaith eto eleni i 37 (34.3 yn 2024/25, 32.5 yn 2023/24, 25.7 yn 2022/23), gan fod tri achos eithriadol mewn lleoliadau heb eu cofrestru eisoes wedi dod i ben eleni a thri pellach yn dod i ben cyn diwedd Hydref, golyga fod y costau wedi lleihau yn sylweddol gan eu bod yn costio £675k yr un ar gyfartaledd. Gwelwyd cost cyfartalog y lleoliadau eraill yn lleihau i £205k o'i gymharu â 2024/25.

Mae niferoedd cyfartalog Maethu drwy Asiant a Maethu Mewnol yn gyson â niferoedd 2024/25. Gwelwyd fod yr incwm gan y Swyddfa Gartref wedi lleihau ar gyfer y ceiswyr lloches heb rieni neu warcheidwaid sydd yn derbyn gwasanaeth. Yng nghefnogol ac eraill pwysau cynyddol ar y gyllideb gweithwyr cefnogol ac ar y gwasanaeth mabwysiadu gogledd Cymru.

**Cartrefi Grwpiau Bychan** - mae'r cartrefi wrthi'n cael eu sefydlu yng Ngwynedd gydag un cartref bellach yn weithredol, yr ail yn yr Hydref a'r trydydd yn Chwefror. Mae'r ddarpariaeth fewnol yma yn golygu y bydd modd lleoli plant yn fewnol yn hytrach nac efo darparwyr allanol all-sirol. Bu i'r Cyngor dderbyn grantiau i sefydlu'r cartrefi ynghyd â chyfraniad tuag at gostau rhedeg y cartrefi eleni.

**Ôl-16** - pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth gan gynnwys ar yr elfen ceiswyr lloches dros 18 oed, gan nad yw'r cyfraniad gan y Swyddfa Gartref yn ddigonol i gyfarch y costau. Staffio uwchlaw'r gyllideb gweithwyr cymdeithasol hefyd yn cyfrannu at y gorwariant.

**Derwen** - i ymateb i'r tueddiad gorwariant bu i Derwen dderbyn dyraniad adnoddau parhaol ychwanegol o £1 miliwn ar gyfer cyllideb 2025/26. Serch hyn, mae'r rhagolygon gorwariant yn £515k, gyda phwysau ar weithwyr cynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol.

**Blynyddoedd Cynnar** - trosiant staff a grantiau cynyddol ar gael i gyllido gwariant craidd wedi arwain at danwariant.

**Eraill** - nifer o ffactorau gan gynnwys gorwariant ar ffioedd gwasanaethau arbenigol ac ar y gwasanaeth tu allan i oriau.

**CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal | Amcan Cyllideb 2025/26 | Amcan Sefyllfa 2025/26 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26 | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cefnogaeth a Chomisiynu | 1,328 | 1,328 | 0 | | 0 | (77) |
| Incwm a Chyllid | 1,556 | 1,492 | (64) | | (64) | 83 |
| Gwasanaethau Ataliol | 279 | 250 | (29) | | (29) | (21) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2024/25 - peidio caniatáu cario tanwariant | | | 0 | | 0 | 15 |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal** | **3,163** | **3,070** | **(93)** | **0** | **(93)** | **0** |

## Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal

**Cefnogaeth a Chomisiynu -** staffio uwchlaw'r gyllideb ar Gynllun Gofalwyr yn cael ei wrthbwyso gan gwtogi ar wariant ar y gyllideb gwasanaeth proffesiynol a derbyniad grant yn yr Uned Ddatblygu.

**Incwm a Chyllid** - derbyniad grant tuag at amser staff ynghlwm â gwaith i weithredu meddalwedd achosion gofal ar hyd gogledd Cymru yw'r prif reswm am y tanwariant a ragwelir.

**Gwasanaeth Ataliol** - derbyniad grant ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau ataliol yn golygu bod tanwariant yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Addysg** | Amcan Cyllideb 2025/26 | Amcan Sefyllfa 2025/26 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 2,516 | 2,564 | 48 | | 48 | 33 |
| Ysgolion Datganoledig | 105,017 | 105,017 | 0 | | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion | (2,205) | (2,226) | (21) | | (21) | (43) |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol | | | | | | |
| Cludiant | 8,380 | 8,380 | 0 | | 0 | 0 |
| Gwasanaeth Atodol | 1,087 | 1,000 | (87) | | (87) | (182) |
| Eraill | 4,208 | 4,268 | 60 | | 60 | (18) |
| | 13,675 | 13,648 | (27) | 0 | (27) | (200) |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 5,477 | 5,449 | (28) | | (28) | 24 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | 1,012 | 1,020 | 8 | | 8 | (5) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2024/25 - peidio caniatáu cario tanwariant | | | 0 | | 0 | 191 |
| **Cyfanswm Addysg** | **125,492** | **125,472** | **(20)** | **0** | **(20)** | **0** |

## Addysg

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth -** gwariant un tro ar system rheoli gwybodaeth newydd ar gyfer yr ysgolion.

**Gwasanaeth Ansawdd Ysgolion** - cyfnod trosianol i'r gwasanaeth newydd gyda swyddi gwag ond fod pwysau ar y gyllideb cyfundrefn drochi.

**Cludiant -** yn dilyn gorwariant sylweddol yn y maes dros y blynyddoedd diwethaf, dyranwyd cyllideb o £896k ar sail barhaol a £939k pellach am flwyddyn yn unig i gyfarch y pwysau ar y maes bysus a thacsis ysgolion. Yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf mae modd cwtogi'r cyfraniad un tro i £639k, felly adroddir ar sefyllfa ariannol gytbwys.

Mae'r maes cludiant yn parhau i fod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, fel bod modd ceisio lleihau'r gorwariant a manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol** - rhagolygon o incwm uwch a chostau is ar gyfer arlwyaeth yn dilyn derbyniad grant ar gyfer cinio ysgol am ddim ysgolion cynradd. Gorwariant ar gostau staff oherwydd salwch yn faterion yn glanhau a gofalu ysgolion. Yr elfen gofal o'r clybiau brecwast hefyd yn parhau i orwario £89k o ganlyniad i gostau staff uwch a diffyg incwm.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill** - costau un tro sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gyllidebau eraill.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o drosiant staff a derbyniad grant ond pwysau ar benawdau amrywiol eraill. Mae'r amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol bellach wedi dod i ben ac yn gyfrifol am orwariant o £66k.

**Gwasanaeth Ieuenctid** - gwariant uwch mewn nifer o feysydd gan gynnwys Cymorth Ieuenctid a Chlybiau Ieuenctid.

**CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Economi a Chymuned** | Amcan Cyllideb 2025/26 | Amcan Sefyllfa 2025/26 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 407 | 403 | (4) | | (4) | (269) |
| Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau | 644 | 644 | 0 | | 0 | 113 |
| Morwrol a Pharciau Gwledig | (138) | (112) | 26 | | 26 | 195 |
| Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill | 2,194 | 2,527 | 333 | (219) | 114 | 151 |
| Rhaglenni Datblygu Economaidd | (67) | (67) | 0 | | 0 | (200) |
| Marchnata a Digwyddiadau | 269 | 269 | 0 | | 0 | (27) |
| Llyfrgelloedd Gwynedd | 1,854 | 1,829 | (25) | | (25) | (105) |
| Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd | 1,095 | 1,110 | 15 | | 15 | 147 |
| Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran | 49 | 0 | (49) | | (49) | (5) |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **6,307** | **6,603** | **296** | **(219)** | **77** | **0** |

## Economi a Chymuned

**Rheolaeth** - derbyniad grant yn arwain at danwariant ar y gyllideb graidd.

**Morwrol a Pharciau Gwledig** - darlun cymysg sydd yn cynnwys gwariant uwchlaw'r gyllideb o £66k yn Noc Fictoria, Caernarfon tra bod Parciau Gwledig yn tanwario (£45k) o ganlyniad i danwariant staff a rhagori incwm ym Mharc Padarn, tra bod llai o wariant ar nifer o benawdau ym Mharc Glynllifon.

**Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill** - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Gwmni Byw'n Iach yn Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r cwmni wedi derbyn cefnogaeth ariannol flynyddol gan y Cyngor oedd yn £550k yn 2022/23, £308k yn 2023/24 ac yn £281k yn 2024/25, oedd uwchlaw'r taliad cytundebol y contract ddarparu, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Rhagwelir fod y galw am gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol yn £219k erbyn diwedd y flwyddyn.

Ymhellach, gorwariant o £150k ar gyllideb rhedeg yr adeiladau hamdden gan yr Adran Economi a Chymuned.

**Llyfrgelloedd Gwynedd** - cyfnod trosiannol yn dilyn y gwaith o ailstrwythuro'r gwasanaeth sydd yn golygu bod rhai swyddi wedi bod yn wag am ran o'r flwyddyn. Derbyniad incwm rhent yn uwch ynghyd â llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd** - gorwariant yn bennaf gan fod costau staff uwchlaw'r gyllideb a diffyg incwm yn faterion yn Storiel £27k ac Amgueddfa Lloyd George £24k. Bu gwelliant yn y rhagolygon incwm ar gyfer Neuadd Dwyfor.

Er mwyn lleihau'r gorwariant a adroddir, mae'r adran yn defnyddio £49k o gronfa tanwariant adrannol.

**Argymhellir** i'r Cabinet gymeradwyo cymorth ariannol ychwanegol i Gwmni Byw'n Iach os yw'r gorwariant yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gyda'r rhagolygon presennol yn amcanu cymorth gwerth £219k.

| CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | Amcan Cyllideb 2025/26 | Amcan Sefyllfa 2025/26 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2024/25 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau:** | | | | | | |
| Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | 12,249 | 12,437 | 188 | | 188 | 241 |
| Peirianneg | 486 | 455 | (31) | | (31) | (25) |
| Bwrdeistrefol | 6,098 | 6,543 | 445 | | 445 | 674 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 204 | 124 | (80) | | (80) | (234) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2024/25 | | | 0 | | 0 | (556) |
| **Cyfanswm Priffyrdd, Peirianneg ac YGC** | **19,037** | **19,559** | **522** | **0** | **522** | **100** |

## Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (gan gynnwys Cefnffyrdd)

**Gwasanaethau Priffyrdd** - er y gwelwyd cynnydd mewn gwireddu arbedion yn y maes, rhai arbedion newydd yn parhau angen eu cyflawni. Ymhellach i hyn, lleihad yn yr incwm gan asiantaethau allanol.

**Gwasanaethau Peirianneg** - tanwariant ar amrywiol benawdau ynghyd â derbyniad incwm uwch.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau gan gynnwys yr angen i wireddu arbedion. Pwysau hefyd ar gyllidebau staff glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus. Colledion incwm yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Yn dilyn gwaith diweddar yn yr Amlosgfa, o ganlyniad gwelwyd lleihad yn y rhagolygon incwm cysylltiedig.

**Ymgynghoriaeth Gwynedd** - rhagolygon o ragori ar yr incwm gan sefydliadau allanol megis cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru yn y maes ffyrdd a pheirianneg ynghyd â swyddi gwag a throsiant staff.

**CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Amgylchedd** | Amcan Cyllideb 2025/26 | Amcan Sefyllfa 2025/26 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 783 | 944 | 161 | | 161 | 212 |
| Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu | 777 | 844 | 67 | | 67 | 189 |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) | 356 | (18) | (374) | | (374) | (547) |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (2,623) | (2,417) | 206 | | 206 | 753 |
| Cludiant Integredig | 2,313 | 2,383 | 70 | | 70 | (68) |
| | 46 | (52) | (98) | 0 | (98) | 138 |
| Marchnadoedd | 11 | 10 | (1) | | (1) | 0 |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 738 | 745 | 7 | | 7 | (7) |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1,938 | 1,880 | (58) | | (58) | (283) |
| Gwastraff | 14,659 | 15,321 | 662 | | 662 | 1,100 |
| Defnydd o Gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer | | | 0 | | 0 | (1,100) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2024/25 | | | 0 | | 0 | (149) |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **18,952** | **19,692** | **740** | **0** | **740** | **100** |
| ***Derbyniad Incwm / Grant yn 2025/26 i'w roi mewn Cronfeydd*** | | | | | | |
| *Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer* | | *(187)* | *(187)* | ***187*** | ***0*** | |
| *Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu* | | *(3,713)* | *(3,713)* | ***3,713*** | ***0*** | |
| ***Cyfanswm*** | ***0*** | ***(3,900)*** | ***(3,900)*** | ***3,900*** | ***0*** | |

## Amgylchedd

**Rheolaeth yr Adran** - oediad mewn gwireddu gwerth £150k o gynlluniau arbedion ynghyd â gorwariant ar gostau cerbydau.

**Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu** - mae diffyg incwm yn faterion yn Rheolaeth Datblygu a Pridiannau Tir, ond sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gostau staff.

Rhagwelir costau gwerth £1.5 miliwn yn ymwneud ag adeilad peryglus sef Gwesty Corbett Arms, Tywyn, sef adeilad rhestredig Gradd II, sydd wedi bod yn achos pryder i Gyngor Gwynedd a'r gymuned leol ers blynyddoedd gan ei fod mewn cyflwr strwythurol peryglus ac sydd wedi golygu fod y Cyngor wedi gorfod gweithredu er mwyn amddiffyn a diogelu'r cyhoedd. Ni all yr Adran ymdopi gyda’r fath wariant yn ddi-rybudd o fewn eu cyllideb refeniw arferol ac felly bydd angen adroddiad ar wahân maes o law i ystyried pa opsiynau eraill sydd gennym i gyfarch y gost yma.

**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth**
**Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)** - rhagori ar incwm ffioedd gwaith stryd, swyddi gweigion a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Parcio a Gorfodaeth Parcio** - yn dilyn i ffioedd parcio gael eu codi yn Ebrill 2025, y rhagolygon incwm parcio yn well na'r diffyg o £826k a adroddwyd yn 2024/25, ond yn parhau i fod £319k yn is na'r targed. Tanwariant ar staff a chyllidebau eraill yn gwella'r sefyllfa.

**Cludiant Integredig** - nid yw'r grantiau a dderbynnir i'r maes yn cyfarch yr holl gostau. Rhagolygon o danwariant ar gostau staff a chyllidebau eraill yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

**Gwarchod y Cyhoedd** - swyddi gwag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan gynnwys gwasanaethau a chyflenwadau. Rhagolygon o ragori ar incwm yn safonau masnach ond incwm i lawr ar gyfer y maes trwyddedu tacsis, trwyddedau a gwarchod yr amgylchedd.

**Gwastraff** - er bod cyllideb ychwanegol o £400k wedi ei dyrannu ar gyfer 2025/26 ymlaen, mae nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant o £662k a ragwelir. Y gwaith o gyflwyno’r newidiadau i'r maes yn parhau ond gorwariant ar gasglu gwastraff ac ailgylchu, rhedeg y canolfannau ailgylchu ac ar y safleoedd trin a throsglwyddo gwastraff. Mae yna nifer o gynlluniau arbedion yn llithro o ganlyniad i heriau ail-strwythuro. Disgwylir lleihad yn y costau gwaredu gwastraff Parc Adfer sydd yn cynorthwyo'r sefyllfa.

**Targed Ailgylchu 2024/25** - yn dilyn i Gyngor Gwynedd gyflawni cyfradd o 65.3% ar ailgylchu ar gyfer 2024/25 sydd islaw targed ailgylchu 70% Llywodraeth Cymru, golyga fod y Cyngor yn wynebu dirwy o £612k, sydd yn ddarostyngedig i asesiad yn erbyn gwahanol feini prawf gan y Llywodraeth. Credwn fod y risg o orfodi’r ddirwy arnom yn isel ac felly nid ydym wedi cynnwys y swm yma yn y tafluniad at ddiwedd y flwyddyn.

**Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer** - Arbediad un-tro i'r holl gynghorau o enillion ail-ariannu Parc Adfer. Mae'r cyfraniad wedi ei roi mewn cronfa, gyda'r galwad cyntaf ohono i'w ddefnyddio i gyllido gorwariant yn y maes gwastraff.

**Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu** - derbyniad incwm newydd i gynghorau sydd yn deillio o ardoll ar ddeunyddiau pacio i gynhyrchwyr a mân-werthwyr, er mwyn hybu ailgylchu. Bydd rhaid defnyddio cyfran gyntaf yr incwm hwn ar gyfer cyfarch unrhyw ddiffyg gan y gwasanaeth gwastraff a'r gweddill yn cael ei roi mewn cronfa i'w flaenoriaethu.

**CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Tai ac Eiddo** | Amcan Cyllideb 2025/26 | Amcan Sefyllfa 2025/26 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 795 | 659 | (136) | | (136) | (35) |
| Gwasanaethau Tai | | | | | | |
| Digartrefedd | 6,795 | 7,258 | 463 | | 463 | (34) |
| Tai Sector Breifat | 478 | 412 | (66) | | (66) | 15 |
| Eraill | 426 | 327 | (99) | | (99) | (9) |
| | 7,699 | 7,997 | 298 | 0 | 298 | (28) |
| Gwasanaethau Eiddo | | | | | | |
| Eiddo | 3,882 | 3,876 | (6) | | (6) | 41 |
| Gofalu, Arlwyo a Glanhau | 13 | 24 | 11 | | 11 | 19 |
| | 3,895 | 3,900 | 5 | 0 | 5 | 60 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2024/25 | | | 0 | | 0 | 3 |
| **Cyfanswm Tai ac Eiddo** | **12,389** | **12,556** | **167** | **0** | **167** | **0** |

## Tai ac Eiddo

**Rheolaeth -** tanwariant ar wasanaethau a chyflenwadau ac ar gostau staff.

**Digartrefedd -** y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng yn parhau, gyda rhagolygon fod gwariant ar y maes am fod yn £6.7 miliwn eleni, sydd yn cymharu â £6 miliwn y llynedd. Mae cyllideb ychwanegol o £3 miliwn wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor i lety argyfwng ynghyd â chyllideb un-tro ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o'r drefn bidiau i gynorthwyo gyda'r pwysau cynyddol. Gwelir cyfuniad o gostau uwch ar gyfer symud a storio eiddo personol aelwydydd sy’n derbyn llety argyfwng, cynnydd yn y nifer o unigolion sy’n cyflwyno’n ddigartref ac angen llety a chynnydd ym mhris y noson ar gyfer llety argyfwng gan rai darparwyr.

**Tai Sector Breifat -** trosiant staff a thanwariant ar gyflenwadau a gwasanaethau.

**Gwasanaethau Tai, Eraill -** tanwariant ar gostau staff ac ar gyllidebau eiddo ynghyd â derbyniad grant.

**Gwasanaethau Eiddo -** tanwariant ar gostau staff ac ar gostau teithio ond pwysau ar y gyllideb gwasanaethau a chyflenwadau yn Eiddo tra fod diffyg incwm yn broblem yn Difa Pla.

**Gofalu, Arlwyo a Glanhau -** gorwariant ar gostau gwasanaethau a chyflenwadau a diffyg yn yr incwm.

**CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adrannau Canolog** | Amcan Cyllideb 2025/26 | Amcan Sefyllfa 2025/26 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,937 | 2,916 | (21) | | (21) | 0 |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 9,361 | 9,353 | (8) | | (8) | 0 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 8,473 | 8,467 | (6) | | (6) | 0 |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **20,771** | **20,736** | **(35)** | **0** | **(35)** | **0** |

## Adrannau Canolog

**Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol -** rhagori ar incwm a throsiant staff mewn gwahanol feysydd yn gyfrifol am y tanwariant a ragwelir. Bydd costau un-tro amrywiol hefyd yn cael eu cyllido o fewn y tanwariant.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) -** trosiant staff a denu incwm ychwanegol yn cynorthwyo'r adran i ymdopi efo'r cynnydd sylweddol yng nghostau prosesu incwm gan gwsmeriaid a thrigolion Gwynedd.

**Gwasanaethau Corfforaethol -** cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y sefyllfa a ragwelir, ond yn bennaf tanwariant ar gostau staff a rhagori ar incwm. Mae'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu y bydd yr Argraffdy yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn.

**CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau) | Amcan Cyllideb 2025/26 | Amcan Sefyllfa 2025/26 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth Cyngor | * | * | (1,986) | 1,986 | 0 | 0 |
| Gostyngiadau Treth Cyngor | * | * | 258 | (258) | 0 | 0 |
| Llogau | * | * | (104) | 104 | 0 | 0 |
| Darpariaeth Arbedion | * | * | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Chwyddiant Tâl | | | (601) | 601 | 0 | 0 |
| Yswiriant Gwladol | * | * | (289) | 289 | 0 | 0 |
| Dileu Balansau Negyddol Cronfeydd Maes Gofal | * | * | 576 | (576) | 0 | 0 |
| Eraill | * | * | (1,611) | 1,611 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(3,757)** | **3,757** | **0** | **0** |

**Corfforaethol**

**Treth Cyngor** - cynnyrch treth ychwanegol o ganlyniad i ragdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2025/26. Yn dilyn y tueddiad a welwyd yn 2024/25 gyda chynnydd o 387 yn y nifer o ail gartrefi'r premiwm, bu cynnydd pellach o 79 hyd at ddiwedd Awst eleni. Ymhellach i hyn, hyd at ddiwedd Awst gwelwyd 347 eiddo yn trosglwyddo o drethi annomestig i dreth cyngor (692 yn 2024/25, 381 yn 2023/24). Ond, yn groes i'r darlun yma, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatáu 81 eiddo i drosglwyddo o dreth cyngor i drethi annomestig (189 yn 2024/25, 193 yn 2023/24, 452 yn 2022/23). Yn 2025/26 mae £6 miliwn o bremiwm treth cyngor wedi ei neilltuo ar gyfer y Strategaeth Dai a £3 miliwn pellach ar gyfer y maes Digartrefedd.

**Gostyngiadau Treth Cyngor** - yn dilyn ymgyrch i dargedu grwpiau gwahanol i gynyddu niferoedd y ceisiadau, gwelwyd cynnydd yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd dros y 12 mis diwethaf o'i gymharu â'r tueddiad mewn blynyddoedd blaenorol.

**Llogau** - rhagwelir y bydd llogau yn rhagori'r targed disgwyliedig eleni.

**Darpariaeth Arbedion** - yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, mae darpariaeth gorfforaethol wedi ei wneud fel ei fod ar gael i ddileu arbedion problemus a phontio gwireddu arbedion.

**Chwyddiant Tâl** - yn dilyn cadarnhad diweddar am setliad tâl 2025/26 athrawon a gweddill y gweithlu, y setliad yn is na'r hyn a ddarparwyd yn y gyllideb ynghyd â derbyniad grant tuag at dâl athrawon.

**Yswiriant Gwladol** - bu i Lywodraeth Cymru oedi ar gadarnhau eu cyfraniad tuag at gostau ychwanegol yswiriant gwladol cynghorau tan yr haf, derbyniodd y Cyngor grant oedd yn uwch na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol.

**Dileu Balansau Negyddol Cronfeydd Maes Gofal** - mae gwerth £576k o gronfeydd gorwariant wedi cronni gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Theuluoedd dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf, awgrymir eu bod yn cael eu dileu i ganiatau'r adrannau i roi sylw i'r heriau presennol.

**Argymhellir** fod £3.757 miliwn yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor, gyda'i ddefnydd i'w ystyried cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

Yn dilyn ymarferiad adolygiad o'r cronfeydd a fanylir yn **Atodiad 3**, fod cronfeydd gorwariant yr:
- Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant sydd werth £300k
- Adran Plant a Theuluoedd gwerth £276k

felly cyfanswm o £576k yn cael eu dileu i ganiatau i'r adrannau ganolbwyntio ar heriau 2025/26.

**Atodiad 3**

## Adolygiad o Gronfeydd

Yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, argymhellir dileu y balansau negyddol sydd yn y cronfeydd canlynol yn dilyn i'r adrannau yn y maes gofal orwario dair blynedd yn olynol:

| **Cronfa** | **Swm i'w ddileu £'000** |
|---|---:|
| Cronfa Gorwariant Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | 300 |
| Cronfa Gorwariant Adran Plant a Theuluoedd | 276 |
| | |
| **Cyfanswm** | **576** |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **13 TACHWEDD 2025** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2025/26<br>ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** |
| PWRPAS: | **Mae Cod Ymarfer CIPFA yn argymell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli Trysorlys (Cod CIPFA) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau adrodd ar berfformiad rheolaeth trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn sef canol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys y gofyniad yng Nghod 2021, i adrodd yn chwarterol ar ddangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys. Mae'r dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhai trysorlys wedi'u hymgorffori yn adroddiadau chwarterol arferol y Cyngor.

Cymeradwywyd strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor am 2025/26 gan y Cyngor llawn ar 6ed o Fawrth 2025. Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly'n agored i risgiau ariannol, gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith refeniw cyfraddau llog sy'n newid. Mae adnabyddiaeth lwyddiannus, monitro a rheolaeth risg yn ganolog i strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor.

## 2. CYD-DESTUN ALLANOL

**Y cefndir economaidd**: Dominyddwyd y chwarter cyntaf gan ganlyniadau tariffau masnach yr Unol Daleithiau a'u heffaith ar farchnadoedd ecwiti a bondiau. Gwelwyd yn yr ail chwarter, a oedd yn dal i fod yn llawn ansicrwydd, marchnadoedd ecwiti gyda enillion a gwahaniaeth mewn cynnyrch bondiau llywodraeth yr Unol Daleithiau a'r DU, a oedd wedi bod yn symud yn gymharol agos at ei gilydd.

O ddiwedd mis Mehefin, yng nghanol cefndir y DU o ansicrwydd economaidd, pryderon ynghylch sefyllfa ariannol y llywodraeth a dyfalu ynghylch Cyllideb yr hydref, gwthiodd cynnyrch ar gilts tymor canolig a hir yn uwch, gan gynnwys y 30 mlynedd a gyrhaeddodd ei lefel uchaf ers bron i 30 mlynedd.

Cynyddodd chwyddiant prisiau defnyddwyr (CPI) blynyddol y DU dros y cyfnod, gan godi o 2.6% ym mis Mawrth i 3.8% ym mis Awst, yn dal ymhell uwchlaw targed 2%

Banc Lloegr. Cododd chwyddiant craidd hefyd, o 3.4% i 3.6% dros yr un cyfnod, er bod darlleniad Awst i lawr % o 3.8% y mis blaenorol. Gostyngodd chwyddiant gwasanaethau hefyd o fis Gorffennaf i Awst, i 4.7% o 5.0%.

Ehangodd economi'r DU 0.7% yn chwarter cyntaf y flwyddyn galendr a 0.3% yn yr ail chwarter. Yn fersiwn derfynol adroddiad CMC Ch2 2025, adolygwyd twf blynyddol i fyny i 1.4% y flwyddyn. Fodd bynnag, dangosodd ffigurau misol dwf sero ym mis Gorffennaf, yn unol â'r disgwyliadau, gan nodi dechrau araf i Ch3.

Parhaodd data'r farchnad lafur i feddalu trwy gydol y cyfnod, gyda'r gyfradd ddiweithdra yn codi a thwf enillion yn lleddfu, ond mae'n debyg nad i raddau a fyddai'n gwneud aelodau'r MPC yn gyfforddus gyda thoriadau cyfraddau pellach. Yn ychwanegol, Cododd y gyfradd gyflogaeth tra gostyngodd y gyfradd anweithgaredd economaidd a nifer y swyddi gwag yn gostwng.

Torrodd Pwyllgor Polisi Ariannol y BoE (MPC) y Gyfradd Banc o 4.5% i 4.25% ym mis Mai ac i 4.0% ym mis Awst ar ôl ail rownd ddigynsail o bleidleisio. Roedd y bleidlais 5-4 olaf o blaid toriad o 25bps, gyda'r lleiafrif eisiau dim newid. Ym mis Medi, pleidleisiodd saith aelod MPC i ddal cyfraddau tra bod dau yn ffafrio toriad o 25bps. Mae barn y Pwyllgor yn dal i fod yn wahanol ynghylch a yw'r risgiau i fyny o ddisgwyliadau chwyddiant a gosod cyflogau yn gorbwyso risgiau i lawr o alw a thwf gwannach.

Amlygodd Adroddiad Polisi Ariannol BoE Awst y rhagwelir y bydd chwyddiant yn disgyn yn ôl i'r targed erbyn canol 2027 ar ôl cyrraedd uchafbwynt yn Ch3 2025, gyda chymorth cynyddu capasiti sbâr yn yr economi a'r effeithiau parhaus o gyfraddau polisi llymach yn y gorffennol. Disgwylir i CMC aros yn wan yn y tymor byr tra bydd datblygiadau domestig a byd-eang yn dylanwadu ar ragolygon dros y tymor canolig.

Cynhaliodd Arlingclose ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor ei farn ganolog y byddai Cyfradd Banc yn cael ei dorri ymhellach wrth i'r BoE ganolbwyntio ar dwf CMC gwan yn fwy na chwyddiant uwch. Ar hyn o bryd disgwylir un toriad arall yn ystod 2025/26, gan fynd â'r Gyfradd Banc i 3.75%. Mae'r risgiau i'r rhagolwg yn gytbwys yn y tymor byr ond wedi'i bwysoli i'r ochr is ymhellach allan wrth i deimlad gwan defnyddwyr a hyder busnes a buddsoddiad barhau i gyfyngu ar dwf. Mae ansicrwydd sylweddol hefyd ynglŷn â Chyllideb yr hydref a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar y rhagolygon.

Yn erbyn cefndir o bolisi masnach ansicr yr Unol Daleithiau a phwysau gan yr Arlywydd Trump, cynhaliodd Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau gyfraddau llog yn sefydlog am y rhan fwyaf o'r cyfnod, cyn torri Cyfradd Cronfeydd Fed i 4.00% -4.25% ym mis Medi. Cyhoeddodd llunwyr polisi Fed eu rhagamcanion economaidd newydd ar yr un pryd. Roedd y rhain yn tynnu sylw at 0.50% yn is o Gyfradd Cronfeydd Fed erbyn diwedd 2025 a 0.25% yn is yn 2026, ochr yn ochr â thwf CMC o 1.6% yn 2025, chwyddiant o 3%, a chyfradd ddiweithdra o 4.5%.

Torrodd Banc Canolog Ewrop gyfraddau ym mis Mehefin, gan leihau ei brif gyfradd ail-ariannu o 2.25% i 2.0%, cyn ei gadw ar ôl hyd at ddiwedd y cyfnod. Roedd amcanion newydd yr ECB yn rhagweld chwyddiant ar gyfartaledd o 2.1% yn 2025, cyn

disgyn yn is na'r targed yn 2026, ochr yn ochr â gwella twf CMC, y mae'r risgiau yn cael eu hystyried yn fwy cytbwys.

**Marchnadoedd ariannol:** Ar ôl y gostyngiadau sydyn a welwyd yn gynnar yn y cyfnod, Gwellodd teimlad mewn marchnadoedd ariannol, ond mae asedau risg yn gyffredinol wedi parhau i fod yn gyfnewidiol. Yn gynnar yn y cyfnod gostyngodd cynnyrch bondiau, ond ansicrwydd parhaus, yn enwedig yn y DU, wedi gweld cynnyrch canolig a hirach yn codi gyda buddsoddwyr bondiau angen enillion cynyddol uwch yn erbyn y risg uchel canfyddedig o UK plc. Ers y gwerthu ym mis Ebrill, mae marchnadoedd ecwiti wedi ennill yn ôl y gostyngiadau blaenorol, gyda buddsoddwyr yn parhau i wynebu ansicrwydd parhaus.

Dros y cyfnod, dechreuodd cynnyrch gilt meincnod 10 mlynedd y DU ar 4.65% a gorffennodd ar 4.70%. Fodd bynnag, gwelodd y chwe mis hyn anwadalrwydd sylweddol gyda'r cynnyrch 10 mlynedd ar ei isaf yn 4.45% ac ei uchaf o 4.82%. Roedd yn ddarlun tebyg i raddau helaeth ar gyfer y gilt 20 mlynedd a ddechreuodd ar 5.18% a gorffennodd ar 5.39% gydag lefelau isel ac uchel o 5.10% a 5.55% yn y drefn honno. Roedd y Gyfradd Sterling Dros Nos (SONIA) ar gyfartaledd yn 4.19% dros y chwe mis hyd at 30 Medi.

**Adolygiad credyd:** Cynhaliodd Arlingclose ei uchafswm terfyn hyd heb ei warantu a argymhellir ar y mwyafrif o'r banciau ar ei restr wrthbartïon ar 6 mis. Mae'r banciau eraill yn aros ar 100 diwrnod.

Yn gynnar yn y cyfnod, uwchraddiodd Fitch Grŵp NatWest ac endidau cysylltiedig i AA- o A + a gosododd sgôr A- hirdymor Clydesdale Bank ar Rating Watch Positive. Er bod Moody's wedi israddio'r sgôr hirdymor ar sofran yr Unol Daleithiau i Aa1 ym mis Mai a hefyd cadarnhau sgôr OP Corporate yn Aa3.

Yna yn yr ail chwarter, fe wnaeth Fitch uwchraddio Clydesdale Bank a hefyd HSBC, israddio Lancashire CC a Close Brothers tra bod Moody's wedi uwchraddio Transport for London, Allied Irish Banks, Bank of Ireland a Toronto-Dominion Bank.

Ar ôl cynyddu ddechrau mis Ebrill yn dilyn cyhoeddiadau tariff masnach yr Unol Daleithiau, mae prisiau cyfnewid diffyg credyd y DU ers hynny wedi tueddu i lawr yn gyffredinol ac wedi gorffen y cyfnod ar lefelau sy'n unol â'r rhai yn chwarter cyntaf y flwyddyn galendr a thrwy gydol y rhan fwyaf o 2024.

Mae prisiau CDS banciau Ewropeaidd wedi dilyn patrwm eithaf tebyg i'r DU, fel y mae benthycwyr Singapore ac Awstralia tra bod prisiau CDS banciau Canada yn parhau i fod yn gymedrol uchel o'i gymharu â chynharach yn 2025 ac yn 2024.

Ar y cyfan, ar ddiwedd y cyfnod arhosodd prisiau CDS ar gyfer pob banc ar restr gwrthbarti Arlingclose o fewn terfynau a ystyriwyd yn foddhaol ar gyfer cynnal cyngor credyd ar y cyfnod presennol.

Disgwylir i anwadalrwydd y farchnad ariannol barhau i fod yn nodwedd, o leiaf yn y tymor byr a, bydd lefelau cyfnewid diffyg credyd yn cael eu monitro ar gyfer arwyddion o straen credyd parhaus. Fel erioed, mae'r sefydliadau a'r cyfnodau ar restr gwrthbarti yr Awdurdod a argymhellir gan Arlingclose yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson.

## 3. CYD-DESTUN LLEOL

Ar 31 Mawrth 2025 roedd gan y Cyngor fuddsoddiadau net o £53m oherwydd gweithgareddau refeniw a chyfalaf. Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca er dibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyn Benthyca Cyfalaf (CFR), tra mai'r cronfeydd defnyddiadwy a chyfalaf gweithredol yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi.

Mae'r symudiadau yn cael eu crynhoi yn y tabl isod.

**Crynodeb o'r Fantolen –**

| | **31.3.25 Gwir £m** |
|---|---:|
| CFR | 180 |
| Llai : *Ymrwymiadau dyled eraill | (6) |
| **CFR Benthyciadau** | **174** |
| Llai: Cronfeydd defnyddiadwy | (138) |
| Llai: Cyfalaf Gweithredol | (89) |
| **Benthyciadau / (buddsoddiadau ) net** | **(53)** |

Strategaeth gyfredol y Cyngor yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthyca mewnol, er mwyn lleihau risg a chadw costau llog yn isel.

Dangosir sefyllfa rheoli'r trysorlys ar 30 Medi 2025 a'r newid yn ystod y cyfnod yn y tabl isod.

**Crynodeb Rheolaeth Trysorlys**

| | **31.3.25 Balans £m** | **Symudiad 6 Mis £m** | **30.9.25 Balans £m** |
|---|---:|---:|---:|
| Benthyciadau tymor hir | 90.1 | (16.3) | 73.8 |
| Benthyciadau tymor byr | 4.0 | (1.1) | 2.9 |
| PFI | 5.5 | 0.0 | 5.5 |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **99.6** | **(17.4)** | **82.2** |
| Buddsoddiadau tymor byr | (86.9) | 31.4 | (55.5) |
| Arian a Chywerthydd arian | (66.0) | 30.9 | (35.1) |
| **Cyfanswm buddsoddiadau** | **(152.9)** | **62.3** | **(90.6)** |
| **Buddsoddiadau net** | **(53.3)** | **44.9** | **(8.4)** |

## 4. STRATEGAETH A GWEITHGAREDD BENTHYCA

Mae Cod Darbodus 2021 CIPFA yn nodi'n glir na ddylai awdurdodau lleol fenthyca i fuddsoddi'n bennaf ar gyfer enillion ariannol ac nad yw'n ddarbodus i awdurdodau lleol wneud unrhyw benderfyniad buddsoddi neu wariant a fydd yn cynyddu'r gofyniad cyllido cyfalaf, ac a allai, felly, arwain at fenthyca newydd, oni bai ei fod yn ymwneud yn uniongyrchol ac yn bennaf â swyddogaethau'r Cyngor.

Nid yw benthyciadau PWLB ar gael bellach i awdurdodau lleol sy'n bwriadu prynu asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer elw ac mae'r Cyngor yn bwriadu osgoi'r gweithgaredd hwn er mwyn cadw ei fynediad at fenthyciadau PWLB.

**Sefyllfa Benthyca**

Ar 30 Medi 2025 roedd gan y Cyngor £75.7m o fenthyciadau fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf blynyddoedd blaenorol, ac £1.0m ar gyfer prosiectau penodol. Mae benthyciadau sy'n weddill ar 30 Medi 2025 wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

| | 31.3.25 Balans £m | Symudiad 6 mis £m | 30.9.25 Balans £m | 30.9.25 Cyfradd % |
|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) | 76.8 | (1.1) | 75.7 | 5.49 |
| Banc (tymor hir) | 16.2 | (16.2) | 0.0 | d/b |
| Prosiectau Penodol | 1.1 | (0.1) | 1.0 | d/b |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **94.1** | **(17.4)** | **76.7** | |

Prif amcan y Cyngor wrth fenthyca yn y tymor hir yw taro cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel a sicrhau sicrwydd cost dros y cyfnod y mae angen cyllid ar ei gyfer, gyda hyblygrwydd i ail-negodi benthyciadau pe bai cynlluniau hirdymor y Cyngor yn newid yn amcan eilaidd. Yn ystod y cyfnod dan sylw, mae'r Cyngor wedi ad-dalu benthyciad banc hanesyddol o £16.2 miliwn oherwydd bod telerau ffafriol ar gael a bydd hyn yn lleihau costau benthyca tymor hir y Cyngor.

Yn y tymor byr, mae'r Cyngor yn ystyried ei bod yn fwy cost effeithiol i ddefnyddio adnoddau mewnol a defnyddio benthyciadau tymor byr pan fo angen. Mae'r strategaeth hon yn galluogi'r Cyngor i leihau costau benthyca net (er gwaethaf colli incwm buddsoddi) a lleihau risg gyffredinol y trysorlys.

## 5. GWEITHGAREDD BUDDSODDI TRYSORLYS

Mae Cod Rheolaeth Trysorlys diwygiedig CIPFA yn diffinio buddsoddiadau rheoli'r trysorlys fel y rhai sy'n codi o lif arian y Cyngor neu weithgaredd rheoli risg trysorlys sydd yn y pen draw yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi nes bod angen yr arian parod i'w ddefnyddio yn ystod busnes.

Mae gan y Cyngor gronfeydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn. Yn ystod y 6 mis, roedd balans buddsoddiadau'r Cyngor yn amrywio rhwng £74.3 a £141.0 miliwn oherwydd

gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant. Dangosir sefyllfa’r buddsoddiadau yn ystod y cyfnod yn y tabl isod.

**Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys**

| | **31.3.25 Balans £m** | **Symudiad 6 mis £m** | **30.9.25 Balans £m** | **30.9.25 Incwm %** |
|---|---|---|---|---|
| Banciau a chymdeithasau adeiladu (ansicredig) | 6.0 | (5.9) | 0.1 | 3.4 |
| Awdurdodau Lleol | 25.0 | 5.0 | 30.0 | 4.2 |
| Cronfeydd Marchnad Arian | 65.0 | (30.0) | 35.0 | 4.1 |
| Swyddfa Rheoli Dyledion | 45.0 | (31.7) | 13.1 | 4.0 |
| Cronfeydd Cyfun | 11.9 | 0.3 | 12.2 | 5.8 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **152.9** | **(62.3)** | **90.6** | |

Mae Cod CIPFA a chanllaw'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y gyfradd enillion uchaf, neu’r cynnyrch uchaf. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw taro’r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau’r risg o beri colledion o fuddsoddiadau’n diffygdalu a’r risg o dderbyn incwm sy’n anaddas o isel ar fuddsoddiadau.

Fel y dangosir gan feincnod ymrwymiadau yr adroddiad hwn, mae’r Cyngor yn disgwyl bod yn fenthyciwr hirdymor ac felly gwneir buddsoddiadau trysorlys newydd yn bennaf i reoli llif arian o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr. Bydd y portffolio presennol o gronfeydd cyfun strategol yn cael ei gynnal i amrywio risg i wahanol ddosbarthiadau o asedau a hybu incwm buddsoddi.

Dangosir dilyniant metrigau risg ac enillion yn y dyfyniadau o feincnodi buddsoddiad chwarterol Arlingclose yn y tabl isod.

| | **Sgôr Risg** | **Statws Credyd** | **Datguddiad ‘Bail-in’** | **Aeddfedrwydd Cyfartaledd Pwysol (diwrnodau)** | **Cyfradd Adennill** |
|---|---|---|---|---|---|
| 31.03.2025 | 4.67 | A+ | 50% | 22 | 4.82% |
| 30.09.2025 | 4.62 | A+ | 45% | 30 | 4.36% |
| **ALl tebyg** | **4.20** | **AA-** | **41%** | **32** | **4.03%** |
| **Bob ALl** | **4.54** | **A+** | **62%** | **11** | **4.20%** |

Mi wnaeth y Gyfradd Banc ostwng o 4.50% i 4.25% yn Mai 2025, gyda gostyngiad pellach i 4.00% yn Awst 2025. Mae cyfraddau llog tymor byr o gwmpas yr un lefel.

Roedd y cyfraddau ar adneuon DMADF yn amrywio rhwng 3.95% a 4.45% a Chyfraddau’r Cronfeydd Marchnad Arian rhwng 3.98% a 4.54%.

Dalier £13m o fuddsoddiadau’r Cyngor mewn cronfeydd eiddo, aml-ased, bond ac ecwiti cyfun strategol a reolir yn allanol lle mae diogelwch a hylifedd tymor byr yn llai o ystyriaeth, ac yn hytrach yr amcanion yw incwm refeniw rheolaidd a sefydlogrwydd prisiau hirdymor. Gan nad oes dyddiad aeddfedrwydd diffiniedig gan y cronfeydd hyn, ond maent ar gael i’w tynnu'n ôl ar ôl cyfnod rhybudd, mae eu perfformiad a'u sefydlogrwydd parhaus wrth gyflawni amcan buddsoddi'r Cyngor yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gweler perfformiad ein cronfeydd eiddo, aml-ased, bond ac ecwiti cyfun hyd at 30 Medi 2025 isod:

| STRATEGIC POOLED FUND PORTFOLIO | | | GWYNEDD | | | | From: | 22/02/2019 | To: | 30/09/2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| FUND NAME | ASSET CLASS | No of Units Held in Period | Current Value £ | Capital Growth £ | Dividends Earned £ | Holding Period (yrs) | Capital Return | Income Return | Total Return | Volatility |
| AEGON (KAMES) DIVERSIFIED MONTHLY INCOME FUND | MULTI ASSET | 1,158,480 | 1,215,328 | -34,672 | 425,979 | 6.6 | -2.77% | 34.08% | 31.30% | 10.2% |
| CCLA - LAMIT PROPERTY FUND | PROPERTY | 1,524,344 | 4,246,822 | -753,178 | 1,291,322 | 6.6 | -15.06% | 25.83% | 10.76% | 5.9% |
| NINETY ONE (INVESTEC) DIVERSIFIED INCOME FUND | MULTI ASSET | 1,228,153 | 1,135,551 | -114,449 | 333,007 | 6.4 | -9.16% | 26.64% | 17.48% | 3.6% |
| PAYDEN ABSOLUTE RETURN BOND FUND | ABSOLUTE RETURN | 233,541 | 2,001,355 | 1,355 | 240,874 | 2.1 | 0.07% | 12.04% | 12.11% | 1.1% |
| SCHRODER INCOME MAXIMISER FUND | EQUITY - UK | 7,675,245 | 3,592,015 | 76,707 | 1,240,789 | 4.8 | 2.18% | 35.30% | 37.48% | 9.4% |
| GRAND TOTAL | | | 12,191,070 | -824,239 | 3,531,972 | 5.4 | -6.33% | 27.14% | 20.80% | 4.8% |
| | | Unrealised capital loss since purchase: | -808,931 | | | Annualised income return: | 4.52% | | | |
| | | | | | | *Average Bank Rate:* | 2.34% | | | |

Mae’n amlwg bod y gwerth cyfalaf cyfun o £12.19m yn llai na’r buddsoddiad cychwynnol o £13m. Gwneir buddsoddiadau cronfa strategol gan wybod y bydd gwerthoedd cyfalaf yn symud i fyny ac i lawr ar fisoedd, chwarteri a hyd yn oed blynyddoedd; ond gyda'r hyder y bydd cyfanswm yr enillion dros gyfnod o dair i bum mlynedd yn uwch na chyfraddau llog arian parod. Byddwn yn cynnal ein buddsoddiad yn y tymor canolig.

## 6. CYDYMFFURFIO

Dangosir cydymffurfiad â therfynau buddsoddi penodol yn y tabl isod.

**Cyfyngiadau Buddsoddi**

Methodd y Cyngor gydymffurfio gyda dau gyfyngiad buddsoddi a hynny oherwydd bod lefel uchel o arian gennym ac felly wedi cynyddu'r buddsoddiad gyda rhai gwrthbartion dros dro. Rydym wedi agor cyfrifon ychwanegol er mwyn sicrhau cydymffurfiad llawn yn y dyfodol.

| | Uchafswm Gwrthbarti yn y cyfnod | Gwir Gwrthbarti 30.9.25 | 2025/26 Terfyn Gwrthbarti | Cydym-ffurfio |
|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | £40.2m | £13.3m | Diderfyn | ✓ |
| Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill | £5m | £5m | £8m | ✓ |
| Buddsoddiadau â sicrwydd | £0m | £0m | £8m | ✓ |
| Banciau (ansicredig) | £5m | £0.1m | £4m | X |
| Cymdeithasau adeiladu (ansicredig) | £0m | £0m | £4m | ✓ |
| Darparwyr cofrestredig (ansicredig) | £0m | £0m | £4m | ✓ |
| Cronfeydd marchnad arian | £10m | £8m | £8m | X |
| Cronfeydd cyfun strategol | £5m | £5m | £8m | ✓ |
| Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real | £0m | £0m | £8m | ✓ |
| Buddsoddiadau eraill | £0m | £0m | £4m | ✓ |

Dangosir cydymffurfiad â'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer dyled allanol yn y tabl isod:

**Ffin Dyled**

| | Uchafswm yn y cyfnod | 30.9.25 Gwir | 2025/26 Ffin Gweithredol | 2025/26 Ffin Awdurdodedig | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau | £94.1m | £76.7m | £184m | £194m | ✓ |
| PFI a Prydlesau Cyllid | £5.5m | £5.5m | £6m | £6m | ✓ |
| **Cyfanswm Dyled** | **£99.6m** | **£82.2m** | **£190m** | **£200m** | ✓ |

## 7. DANGOSYDDION DARBODUS RHEOLI'R TRYSORLYS

Fel sy’n ofynnol gan God Rheoli’r Trysorlys CIPFA 2021, mae’r Cyngor yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol ar gyfer rheoli’r trysorlys.


### i. Meincnod Ymrwymiadau

Mae’r dangosydd hwn yn cymharu gwir fenthyciadau presennol y Cyngor yn erbyn meincnod ymrwymiadau sydd wedi’i gyfrifo i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r meincnod ymrwymiadau yn arf pwysig i helpu i sefydlu a yw'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac felly siapio ei ffocws strategol a'i benderfyniadau. Mae'n cynrychioli amcangyfrif o swm cronnus y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ddal i ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw cyfredol tra'n cadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf o £21.5m sydd ei angen i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

| | **31.3.25 Gwir** | **31.3.26 Amcan** | **31.3.27 Amcan** | **31.3.28 Amcan** |
|---|---|---|---|---|
| CFR Benthyciadau | 174.4 | 171.8 | 176.9 | 172.4 |
| Llai: Adnoddau’r Fantolen | (232.8) | (149.8) | (126.9) | (126.9) |
| **Gofynion benthyciadau net** | (58.4) | 22.0 | 50.0 | 45.5 |
| Ychwanegu: Lwfans hylifedd | 21.5 | 21.5 | 21.5 | 21.5 |
| **Meincnod ymrwymiadau** | **(36.9)** | **43.5** | **71.5** | **67.0** |
| **Benthyca presennol** | **94.6** | **74.4** | **69.8** | **68.2** |

Mae'r tabl yn dangos bod y Cyngor yn disgwyl parhau i gael ei fenthyca uwchlaw ei feincnod ymrwymiadau hyd at 2027. Mae hyn oherwydd bod y Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn, ac mae llif yr arian parod hyd yma wedi bod yn is na'r rhagdybiaethau a wnaed pan fenthycwyd y benthyciadau.

Yn dilyn ymlaen o'r rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod ymrwymiadau hirdymor yn rhagdybio na chaiff unrhyw wariant cyfalaf newydd ei ariannu drwy fenthyca, isafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar ddull llinell syth 50 mlynedd. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyciadau presennol y Cyngor.




Mae'r siart yn dangos nad oes angen benthyca yn y tymor hir yn seiliedig ar ragamcanion cyfredol, ond efallai yn y tymor byr yn y dyfodol agos.

**ii) Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau**

Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod i reoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail-ariannu. Roedd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

| | Uchaf | Isaf | Gwir | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|---|
| O dan 12 mis | 3.83% | 25% | 0% | ✓ |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 7.45% | 25% | 0% | ✓ |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 2.11% | 50% | 0% | ✓ |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 30.81% | 75% | 0% | ✓ |
| 10 mlynedd a throsodd | 55.79% | 100% | 0% | ✓ |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu ad-daliad.

### iii. Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Hir-dymor

Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o achosi colledion trwy geisio ad-daliad cynnar o'i fuddsoddiadau. Y terfynau darbodus ar y terfynau rheoli trysorlys hirdymor yw:

| | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | Dim Dyddiad Penodol |
|---|---|---|---|---|
| Y prifswm a fuddsoddir y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £13m | £0m | £0m | £0m |
| Terfyn ar brifswm a fuddsoddir tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £40m | £20m | £20m | £20m |
| **Cydymffurfio** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Dangosyddion Ychwanegol:**
Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli ei amlygiadau i risgiau rheoli'r trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

**Diogelwch:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg credyd drwy fonitro sgôr credyd cyfartalog wedi'i bwysoli gan amser yn ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo drwy gymhwyso sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysoli gan hyd pob buddsoddiad. Rhoddir sgôr i fuddsoddiadau heb sgôr yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

| | Gwir 30.09.25 | Targed 2025/26 | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|
| Sgôr credyd cyfartalog y portffolio | 4.62 | Sgôr o 6 neu lai | ✓ |

**Hylifedd:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg hylifedd drwy fonitro faint o arian sydd ar gael i dalu taliadau annisgwyl o fewn cyfnod treigl o dri mis, heb fenthyca ychwanegol.

| | Gwir 30.09.25 | Targed 2025/26 | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis | £78.4m | £10m | ✓ |

**Datguddiad Cyfraddau Llog**: Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod i reoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg cyfradd llog. Y terfynau uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd neu ostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog oedd:

| | Gwir 30.09.25 | Terfyn 2025/26 | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog | £694,020 | £1,324,700 | ✓ |
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gwymp o 1% mewn cyfraddau llog | £694,020 | £1,324,700 | ✓ |

**Perfformiad Rheolaeth Trysorlys**

Mae'r Cyngor yn mesur perfformiad ariannol ei weithgareddau rheoli trysorlys o ran ei effaith ar y gyllideb refeniw a'i berthynas â meincnod cyfraddau llog.

Cyllideb incwm buddsoddi'r Cyngor am y flwyddyn yw £0.9m, ond amcangyfrifir bod yr incwm buddsoddi disgwyliedig gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn 2025/26 ychydig yn uwch wedi ei amcangyfrif yn £1.0m.

## 8. HYFFORDDIANT BUDDSODDI

Yn ystod y cyfnod, mae swyddogion wedi mynychu hyfforddiant buddsoddi gydag Arlingclose a CIPFA sy'n berthnasol i'w swyddi.

## 9. ARGYMHELLIAD

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **13 TACHWEDD 2025** |
| TEITL | **CYFRADDAU CASGLU TRETH CYNGOR** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU HYD A MAINT Y GOLLED A SUT MAE'R CYNGOR YN GWEITHREDU I GYFARCH Y SEFYLLFA** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN – PENNAETH CYLLID**<br>**SIAN PUGH – PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD MEWN LLE GAN YR ADRAN.** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Roedd cyfraddau casglu Treth Cyngor (o fewn y flwyddyn) yng Ngwynedd yr isaf yng Nghymru yn 2024/25, gyda 92.9% o'r dyledion wedi eu casglu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ar 31 Mawrth 2025. Y gyfradd gasglu uchaf ymysg cynghorau Cymru oedd 97.7% tra fod y Cyngor ar y safle nesaf i Wynedd (h.y. yn 21ain drwy Gymru) ar 94.1%. Gweler Atodiad 1 am fwy o fanylion.

1.2 Mae'r cyfradd casglu o 92.9% yn cynnwys Treth Cyngor sylfaenol ynghyd â'r Premiwm ar ail gartrefi ac eiddo gwag. £8.2m oedd cyfanswm y dyledion yma a oedd heb eu casglu ar 31 Mawrth 2025 ac mae hynny allan o dreth dyledus o £116.5m ar gyfer 2024/25.

1.3 Cyflwynwyd Adroddiad Perfformiad Cyllid i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 19 Mehefin 2025. Eglurwyd yn yr adroddiad yma bod y Gwasanaeth Trethi yn destun adolygiad Ffordd Gwynedd cynhwysfawr a bod cyfradd casglu Treth Cyngor ar gyfer 2024/25 wedi ei ddynodi fel mesur coch lle mae pryder am y perfformiad. Nodwyd bod y gyfradd casglu yn is nag y mae wedi bod yn hanesyddol (94.4% yn 2023/24) ac hefyd mewn cymhariaeth ag awdurdodau lleol eraill Cymru. Bydd adroddiad perfformiad hyd at diwedd Hydref 2025 yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 11 Rhagfyr 2025.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae'r tabl isod yn dangos cyfraddau casglu ar y mathau gwahanol o gyfrifon ar gyfer 2024/25 ynghyd â gwerth y dyledion oedd heb eu casglu fesul categori ar 31 Mawrth 2025.

| Cyfrifon | Cyfraddau Casglu (%) | Gwerth dyledion heb eu casglu ar 31 Mawrth 2025 (£m) |
|---|---|---|
| Cyfrifon gyda Treth Cyngor a Premiwm ail gartrefi | 87.29 | 3.1 |
| Cyfrifon gyda Treth Cyngor a Premiwm eiddo gwag | 81.41 | 0.8 |
| Cyfrifon gyda Treth Cyngor sylfaenol yn unig | 95.09 | 4.3 |
| **Cyfanswm** | **92.93** | **8.2** |

2.2 Gwelir o'r tabl uchod bod premiwm ail gartrefi ac eiddo gwag yn effeithio ar ein cyfraddau casglu cyffredinol, gyda'r dyledion ar gyfrifon sy'n cynnwys premiwm yn ychwanegol i'r dreth sylfaenol yn £3.9m (£3.1m ail gartrefi a £0.8m eiddo gwag) a'r dyledion ar gyfrifon Treth Cyngor sylfaenol yn unig, yn £4.3m. Fe welir hefyd bod cyfradd casglu o 95.09% ar y cyfrifon gyda Treth Cyngor sylfaenol yn unig, sydd yn 2.16% yn uwch na'r cyfartaledd o 92.93% ar draws pob categori.

2.3 Ers Ebrill 2023, mae rhaid i eiddo hunan-ddarpar yng Nghymru fod ar gael am 252 diwrnod a'i osod am 182 diwrnod y flwyddyn er mwyn cael eu cynnwys ar y rhestr ardrethi annomestig yn hytrach na band Treth Cyngor. Yn 2024/25, fe drosglwyddwyd 692 o eiddo yn ôl i Treth Cyngor gyda 558 o'r eiddo yma wedi dychwelyd yn ystod yr ail hanner o'r flwyddyn. Roedd nifer ohonynt yn debygol o fod yn trosglwyddo o'r rhestr ardrethi annomestig lle nad oedd trethi yn daladwy, i fand Treth Cyngor lle roedd angen iddynt dalu y dreth cyngor sylfaenol a 150% o bremiwm treth cyngor. Roeddent yn geisiadau hefyd a oedd yn cael eu hôl-ddyddio a rhai ohonynt yn ôl i Ebrill 2023. O ganlyniad, roedd y biliau yn sylweddol ac felly yn parhau heb eu talu ar ddiwedd Mawrth 2025. Erbyn diwedd Medi 2025, roedd 395 (134 erbyn diwedd Medi 2024) o eiddo pellach wedi trosglwyddo i fand Treth Cyngor. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar hyn o bryd ar fireinio dosbarthiad eiddo hunan-ddarpar at ddibenion trethi lleol:

Cynigion i fireinio dosbarthiad eiddo hunanddarpar at ddibenion trethi lleol | LLYW.CYMRU

Gall canlyniadau'r ymgynghori arwain at newidiadau pellach i'r rheolau "182 diwrnod" fyddai o bosib yn arwain at newid pellach yn y sefyllfa yn y flwyddyn nesaf.

2.4 Mae gweinyddu'r Premiwm yn rhoi pwysau difrifol ar allu'r Gwasanaeth Trethi i gyflawni ei waith. Bu ôl-groniad gwaith sylweddol yn y gwasanaeth ers cyflwyno'r Premiwm yn 2018 ac mae'n parhau i gynrychioli cyfran enfawr o'r ymholiadau sydd rhaid i'r gwasanaeth ddeilio â hwy. Mae hyn yn ei dro yn cael effaith ar allu'r gwasanaeth i gasglu'r arian Treth Cyngor sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor. Pan sefydlwyd y premiwm, derbyniwyd cyllideb o £52,600 i ariannu dwy swydd, a cheisiwyd am arian ychwanegol o £114,750 yn 2024/25 ar gyfer ariannu un swydd newydd ynghyd ag uwchraddiad swyddi o fewn y gwasanaeth yn dilyn arfarniad.

2.5 Ar ddiwedd Chwarter 1 blwyddyn ariannol 2025/26 roedd cyfradd casglu Treth Cyngor Gwynedd yn 28.25% a oedd yn ein rhoi yn safle 11 yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu i 28% a safle 15 ar ddiwedd yr un cyfnod yn 2024/25. Ar ddiwedd Hydref 2025, rydym wedi casglu 63.17% o'i gymharu a 63.55% ar ddiwedd Hydref 2024. Mae'n debygol bod y lleihad bychan yma yn y gyfradd casglu yn bennaf oherwydd bod yr eiddo yn parhau i drosglwyddo i'r bandiau Treth Cyngor o ardrethi annomestig gyda'r nifer eiddo a drosglwyddwyd yn yr un cyfnod y llynedd yn ddwy draean yn llai (gweler 2.3).

2.6 Mae'r tabl isod yn dangos y lefel chwyddiant Treth Cyngor yng Ngwynedd dros y chwe mlynedd ddiwethaf, ac fe welir bod cynnydd chwyddiant o 9.54% yn 2024/25. Felly, gall hwn hefyd fod yn ffactor a oedd yn cyfrannu at y lleihad yn y gyfradd casglu a'r gallu ariannol y trethdalwyr i dalu eu biliau.

| | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** | **2024/25** | **2025/26** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Chwyddiant Treth Cyngor (%)** | 3.90 | 3.70 | 2.95 | 4.95 | 9.54 | 8.66 |

**Adolygiad o'r Gwasanaeth**

2.7 Mae'r adolygiad o'r Gwasanaeth y cyfeirir ato ym mharagraff 1.3 uchod wedi adnabod rhai o'r gwendidau yn y Gwasanaeth sydd wedi cyfrannu at y dirywiad yn y gyfradd casglu:-

- Ôl-groniad o dros dri mis o ran ymateb i negeseuon e-bost gan drethdalwyr a olygai bod nifer ohonynt yn mynd i sefyllfa o ôl ddyled hyd yn oed cyn derbyn eu biliau, gan fod oedi o ran derbyn y bil neu oedi mewn rhoi trefniadau talu / trefniant debyd uniongyrchol yn eu lle.

- Oediad wrth anfon nodiadau atgoffa yn 2024/25 oherwydd salwch tymor hir aelod o staff.
- Er bod y Llys wedi gwneud gorchmynion dyled, bu oediad cyn iddynt gael eu trosglwyddo i'r cwmni gorfodaeth.
- Mae adnoddau y Tîm Adennill wedi haneru dros y pum mlynedd ddiwethaf, ac mae'r ddau aelod o swyddogion profiadol a oedd yn parhau yno wedi/yn ymddeol. Er yr hysbysebwyd yn ddiweddar am Swyddog Adennill, nid oedd y ceisiadau a dderbyniwyd yn cyrraedd gofynion hanfodol y swydd.

## 3. CAMAU NESAF

3.1 Rydym yn derbyn nad yw hyn yn sefyllfa yr ydym am fod ynddo ac roedd yr angen i newid ein trefniadau eisoes wedi ei adnabod, mae adolygiad ar y gweill a camau yn cael eu rhoi yn eu lle i gryfhau ein trefniadau adennill. Dyma rai o'r gweithrediadau sydd wedi eu hadnabod a'u gweithredu hyd yma:-

- Comisiynwyd Adolygiad Ffordd Gwynedd o dan arweiniad yr Uwch Ymgynghorydd Ffordd Gwynedd. Mae'r adolygiad wedi bod yn werthfawr i'r gwasanaeth gyda nifer fawr o weithrediadau wedi eu hadnabod a bellach wedi eu cofnodi mewn Cynllun Gweithredu manwl. Mae rhai ohonynt wedi eu gweithredu ac eraill ar y gweill a bydd y Cynllun yn cael ei ddiweddaru a'i adolygu'n rheolaidd. Rydym hefyd yn gweithio ar ddata rheolaethol i'n galluogi i adnabod meysydd sydd angen sylw a'u blaenoriaethu wrth symud ymlaen.
- Yn Ebrill 2025, penodwyd i swydd newydd, sef Arweinydd Tîm. Gwelwyd bod hon yn swydd hanfodol i'r strwythur ac mae'r swydd yma wedi bod yn greiddiol i'r gwasanaeth dros y chwe mis diwethaf.
- Fel rhan o gynllunio'r gweithlu i'r dyfodol, penodwyd Hyfforddai Proffesiynol Trethi a Budd-daliadau ynghyd â Prentis Trethi yn ystod y flwyddyn.
- Mae lefelau trosiant staff wedi bod yn uchel dros y blynyddoedd diwethaf ac mae wedi bod yn anodd denu a chadw staff ar y lefel cyflog oedd yn cael ei gynnig. Arfarnwyd y swyddi ac mae nifer o'r graddfeydd cyflog wedi cynyddu fel canlyniad.
- Dros y cyfnod Mai 2025 i Gorffennaf 2025, penodwyd tri swyddog asiantaeth trethi profiadol i gynorthwyo gyda'r ôl-groniad gwaith. Er bydd cytundeb un ohonynt yn dod i ben ganol mis Tachwedd, bwriedir ymestyn cytundeb dau ohonynt, gan barhau i fonitro ac asesu yr angen yn rheolaidd. Er mai trefniant dros-dro yn unig yw hyn, rydym wedi gweld budd mawr ohonynt ac wedi elwa o'u profiadau, nid yn unig yn y maes gweinyddol trethi, ond mewn meysydd arbenigol o adennill a systemau yn ogystal.

- Mae'r ôl groniad e-byst i lawr i 185 neges erbyn Tachwedd 2025 a'r hynaf sydd yn disgwyl sylw erbyn hyn, ddim ond yn 10 diwrnod oed. Mae hyn yn welliant sylweddol o'r 3,500 e-bost a oedd yn sefyll ar ddechrau'r flwyddyn ariannol bresennol. Ni fydd yn bosib cael gwared o'r croniad e-byst yn gyfan gwbl oherwydd bydd yr ymholiadau yn cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ar gyfnodau lle bydd nodiadau atgoffa a gwysion yn cael eu rhyddhau. Felly, ein blaenoriaeth ar hyn o bryd yw lleihau yr ôl-groniad gwaith tra hefyd yn cymryd camau i gyflwyno dulliau electroneg o weithio er mwyn gwella effeithlonrwydd a'r gwasanaeth a roddir i gwsmeriaid. Gan ddefnyddio technoleg i awtomeiddio cyn cymaint â phosib o waith y swyddogion, er mwyn rhyddhau eu hamser i ganolbwyntio ar gasglu'r arian a chynyddu'r cyfraddau casglu. Bydd awtomeiddio y drefn o dderbyn incwm Treth Cyngor trwy ddebyd uniongyrchol yn rhyddhau hanner swydd yn ei hun, a'r gobaith yw cael hyn mewn lle cyn diwedd y flwyddyn galendr. Rydym hefyd yn edrych i gynyddu y niferoedd sydd yn fodlon derbyn gohebiaeth electroneg ynghyd â'r opsiwn o gyflwyno ffurflenni ar lein gyda'r gobaith o ostwng yr angen iddynt fod yn cysylltu dros y ffôn ac ar e-bost.
- Ail-edrych ar y defnydd a wneir o'r system delweddu digidol i sicrhau ein bod yn ei defnyddio i'w llawn potensial, ynghyd â sicrhau bod unrhyw ohebiaeth sydd arno wedi ei brosesu.
- Roedd yna ôl groniad o dros 500 o achosion lle bu i filiau Treth Cyngor gael eu dychwelyd gan nad yw'r deiliad a enwir ar y biliau bellach yn byw yn yr eiddo. Penodwyd myfyriwr dros yr haf i glirio'r gwaith yma gyda'r bwriad o drosglwyddo y gwaith i'r tîm gweinyddol o hyn allan, gyda'r hyfforddiant yn cymryd lle ar hyn o bryd.
- Rydym wrthi'n adolygu ein strwythurau ar gyfer yr holl waith adennill yr Adran Cyllid ac mae cais am fid ariannol ar gyfer 2026/27 wedi ei gyflwyno ar gyfer hyn. Yn ogystal, er ein methiant i benodi Swyddog Adennill, llwyddwyd i benodi dau Swyddog Adennill Cynorthwyol.
- Manteisiwyd hefyd ar brofiad adennill un o'r swyddogion asiantaeth, ac mae ar hyn o bryd yn cynorthwyo ar dasgau penodol yn y maes.
- Rhoddwyd amserlen fanwl mewn lle ar gyfer anfon nodiadau atgoffa yn 2025/26. Yn ogystal, rydym yn edrych ar ein trefniadau dirprwyo fel bod swyddogion ar gael i weithredu yn ystod absenoldeb swyddogion allweddol.

3.2 Hyd yma yn 2025/26 rydym wedi derbyn 2,018 o orchmynion dyled, gwerth £4.7m, a bydd cais pellach i'r llys ar 26 Tachwedd 2025, a hynny am 939 o orchmynion dyled, gwerth £2.3m. Er bod canran uchel ohonynt yn berthnasol i 2025/26, mae cyfran ohonynt hefyd yn berthnasol i flynyddoedd blaenorol. Ein blaenoriaeth gyda rhain eleni yw sicrhau nad oes unrhyw oediad cyn i'r achosion gael eu

cyflwyno i'r cwmni gorfodaeth a hynny er mwyn uchafu y trethi a gesglir yn ystod y flwyddyn.  Fel soniwyd yn 2.7, roedd yr oediad yma yn 2024/25 yn rhannol gyfrifol am y lleihad yn y cyfraddau casglu.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Derbyn yr adroddiad, sylwebu ar y cynnwys a chefnogi'r gweithrediadau sydd mewn lle gan yr Adran.

**Atodiad 1**

**Cyfraddau Casglu Treth Cyngor Cymru 2024/25**

| **Awdurdod Lleol** | **Cyfradd Casglu (%)** |
|---|---|
| Castell-nedd Port Talbot | 97.7 |
| Sir y Fflint | 97.2 |
| Sir Ddinbych | 97.1 |
| Conwy | 96.7 |
| Sir Gaerfyrddin | 96.4 |
| Powys | 96.3 |
| Rhondda Cynon Taf | 95.9 |
| Sir Fynwy | 95.7 |
| Bro Morgannwg | 95.7 |
| Casnewydd | 95.7 |
| Wrecsam | 95.6 |
| Caerffili | 95.5 |
| Ceredigion | 95.5 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 95.3 |
| Ynys Môn | 95.3 |
| Sir Benfro | 95.1 |
| Caerdydd | 94.8 |
| Torfaen | 94.6 |
| Merthyr Tudful | 94.6 |
| Abertawe | 94.5 |
| Blaenau Gwent | 94.1 |
| Gwynedd | 92.9 |

*Ffynhonnell: https://stats.llyw.cymru/cy-GB/04eb4d05-55ab-4c1c-80fa-627fa809fc14?page_size=100&filter%5BYearCode%5D.202425%5B%5D=202425&filter%5BDescCode%5D.8%5B%5D=8&dataViewsChoice=filter*

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **13 TACHWEDD 2025** |
| TEITL | **MENTER TWYLL GENEDLAETHOL 2024-25: DIWEDDARIAD** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **RHOI DIWEDDARIAD AR LEFEL GENEDLAETHOL AR YMARFER DIWEDDARAF MENTER TWYLL GENEDLAETHOL 2024-25** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Fel awdurdod cyhoeddus, mae'n ofynnol i Gyngor Gwynedd, yn unol â'r gyfraith, ddiogelu'r arian cyhoeddus a weinyddir ganddo. Bob dwy flynedd, cynhelir ymarferiad paru data caiff ei adnabod fel y Fenter Twyll Cenedlaethol. Mae paru data yn cynnwys cymharu cofnodion cyfrifiadurol a ddelir gan y Cyngor yn erbyn cofnodion cyfrifiadurol eraill a ddelir, neu gyda corff arall, i weld i ba raddau maent yn paru. Pan gaiff data ei baru mae'n dynodi anghysondeb posib y mae angen ymchwilio iddo ymhellach, gan y gallai fod yn dwyllodrus. Ni ellir tybio a oes achos o dwyll, gwall neu esboniad arall hyd nes y cynhelir ymchwiliad.

1.2 Mae'r nodyn briffio hwn yn rhoi diweddariad ar ymarferiad diweddaraf Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 ar lefel genedlaethol fel roedd y sefyllfa ar 31 Gorffennaf 2025. Mae hefyd yn darparu rhai data lefel lleol ar gyfer Cyngor Gwynedd.

**2. ARGYMHELLIAD**

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn, cynnig sylwadau a derbyn yr adroddiad.

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Nodyn Briffio

# Menter Twyll Genedlaethol 2024-25: diweddariad ar gyfer Cyngor Gwynedd

## Ynglŷn â'r Fenter Twyll Genedlaethol

1 Ymarfer gwrth-dwyll a gynhelir ledled y DU bob dwy flynedd yw'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'n helpu i atal a chanfod twyll drwy rannu a pharu setiau data yn electronig. Ceir rhagor o wybodaeth am sut mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn gweithio yn **Atodiad 1**.

2 Yng Nghymru, mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn gweithredu o dan bwerau statudol yr Archwilydd Cyffredinol. Mae cyfranogiad yn orfodol ar gyfer awdurdodau lleol unedol, cyrff y GIG, heddluoedd, ac awdurdodau tân ac achub. Ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymarfer diweddaraf ar sail wirfoddol mae Llywodraeth Cymru, rhai o gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Trafnidiaeth Cymru), a Chyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru.

3 Mae'r nodyn briffio hwn yn rhoi diweddariad ar ymarfer diweddaraf Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 ar lefel genedlaethol ac ar 31 Gorffennaf 2025. Mae hefyd yn darparu rhywfaint o ddata ar lefel leol ar gyfer eich sefydliad, er ein bod yn annog y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu i geisio rhagor o fanylion lleol gan swyddogion arweiniol.

## Cyflwyno data ar gyfer 2024-25

4 Mae ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 yn mynd rhagddo. Cyflwynodd cyfranogwyr ddata ar gyfer y swp-ymarfer paru data eilflwydd ym mis Hydref 2024. Roedd hyn yn cynnwys data ar fudd-daliadau tai, tenantiaid tai a rhestrau aros, cardiau parcio bathodynnau glas, trwyddedau, a gwahanol daliadau fel taliadau credydwyr, cyflogres, a phensiynau.

5 Rhyddhaodd Awdurdod Twyll Sector Cyhoeddus y DU y rhan fwyaf o'r adroddiadau paru data i gyfranogwyr erbyn diwedd Rhagfyr 2024. Caiff data ynghylch y dreth gyngor a'r gofrestr etholiadol ei gyflwyno'n flynyddol. Y dyddiad cau diweddaraf ar gyfer cyflwyno'r data hwn oedd Chwefror 2025.

6 Mae gweithrediadau data atodol yn digwydd yn ystod yr ymarfer i brosesu cyflwyniadau data newydd, anghyflawn neu ddata sydd ar goll. Er enghraifft, mae cynnydd yn cael ei wneud i newid Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 trwy Orchymyn Diwygio Deddfwriaethol a fydd yn galluogi'r Fenter Twyll Genedlaethol i ddychwelyd i baru data gofal cymdeithasol oedolion yn ystod ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25.

## Diweddariad cenedlaethol

## Paru data ac ymchwilio

7 Hyd yma, mae bron i 440,000 o bariadau data wedi'u nodi ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan yn ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 yng Nghymru. Mae **Arddangosyn 1** yn dangos bod y rhan fwyaf o'r pariadau hyn ar gyfer awdurdodau unedol a chyrff iechyd.

**Arddangosyn 1: Pariadau data cyfranogwyr Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 yng Nghymru yn ôl math o sefydliad, ar ddiwedd Gorffennaf 2025**

| Math o sefydliad | Nifer y pariadau data | % o bariadau data |
|---|---:|---:|
| Awdurdod unedol | 373,114 | 84.9 |
| Iechyd | 50,409 | 11.5 |
| Heddlu | 2,641 | 0.6 |
| Tân ac achub | 740 | 0.2 |
| Arall | 12,749 | 2.9 |
| **Cyfanswm** | **439,653** | **100.0** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol

Noder: Nid yw cyfanswm y % yn cyfateb i'r % unigol oherwydd talgrynnu.

8 Mae paru data yn nodi hawliadau a thaliadau a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Ni ellir gwneud unrhyw ragdybiaeth ynghylch a oes twyll, gwall neu esboniad arall nes bod ymchwiliad wedi cael ei gynnal. Er enghraifft, gall fod canlyniadau positif anghywir ynghylch taliadau credydwyr os yw cyrff yn gwneud taliadau fesul cam o'r un swm yn fwriadol.

9 Rydym yn cydnabod nad yw’n ymarferol ymchwilio i’r holl ddata sy’n cael ei baru, yn enwedig ar gyfer cyrff sydd â nifer mawr o bariadau. Caiff cyrff eu hannog i gymryd dull seiliedig ar risg o asesu adroddiadau paru data a phenderfynu pa fath o bariadau data, a sawl un, y byddant yn ymchwilio iddynt.

10 Erbyn diwedd Gorffennaf 2025, nid oedd pump o’r cyrff a gymerodd ran wedi cau unrhyw bariadau data. Mae rhai cyfranogwyr yn gwneud cynnydd da wrth adolygu pariadau data Menter Twyll Genedlaethol 2024-25, tra bod eraill wedi gwneud cynnydd cyfyngedig.

11 Mae **Arddangosyn 2** yn dangos cyfanswm y pariadau data ar gyfer pob maes paru data. Mae hefyd yn dangos nifer y pariadau data sydd wedi cau mewn maes paru data, ynghyd â nifer y cyfranogwyr sydd â phariadau yn y maes hwnnw. Mae absenoldeb pariadau sydd wedi cau yn awgrymu nad yw'r cyfranogwr wedi mynd ati i adolygu unrhyw bariadau yn y maes hwnnw.

**Arddangosyn 2: Pariadau data cyfranogwyr Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 yng Nghymru sydd wedi’u prosesu a’u cau, ar ddiwedd Gorffennaf 2025**

| Maes paru data | Pariadau data | Pariadau data wedi cau | Cyfranogwyr â phariadau data | Cyfranogwyr heb unrhyw statws ‘wedi cau’ ar gyfer eu pariadau |
|---|---|---|---|---|
| Disgownt person sengl y dreth gyngor | 198,146 | 5,385 | 22 | 11 |
| Credydwyr | 187,228 | 19,791 | 48 | 16 |
| Cynllun gostyngiadau’r dreth gyngor | 16,578 | 3,547 | 22 | 1 |
| Bathodynnau glas | 10,377 | 5,849 | 22 | 3 |
| Cyflogres | 8,150 | 1,705 | 46 | 6 |
| Rhestrau aros tai | 6,359 | 1,392 | 18 | 5 |
| Tenantiaid tai | 4,636 | 879 | 11 | 2 |
| Pensiynau | 2,962 | 1,098 | 12 | 4 |
| Parcio i breswylwyr | 2,405 | 2,368 | 8 | 1 |
| Caffael | 1,985 | 400 | 42 | 28 |
| Budd-dal tai | 826 | 483 | 22 | 2 |
| Gyrwyr tacsi | 1 | 1 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **439,653** | **42,898** | **49** | **5** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata cymhwysiad gwe’r Fenter Twyll Genedlaethol

Noder: Ar ôl asesu risg adroddiadau paru data ac unrhyw ymchwiliadau dilynol, dylai pob pariad data gael ei ‘gau’ a dylid rhoi statws paru iddo. Mae sawl math o statws ‘wedi cau’. Dylai pariadau nad ydynt wedi bod yn destun ymchwiliad gael statws ‘Wedi cau – Ni chafodd ei ddewis ar gyfer ymchwiliad’. Gellir swp-ddewis statws paru pariadau data neu bennu’r statws yn unigol.

## Canlyniadau

12 Cofnododd cyfranogwyr yng Nghymru ganlyniadau o £4.7 miliwn ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Gorffennaf 2025. Mae **Arddangosyn 3** yn dangos pa broses baru y mae’r canlyniadau yn gysylltiedig â hi.

**Arddangosyn 3: Canlyniadau’r Fenter Twyll Genedlaethol a gofnodwyd gan gyfranogwyr o Gymru, 1 Ebrill 2024 i 31 Gorffennaf 2025**

| Ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol | Canlyniadau (£oedd) |
|---|---|
| Ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 (ymarfer eilflwydd) | 1,719,037 |
| Arbedion hwyr o ymarfer Menter Twyll Genedlaethol (ymarfer eilflwydd) | 867,157 |
| Ymarferion paru data blynyddol y dreth gyngor | 2,080,831 |
| **Cyfanswm** | **4,667,025** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata cymhwysiad gwe’r Fenter Twyll Genedlaethol

Noder: Mae canlyniadau’n cynnwys (i) y symiau gwirioneddol y mae cyfranogwyr wedi’u cofnodi fel twyll neu wallau; a (ii) elfennau amcangyfrifedig sy’n ceisio nodi gwerth y golled o dwyll neu wallau a ganfuwyd, a gwerth unrhyw golledion yn y dyfodol y gall y corff hwnnw fod wedi mynd iddynt heb ymyriad yn dilyn achos o baru data’r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae gan y rhan fwyaf o setiau data fethodoleg i gyfrifo arbedion amcangyfrifedig. Caiff pob methodoleg ei hadolygu gan Fwrdd Llywodraethu Menter Twyll Genedlaethol Swyddfa’r Cabinet a’i chymeradwyo gan Banel Atal Twyll Swyddfa’r Cabinet.

# Diweddariad lleol

13 Caiff unrhyw ddata sy’n cael ei baru ei ryddhau mewn adroddiadau paru data. Mae gan bob adroddiad diben wahanol ac mae’n cymharu data o ddwy set ddata neu fwy. Caiff yr adroddiadau eu rhannu’n fathau o setiau data: er enghraifft, budd-dal tai, cyflogres, neu gredydwyr.

14 Dylai asesiad risg sefydliad o’r adroddiadau paru data bennu’r mathau o bariadau data a nifer y pariadau data y dylid ymchwilio iddynt. I gefnogi’r gwaith o asesu risg, mae

cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol yn nodi bod rhai adroddiadau paru data yn 'adroddiadau allweddol' gyda chyfraddau llwyddiant uchel yn hanesyddol o ran nodi twyll neu wallau. Hefyd, rhoddir sgôr i'r rhan fwyaf o bariadau data unigol o ran y risg o dwyll.

15 Mae **Arddangosyn 4** yn dangos cyfanswm y pariadau data a nodwyd ar gyfer Cyngor Gwynedd, ynghyd â'r rhai a gofnodwyd mewn adroddiadau allweddol. Mae **Atodiad 2** yn darparu dadansoddiad pellach o'r pariadau data hyn yn ôl sgôr risg twyll.

**Arddangosyn 4: Pariadau data Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 Cyngor Gwynedd, ar ddiwedd Gorffennaf 2025**

| Maes paru data | Pariadau data ym mhob adroddiad | Pariadau data mewn adroddiadau allweddol sydd â chyfraddau llwyddiant uchel yn hanesyddol |
|---|---:|---:|
| Bathodynnau glas | 321 | 270 |
| Disgownt person sengl y dreth gyngor | 5,650 | 5,650 |
| Cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor | 565 | 476 |
| Credydwyr | 18,743 | 4,680 |
| Budd-dal tai | 13 | 11 |
| Rhestrau aros tai | 71 | 43 |
| Cyflogres | 620 | 618 |
| Pensiynau | 494 | 363 |
| Caffael | 131 | 131 |
| **Cyfanswm** | **26,608** | **12,242** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol

Noder: Nid yw adroddiadau paru data disgownt person sengl y dreth gyngor yn cael eu dynodi'n 'adroddiadau allweddol' yn ffurfiol ond cânt eu trin fel rhai yn ymarferol.

16 Gall sawl ffactor ddylanwadu ar pa adroddiadau paru data yr edrychir arnynt a phryd y bydd hyn yn digwydd. Er enghraifft, gall sefydliad roi blaenoriaeth i edrych ar adroddiadau cyfateb data sy'n gysylltiedig â meysydd lle mae ganddo bryderon am reolaethau mewnol neu lle mae hanes o dwyll neu wallau. Hefyd, bydd cyflymder y cynnydd yn dibynnu ar adnoddau lleol. Am y rhesymau hyn, nid yw'r diweddariad cyffredinol hwn yn rhoi rhagor o

fanylion ynghylch lle mae gwaith prosesu a chanlyniadau yn cael eu cofnodi gan eich sefydliad ar y cam hwn.

17 Mae cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol yn cynnwys dangosfwrdd ac mae'n darparu adroddiadau gwahanol am ganlyniadau a gweithgarwch prosesu. Rydym yn annog y rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu i geisio diweddariadau mwy manwl am waith prosesu a chanlyniadau a gofnodwyd gan eu Huwch Swyddog Cyfrifol a'u Cyswllt Allweddol ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol.

## Gwaith Archwilio Cymru yn y dyfodol

18 Ar gyfer yr ymarfer Menter Twyll Genedlaethol hwn, byddwn yn cynnal asesiad lefel uchel o drefniadau llywodraethu a threfniadau dilynol cyfranogwyr. Byddwn yn ymgysylltu â chyrff dros yr hydref/dechrau'r gaeaf i ystyried materion sydd ar ein rhestr wirio hunanarfarnu ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol.[1] Byddwn hefyd yn dadansoddi'r asesiad risg a'r gwaith prosesu paru data a gynhaliwyd, a'r canlyniadau a gofnodwyd gan gyfranogwyr, fel y'u hadlewyrchir yng nghymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol.

19 Bydd y gwaith hwn yn ein helpu i ddeall y ffactorau sy'n dylanwadu ar y canlyniadau a adroddir gan gyrff unigol a'r amrywiadau rhyngddynt. Bydd canfyddiadau'r asesu hwn yn llywio ein hadroddiad cenedlaethol nesaf yn hydref 2026.

[1] Ym mis Rhagfyr 2024, rhannwyd y rhestr wirio wedi'i diweddaru gydag uwch swyddogion cyfrifol a chysylltiadau allweddol y Fenter Twyll Genedlaethol. Anogwyd pob corff i'w chwblhau a'i rhannu â'r rhai â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

## Atodiad 1 – Y Fenter Twyll Genedlaethol

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn defnyddio paru data i ganfod ac atal twyll. Mae'n cymharu setiau data yn electronig yn erbyn cofnodion eraill a ddelir gan yr un corff a chyrff eraill, i weld i ba raddau maent yn cyfateb.

Mae'r gwaith paru data yn dangos anomaleddau neu anghysondebau sy'n nodi achosion posibl o dwyll neu wallau. Caiff arwyddion o dwyll posib eu hadrodd i'r cyfranogwyr, sy'n gyfrifol am weithredu ar y pariadau hyn.

Mae effeithiolrwydd y Fenter Twyll Genedlaethol yn dibynnu ar drylwyredd yr asesiad a'r ymchwiliad i'r pariadau a'r gwaith o gofnodi canlyniadau.

Mae'r cyrff yn cofrestru'r canlyniadau yng nghymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae gan bob corff sy'n cymryd rhan Uwch Swyddog Cyfrifol enwebedig a Chyswllt Allweddol ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol, a all fod yr un person mewn rhai achosion.

Mae Awdurdod Twyll Sector Cyhoeddus y DU, sy'n rhan o  Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU a Thrysorlys EM, yn goruchwylio'r Fenter Twyll Genedlaethol ledled y DU. Mae Archwilio Cymru yn arwain yr ymarfer yng Nghymru o dan bwerau'r Archwilydd Cyffredinol yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae Cod Ymarfer Paru Data yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r rheolaethau a'r ddeddfwriaeth allweddol sy'n llywodraethu'r ymarfer yng Nghymru.

Cyhoeddwyd adroddiad ar ganlyniadau ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 ym mis Hydref 2024. Caiff adroddiadau ar y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer rhannau eraill o'r DU eu cynhyrchu gan yr Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, Audit Scotland, a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon.

Nid oes unrhyw gost uniongyrchol i'r cyfranogwyr am gymryd rhan yn yr ymarfer. Mae Archwilio Cymru yn derbyn cyllid, drwy Gronfa Gyfunol Cymru, sy'n talu i gyrff gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae hyn yn cwmpasu'r gwaith prosesu paru data canolog ar gyfer yr ymarfer eilflwydd, yn ogystal â'r ymarfer blynyddol ar gyfer setiau data'r dreth gyngor a'r gofrestr etholiadol. Felly oedd hi o hyd ar gyfer ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25. Felly, y prif gostau i'r cyfranogwyr yw'r adnoddau a ddefnyddir i gyflwyno data a chynnal gwaith dilynol unwaith y bydd pariadau data yn cael eu rhyddhau.

## Atodiad 2 – Dadansoddiad o bariadau data yn ôl sgôr risg twyll ar gyfer Cyngor Gwynedd

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn pennu sgôr risg twyll (risg uchel iawn, risg uchel, neu risg ganolig) i'r rhan fwyaf o'r pariadau data, ond nid pob un. Mae'r sgôr risg hon yn seiliedig ar gyfuniad o ddau ffactor:

- Rhesymeg risg – set o feini prawf ar gyfer pob cyfuniad set ddata sydd, pan gaiff ei chyflawni, yn nodi bod canlyniad twyllodrus yn fwy tebygol o ddigwydd.
- Sgôr ôl troed – sawl gwaith mae unigolyn mewn pariad yn ymddangos yn y cyfeiriad ar draws holl ddata'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'n arwydd o p'un a yw'r person hwnnw'n byw yn y cyfeiriad hwnnw.

Mae **Arddangosyn 5** ac **Arddangosyn 6** yn darparu dadansoddiad pellach o bariadau data Cyngor Gwynedd yn ôl sgôr risg ar gyfer pariadau data ym mhob adroddiad paru data a'r rhai mewn adroddiadau allweddol. Mae'r dadansoddiad hwn yn adeiladu ar **Arddangosyn 4** ym mhrif gorff y nodyn briffio hwn. Ni chaiff sgôr risg ei phennu ar gyfer pob pariad data. Yn gyffredinol, dylid ystyried bod pariadau data disgownt person sengl y dreth gyngor a phariadau mewn adroddiadau allweddol na chaiff sgôr risg ei rhoi iddynt yn rhai 'risg uchel iawn' yn ymarferol.

**Arddangosyn 5: Pariadau data Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 Cyngor Gwynedd yn ôl sgôr risg ar gyfer pariadau data ym mhob adroddiad, ar ddiwedd Gorffennaf 2025**

| Maes paru data | Pob pariad data | Risg uchel iawn | Risg uchel | Risg ganolig | Dim sgôr risg |
|---|---|---|---|---|---|
| Bathodynnau glas | 321 | 286 | 35 | 0 | 0 |
| Disgownt person sengl y dreth gyngor | 5,650 | - | - | - | - |
| Cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor | 565 | 25 | 99 | 39 | 402 |
| Credydwyr | 18,743 | 553 | 18,190 | 0 | 0 |
| Budd-dal tai | 13 | 11 | 0 | 0 | 2 |
| Rhestrau aros tai | 71 | 71 | 0 | 0 | 0 |
| Cyflogres | 620 | 250 | 17 | 20 | 333 |
| Pensiynau | 494 | 364 | 98 | 31 | 1 |
| Caffael | 131 | 0 | 0 | 0 | 131 |
| **Cyfanswm** | **26,608** | **1,560** | **18,439** | **90** | **869** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol

**Arddangosyn 6: Pariadau data Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 Cyngor Gwynedd yn ôl sgôr risg ar gyfer pariadau data mewn adroddiadau allweddol, ar ddiwedd Gorffennaf 2025**

| Maes paru data | Pob pariad data | Risg uchel iawn | Risg uchel | Risg ganolig | Dim sgôr risg |
|---|---|---|---|---|---|
| Bathodynnau glas | 270 | 235 | 35 | 0 | 0 |
| Disgownt person sengl y dreth gyngor | 5,650 | - | - | - | - |
| Cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor | 476 | 24 | 36 | 17 | 399 |
| Credydwyr | 4,680 | 546 | 4,134 | 0 | 0 |
| Budd-dal tai | 11 | 9 | 0 | 0 | 2 |
| Rhestrau aros tai | 43 | 43 | 0 | 0 | 0 |
| Cyflogres | 618 | 250 | 16 | 19 | 333 |
| Pensiynau | 363 | 303 | 45 | 14 | 1 |
| Caffael | 131 | 0 | 0 | 0 | 131 |
| **Cyfanswm y pariadau data** | **12,242** | **1,410** | **4,266** | **50** | **866** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol

**Blaenraglen y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hyd Tachwedd 2026**

**15 Ionawr 2026**
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Adolygu Rhaglen Waith Hunanasesiad y Pwyllgor
Cyllideb Refeniw 2025/26 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2025
Rhaglen Gyfalaf 2025/26 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2025
Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion
Gostyngiadau Treth Cyngor Adran 13A
Adroddiadau Archwilio Cymru
Blaenraglen y Pwyllgor

**5 Chwefror 2026**
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Adroddiad Risg Hanner Blwyddyn
Adolygu Rhaglen Waith Hunanasesiad y Pwyllgor
Cynnyrch Archwilio Mewnol
Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26
Arbedion 2026/27
Strategaeth Gyfalaf 2026/27 (yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthyg)
Cyllideb 2026/27
Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Blynyddol 2026/27
Diweddariad Canol Blwyddyn ar Risgiau Llywodraethu Cyngor Gwynedd
Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
Adroddiadau Archwilio Cymru Diweddariad Rhaglen Waith ac Adroddiad Trefniadau Comisiynu CG
Blaenraglen y Pwyllgor

**Mai 2026**
Ethol Cadeirydd
Ethol Is-Gadeirydd
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026
Cyfrifon Terfynol 2025/26 – Alldro Refeniw
Rhaglen Gyfalaf 2025/26 – Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2026)
Cynnyrch Archwilio Mewnol
Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2025/26
Siarter Archwilio Mewnol
Archwilio Cymru - Diweddariad Chwarter 4
Archwilio Cymru - Crynodeb Archwilio Blynyddol Cyngor Gwynedd 2025
Adroddiadau Archwilio Cymru a’r Ymateb Sefydliadol
Adroddiad Chwarterol Rheolaeth Trysorlys
Blaenraglen y Pwyllgor

**Medi 2026**
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25
Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2025-26
Rhaglen Ddatblygu’r Pwyllgor
Datganiad o Gyfrifon 2025/26 (Amodol ar Archwiliad)
Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Gwynedd ar Gyfer 2025/26
Rheolaeth Trysorlys 2025/26
Adroddiad Risg Hanner Blwyddyn
Cynllun Ariannol Tymor Canolig
Adroddiadau Archwilio Cymru - Diweddariad Ch1
Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2025/26
Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
Trefniadau'r Cyngor i Ymdrin â Chwynion
Blaenraglen y Pwyllgor

**Hydref 2026**
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Cyfrifon Terfynol am y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2026 a'r Archwiliad Perthnasol
Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
Cyllideb Refeniw 2026/27 – Adolygiad Diwedd Awst 2026
Rhaglen Gyfalaf 2026/27 – Adolygiad Diwedd Awst 2026
Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion
Diweddariad Chwarterol Rheolaeth Trysorlys
Adroddiadau Archwilio Cymru
Blaenraglen y Pwyllgor

**Tachwedd 2026**

Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Rheolaeth Trysorlys 2026-27 Adolygiad Canol Blwyddyn
Cynnyrch Archwilio Mewnol
Cynllun Archwilio Mewnol 2026/27
Adroddiadau Archwilio Cymru Diweddariad Rhaglen Waith ac Amserlen Ch2
Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
Blaenraglen y Pwyllgor